Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	**NOTICE OF MEETING**
PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO	**GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE**
DYDD LLUN, 28 MEDI 2026 am 2:00 y. p.	**MONDAY, 28 SEPTEMBER 2026 at 2:00 p.m.**
YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHOL AR ZOOM	**COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY ON ZOOM**

Swyddog Pwyllgor	**Ann Holmes 01248 752518**	**Committee Officer**

AELODAU / MEMBERS
Cynghorwyr / Councillors:-

PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES

Geraint Bebb, Euryn Morris ***(Diprwy Gadeirydd/Deputy Chair),*** Margaret M. Roberts, *Sedd Wag/Vacant Seat*

Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP

Gwilym O. Jones

LLAFUR CYMRU/WELSH LABOUR

Keith Roberts

ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS

Paul Ellis, Kenneth Hughes

AELODAU LLEYG / LAY MEMBERS

Adam Jones, Dr Geraint Jones (***Cadeirydd/Chair),*** William Maund, William Parry

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod

R H A G L E N

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf, 2026.

3 LOG GWEITHREDOEDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO (Tudalennau 13 - 14)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

4 ADRODDIAD BLYNYDDOL SGRIWTINI 2025/26 (Tudalennau 15 - 34)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a Gwasanaethau Pwyllgor.

5 DATGANIAD O'R CYFRIFON 2025/26, DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2025/26 AC ADRODDIAD ISA 260 (Tudalennau 35 - 210)

Cyflwyno'r canlynol –

- Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 – Datganiad o'r Cyfrifon 2025/26.
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2025/26.
- Adroddiad Archwilio Cymru ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol – Adroddiad ISA 260.

6 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL (Tudalennau 211 - 216)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

7 MATERION, RISGIAU A CHYFLEOEDD ARCHWILIO MEWNOL SY'N WEDDILL (Tudalennau 217 - 228)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

8 ADRODDIAD HUNAN-ASESSIAD A PHERFFORMIAD (LLESIANT) 2025/26 (Tudalennau 229 - 282)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio.

9 ARCHWILIO ALLANOL: CYLLIDEBU AR GYFER GALW? DEFNYDDIO DATA I GYNLLUNIO GOFAL PRESWYL I OEDOLION (Tudalennau 283 - 298)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru.

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod

10 **ARCHWILIO ALLANOL: RHAGLEN WAITH AC AMSERLEN ARCHWILIO CYMRU 30 MEHEFIN 2026** (Tudalennau 299 - 318)

Cyflwyno adroddiad Archwilio Cymru.

11 **ADOLYGIAD O'R BLAEN RAGLEN WAITH 2026/27** (Tudalennau 319 - 326)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg.

This page is intentionally left blank

Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithwir ar Zoom ar 16 Gorffennaf, 2026

YN BRESENNOL:	Dr Geraint Jones (Aelod Lleyg) (Cadeirydd) Y Cynghorydd Geraint Bebb (Dirprwy Gadeirydd y cyfarfod hwn yn unig) Y Cynghorwyr Kenneth Hughes, Gwilym O. Jones, Keith Roberts, Margaret M. Roberts Aelodau Lleyg: Adam Jones, William Maund, William Parry
WRTH LAW:	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc (ar gyfer eitem 5) Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg (AS) Pennaeth Digidol, Moderneiddio a Pherfformiad (ar gyfer eitemau 8 a 9) Pennaeth Gwasanaethau Tai (ar gyfer eitem 4) Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad Cwsmeriaid (ar gyfer eitem 11) Prif Swyddog Diogelu'r Cyhoedd (ar gyfer eitem 12) Prif Gynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol (SN) (ar gyfer eitem 12) Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau (GP) (ar gyfer eitem 8) Rheolwr y Gwasanaeth Tai (Strategaeth, Comisiynu a Pholisi) (ELl) (ar gyfer eitem 4) Rheolwr Addysg, Busnes a Pherfformiad (LT) (ar gyfer eitem 5) Swyddog Pwyllgor (ATH) Swyddog Gwe-ddarlledu (FT)
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorydd Euryn Williams (Dirprwy Gadeirydd)
HEFYD YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid), Lora Williams (Archwilio Cymru), Rachel Freitag (Archwilio Cymru), Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg (BHO), Rheolwr Cyllid (CK), Prif Archwilydd (NW), Uwch Archwilydd (AC) (CSYM)

Yn absenoldeb y Dirprwy Gadeirydd, etholwyd y Cynghorydd Geraint Bebb i fod yn Ddirprwy Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig.

1. DATGAN BUDDIANT

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

2. HANES Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 25 Mehefin, 2026 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

3. LOG GWEITHREDOEDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys log gweithredoedd y pwyllgor i'w ystyried. Mae'r adroddiad yn diweddaru'r Pwyllgor ar statws a chynnydd y camau gweithredu a'r penderfyniadau y cytunwyd arnynt.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod yr holl gamau gweithredu ar y log wedi'u cwblhau, gan gynnwys cwblhau'r polisi DA (camau gweithredu 24). Lansiwyd polisi DA Cynhyrchiol, ynghyd â chanllawiau staff ar gyfer ei ddefnyddio heddiw, 16 Gorffennaf, 2026.

Penderfynwyd nodi'r camau y manylir arnynt yn nhabl y log gweithredoedd a chadarnhau bod y pwyllgor yn fodlon bod y camau gweithredu wedi'u gweithredu'n briodol.

4. ARCHWILIAD MEWNOL O GRANTIAU CYFLEUSTERAU I'R ANABL – DIWEDDARIAD AR GYNNYDD

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai ar y cynnydd a wnaed ers y diweddariad blaenorol i gyfarfod y pwyllgor ar 25 Mehefin 2026, i fynd i'r afael â'r materion a'r risgiau sy'n weddill o'r archwiliad mewnol o Grantiau Cyfleusterau Anabl, i'w ystyried. Rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad pellach ar y camau a gymerwyd i gryfhau'r drefn o gadw cofnodion, rheolaethau ariannol, a threfniadau monitro a goruchwylio.

Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y gordaliad a nodwyd i'r contractwr, sef £775, wedi'i adennill ac y cytunwyd ar ddull adfer gan ddefnyddio nodiadau credyd, gyda'r gwasanaeth. Mewn ymateb i gais Aelod, amlinellodd y rheolaethau ataliol sydd ar waith bellach rhag bod taliadau DFG dyblyg yn mynd o gyfrifon y cyngor, gan nodi bod yr holl waith bellach yn cael ei wneud trwy archebion prynu, sy'n cynnwys dull integredig i ganfod taliadau dyblyg a thrwy hynny leihau'r risg.

Penderfynwyd nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma.

5. DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg ar 30 Mehefin 2026 ar yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad blaenorol ar 28 Ebrill 2026, i'w ystyried gan y pwyllgor. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi llwyth gwaith presennol y tîm Archwilio Mewnol a'i flaenoriaethau ar gyfer y tymor byr a chanolig yn y dyfodol. Darparwyd copi ar wahân o'r pum adroddiad sicrwydd a gwblhawyd yn ystod y cyfnod i aelodau'r pwyllgor mewn perthynas â Thystysgrifau Cronfeydd Ysgolion (Sicrwydd Rhesymol), Rhaglenni'r Grant Addysg Gynnar a Gofal Plant (Adolygiad Dilynol Cyntaf) (Sicrwydd Rhesymol), Diogelwch TGCh mewn Ysgolion Uwchradd (Adolygiad Dilynol Cyntaf) (Sicrwydd Rhesymol), Rheoli Risg Strategol: Diogelu (Athrawon Llanw) (Sicrwydd Cyfyngedig) a Systemau Ariannol - Credydwyr (Sicrwydd Cyfyngedig).

Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod cynnydd da wedi'i wneud i weithredu'r camau gweithredu o'r adolygiad dilynol cyntaf o Ddiogelwch TGCh mewn Ysgolion Uwchradd, oedd yn golygu bod y sgôr sicrwydd wedi codi o Gyfyngedig i Resymol.

Amlinellodd ganfyddiadau'r adolygiad sicrwydd cyfyngedig o Athrawon Llanw, gan nodi bod pum mater/risg sylweddol ac un mater cymedrol wedi'u codi, gyda chynllun gweithredu a dyddiadau cwblhau targed o fis Medi 2026 ar gyfer pedwar cam gweithredu a mis Tachwedd

2026 ar gyfer y camau gweithredu sy'n weddill. Bydd adolygiad dilynol yn cael ei gynnal a'i adrodd yn ôl i'r pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2027.

O ran yr adolygiad sicrwydd cyfyngedig o Gredydwyr, eglurodd fod sicrwydd yn amrywio ar draws y tri maes a archwiliwyd – Cydymffurfiaeth Gwasanaethau, Polisi, a'r Tîm Cyflogau a Thaliadau. Cyfeiriodd at y pryderon mwyaf sylweddol yn ymwneud â chydymffurfiaeth anghyson gan wasanaethau â'r gweithdrefnau gofynnol ynghyd â chanllawiau sydd wedi dyddio ar gyfer defnyddwyr anariannol. Yn gyffredinol, codwyd chwe mater/risg gan gynnwys pum mater sylweddol y mae angen i reolwyr roi sylw iddynt a chyfraniad gan y cyngor cyfan. Cytunwyd ar gynllun gweithredu i'w gwblhau erbyn Mehefin 2027 gydag adolygiad dilynol wedi'i drefnu ar gyfer Rhagfyr 2026 a fydd yn cael ei adrodd i'r pwyllgor ym mis Chwefror 2027.

Yn ystod y drafodaeth ar yr **adolygiad sicrwydd cyfyngedig o Ddiogelu (Athrawon Llanw)**, holodd y pwyllgor a oedd Archwilio Mewnol yn fodlon bod gan yr holl ysgolion wybodaeth gyflawn am wiriadau DBS, gan nodi dau achos yn y sampl lle nad oedd DBS a CGA (Cyngor y Gweithlu Addysg) wedi'u diweddaru a'u cwblhau. Dywedodd y Pennaeth Archwilio a Risg, heb adolygu pob ysgol, na allai ddarparu sicrwydd pendant; fodd bynnag, roedd y sampl yn nodi gwendidau ym mhrosesau cofnodi DBS a CGA.

Mewn ymateb i gwestiynau ynglŷn ag atgoffa ysgolion o'r angen i ddiweddaru'r cofnodion DBS a gedwir ar gyfer pob unigolyn ar safle'r ysgol, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod negeseuon atgoffa wedi'u hanfon. Nododd fod ysgolion yn ymgysylltu ag athrawon llanw mewn gwahanol ffyrdd - yn unigol, trwy asiantaethau, neu drwy'r system Teacher Booker – ac roedd yn hyderus y byddai pob ysgol yn cydymffurfio'n llawn erbyn mis Medi 2026. Anogodd Aelodau yn eu rôl fel llywodraethwyr ysgolion, i atgyfnerthu'r neges a thynnodd sylw at y gwahaniaethau mewn ymarfer rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd.

Gofynnodd yr aelodau hefyd a oedd y mater yn un o gyfrifoldeb unigol yn hytrach na phroses. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod gan yr awdurdod rôl wrth ddarparu sicrwydd a chefnogaeth i ysgolion i sicrhau bod prosesau'n cael eu deall a'u dilyn yn gyson, gyda llywodraethwyr ysgolion hefyd yn atebol. Mae'r awdurdod yn mynd i'r afael yn rhagweithiol â'r angen i dynhau trefniadau.

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a allai rhywun addysgu heb gael gwiriad DBS llwyddiannus, eglurodd y Pennaeth Archwilio a Risg fod y gwiriadau DBS, yn yr achosion dan sylw, wedi dod i ben ar ôl y cyfnod o dair blynedd yn hytrach na pheidio â chael eu cynnal o gwbl. Y gwendid oedd diffyg proses i sicrhau eu bod yn cael eu hadnewyddu'n brydlon. Nododd mai dim ond ciplun ar adeg benodol y mae gwiriadau DBS yn ei ddarparu.

Mynegodd yr aelodau bryder, o ystyried y ddau wiriad DBS oedd wedi dod i ben yn y sampl. Byddent wedi disgwyl y byddai trefn o ofyn i benaethiaid gadarnhau bod yr holl gofnodion DBS wedi'u gwirio'n brydlon. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod y penaethiaid wedi cael eu hatgoffa o ddisgwyliadau a nododd fod recriwtio diogel hefyd yn cynnwys geirdaon, cofrestru gyda'r CGA a datganiadau unigol. Roedd yn hyderus y byddai prosesau yn fwy cadarn erbyn mis Medi. Ychwanegodd y Rheolwr Busnes a Pherfformiad Addysg fod gweithdrefnau diwygiedig yn cael eu cyflwyno o fewn y Gwasanaeth Dysgu i gryfhau'r drefn o oruchwylio trefniadau DBS, gan gynnwys rhybuddion ar gyfer cofnodion sydd angen eu hadnewyddu'n fuan.

Wrth nodi bod cyfrifoldeb ar sawl lefel, mynegodd y pwyllgor bryder ynglŷn â'r sefyllfa ac o ystyried nifer y diwrnodau cyflenwi, pwysleisiodd yr aelodau yr angen i ysgolion gael dealltwriaeth gadarn o drefniadau DBS. Pan fydd ysgolion yn defnyddio'r un unigolion yn

rheolaidd, dylid eu hychwanegu at y gofrestr fel y gellir olrhain dyddiadau adnewyddu a rhoi sicrwydd bod y system yn addas i'r diben.

O ran yr **adolygiad sicrwydd cyfyngedig o Systemau Ariannol – Credydwyr**, gofynnodd y pwyllgor sut mae'r Rheolwyr yn sicrhau bod rheolwyr gwasanaeth yn dilyn gweithdrefnau caffael y cytunwyd arnynt. Dywedodd Pennaeth Archwilio a Risg fod camau eisoes ar y gweill, a chyfeiriwyd at y canfyddiadau o'r archwiliad yng nghyfarfod y Tîm Rheoli i dynnu sylw at bwysigrwydd gwella cydymffurfiaeth. Bydd y Llawlyfr Caffael yn cael ei ddiweddaru unwaith y bydd system taliadau Civica yn cael ei huwchraddio a'i symud i'r Cwmwl, er bod materion technegol wedi achosi i'r gwaith hwn gael ei ohirio.

Gofynnodd y pwyllgor hefyd a ddylid cyflwyno amserlen y cynllun gweithredu o ystyried y risgiau a nodwyd. Eglurwyd bod gwiriadau mewnol o fewn y Tîm Taliadau yn gwirio cywirdeb taliadau ac yn atal dyblygu, gan sicrhau trefn reoli ar ddiwedd y broses. Bydd trosglwyddo i'r system newydd yn golygu y bydd angen diweddaru canllawiau a chynnal hyfforddiant i staff. Mae angen gwaith hefyd i gryfhau cydymffurfiaeth caffael mewn ysgolion. Cafodd yr aelodau eu sicrhau, er mai Mehefin 2027 yw dyddiad cwblhau'r cynllun gweithredu, bod camau eisoes yn cael eu datblygu. Bydd adolygiad dilynol yn cael ei gynnal ym mis Rhagfyr 2026 i fonitro cynnydd.

Penderfynwyd nodi canlyniad gwaith y tîm Archwilio Mewnol, y sicrwydd a ddarparwyd a'i flaenoriaethau yn y dyfodol.

6. ADOLYGIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys adolygiad rheoli'r trysorlys ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 i'w ystyried gan y pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn nodi, yn unol â'r gofyniad statudol, sut y rheolodd y Cyngor ei weithgarwch trysorlys yn ystod 2025/26 gan gynnwys benthyca a buddsoddi.

Soniodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 am y ffactorau allanol sy'n dylanwadu ar benderfyniadau rheoli'r trysorlys. Cadarnhaodd nad oedd unrhyw fenthyciadau newydd wedi'u gwneud yn ystod 2025/26 gyda'r bwriad o oedi unrhyw fenthyca cyn hired â phosibl wrth i gyfraddau llog barhau i ostwng. Roedd tanwariant o oddeutu £16m ar gyllideb gyfalaf 2025/26 yn golygu nad oedd angen benthyciadau allanol. Yn ogystal â hyn, ym mis Mawrth 2025, cynyddwyd balansau arian parod y Cyngor yn sylweddol ar ôl derbyn £11m o gyllid sbarduno cyfalaf ar gyfer y Porthladd Rhydd a oedd yn caniatáu i'r Cyngor ohirio benthyciadau ychwanegol a gynlluniwyd ar gyfer Mawrth 2026.

Yn sgil buddsoddiadau'r Cyngor trwy fuddsoddiad tymor penodol, cyfrifon galw a chyfrifon cyfredol cynhyrchwyd £1.006m mewn llog. Mae'r Cyngor yn blaenoriaethu diogelwch buddsoddiadau gan sicrhau hefyd bod buddsoddiadau'n ystyried angen y Cyngor i gael mynediad at lefel o arian parod ar unwaith. Yna mae'n ystyried yr elw olaf.

Mae'r adolygiad yn cadarnhau bod gweithgareddau trysorlys y Cyngor yn ystod 2025/26 yn cydymffurfio â'r dangosyddion darbodus a'r terfynau awdurdodedig yn ogystal â strategaeth rheoli trysorlys y Cyngor ei hun. Mae'n dod i'r casgliad bod y Cyngor yn cynnal dull risg isel ac yn rheoli ei weithgareddau rheoli trysorlys mewn ffordd reoledig sy'n sicrhau diogelwch ariannol y Cyngor.

Ystyriodd y pwyllgor adolygiad rheoli'r trysorlys ar gyfer 2025/26 a chododd aelodau gwestiynau ynghylch patrwm ad-daliadau benthyciadau yn atodiad 1, yn benodol yr ad-daliadau uchaf mewn blynyddoedd penodol; y rhesymau dros danwariant cyfalaf a rheoli llif arian.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod yr ad-daliad mawr am fenthyca a drefnwyd ar gyfer 2045/46 yn cynrychioli rhandaliad olaf y benthyciadau a gymerwyd i ariannu ymadawiad y Cyngor o'r cynllun cymhorthdal y CRT. Wrth i'r dyddiad ad-dalu agosáu, bydd y Cyngor naill ai'n ailariannu ac yn cario'r benthyciad ymlaen neu'n ei ailstrwythuro'n ad-daliadau llai dros amser. Ystyrir ad-daliad cynnar pan fo'n fanteisiol yn ariannol ond dim ond pan nad yw premiymau ad-dalu cynnar yn ei wneud yn aneconomaidd.

Eglurodd fod llithriad yn deillio o amryw o ffactorau gan gynnwys gofynion rheoleiddio, ymwneud trydydd partïon, derbyn grantiau yn hwyr, cyfyngiadau capasiti mewnol, a materion amseru yn enwedig o safbwynt rhaglenni adnewyddu ysgolion. Ar gyfer cynlluniau a ariennir gan grant, mae amodau grant yn caniatáu i gyllid gael ei gario ymlaen ac mae'r Cyngor yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn adnoddau grant.

O ran rheoli llif arian, mae'r Cyngor yn anelu at gynnal £10m mewn arian parod hylifol. Os yw balansau arian parod yn gostwng yn is na'r trothwy hwn, mae benthyca mewnol yn cael ei droi'n fenthyca allanol. Mae llif arian yn cael ei fonitro bob dydd ac mae gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o daliadau mawr sy'n mynd i mewn ac allan, ac eithrio rhai grantiau nad ydynt bob amser yn hysbys ymlaen llaw. Cadarnhaodd nad oedd unrhyw brosiect wedi'i ohirio er mwyn cynnal egwyddor strategaeth rheoli'r trysorlys o beidio â benthyca cyn bod angen. Pan fydd prosiect wedi'i gynnwys yn y rhaglen gyfalaf a gymeradwywyd, bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr arian angenrheidiol ar gael. Bydd y Cyngor yn benthyca pan fydd angen gwirioneddol.

Penderfynwyd nodi adroddiad Adolygiad Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2025/26.

7. DATGANIAD BLYNYDDOL O GYFRIFON DRAFFT 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys Datganiad blynyddol drafft o'r Cyfrifon ar gyfer 2025/26 i'w ystyried gan y pwyllgor.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yr adroddiad, gan nodi bod y Datganiad o'r Cyfrifon yn cael ei baratoi'n flynyddol i roi gwybodaeth glir i etholwyr, trethdalwyr lleol, aelodau o'r Cyngor, gweithwyr a phartïon eraill â diddordeb am gyllid y Cyngor. Mae'r ffigurau yn yr adroddiad heb eu harchwilio a gallant newid unwaith y bydd yr archwiliad allanol wedi'i gwblhau.

Eglurodd fod yr adroddiad yn ofynnol o dan y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) sy'n nodi bod yn rhaid i'r Swyddog Adran 151 lofnodi'r cyfrifon a chadarnhau eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor. Er bod Llywodraeth Cymru wedi ymestyn dyddiad cau'r cyfrifon drafft o 31 Mai i 30 Mehefin, mae'r dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi'r cyfrifon terfynol archwiliedig wedi newid i 30 Medi. Gan nad yw'r dyddiad cau ar gyfer y cyfrifon drafft diwygiedig wedi'i ysgrifennu mewn rheoliadau, rhaid i bob cyngor gyhoeddi hysbysiad yn esbonio'r oedi o'r dyddiad gwreiddiol o 31 Mai.

Llofnodwyd y cyfrifon drafft gan y Swyddog Adran 151 ar 30 Mehefin, 2026 a dechreuodd yr archwiliad o'r cyfrifon ar 1 Gorffennaf 2026 ac mae'n parhau. Diolchodd y Swyddog Adran 151 i dîm y Gwasanaeth Cyllid am eu gwaith wrth lunio'r cyfrifon drafft erbyn 30 Mehefin.

Gan gyfeirio at y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr drafft, eglurodd er ei fod yn dangos gwarged o £30.622m, unwaith y bydd yr addasiadau cyfrifyddu gofynnol yn cael eu gwneud, mae'r symudiad mewn cronfeydd wrth gefn a balansau yn ostyngiad o £245k.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y pwyllgor ynglŷn â sut y gellir cyfathrebu'r cyfrifon i drethdalwyr lleol mewn ffordd gliriach a haws, eglurodd y Swyddog Adran 151 fod y cynnwys

a'r fformat yn cael eu pennu'n genedlaethol gan y rheoliadau a Chod Ymarfer CIPFA. Mae'r adroddiadau monitro cyllideb chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith yn rhoi darlun mwy syml o sut mae'r Cyngor yn rheoli ei gyllid.

Nododd y pwyllgor y byddai'r Datganiad terfynol archwiliedig o'r Cyfrifon ar gyfer 2025/26, ynghyd ag adroddiad yr archwilwyr, yn cael ei gyflwyno ym mis Medi i graffu arno a'i gymeradwyo'n derfynol.

Penderfynwyd nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft heb eu harchwilio ar gyfer 2025/26.

8. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio a oedd yn cynnwys Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2025/26, i'w ystyried gan y pwyllgor.

Cyflwynodd y Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau yr adroddiad gan nodi ei fod yn amlinellu sut mae'r Cyngor yn sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo'n briodol, a bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae'r Datganiad yn nodi'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn ystod 2025/26 ac yn gwerthuso eu heffeithiolrwydd yn erbyn y saith egwyddor graidd yn Fframwaith CIPFA/SOLACE ar gyfer Sicrhau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol, gyda'r gwaith eleni yn cael ei gefnogi'n helaeth gan y Grŵp Llywodraethu mewnol. Mae hefyd yn cynnwys asesiadau proffesiynol y swyddogion statudol, gan roi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg a llywodraethu'r Cyngor. Er na nodwyd unrhyw faterion llywodraethu sylweddol, amlygwyd sawl maes i'w gwella, a cheir diweddariad hefyd ar y cynnydd yn erbyn y materion llywodraethu a adroddwyd y llynedd.

Mewn ymateb i gwestiwn am unrhyw risg o safbwynt bodloni gofynion Deddf Caffael newydd 2023, dywedwyd wrth y pwyllgor bod y Rheolwr Caffael newydd yn adolygu prosesau a dogfennaeth ac yn cyflwyno'r system newydd. Bydd y tîm yn cael ei gryfhau gan swydd ychwanegol – mae'r broses benodi ar y gweill - a bydd yn cynyddu capasiti ac yn caniatáu i'r rheolwr ganolbwyntio ar faterion strategol. Cadarnhawyd nad yw'r Ddeddf wedi'i thorri.

Penderfynwyd cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft ar gyfer 2025/26 a fydd yn rhan o Ddatganiad Cyfrifon 2025/26.

9. DIWEDDARIAD AR Y GOFRESTR RISGIAU STRATEGOL

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys y gofrestr risg strategol (Atodiad B) ar 30 Mehefin 2026, i'w ystyried gan y pwyllgor.

Adroddodd y Pennaeth Archwilio a Risg ar y gwaith parhaus i gryfhau'r fframwaith rheoli risg fel y nodir yn adran 2 o'r adroddiad. Nododd fod yr Adroddiad Cyfeiriad Teithio yn Atodiad A yn dangos bod y proffil risg gweddilliol cyffredinol yn parhau i fod yn sefydlog ar y cyfan gyda'r rhan fwyaf o risgiau yn cael sgôr Cymedrol neu Sylweddol. Mae dau risg yn cael eu sgôr Critigol - asedau ffisegol a'r risg ymosodiad seiber a thor diogelwch data sydd newydd ei nodi a'i roi ar wahân i Wydnwch Digidol i roi mwy o eglurder dros broffil risg digidol a seiber y cyngor ond hefyd i dynnu sylw at seiberddiogelwch a thorri data fel maes allweddol sy'n gofyn am uwch oruchwyliaeth barhaus. Mae hyn wedi arwain at leihau'r sgôr risg weddilliol ar gyfer Gwydnwch Digidol o Gritigol i Gymedrol.

- Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch pa mor aml y caiff y Gofrestr Risg Strategol ei hadrodd i'r pwyllgor a chawsant sicrwydd bod y Gofrestr yn cael ei chyflwyno i'w

hadolygu gan y pwyllgor ddwywaith y flwyddyn a'r Fframwaith Risg unwaith y flwyddyn. Mae'r Rheolwr Gweithredol hefyd yn cyfarfod y Pwyllgor Gwaith i adolygu risgiau portffolio.

- Cwestiynodd y pwyllgor pa sicrwydd sy'n bodoli bod y Cyngor yn goruchwylio'n ofalus y camau lliniaru, yn enwedig ar gyfer risgiau critigol gyda dyddiadau cwblhau yn ymestyn i 2027 a thu hwnt. Awgrymwyd y dylid cyflwyno cerrig milltir i oruchwylio camau lliniaru hirdymor yn gliriach.
- Gofynnodd y pwyllgor hefyd a ddylid darparu atodiad sy'n nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu symud o'r sefyllfa bresennol i'r camau gweithredu sydd wedi'u trefnu ar gyfer 2027 a thu hwnt.

  Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg y byddai'n trosglwyddo'r pwyntiau hynny i'r Rheolwr Gweithredol.

- Codwyd cwestiwn pellach ynghylch a ellid gwneud unrhyw beth i gyflymu'r ymateb i'r risg Ymosodiad Seiber a Thor Diogelwch Data o ystyried bod rhai camau gweithredu yn para tan 2027.

  Dywedodd y Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio fod gwaith i gryfhau sefyllfa seiber y Cyngor yn mynd rhagddo mewn tri maes - adnoddau staff ychwanegol, meddalwedd arbenigol a gwasanaeth wrth gefn y gellir ei defnyddio rhag ofn y bydd ymosodiad seiber. Mae'r cyllid wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor. Mae'r camau sy'n weddill yn ymwneud â'r broses gaffael ar gyfer y gwasanaeth a'r feddalwedd a gedwir, ac â'r farchnad gyflogaeth ar gyfer yr adnoddau staff angenrheidiol. Cadarnhaodd fod yr amserlenni a nodir yn y gofrestr yn rhai y gellir eu bodloni.

  Penderfynwyd cadarnhau bod y pwyllgor yn cymryd sicrwydd o'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yma fel rhan o'r adolygiad llawn o'r gofrestr risg strategol, ail-drefnu'r system rheoli risg, hyfforddiant staff ac adolygiad parhaus o'r gofrestr risg strategol.

  Camau ychwanegol – bod y Pennaeth Archwilio a Risg yn trafod gyda'r Rheolwr Gweithredol y posibilrwydd o gynnwys cerrig milltir i sicrhau y gellir monitro camau hirdymor yn gliriach ynghyd ag atodiad i ddangos y camau dros dro ar gyfer sicrhau camau lliniaru tymor hir.

10. ADRODDIAD BLYNYDDOL ATAL TWYLL, LLWGRWOBRWYO A LLYGREDD 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer 2025/26 i'w ystyried gan y pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn darparu trosolwg o weithgarwch atal twyll, llwgrwobrwyo a llygredd Archwilio Mewnol yn ystod 2025/26.

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio a Risg yr adroddiad gan nodi bod Archwilio Mewnol wedi parhau i gyflawni'r Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2025-2028 a'r Cynllun Cyflawni cysylltiedig yn ystod y flwyddyn. Crynhodd y prif feysydd gweithgarwch a thynnodd sylw at yr Adnodd Adrodd am Dwyll a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2024 fel datblygiad allweddol. Derbyniodd 61 o honiadau yn ystod y flwyddyn yn ymwneud yn bennaf â threth y cyngor. Cyfeiriodd hefyd at adolygiadau atal twyll rhagweithiol, gan gynnwys un o gynlluniau taliadau Cartrefi i Wcráin, Diolch a ganfu bod rheolaethau'n gweithredu'n effeithiol.

Ymatebodd y Pennaeth Archwilio a Risg i gwestiynau gan y pwyllgor ar yr adroddiad blynyddol fel a ganlyn –

- O ran honiadau maleisus, nododd fod y rhain fel arfer yn cael eu cyflwyno'n ddienw, tra bod pryderon dilys yn cael eu codi yn amlach gan unigolion sy'n rhoi eu henwau. Mae adroddiadau a dderbynnir drwy'r Adnodd Adrodd am Dwyll yn cael eu brysbennu gan y Swyddog Atal Twyll sy'n asesu a oes unrhyw dystiolaeth ategol cyn penderfynu ar y camau nesaf.
- Mewn perthynas ag amcangyfrifon Swyddfa'r Cabinet o golledion tebygol o ganlyniad i dwyll yng ngwariant y llywodraeth o rhwng 0.5% a 5% o'r gwariant (rhwng £1.39m a £13.9m y flwyddyn ar gyfer Ynys Môn yn seiliedig ar gyllideb refeniw gros y Cyngor), eglurodd fod y Cyngor yn gweithredu mewn amgylchedd a diwylliant gwahanol o'i gymharu â dinasoedd mawr, ac nad yw colledion yn sgil twyll yn lleol ar y raddfa honno.
- O ran y cam gweithredu na chwblhawyd o'r cynllun gweithredu Rheoli'r Risg o Dwyll ym maes Caffael, nododd fod gwrthdaro rhwng blaenoriaethau a chyfyngiadau capasiti wedi golygu nad yw sefydlu Gweithgor Atal Twyll ffurfiol wedi bod yn bosibl eto. Mae'r dyddiad gweithredu diwygiedig o fis Rhagfyr 2026 yn adlewyrchu'r pwysau yma. Nawr bod Swyddog Atal Twyll penodol yn ei swydd, rhagwelir y gall y gwaith hwn symud ymlaen, er bod cydweithio ar draws gwasanaethau eisoes yn digwydd yn anffurfiol.
- Eglurodd baragraffau 43 a 44 o'r adroddiad a nododd fod Archwilio Mewnol drwy'r Strategaeth Atal Twyll yn anelu at leihau'r risg o dwyllo, yn hytrach na'i ddileu'n gyfan gwbl - nid yw hynny'n bosibl.
- Mewn perthynas â digonolrwydd yr adnoddau sydd wedi'u neilltuo i waith atal twyll, dywedodd fod yn rhaid i'r cyllid fod yn gymesur, o ystyried y gwrthdaro rhwng blaenoriaethau'r Cyngor. Mae twyll yn fater cenedlaethol ac yn hanesyddol roedd gan y Cyngor dîm atal twyll penodol, ond trosglwyddwyd yr adnodd i'r DWP yn 2014 fel rhan o sefydlu un gwasanaeth ymchwilio i dwyll.
- Mewn perthynas ag Archwilio Cymru yn rhannu arfer gorau o'i adolygiadau, cadarnhaodd fod Archwilio Cymru ar hyn o bryd yn adolygu trefniadau twyll ar draws pob cyngor yng Nghymru. Argymhellodd eu hadroddiad ehangach ar dwyll yn y sector cyhoeddus yng Nghymru fod Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull Cymru gyfan o frwydro yn erbyn twyll. Yn lleol, mae Penaethiaid Archwilio Iedled Gogledd Cymru yn rhannu gwybodaeth am dwyll ac mae Partneriaeth Archwilio Gogledd a Chanolbarth Cymru yn cynnwys is-grŵp ar dwyllo. Mae'r Cyngor hefyd yn parhau i ymgysylltu â'r Fenter Twyll Genedlaethol.
- Cadarnhaodd fod ystadegau sy'n ymwneud â thwyll cyflogeion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad blynyddol, ac nad oedd unrhyw achosion o'r fath wedi'u hadrodd yn ystod y flwyddyn.

Penderfynwyd nodi'r gweithgarwch a gynhaliwyd yn ystod 2025/26 i leihau'r risg o dwyllo, llwgrwobrwyo a llygredd o fewn ac yn erbyn y Cyngor, a derbyn y sicrwydd a ddarparwyd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor i leihau'r risg o dwyllo.

11. ARCHWILIO CYMRU: HERIAU RECRIWTIO A CHADW – CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Cymru ar heriau recriwtio a chadw staff Cyngor Sir Ynys Môn ynghyd ag ymateb y Rheolwyr i'r pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn archwilio sut mae'r Cyngor yn deall ac yn ymateb i'w heriau recriwtio a chadw staff, ac a yw'n gwerthuso i weld os yw ei ddulliau'n sicrhau gwerth am arian.

Cyflwynodd y Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau yr adroddiad a nododd, er bod yr adolygiad wedi canfod bod y Cyngor yn cymryd nifer o gamau i fynd i'r afael â'i heriau recriwtio a chadw - mae llawer ohonynt wedi bod yn llwyddiannus - nid yw'n asesu gwerth am arian y dulliau hynny yn gyffredinol. Mae Archwilio Cymru yn argymell y dylai'r Cyngor sicrhau bod ganddo'r wybodaeth a'r data sydd ei angen arno i'w alluogi i ddeall tueddiadau recriwtio a chadw staff ar hyn o bryd ac yn y dyfodol a dylai ddatblygu dull o asesu gwerth am arian ei weithgareddau recriwtio a chadw staff. Mae'r rheolwyr yn derbyn yr argymhellion ac wedi datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i hyn.

- Gofynnodd y pwyllgor sut mae risgiau sy'n dod i'r amlwg o ran y gweithlu yn cael eu monitro o ystyried na fydd y data gweithlu y cytunwyd arnynt ar gael tan fis Rhagfyr 2026. Esboniodd y Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad Cwsmeriaid fod y Cyngor eisoes yn casglu data gweithlu ac yn monitro tueddiadau, felly nid yw'n dechrau o'r dechrau. Mae angen iddo nawr ddod â'r wybodaeth hon at ei gilydd ar lefel strategol er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau recriwtio yn y dyfodol yn well.

- Awgrymodd yr aelodau y dylid cynnal cyfweliadau ymadael ar gyfer yr holl staff sy'n gadael y Cyngor, yn ddelfrydol gan reolwr gwahanol i'w rheolwr llinell, er mwyn cael gwybodaeth gliriach am y rhesymau dros adael. Pwysleisiodd hefyd yr angen am ddull mwy rhagweithiol o recriwtio a chadw staff, o ystyried cost recriwtio, heriau recriwtio parhaus a'r risgiau sy'n gysylltiedig â swyddi sy'n anodd eu llenwi.

  Cytunodd y Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad Cwsmeriaid ei bod yn bwysig deall pam fod staff yn gadael, ac i ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddylanwadu ar strategaethau recriwtio a chadw. Fodd bynnag, ni all y Cyngor orfodi staff i gymryd rhan mewn cyfweliadau ymadael. Cadarnhaodd mai'r nod yw rhagweld risgiau'r gweithlu yn gynharach a datblygu cynlluniau gweithlu rhagweithiol, blaengar.

- Gofynnodd y pwyllgor am lwyddiant y cynllun hyfforddeion graddedigion. Dywedodd y Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad Cwsmeriaid fod y cynllun yn llwyddiannus ac yn denu ymgeiswyr o safon uchel, a'r her yw eu cadw trwy greu cyfleoedd gyrfa hirdymor. Ychwanegodd fod angen data cadarn i ddangos bod y cynllun yn sicrhau gwerth am arian.

- Gofynnodd yr aelodau pa ddata y gellid ei ddarparu i roi sicrwydd ynghylch mentrau recriwtio a chadw. Dywedodd y Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad Cwsmeriaid fel un enghraifft o beth all fod yn bosibl ac yn ddefnyddiol, fod angen gwybodaeth ddibynadwy am yr amser a gymerir i lenwi swyddi gwag ar draws gwasanaethau i dynhau prosesau a sicrhau set ddata recriwtio gyson.

- Holodd y pwyllgor hefyd am swyddi gwag hirdymor mewn meysydd arbenigol. Cadarnhaodd y Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad Cwsmeriaid fod rolau anodd eu llenwi fel mewn gwasanaethau cyfreithiol a chymdeithasol yn cael eu cydnabod yn yr adroddiad a'u bod yn anodd eu llenwi drwy'r wlad. Er bod cynghorau'n gweithio i fynd i'r afael â'r materion hyn, mae angen gweithredu cenedlaethol ar dâl ac amodau gwaith yn enwedig yn y sector gofal, ochr yn ochr â chydweithio parhaus â chynghorau eraill a CLILC.

  Nododd Lora Williams, Archwilio Cymru, fod yr adolygiad wedi'i gynnal ar draws pob cyngor yng Nghymru ac y byddai'r canfyddiadau cyffredinol yn cael eu defnyddio i ddatblygu arfer da, i'w rhannu â rheolwyr AD mewn digwyddiad ym mis Rhagfyr 2026.

  Penderfynwyd –

- **Nodi adroddiad Archwilio Cymru a chymryd sicrwydd o'i ganfyddiadau.**
- **Cymeradwyo'r camau arfaethedig mewn ymateb i argymhellion yr adolygiad fel y bo'n briodol.**

12. ADRODDIAD BLYNYDDOL IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn cynnwys adroddiad iechyd a diogelwch corfforaethol blynyddol ar gyfer 2025/26, i'w ystyried gan y pwyllgor. Roedd yr adroddiad blynyddol yn nodi perfformiad iechyd a diogelwch y Cyngor yn ystod y flwyddyn, gan amlinellu'r prif beth a gyflawnwyd, tueddiadau digwyddiadau,

trefniadau llywodraethu a blaenoriaethau yn y dyfodol. Roedd hefyd yn cynnwys Cynllun Strategol Iechyd a Diogelwch drafft ar gyfer 2026 i 2031.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Swyddog Diogelu'r Cyhoedd.

- Dywedodd yr Aelodau fod yr adroddiad blynyddol yn rhy gyffredinol, gyda dadansoddiad cyfyngedig o'r achosion sylfaenol. Er ei fod yn darparu gwybodaeth am dueddiadau, nid oedd yn rhoi sicrwydd ynghylch pa drefniadau oedd yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â meysydd pryder, yr amserlenni ar gyfer gweithredu, a chynnydd lle'r oedd mesurau eisoes wedi'u cyflwyno.

  Awgrymodd yr aelodau y byddai cynnwys camau lliniaru yn ffordd fwy cyfannol o oruchwylio sut mae meysydd pryder yn cael eu rheoli.

  Dywedodd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch y gallai adroddiadau yn y dyfodol gynnwys mwy o fanylion. Pan fydd problemau'n codi, mae'r gwasanaeth yn ymateb, ond unwaith y bydd y strategaeth ar waith, y nod yw mabwysiadu dull mwy rhagweithiol, gan nodi problemau posibl yn gynharach a rhoi mesurau ataliol ar waith. Ychwanegodd y Prif Swyddog Diogelu'r Cyhoedd fod sawl prosiect ar y gweill ond bod eu cwblhau yn cymryd amser ac yn gofyn am fewnbwn gan wasanaethau eraill.

- Ceisiodd y pwyllgor sicrwydd bod y Cyngor yn gadarn wrth reoli achosion o gam-drin tuag at staff.

  Esboniodd yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch fod y gwasanaeth yn bwriadu treialu system adrodd electronig sy'n gysylltiedig â'r broses Marciwr Risg o Drais. Mae system brofi ar waith, a fydd yn dangos yn gliriach yr amserlen gwblhau. Ychwanegodd fod llawer o achosion o ymosod yn ymwneud ag ysgolion, gyda thuedd gynyddol yn y sector cynradd. Disgrifiodd waith parhaus gyda'r Gwasanaeth Dysgu, gan gynnwys cyfarfodydd misol, dadansoddiad o ddigwyddiadau a disgyblion, ac ehangu cymorth drwy'r Tîm Ymyrraeth Gynnar.

  Nododd yr Aelodau, er eu bod yn edrych ymlaen at adroddiadau llawnach a manylach yn y dyfodol, eu bod yn cydnabod bod gwaith da yn cael ei wneud.

  Penderfynwyd yn amodol ar y camau ychwanegol isod –

  - **Nodi Adroddiad Iechyd a Diogelwch Corfforaethol Blynyddol 2025/26 sy'n cynnwys gweithgareddau'r Cyngor i fynd i'r afael â risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor.**
  - **Cadarnhau bod y pwyllgor yn cymryd sicrwydd bod mesurau rhesymol ar waith i reoli risgiau iechyd a diogelwch i lefel dderbyniol**

  Camau ychwanegol – gofyn i adroddiadau blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn y dyfodol gynnwys manylion am ddadansoddiad achosion sylfaenol, camau lliniariadau a roddwyd ar waith, amserlenni ar gyfer cwblhau camau gweithredu, a chynnydd a wneir ar fesurau a weithredir er mwyn rhoi sicrwydd cliriach ynghylch sut mae risgiau yn cael eu rheoli.

13. ADOLYGIAD O FLAEN RAGLEN WAITH 2026/27

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg a oedd yn cynnwys Blaenraglen Waith y pwyllgor ar gyfer 2026/27 wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau diweddaraf, i'w ystyried gan y pwyllgor. Roedd rhaglen datblygu aelodau yn Atodiad B.

Penderfynwyd cadarnhau bod y Blaen raglen Waith ar gyfer 2026/27 yn bodloni cyfrifoldebau'r pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.

Dr Geraint Jones
(Cadeirydd)

DRAFT

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	28 Medi 2026
Pwnc:	Log Gweithredodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru
Awdur yr Adroddiad:	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru
Natur a Rheswm Dros Adrodd: Mae'r adroddiad hwn yn hysbysu aelodau'r Pwyllgor am statws y gweithredoedd / penderfyniadau y cytunwyd arnynt.	

1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r cofnod gweithredu hwn yn cael ei ddiweddaru cyn pob cyfarfod er mwyn galluogi'r pwyllgor i fonitro cynnydd a chwblhau'r camau/penderfyniadau y mae wedi cytuno arnynt.

2. Argymhellion

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi'r camau y manylir arnynt yn y tabl isod a'i fod yn fodlon â'r camau a roddwyd ar waith.

Log Gweithredoedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Rhif	Dyddiad y Cyfarfod	Rhif yr Eitem	Gweithred	Perchennog y Weithred	Camau a Gymerwyd	Statws
35	16/07/26	9	Y Pennaeth Archwilio a Risg i godi gyda'r Rheolwr Gweithredol y posibilrwydd o ymgorffori cerrig milltir i sicrhau y gellir monitro camau gweithredu tymor hir yn gliriach ynghyd ag atodiad i ddangos y camau interim ar gyfer cyflawni camau lliniaru tymor hir.	Pennaeth Archwilio a Risg / Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth)	Ar 24/07/26, cododd y Pennaeth Archwilio a Risg y mater hwn gyda'r Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth). Cadarnhaodd y Rheolwr Gweithredol (Tîm Arweinyddiaeth) y byddent yn gweithio ar ymgorffori cerrig milltir, gan ddangos y camau interim ar gyfer cyflawni camau lliniaru hirdymor. Bydd diweddariad nesaf y Gofrestr Risg Strategol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 3 Rhagfyr 2026.	Ar y gweill
36	16/07/26	12	Gofyn bod adroddiadau blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn y dyfodol yn cynnwys manylion am ddadansoddiad achosion sylfaenol, lliniariadau a roddwyd ar waith, amserlenni ar gyfer cwblhau camau gweithredu, a chynnydd ar fesurau a weithredir er mwyn darparu sicrwydd cliriach ar sut mae risgiau yn cael eu rheoli.	Prif Swyddog Diogelu'r Cyhoedd / Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol	Bydd yr adroddiad blynyddol nesaf ar Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf 2027.	

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Pwyllgor:	Y Cyngor Llawn
Dyddiad:	24.09.26
Teitl yr adroddiad:	Adroddiad Blynyddol Sgriwtini 2025 / 2026
Pwrpas yr adroddiad:	Adrodd ar waith y Pwyllgorau Sgriwtini a'r Paneli yn ystod 2025 / 2026 a nodi blaenoriaethau gwaith ar gyfer y dyfodol
Awdur:	Angharad Fflur Hughes, Rheolwr Craffu a Gwasanaethau Pwyllgor

1. Cefndir

   Mae'n rhaid i'r Pwyllgorau Sgriwtini adrodd yn flynyddol i'r Cyngor Llawn ar y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddinesig flaenorol a'r nrhaglen waith a blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

2. Cynnwys

   Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r gwaith a gyflawnwyd gan y ddau Bwyllgor Sgriwtini a'r tri Phanel yn ystod 2025/26, gan gynnwys y prif gyflawniadau a'r effaith y mae'r gwaith wedi'i chael ar wneud penderfyniadau a gwella gwasanaethau. Mae'r adroddiad yn nodi sut y bu cadeiryddion y ddau bwyllgor sgriwtini yn arwain y gwaith o ddatblygu'r blaen raglenni gwaith. Yn ystod 2025/26, cyflwynwyd y blaen raglenni gwaith i gyfarfodydd rheolaidd Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini ac fe gymeradwywyd ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgorau Sgriwtini. Ym mis Tachwedd 2025, cynhaliwyd Asesiad Panel Perfformiad, a arweiniodd at argymhellion i gryfhau trefniadau sgriwtini'r Cyngor. Mewn ymateb, datblygwyd cynllun gweithredu newydd i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn, ac mae'r cynllun gweithredu hwn wedi'i adlewyrchu yn yr adroddiad hwn fel rhan o'r rhaglen waith ar gyfer 2026/27.

3. Argymhelliad

   Gofynnir i'r Cyngor Llawn:

   1. Gymeradwyo Adroddiad Blynyddol Sgriwtini 2025/26

2. Nodi’r cynnydd parhaus a wnaed wrth weithredu ein taith Sgriwtini a’r effaith y mae hyn yn ei chael ar arferion
3. Penodi cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn Hyrwyddwr Sgriwtini am y cyfnod rhwng Mai 2026 a Mai 2027

Atodiad: Adroddiad Blynyddol Sgriwtini 2025/26

.



Adroddiad Blynyddol Sgriwtini 2025/2026

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

@cyngormon
csym
@angleseycouncil

www.ynysmon.llyw.cymru

Cynnwys

Rhifau tudalennau

- Cyflwyniad 3
- Rhagair gan Gadeirydd y Pwyllgorau Sgriwtini Corfforaethol 4 - 5
- Rhagair gan Gadeirydd y Pwyllgorau Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 6 - 7
- Sut i gymryd rhan 8
- Craffu y tu ôl i'r Llenni 9
- Craffu mewn Rhifau 10
- Niferoedd sydd wedi edrych ar we-ddarlledu Pwyllgorau Sgriwtini 11
- Effaith Craffu 12
- Trosolwg o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 13
- Cyflawniadau Allweddol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2025/26 14
- Trosolwg o'r Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio 15
- Cyflawniadau Allweddol y Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio 2025/2026 16
- Paneli Sgriwtini 17
- Edrych i'r Dyfodol - Blaenoriaethau ac Argymhellion ar gyfer 2026/2027 18

Cyflwyniad

Mae craffu yn rôl hanfodol ym mhrosesau gwneud penderfyniadau Cyngor Sir Ynys Môn, mae'n dal y Pwyllgor Gwaith i gyfrif am eu penderfyniadau, eu polisïau a pherfformiad Gwasanaethau'r Cyngor.

Rôl Craffu yw herio'n adeiladol a chefnogi gwelliant ar draws gwasanaethau ac er na all pwyllgorau sgriwtini wneud penderfyniadau, gallant wneud argymhellion a chyhoeddi canfyddiadau.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed gan y ddau Bwyllgor Sgriwtini a'r tri Phanel Sgriwtini ar gyfer y flwyddyn ddinesig ddiwethaf, Mai 2025 i Ebrill 2026.


Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu sut mae aelodau wedi cael eu cefnogi i'w galluogi i graffu'n effeithiol, sut mae rhanddeiliaid eraill gan gynnwys dinasyddion a phartneriaethau wedi bod yn rhan o'r broses a beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

" Creffir yn fanwl ar berfformiad mewn pwyllgorau a phaneli."
— Adroddiad Arolygiaeth Gofal Cymru
Ionawr 2026



"Mae'r Cyngor yn gweithio'n dda, mae gwaith craffu cadarn..."
Cadeirydd y Cyngor - Cynghorydd Non Dafydd
Cyfarfod Llawn y Cyngor,
Mai 2026

Rhagair gan Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol



Y Cynghorydd Jeff Evans, Cadeirydd, Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

Dyma fy mlwyddyn gyntaf fel Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Rwyf wedi mwynhau'r cyfle a'r her sy'n dod gyda'r rôl hon ac rwy'n falch o gyflwyno'r rhagair hwn ar gyfer Adroddiad Sgriwtini Blynyddol 2025/26.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Pwyllgor wedi parhau i chwarae rôl bwysig wrth gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau tryloyw, atebol ac effeithiol ar draws y Cyngor. Trwy herio adeiladol a chraffu ar sail tystiolaeth, mae'r Aelodau wedi ceisio sicrwydd bod gwasanaethau'n perfformio'n dda, bod risgiau'n cael eu rheoli, a bod gwelliannau'n canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau cadarnhaol i drigolion a chymunedau Ynys Môn.

Yn ystod 2025/26, ystyriodd y Pwyllgor amrywiaeth eang o faterion sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau strategol y Cyngor, gan gynnwys perfformiad corfforaethol, cynllunio ariannol, gwasanaethau cymdeithasol, tai, llywodraethu, diogelu, a chyflawni cynlluniau corfforaethol allweddol. Mae'r Aelodau wedi rhoi sylw arbennig i feysydd lle'r oedd angen gwella perfformiad ymhellach, gan ofyn am eglurder ynghylch y camau sy'n cael eu cymryd, yr amserlenni ar gyfer cyflawni a'r effaith ar drigolion.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi parhau i gryfhau ei sylw i gynlluniau gwaith ymlaen llaw, gan sicrhau bod y swyddogaeth graffu'n amserol, yn canolbwyntio ar Gynllun y Cyngor, ac yn gyson â'r cynllun hwnnw. Mae hyn wedi helpu Aelodau i ganolbwyntio ar y meysydd lle gall craffu ychwanegu'r gwerth mwyaf, boed hynny drwy roi sicrwydd, cyfrannu at ddatblygu polisi, neu wneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith.

Rhagair gan Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

Hoffwn ddiolch i'm is-gadeirydd yn ystod 25/26 y Cynghorydd Sonia Williams a llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Geraint Bebb ar gael ei benodi'n is-gadeirydd ar gyfer 26/27. Hoffwn hefyd ddiolch i holl Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, a'r Paneli Adnoddau a Gwasanaethau Cymdeithasol am eu hymrwymiad, eu gwaith paratoi a'u cyfraniadau ystyrlon ar hyd y flwyddyn. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i Ddeiliaid Portffolio, swyddogion, partneriaid a chyfranwyr a wahoddwyd i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd, cyflwyno gwybodaeth ac ymateb yn agored i gwestiynau'r Aelodau.

Wrth edrych ymlaen, bydd craffu effeithiol yn parhau i fod yn hanfodol wrth i'r Cyngor barhau i ymateb i bwysau ariannol, galw cynyddol am wasanaethau a'r angen i sicrhau gwelliant parhaus. Bydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn parhau i herio'n adeiladol, cefnogi llywodraethu da a helpu i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu dylanwadu gan dystiolaeth, gwybodaeth am berfformiad ac anghenion ein cymunedau.

Rhagair gan Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio



Y Cynghorydd Dylan Rees, Cadeirydd, Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio

Cyn cyflwyno'r adroddiad hwn, hoffwn dalu teyrnged arbennig i'r Cynghorydd Ken Taylor, Aelod ffyddlon ac uchel ei barch o'n Pwyllgor. Trwy gydol ei amser gyda ni, ymrodd y Cynghorydd Taylor yn llwyr i'n gwaith, gan fynd i'r afael â'i rôl gydag ymdeimlad dwfn o ymrwymiad, ymdeimlad diwyro o gyfrifoldeb ynghyd â'i gynhesrwydd a'i hiwmor da. Bydd ei gyfraniad yn cael ei golli'n fawr.

Credaf fod craffu effeithiol yn gonglfaen i drefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Mae'n chwarae rhan hanfodol wrth ddal y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, herio'n adeiladol, a sicrhau bod barn trigolion a chymunedau'n cael eu hadlewyrchu yn y broses o wneud penderfyniadau.

Hoffwn ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio am eu cyfraniadau a'u hymrwymiad i waith y Pwyllgor sydd wedi ychwanegu gwerth o ran cyflawni Cynllun y Cyngor, cynnal safonau ein gwasanaethau cyhoeddus a chraffu ar waith ein Partneriaid Allanol Allweddol. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud argymhellion teg, cadarn i'r Pwyllgor Gwaith ar nifer o bynciau allweddol a meysydd gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Dros y 12 mis diwethaf, craffodd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar waith nifer o bartneriaid allweddol a meysydd strategol sy'n gysylltiedig â Chynllun y Cyngor 2023–2028. Ymhlith y partneriaid allweddol a wahoddwyd roedd Heddlu Gogledd Cymru a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, yn ogystal â chynrychiolwyr sy'n gysylltiedig â datblygu economaidd a gweithgarwch y Gronfa Ffyniant.

Ystyriodd yr Aelodau flaenoriaethau, gweithio mewn partneriaeth, cyfleoedd yn y dyfodol, risgiau a heriau ar draws y meysydd hyn. Fe wnaethant hefyd herio'n adeiladol y gwasanaeth iechyd a gofal brys, addysg ôl-16, prosiectau arloesi, rhaglenni datblygu economaidd, Porthladd Rhydd Ynys Môn a newidiadau i drefniadau Cyllido Twf Lleol. Arweiniodd pryderon am newidiadau cyllid a threfniadau llywodraethu at anfon llythyr at Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i ofyn iddynt ailystyried a chynnig mwy o eglurder.

Rhagair gan Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio

Craffodd y Pwyllgor hefyd ar gynlluniau strategol allweddol sy'n cefnogi Cynllun y Cyngor, yn enwedig mewn perthynas â'r Gymraeg ac addysg. Roedd hyn yn cynnwys ystyried Adroddiad Blynyddol Safonau Cymru, Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, canllawiau gwella ysgolion, Cynllun Strategol Digidol Addysg ac Adroddiad Cynnydd y Panel Sgriwtini Addysg. Yn gyffredinol, canolbwyntiodd y gwaith craffu ar gryfhau atebolrwydd partneriaeth, cefnogi amcanion strategol a gwella canlyniadau i drigolion Ynys Môn.

Hoffwn estyn fy niolch diffuant i aelodau'r Panel Sgriwtini Addysg am eu hymrwymiad, eu cydweithrediad a'u gwasanaeth ymroddedig dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae eu cyfraniadau gwerthfawr, eu gwybodaeth a'u her adeiladol wedi bod yn hanfodol wrth hyrwyddo gwaith y Pwyllgor, cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun y Cyngor a helpu i gynnal gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel i drigolion Ynys Môn.

Hoffwn hefyd ddiolch i'm His-gadeirydd, y Cynghorydd Gwilym Owen Jones, am ei gefnogaeth barhaus a'i gyfraniad gwerthfawr ar hyd fy mlwyddyn olaf fel Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio. Mae wedi bod yn fraint gweithio ochr yn ochr ag ef ac aelodau'r Pwyllgor i gryfhau'r swyddogaeth graffu a hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i drigolion Ynys Môn.

Yn olaf, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i longyfarch y Cynghorydd Sonia Williams ar gael ei hethol yn Gadeirydd newydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio. Rwy'n gwbl hyderus y bydd ei sgiliau cadeirio yn sicrhau bod y Pwyllgor yn parhau i sicrhau gwerth ychwanegol i'r broses graffu.

Sut i gymryd rhan

PMae cymryd rhan yn y drefn Graffu yn rhoi cyfle i bobl leisio eu barn a chymryd rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor. Hefyd gall cyfrannu at y broses hon helpu i ddylanwadu ar bolisïau a gwasanaethau, gwella tryloywder ac ymddiriedaeth a hyrwyddo atebolrwydd.

Dyma rai o'r ffyrdd y mae'r drefn graffu yn ymgysylltu â'r rhanddeiliaid a'r cyhoedd;



- Tudalen we benodol o'r enw "Cymryd rhan yn y drefn Graffu" sy'n nodi sut y gall y cyhoedd gymryd rhan
- Protocol ar gyfer Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini
- Cyhoeddi blaen raglen waith pob Pwyllgor ar wefan y Cyngor i roi gwybod i'r cyhoedd am ein gwaith sydd ar ddod
- Gwahodd partneriaid allweddol i gyfrannu mewn cyfarfodydd cyhoeddus er mwyn ehangu ein dealltwriaeth, dylanwadu ar drafodaethau yn y Cyngor ac ychwanegu gwerth at ein partneriaeth sy'n gweithio yn lleol
- Cyfethol aelodau ar ein Pwyllgorau Sgriwtini sy'n cynrychioli' r Eglwys yng Nghymru, yr Esgobaeth Gatholig a'r rhiant-lywodraethwyr
- Strategaethau cwestiynu sy'n cynnwys cwestiynau o ddiddordeb y cyhoedd
- Ymweliadau safle â gwasanaethau lleol i arsylwi ar wasanaethau rheng flaen a ddarperir
- Sicrhau tryloywder trwy we-ddarlledu cyfarfodydd ein Pwyllgor i'r cyhoedd eu gwylio
- Cyhoeddi cyfarfodydd ein Pwyllgor ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn annog ymgysylltu
- Cael pwynt cyswllt Craffu penodol trwy System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid y Cyngor sy'n darparu pwynt cyswllt hygyrch i'r cyhoedd sy'n ymwneud yn benodol â'r broses ddemocrataidd



Craffu y tu ôl i'r Llenni

Mae'r tîm Sgriwtini o fewn y Gwasanaethau Democrataidd ac mae'n dîm bach sy'n cynnwys dau swyddog. Ym mis Hydref 2025 cafwyd newid yn y tîm oherwydd bod y Rheolwr Sgriwtini yn ymddeol, ac o ganlyniad bu'n rhaid i'r swyddog Sgriwtini ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol nes i Reolwr Sgriwtini newydd gael ei benodi ym mis Chwefror 2026.

Dyma rai o'r prif bethau a gyflawnwyd yn 2025/2026;

- Adolygwyd strwythurau a phrosesau craffu a gwnaed argymhellion gan ymgynghorydd allanol ac Asesiad Perfformiad Panel. Mae cynllun gwella wedi'i roi ar waith i ymateb i'r argymhellion hyn, ac mae'r cynllun hwn yn cael ei fonitro trwy gyfarfodydd fforwm cadeiryddion ac is-gadeiryddion.

- Mae gwaith yn mynd rhagddo i godi ymwybyddiaeth o'r blaengynllun gwaith a'r strwythurau a'r prosesau craffu, mae'r gwaith hwn yn cynnwys cyflwyniadau i'r holl dimau arweinyddiaeth a rheoli o fewn yr awdurdod.

- Mae aelodau newydd a chadeiryddion newydd wedi cael eu cefnogi yn eu rolau newydd. Mae'r cymorth hwn wedi cynnwys cyfarfodydd wyneb yn wyneb a chefnogaeth i nodi unrhyw anghenion hyfforddi, a threfniadau a wnaed i ddarparu unrhyw anghenion hyfforddi a nodwyd.

- Mae prosesau ar gyfer olrhain a monitro camau gweithredu a godwyd mewn pwyllgorau a phaneli wedi'u hadolygu, ac mae gwelliannau wedi'u gwneud i sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu a godwyd yn cael eu holrhain a'u cwblhau a'u hadrodd yn ôl i'r pwyllgor neu'r panel perthnasol.

- Roedd sesiynau hyfforddi ar strategaethau cwestiynu ar gael i holl aelodau'r pwyllgorau sgriwtini.

- Trefnir cyfarfodydd ymlaen llaw cyn pob cyfarfod pwyllgor i helpu aelodau gyda'r maes cynllunio ac i gefnogi proses graffu effeithiol o fewn y pwyllgorau.

- Cynhelir cyfarfodydd gyda'r Cadeiryddion cyn cyfarfodydd y pwyllgor i friffio'r cadeirydd ynghylch yr agenda a'r eitemau i'w cyflwyno ac i drafod unrhyw gymorth sydd ei angen cyn ac yn ystod cyfarfodydd y pwyllgor.

- Mae Swyddogion, Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion yn cyfarfod bob dau fis i adolygu blaen gynlluniau gwaith, i gyfathrebu unrhyw wybodaeth berthnasol ac i weithio mewn partneriaethau i adolygu a gwella strwythurau a phrosesau craffu.

Craffu mewn Rhifau


17 Cyfarfodydd Pwyllgor a gynhaliwyd


Cyfarfodydd Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeirydd **5**




Corfforaethol **8**

Partneriaeth ac Adfywio **9**





Sesiynau Briffio **20**



Llythyrau a anfonwyd ar ran Pwyllgorau at Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru **3**


Camau a godwyd ac a Weithredwyd



Presenoldeb y Pwyllgor

Swyddogion **84**


Aelodau Eraill **86**



Adroddiadau a Gyflwynwyd



Rhanddeiliaid Allanol **18**



Niferoedd sydd wedi edrych ar we-ddarlledu Pwyllgorau Sgriwtini

Mae cyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini yn cael eu gwe-ddarlledu er mwyn bod yn agored, yn atebol ac i ymgysylltu â'r cyhoedd wrth wneud penderfyniadau.

Mae gwe-ddarlledu yn galluogi trigolion a rhanddeiliaid i ddilyn trafodaethau, deall sut mae penderfyniadau'n cael eu hadolygu a'u herio, a chael mynediad at drafodion mewn modd mwy cyfleus, gan helpu i gryfhau tryloywder ac ymddiriedaeth mewn llywodraethu lleol.

Mae'r wybodaeth isod yn dwyn ynghyd ddata o'r ddau gyfarfod Pwyllgor Sgriwtini a gafodd eu gwe-ddarlledu yn ystod 2025–2026. Mae'n cyflwyno'r manylion perthnasol mewn un lle, gan ddarparu trosolwg clir o'r data a'r ffigurau er mwyn ei gwneud yn haws cyfeirio atynt a'u hadolygu.



Cynhaliwyd 17 o gyfarfodydd hybrid



Oriau o gynnwys = 29.40





Nifer o ymwelwyr i'r safle mewn oriau = 487



77 o ymweliadau ar gyfartaledd i bob cyfarfod a we-ddarlledwyd

Effaith craffu

Mae craffu yn creu effaith trwy fonitro a herio perfformiad gwasanaethau, gwella a gwneud penderfyniadau, mae'n codi ymwybyddiaeth o weithio mewn partneriaeth a'r hyn sy'n gweithio'n dda. Gall craffu hefyd gryfhau atebolrwydd, rhoi cyfle i leisiau mwy o bobl gael eu clywed a sicrhau bod gwaith y Cyngor yn agored ac yn dryloyw i'r cyhoedd. Isod mae rhai enghreifftiau penodol o sut mae Craffu wedi cael effaith yn 2025/26;

Thema	Gweithredu	Effaith
Gweithio mewn Partneriaeth	Yn dilyn presenoldeb blynyddol y Bwrdd Iechyd Lleol yn y Pwyllgor Sgriwtini yn 2024, nododd Aelodau Etholedig yr angen am ddeialog fwy rheolaidd ynghylch darpariaeth gofal iechyd lleol. O ganlyniad, trefnwyd sesiynau briffio a galw heibio ar ffurf fforwm ym mis Tachwedd 2025, gan roi cyfle i Aelodau sôn am brofiadau, pryderon a gofyn cwestiynau'n uniongyrchol i gynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd.	Cryfhaodd y sesiynau'r gwaith a wneir mewn partneriaeth rhwng yr Awdurdod a'r Bwrdd Iechyd Lleol, gyda gwell cyfathrebu ynghylch materion iechyd lleol, a darparwyd ffordd fwy ymatebol i Aelodau godi materion sy'n effeithio ar drigolion. Mae adborth cadarnhaol o'r sesiynau wedi arwain at ymrwymiad i'w cynnal bob blwyddyn, gydag ystyriaeth i gyflwyno trefniadau tebyg gyda phartneriaid allweddol eraill.
Gwella Gwasanaeth	Yn ystod ymweliadau ysgolion, nododd yr Aelodau anghysondebau yn y cyfleoedd pontio a gynigir ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd. Cofnodwyd hyn fel gweithred a chafodd hyn ei gyfleu i'r Gwasanaeth Dysgu.	O ganlyniad, mae'r Rheolwr Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y maes hwn wedi dechrau casglu gwybodaeth o bob ysgol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno egwyddorion pontio cyffredin, gan gefnogi mwy o gysondeb yn y profiad pontio i ddysgwyr ar draws ysgolion.
Cryfhau Atebolrwydd	Mae'r Paneli Sgriwtini Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi gweithio mewn partneriaeth i graffu ar adroddiadau Diogelu Corfforaethol cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini. Mae'r Paneli wedi cyfarfod ddwywaith fel rhan o'r dull hwn ac wedi cytuno i barhau i weithio mewn partneriaeth.	Mae'r dull hwn ar y cyd wedi cryfhau atebolrwydd trwy alluogi Aelodau o'r ddau Banel i ystyried diogelu materion gyda'i gilydd, rhannu gwybodaeth ar draws meysydd gwasanaeth, a herio adroddiadau'n fwy cadarn cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini.

Trosolwg o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol



Cadeirydd, Cynghorydd Jeff Evans



Is-gadeirydd, Cynghorydd Sonia Williams













Aelodau'r Pwyllgor; Y Cynghorwyr Llio Angharad Jones, Dafydd Rhys Thomas, John Ifan Jones, Arfon Wyn, Keith Roberts, Alwen Watkin, Geraint Bebb, Robert Llewelyn Jones, Jackie Lewis, Aled Morris Jones (rhan gyntaf y flwyddyn), Celfyn Furlong (ail ran y flwyddyn)






Aelodau cyfetholedig o'r pwyllgor; Christina Williams, Kathryn Seeney, John Tierney, Wenda Owen

Pwrpas y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yw;

- Craffu ar berfformiad / darparu'r holl wasanaethau,
- Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol a gwasanaeth
- Craffu ar y Cynllun Busnes Corfforaethol, y Gyllideb Flynyddol, y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi, y Fframwaith Rheoli Perfformiad, Polisïau Corfforaethol neu eu cynlluniau a pholisïau olynol.

Y prif bethau a gyflawnwyd gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2025/26

Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi herio'n adeiladol, wedi ceisio sicrwydd ac wedi dylanwadu ar welliannau ar draws blaenoriaethau allweddol y Cyngor yn ystod y flwyddyn;

Addysg a Phobl Ifanc: Heriodd Aelodau ddyfodol darpariaeth addysg ôl-16 mewn modd cadarn ynghyd â'r cynnig ar gyfer adeilad ysgol uwchradd newydd yn ardal Caergybi, gan geisio sicrwydd ynghylch ymgysylltu, ystyriaethau iaith Gymraeg, fforddiadwyedd, risgiau, cydymffurfiaeth â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a'r effaith ar ddysgwyr a chymunedau.

Gwella Perfformiad: Craffodd y Pwyllgor ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ac amlygodd feysydd allweddol sydd angen eu gwella, gan gynnwys cyfranogiad mewn gwersi nofio, tai gwag, Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, ffigurau NEET, gwaharddiadau o ysgolion, ailgylchu gwastraff, allyriadau fflyd a pherfformiad Rhyddid Gwybodaeth.

Cynllunio Strategol: Adolygodd a chymeradwyodd y Pwyllgor ddogfennau strategol allweddol, gan gynnwys Dogfen Gyflawni Flynyddol 2025/26, yr Adroddiad Hunanasesu a Pherfformiad (Lles) 2024/25, Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2026–2056 a'r cynigion cychwynnol drafft ar y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2026/27.

Tai: Croesawodd y Pwyllgor gynnydd o ran tai gwag a dyraniadau tai, craffu ar Gynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai, a cheisiwyd sicrwydd ynghylch fforddiadwyedd rhent, mynediad i wneud gwaith cynnal, gwelliannau i'r stoc tai, effeithlonrwydd ynni ac effaith datblygiadau tai cymdeithasol newydd ar gymunedau.

Cynllun Strategol Sero Net 2026-2031: Craffodd yr aelodau ar y cynllun, gan godi cwestiynau pwysig ynghylch gwerth am arian, data allyriadau, technoleg adnewyddadwy, ailgylchu paneli solar a batris, gwefru cerbydau trydan, addysg, a graddfa'r buddsoddiad sydd ei angen i uwchraddio'r stoc tai.

Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng rhanbarthol: Adolygodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol a heriodd faterion sy'n ymwneud â chau pontydd, tarfu ar Borthladd Caergybi, ystyriaethau cydraddoldeb mewn argyfyngau, a gwytnwch seiberddiogelwch.

Herio'r Gyllideb: Archwiliodd yr Aelodau gynigion cyllideb refeniw ddrafft 2026/27, gan gwestiynu premiymau'r Dreth Gyngor, cyllid grantiau, cyllid anghenion dysgu ychwanegol, pwysau chwyddiant, cronfeydd wrth gefn, pwysau gwasanaeth, buddsoddiad mewn seiberddiogelwch, cyfleusterau cyhoeddus, lwfansau aelodau a'r angen posibl am amlosgfa ar yr Ynys.

Sicrhau gwaith dilynol a chraffu yn y dyfodol: Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariadau ac adroddiadau pellach, gan gynnwys cynnydd ynghylch cynlluniau rheoli llifogydd, monitro blynyddol o'r Cynllun Strategol Rheoli Mân-ddaliadau, a Chynllun Strategol Tuag at Sero Net.

.

Trosolwg o'r Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio



Cadeirydd, Cynghorydd Dylan Rees



Is-gadeirydd, Cynghorydd Gwilym Jones












Aelodau'r Pwyllgor; Cynghorwyr Non Dafydd, Douglas Fowlie, John Ifan Jones, Euryn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Margaret Roberts, Sonia Williams, Liz Wood, Ken Taylor






Aelodau cyfetholedig o'r pwyllgor; Christina Williams, Kathryn Seeney, John Tierney, Wenda Owen

Pwrpas y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yw;

- Sicrhau bod buddiannau dinasyddion Ynys Môn yn cael eu hyrwyddo.
- Sicrhau bod blaenoriaethau ac adnoddau'r Cyngor yn cael eu hadlewyrchu mewn dull cadarnhaol yn y partneriaethau, wrth gydweithio, cydweithredu ac yn nhrefniadau asiantaethau allanol.
- Bydd cylch gwaith y Pwyllgor yn ymestyn i drefniadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a bydd yn cynnwys (ond ni fydd yn gyfyngedig i'r) meysydd hynny lle mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol, fel materion troseddu ac anhrefn.

Cyflawniadau Allweddol y Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio 2025/2026

Mae'r Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio wedi herio'n adeiladol, wedi ceisio sicrwydd a dylanwadu ar welliant ar draws prif flaenoriaethau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn;

Datblygu Economaidd: trafodwyd eitemau fel rhan o ymrwymiad y Pwyllgor i graffu ar y gwaith a wnaed gan yr adran a oedd yn cynnwys: Menter y Gronfa Ffyniant, Rhaglen a ariennir gan Lywodraeth y DU a Phorthladd Rhydd Ynys Môn. Cododd yr Aelodau bryderon ynglŷn â'r newidiadau diweddar i'r trefniadau Cyllido Twf Lleol, gan gynnwys effaith newidiadau i grantiau ar swyddi a gwasanaethau a ariennir gan refeniw ar Ynys Môn, a'r diffyg eglurder ynghylch rôl gwneud penderfyniadau'r Cydbwyllgor Corfforaethol yn y dyfodol. Arweiniodd y pryderon hyn at anfon llythyrau at Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, i ofyn iddynt ailystyried y materion a cheisio mwy o eglurder ynghylch oblygiadau'r trefniadau arfaethedig.

Cynllun y Cyngor: 2023-2028: Craffodd yr Aelodau ar nifer o gynlluniau strategol allweddol a fydd yn galluogi'r Awdurdod Lleol i gyflawni 6 amcan strategol allweddol Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028:

Y Gymraeg: Edrychodd y Pwyllgor ar y Gymraeg sy'n un o chwe amcan strategol Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028. Mae'n rhan annatod o'n hunaniaeth, ein diwylliant a'n treftadaeth ac mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau ei bod yn parhau i ddatblygu a ffynnu. Mae'r meysydd arbennig y craffwyd arnynt gan yr Aelodau yn cynnwys y canlynol

- Adroddiad Blynyddol Safonau Cymru: 2024/25
- Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2024/25 - Mesur Cynnydd

Addysg: Fel Cyngor, rydym wedi ymrwymo i gefnogi plant a phobl ifanc i fod: yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n barod i ddysgu a chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith. Roedd y meysydd y craffwyd arnynt gan y pwyllgor yn cynnwys:

- Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd
- Cynllun Strategol Digidol Addysg.
- Adroddiad Cynnydd y Panel Sgriwtini Addysg.
- Gwasanath ADY a Chynhwysiad

Mae'r partneriaid allanol sydd wedi ymddangos gerbron y Pwyllgor yn ystod 2025/2026 yn cynnwys:

Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru: Craffodd yr aelodau ar flaenoriaethau Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, ynghyd â'r cydweithrediad rhwng y ddau, gan nodi cyfleoedd gwaith yn y dyfodol ynghyd â risgiau a heriau.

Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor: Gwahoddodd yr Aelodau y partneriaid allweddol hyn i ymddangos gerbron y Pwyllgor am y tro cyntaf i gyflwyno gwaith y Brifysgol a'r Coleg a chraffu arno, gan gynnwys eu trefniadau ar y cyd â'r Cyngor wrth gyflawni prosiectau arloesol ar yr Ynys, yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer dysgu ac addysg bellach ôl-16.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Ymddiriedolaeth Prifysgol Ambiwlans Cymru: Craffodd aelodau ar y cynnydd yn erbyn adroddiad 2024 Archwilio Cymru, Gofal Brys ac Argyfwng: Llif Allan o'r Ysbyty yn Rhanbarth Gogledd Cymru, yn ystod trafodaeth ar y cyd â phartneriaid allweddol. Sicrhaodd yr Aelodau her adeiladol gan archwilio materion allweddol gan ymrwymo ar y cyd i wella canlyniadau iechyd, hyrwyddo annibyniaeth, a gwella llesiant trigolion Ynys Môn.

Paneli Sgriwtini

Mae tri phanel yn cefnogi gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini, nid yw'r paneli hyn yn cyfarfod mor aml â'r Pwyllgorau ac mae llawer o'r gwaith a wneir gan y paneli yn digwydd yn y gymuned. Rhaid i'r holl aelodau ar y paneli hefyd fod yn aelod o un o'r Pwyllgorau Sgriwtini. Mae pob panel yn cael ei gefnogi gan drefniadau llywodraethu cadarn sy'n sicrhau ffocws, cylch gwaith a rhaglen waith glir ac mae prosesau adrodd ac uwchgyfeirio yn eu lle i sicrhau bod gwaith paneli Sgriwtini yn cael ei adrodd yn rheolaidd i'r ddau Riant-Bwyllgor.

Panel Adnoddau

Mae gan y Panel Adnoddau 6 aelod ac mae'n cyfarfod 6 gwaith y flwyddyn, ac mae'n gyfrifol am graffu ar gyllideb y Cyngor. Mae cael panel ar wahân yn sicrhau bod aelodau'n cael digon o amser i gwblhau'r broses o graffu'n fanwl ar wariant y Cyngor.

Panel Addysg

Mae gan y Panel Addysg 8 aelod ac mae'n cyfarfod 4 gwaith y flwyddyn, mae ganddynt flaen raglen waith 2 flynedd ac yn ystod 2025/2026 craffodd y panel ar wahanol themâu yn yr ystafell bwyllgora a thrwy ymweld â gwahanol ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'r panel hefyd yn craffu ar ysgolion sydd yn peri pryder ac unrhyw ysgolion sydd mewn categori Estyn. Yn ystod y flwyddyn trefnwyd ymweliadau ag 8 ysgol a chraffwyd ar y themâu canlynol;

- Pontio Effeithiol rhwng Cyfnodau
- Gwella Presenoldeb
- Cwricwlwm Cymru - Profiadau sy'n gysylltiedig â'r byd gwaith

Panel Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae gan y Panel Gwasanaethau Cymdeithasol 8 aelod ac mae'n cyfarfod 2 waith y flwyddyn, mae ganddynt flaen raglen waith 2 flynedd ac yn ystod 2025/2026 craffodd y panel ar wahanol themâu yn yr ystafell bwyllgora a thrwy ymweld â gwasanaethau presennol a darpariaeth newydd yn y gymuned. Gwnaed ymweliadau â gwasanaethau i graffu ar y canlynol;

- Tîm Llesiant Meddyliol Ynys Môn
- Tai â chymorth i unigolion ag anghenion iechyd meddwl
- Cymorth cymunedol i unigolion ag anghenion iechyd meddwl
- Cyfleoedd Diwrnod Anabledd Dysgu
- Gwasanaethau seibiant i blant ag anableddau

Edrych Ymlaen - Argymhellion ar gyfer 2026/2027

Ar gyfer 2026/2027 byddwn yn parhau i adeiladu ar y gwaith a wnaed yn ystod 2025/2026 a'n blaenoriaethau ar gyfer 2026/2027 yw;

- Parhau i raglennu gwaith ymlaen llaw trwy adolygu'r flaen raglen waith ym mhob cyfarfod, gan sicrhau bod yr holl randdeiliaid perthnasol yn cael y cyfle i awgrymu pynciau perthnasol i graffu arnynt. Byddwn hefyd yn parhau i rannu'r rhaglen mor eang â phosibl i godi ymwybyddiaeth o'r cynnwys.

- Byddwn yn cyflawni'r cynllun gwella newydd ac yn sicrhau bod argymhellion yn cael eu gweithredu, gan gynnwys yr argymhelliad o'r Asesiad Panel Perfformiad sy'n edrych ar sut y gallwn sicrhau bod y strwythur craffu yn craffu ar flaenoriaethau datblygu economaidd yn effeithiol.

- Gydag Aelodau newydd yn debygol o ymuno â'r Cyngor yn dilyn etholiadau Mai 2027, bydd angen sefydlu cynllun sefydlu, hyfforddiant a datblygu cynhwysfawr. Dylid datblygu'r cynllun hwn mewn partneriaeth â swyddogion, gyda safbwyntiau a phrofiadau'r Aelodau presennol yn chwarae rhan hanfodol i sicrhau ffocws, a'i fod yn berthnasol ac yn effeithiol wrth gyflawni ei nodau.

- Parhau i weithio'n agos gydag ADSO a chasglu a rhannu arferion gorau ar draws awdurdodau eraill, a hefyd gweithredu unrhyw ganfyddiadau a gwelliannau a nodwyd o ganlyniad i'r gwaith a wnaed fel rhan o'r gweithgor Cyfranogiad.

- Adolygu a diweddaru'r wefan gan sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gyfredol ac yn berthnasol ac y gellir dod o hyd iddi'n hawdd.

- Parhau i weithio mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid i sicrhau bod y blaen raglen waith ar gyfer sesiynau briffio yn cynnwys sesiynau sy'n berthnasol ac o ddiddordeb i'r aelodau a'r cyhoedd.

- Yn dilyn y sesiynau galw heibio a gynhaliwyd gyda'r bwrdd Iechyd ym mis Tachwedd 2025 a'r adborth cadarnhaol a gafwyd gan yr aelodau a'r swyddogion o'r bwrdd iechyd, byddwn yn ceisio ehangu'r math hwn o sesiwn i bartneriaethau eraill.

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I:	**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**
DYDDIAD:	**28 MEDI 2026**
PWNC:	**DATGANIAD CYFRIFON 2025/26**
DEILYDD PORTFFOLIO:	**CYNG ROBIN W. WILLIAMS - DIRPRWY ARWEINYDD Y CYNGOR A DEILYDD PORTFFOLIO - CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER**
SWYDDOG(ION) ARWEINIOL:	**MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151**
SWYDDOG(ION) CYSWLLT:	**BETHAN HUGHES-OWEN / CLAIRE KLIMASZEWSKI** Bethanowen2@ynysmon.llyw.cymru
Natur a Rheswm dros Adrodd Blaen adroddiad ar gyfer cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon, gan roi sylwadau ar y prif faterion sydd wedi codi ers cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon drafft 2025/26.	

1. Cefndir

1.1 Cyflwynwyd Datganiad o Gyfrifon drafft 2025/26 Cyngor Sir Ynys Môn i archwilwyr allanol y Cyngor, Archwilio Cymru, ar gyfer archwiliad ar 30 Mehefin 2026. Mae'r gwaith archwilio manwl bellach wedi'i gwblhau'n sylweddol.

1.2 Yn amodol ar gadarnhad Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, bydd y cyfrifon terfynol archwiliedig yn cael eu llofnodi gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a Chadeirydd y Cyngor ac yn cael eu cyhoeddi yn dilyn derbyn barn derfynol yr Archwilydd.

2. Dyddiad cau diwygiedig Llywodraeth Cymru

2.1 Y dyddiad cau statudol ar gyfer cwblhau'r cyfrifon archwiliedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 yw 30 Medi 2026 i bob Cyngor yng Nghymru.

3. Diwygiadau i'r Cyfrifon ers cyhoeddi'r Cyfrifon Drafft ym mis Mehefin 2026

3.1 Cwblhaodd Archwilio Cymru brofion manwl ar y Datganiad Cyfrifon drafft 2025/26. O ystyried y cyfnod amser cyfyngedig ar gyfer cau'r cyfrifon, roedd yr archwiliad hwn yn hanfodol i gadarnhau bod y cyfrifon yn gywir yn y prif feysydd ac yn rhoi golwg gwir a theg o berfformiad ariannol y Cyngor. Cwblhaodd Archwilio Cymru archwiliad cadarn yn erbyn terfyn amser byrrach Llywodraeth Cymru (LIC) o 30 Medi 2026.

3.2 Nododd y profion archwilio rai newidiadau a oedd eu hangen, a chafodd yr holl wallau perthnasol a argymhellodd y tîm archwilio eu diwygio, heblaw am un, i sicrhau bod y Cyfrifon yn sylweddol gywir. Mae'r camddatganiad na chywirwyd yn ymwneud â benthyciadau Tai i Gartrefi gan LIC a oedd wedi cael eu trin yn hanesyddol fel trefniadau asiantaeth. Mae'r tîm yn gwerthfawrogi fod Archwilio Cymru wedi dod â'r mater hwn i'w sylw. Ar ôl adolygu'r ddogfennaeth gan LIC, daeth yn amlwg bod y Cyngor yn ysgwyddo'r risg na fydd y benthyciadau'n cael eu had-dalu, felly, y Cyngor yw'r prif barti, ac mae angen i'r driniaeth gyfrifo adlewyrchu hyn yn iawn. Ni fydd y benthyciadau hyn yn cael eu cyfrif mwyach fel trefniadau asiantaeth. Bydd y tîm yn cwblhau adolygiad trylwyr o'r benthyciadau Tai i Gartrefi ac, yn ychwanegol, cynlluniau tebyg a gyllidir gan wahanol ffynonellau.

3.3 Yn ogystal â'r mater Tai i Gartrefi, mae crynodeb o'r newidiadau neu'r cywiriadau sylweddol wedi'u cynnwys yn **adroddiad Archwilio ISA260** Archwilio Cymru yn **Atodiad 2 o dudalen 17 ymlaen**. Cynyddodd yr archwiliad a'r Datganiad Cyfrifon terfynol alldro'r Cyngor gan £4k, gan gynyddu tanwariant 2025/26 i £3.636m. Roedd y rhan fwyaf o'r diwygiadau'n ymwneud â newidiadau yn y fantolen ac nid oedd ganddynt unrhyw effaith ar refeniw.

3.4 Roedd angen adroddiad IAS19 wedi'i ddiwygio'n ystod y cyfnod archwilio, ac arweiniodd at gywiriadau ar draws cofnodion pensiynau IAS19, cronfeydd wrth gefn a datganiadau cysylltiedig yn dilyn derbyn adroddiad actiwarïaid diwygiedig gan actwari'r Cyngor.

Cynhyrchodd prisiad y gronfa bensiwn unwaith eto ased net, y mae safonau cyfrifyddu yn ei atal i'r Cyngor ei gydnabod yn ei gyfrifon. Fodd bynnag, rhaid i'r Cyngor gydnabod ei rwymedigaethau heb eu cyllido, a gostyngodd o £9.259m y llynedd i £9.107m ar 31 Mawrth 2026. Dyma oedd y rhwymedigaeth pensiwn a gynhwyswyd yn y cyfrifon drafft. Y newid mwy sylweddol yw'r gofyniad newydd i adrodd ar amlygiad posibl y gronfa i gyfraniadau cytunedig ar gyfer gwasanaeth y gorffennol yn dilyn canlyniadau Prisiad bob tair blynedd yn 2025. Felly, mae'r rhwymedigaeth pensiwn wedi cynyddu gan £9.186m, i £18.293m.

3.5 Gostyngodd gwerth anheddau'r Cyngor ar y fantolen gan £7.438m yn dilyn adolygiad gan y rheolwyr.

3.6 Cynyddodd y credydwyr tymor byr ar y fantolen gan £2.705m wrth i'r croniad ar gyfer absenoldebau cronedig gael ei ddiwygio i gynnwys credydau cronedig o dan gynllun gweithio'n hyblyg y Cyngor ac amser rhydd yn lle tâl (TOIL) a enillwyd yn hytrach na gwyliau blynyddol yn unig.

3.7 Mae'r Cyngor yn ymddiriedolwr ar gyfer sawl ymddiriedolaeth, y mwyafrif ohonynt yn ychydig o werth, gyda dwy ymddiriedolaeth mwy, h.y. Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ac Ymddiriedolaeth Cronfa'r Degwm. Mae'r Cyngor yn dal arian parod ar ran yr ymddiriedolaethau ac fe ddylid ei adrodd fel credydwyr ar y fantolen. Ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach, dosbarthwyd dyledwyr a chredydwyr ar y fantolen yn ddibynnol a p'un oedd y balans yn ddebyd neu gredyd. Dylai'r balansau unigol yma fod wedi'u cyfuno a'u cynnwys fel credydwr net; felly, mae'r dyledwyr tymor byr wedi gostwng gan £1.267m, ac mae credydwyr tymor byr wedi cynyddu gan £1.267m.

3.8 Roedd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (NWEAB) yn gydbwyllgor y chwe Chyngor Gogledd Cymru a phartneriaid eraill. Cyngor Gwynedd oedd yr awdurdod arweiniol ar gyfer y pwyllgor hwn. Roedd pob un o'r chwe Chyngor yn adrodd eu cyfran nhw o'r incwm, gwariant, asedau, rhwymedigaethau a chronfeydd wrth gefn NWEAB yn eu cyfrifon perthnasol. Trosglwyddodd y NWEAB i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (NWCJC) ar 1 Ebrill 2025, sydd hefyd yn cynnwys y chwe Chyngor a phartneriaid eraill. Mae'r NWCJC yn gorff sector cyhoeddus cyfreithiol a grëwyd gan ddeddfwriaeth LIC. Nawr bod NWEAB yn weithrediad o'r NWCJC, nid yw'r Cyngor, ynghyd â chynghorau arall Gogledd Cymru a phartneriaid, angen cynnwys gwerth net asedau NWEAB yn y cyfrifon. Er nad oedd canlyniadau NWEAB ar gyfer 2025/26 wedi'u cynnwys yn y datganiad cyfrifon, roedd £913k o falensau dyled net a'r gwerth cyfatebol o'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig yn parhau yn y cyfrifon drafft . Mae'r rhain a phob eitem arall yn y fantolen yn ymwneud â NWEAB wedi cael eu tynnu o'r datganiad cyfrifon terfynol ac maent wedi cael effaith fechan iawn ar refeniw oherwydd bod dyledwr yn talu rhan fwyaf o werth y cronfeydd wrth gefn, felly, doedd dim arian parod wedi'i drosglwyddo i'r NWCJC.

3.9 Roedd diwygiadau i werth rhai o adeiladau'r Cyngor a rhai ailddosbarthiadau rhwng categorïau asedau'r Cyngor. Y gwerth mwyaf o'r rhain oedd £621k. Mae manylion y rhain wedi'u cynnwys yn yr adroddiad archwilio ar dudalennau 19 a 20.

3.10 Nodwyd nifer fechan o wallau yn y nodiadau i'r cyfrifon hefyd gan yr Archwilydd, ac fe'u nodir yn adroddiad yr Archwilydd.

4. Argymhellion

4.1 Derbyn Datganiad Cyfrifon 2025/26 ac argymell fod Cadeirydd, Cyngor Sir Ynys Môn a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn cael yr awdurdod i lofnodi'r cyfrifon archwiliedig terfynol ar gyfer 2025/26.

MARC JONES
CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
28 MEDI 2026

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Datganiad o'r Cyfrifon 2025/26









Cynnwys

Cyfeirnod	Disgrifiad	Tudalen
	Adroddiad Naratif	1
	Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon	9
	Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru	10
	Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	15
	Dadansoddiad Gwariant a Chyllido	16
	Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn	17
	Y Fantolen	18
	Datganiad Llif Arian	19
	Nodiadau i'r Cyfrifon	20
Nodyn 1	Nodyn ar y Dadansoddiad Gwariant a Chyllido	20
Nodyn 2	Safonau Cyfrifo sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu hyd yma	21
Nodyn 3	Barnau Allweddol wrth weithredu'r Polisiau Cyfrifo	22
Nodyn 4	Rhagdybiaethau a wnaed ynghylch ansicrwydd yn y dyfodol ac amcangyfrifon a ffynonellau eraill o ansicrwydd	22
Nodyn 5	Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen	23
Nodyn 6	Addasiadau rhwng Sail Gyfrifo a Sail Cyllido dan Reoliadau	24
Nodyn 7	Cronfeydd Clustnodedig Wrth Gefn	26
Nodyn 8	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	28
Nodyn 9	Cronfeydd wrth Gefn Na Ellir Eu Defnyddio	28
Nodyn 10	Gwariant Gweithredol Arall	31
Nodyn 11	Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi	31
Nodyn 12	Trethiant ac Incwm Grantiau Amhenodol	31
Nodyn 13	Asedau anghyfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar	32
Nodyn 14	Ymrwymiadau Cyfalaf Sylweddol	35
Nodyn 15	Asedau Treftadaeth	35
Nodyn 16	Eiddo Buddsoddiad	36
Nodyn 17	Gwariant a Cyllido Cyfalaf	37
Nodyn 18	Dyledwyr	38
Nodyn 19	Arian Parod a Chywerthoedd Arian	39
Nodyn 20	Credydwyr	39
Nodyn 21	Darpariaethau	39
Nodyn 22	Llif Arian o Weithgareddau Gweithredol	40
Nodyn 23	Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi	40
Nodyn 24	Llif Arian o Weithgareddau Cyllido	40
Nodyn 25a	Dadansoddiad o Natur Gwariant ac Incwm	41

Cyfeirnod	Disgrifiad	Tudalen
Nodyn 25b	Incwm Cylchrannol	41
Nodyn 26	Lwfansau Aelodau	42
Nodyn 27	Cydnabyddiaeth Ariannol i Swyddogion	43
Nodyn 28	Pecynnau Ymadael	45
Nodyn 29	Ffioedd Archwilio Allanol	45
Nodyn 30	Incwm Grantiau	46
Nodyn 31	Partïon Cysylltiedig	48
Nodyn 32	Cronfeydd Ymddiriedol	51
Nodyn 33	Cynllun Pensiwn Athrawon	52
Nodyn 34	Cynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig Llywodraeth Leol	53
Nodyn 35	Offerynnau Ariannol	59
Nodyn 36	Natur a maint y risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol	64
Nodyn 37	Cyd-bwyllgorau a Chyllidebau Cyfun	68
Nodyn 38	Trefniadau Asiantaeth	69
Nodyn 39	Y Dreth Gyngor	71
Nodyn 40	Trethi Annomestig (TA)	72
Nodyn 41	Rhwymedigaethau Amodol	73
Nodyn 42	Asedau Wrth Gefn	73
Nodyn 43	Prydlesi	74
Nodyn 44	Polisïau Cyfrifyddu	75
Cyfrif CRT	Cyfrif Refeniw Tai (CRT) - Datganiad Incwm a Gwariant - Datganiad Symudiadau ar Falans y CRT Nodiadau ar y CRT	101
Atodiad 1	Datgeliad Parti Cysylltiedig – Cynrychiolaeth Cydran ddeiliaid gyda Sefydliadau Trydydd Parti	105
Atodiad 2	Geirfa	108

Adroddiad Naratif

Cynhyrchir y Datganiad Cyfrifon yn flynyddol i roi gwybodaeth glir am gyllid y Cyngor i etholwyr, trethdalwyr lleol, Aelodau'r Cyngor, gweithwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb.

Nod yr adroddiad naratif hwn, sy'n adran allweddol o'r cyfrifon, yw darparu canllaw effeithiol i'r materion mwyaf arwyddocaol a nodir yn y cyfrifon. Mae hyn er mwyn darparu esboniad teg, cytbwys, a hawdd ei ddeall o sefyllfa ariannol y Cyngor ac i helpu i ddehongli'r datganiadau ariannol.

Daeth Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 i rym ar 31 Mawrth 2015, fel y cawsant eu diwygio gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018. Yn unol â'r rheoliadau hyn, rhaid i Awdurdodau Lleol yng Nghymru baratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â'r rheoliadau hyn ac arferion priodol.

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys: -

Datganiadau Ariannol Craidd: -

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys y datganiadau ariannol craidd, sef:-

1. **Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES**) **–** sy'n dangos y gost cyfrifo o ddarparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn, gan ddefnyddio arferion cyfrifo a dderbynnir, yn hytrach na'r swm fydd yn cael ei gyllido o'r trethi.
2. **Dadansoddiad Gwariant a Chyllido (EFA) –** sy'n dangos y wybodaeth yn y CIES ond, yn ogystal, mae'n darparu addasiadau cyfrifo sydd yn cael eu canslo allan yn Nodyn 6 er mwyn sicrhau nad yw'r addasiadau yma'n cael ei cyllido gan Drethdalwyr y Dreth Gyngor. Mae'r golofn gyntaf o'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllido yn darparu gwir effaith perfformiad ariannol y flwyddyn ar falansau a chronfeydd wrth gefn y Cyngor a'r CRT.
3. **Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn (MIRS) –** sy'n dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor, wedi ei ddadansoddi yn ôl cronfeydd wrth gefn y gellir eu ddefnyddio a'r rhai na ellir eu defnyddio. Mae'r datganiad yn dangos cost wirioneddol darparu gwasanaethau'r Awdurdod a'r modd y caiff y costau hyn eu cyllido o'r gwahanol gronfeydd wrth gefn.
4. **Y Fantolen** – sy'n dangos gwerth yr asedau a'r rhwymediaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Caiff asedau net eu cyfatebu gan y cronfeydd wrth gefn sydd gan yr Awdurdod.
5. **Datganiad Llif Arian** – sy'n dangos y newidiadau o ran arian a chywerthoedd arian y Cyngor yn ystod cyfnod yr adroddir arno.

Gweledigaeth a Blaenoriaethau Cyngor Sir Ynys Môn

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn awdurdod unedol sy'n gwasanaethu poblogaeth o oddeutu 69,000, mae wedi'i leoli ar arfordir gogleddol Cymru ac mae'n ardal sy'n 276 milltir sgwâr. Ynys Môn yw'r ynys fwyaf yng Nghymru o bell ffordd, a'r seithfed ynys fwyaf ym Mhrydain. Ynys Môn hefyd yw'r ynys fwyaf ym Môr Iwerddon o ran maint, a'r ail ynys fwyaf poblog ym Mhrydain.

Mae'r Cyngor yn sefydliad sy'n cael ei arwain gan wleidyddiaeth ac mae wedi mabwysiadu model Arweinydd a Chabinet. Roedd gan y Cyngor 35 o Aelodau etholedig yn cynrychioli 14 ward aml-Aelod ar 31 Mawrth 2026. Cynhaliwyd etholiadau ar 5 Mai 2022 ar gyfer holl seddi'r Cyngor, ac ar ôl hynny ffurfiodd yr ymgeiswyr llwyddiannus y Cyngor llawn, a fyddent yn parhau i fod mewn lle tan ddechrau mis Mai 2027. Plaid Cymru yw'r blaid sy'n rheoli yn y Cyngor gyda mwy o Gynghorwyr Plaid Cymru nag unrhyw grŵp neu blaid arall.

Cynllun y Cyngor 2023/28

Mae Cynllun y Cyngor 2023/28 yn amlygu bod gweledigaeth hirdymor y Cyngor yn parhau fel "Creu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu". Amcanion strategol cynllun newydd y Cyngor yw:

- Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg;
- Amddiffyn a chefnogi'r rhai sy'n agored i niwed;
- Cynyddu cyrhaeddiad a chyflawniad addysgol;
- Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu cartrefi o ansawdd, fforddiadwy a hygyrch;
- Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys;
- Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

Gellir gweld Cynllun y Cyngor 2023/28 ar y wefan yn y cyfeiriad gwe:

Cynllun y Cyngor a pherfformiad (llyw.cymru)

Senario Ariannol

Derbyniodd pob un o'r 22 Cyngor yng Nghymru setliad ariannol gwell na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26. Roedd y setliad terfynol yn cynnwys terfyn isaf o 3.8% gydag Ynys Môn yn derbyn cynnydd o 0.2% ar y setliad dros dro. Aeth hyn â chyfanswm gwerth yr AEF i £135.881 miliwn. Yn ychwanegol at hynny, nododd y setliad terfynol y byddai grant pellach o £30 miliwn ar draws Cymru yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu gyda'r costau a wynebir gan awdurdodau lleol wrth ofalu am gleientiaid oedrannus adref neu mewn gofal preswyl neu nyrsio, yn hytrach na chleientiaid yn gorfod mynd i'r ysbyty. Bydd y £30 miliwn ychwanegol hwn yn rhoi £663k o gyllid grant ychwanegol i'r Cyngor.

Wrth osod cyllideb 2025/26 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru pecyn cyllid ychwanegol o £220 miliwn i gefnogi costau Yswiriant Gwladol uwch ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Ar gyfer Ynys Môn cyfatebai hyn i incwm grant ychwanegol o £2.223m. Gosododd y Cyngor gyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26, a olygodd angen am gynnydd o 8.5% yn y Dreth Gyngor a defnyddio £2.460 miliwn o arian wrth gefn y Cyngor.

Y Gyllideb

Mabwysiadwyd Cyllideb a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ar gyfer 2025/26 gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2025, ac mae'n rhoi darlun cyffredinol o sefyllfa ariannol y Cyngor ac yn sicrhau bod cyllid y Cyngor yn cael ei ddyrannu i gyflawni ei flaenoriaethau. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gael yn:-

Cyngor Sir Ynys Môn - eitem 9

Roedd y setliad yn well na'r disgwyl yn ystod y rhan fwyaf o'r cam cynllunio cyllideb ac fe ddarparodd £135.881m i'r Cyngor, sef cynnydd ariannol o £4.974m (3.80%) ar ôl ystyried rhoddion o £4.974m a dderbyniwyd yn 2024/25, a drosglwyddwyd i'r setliad yn 2025/26. Penderfynodd y Cyngor gynyddu Treth Cyngor Band D gan 8.5%, a gynyddu'r tâl am eiddo Band D i £1,705.95.

Gosodwyd y gyllideb refeniw ar £195.443m a gyllidir gan setliad, treth cyngor ag arian wrth gefn £2.460m. Penderfynodd y Cyngor hefyd gymeradwyo Strategaeth Gyfalaf 2025/26 a Rhaglen Gyfalaf Gychwynnol 2025/26 o £44.294m, yn ogystal â Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2025/26.

Monitro'r Gyllideb

Mae gan y Cyngor weithdrefn sefydledig ar gyfer monitro'r cyllidebau. Mae hyn yn caniatáu i'r Cyngor liniaru unrhyw orwariant a'r effaith sy'n debygol o ddigwydd ar wasanaethau. Gall cyllid ychwanegol gan gronfeydd wrth gefn lle bo hynny'n bosibl, ddarparu ar gyfer achosion lle mae angen galw am wasanaeth. Mae'r wybodaeth am Refeniw a Chyfalaf, ochr yn ochr â'r CRT, yn cael eu hadrodd i'r Is-grŵp Craffu Cyllid, y Pwyllgor Craffu ac yna'r Pwyllgor Gwaith bob chwarter, sy'n hwyluso lefel o her yn ogystal â gallu lliniaru unrhyw effeithiau debygol o ddigwydd ar gyfer gwasanaethau.

Perfformiad

Mae'r Cyngor yn mesur ei berfformiad yn rheolaidd ac mae dolen isod ir adroddiad sy'n dangos perfformiad y Cyngor yn erbyn ei amcanion strategol fel y nodir yng nghynllun y Cyngor.

Cyngor Sir Ynys Môn - Eitem 8 ar y agenda

Gwariant Refeniw

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn amlygu gwariant a chyllido'r Cyngor yn unol â gofynion cyfrifeg. Mae'r Cyngor yn mesur perfformiad ariannol yn erbyn gweithgarwch a gynlluniwyd ar ffurf cyfrifon rheoli'r Cyngor. Yn 2025/26, nododd y Cyngor danwariant o £2.636m yn erbyn gweithgarwch arfaethedig o £195.442m (cyllideb net)

Mae'r tabl isod yn adlewyrchu'r gyllideb derfynol ar gyfer 2025/26 ac incwm a gwariant gwirioneddol yn ei erbyn: -

Gwasanaethau	Cyllideb Blynyddol £'000	Alldro £'000	Amrywiant £'000
Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau	71,519	70,516	(1,003)
Gwasanaethau Oedolion	42,356	41,483	(873)
Gwasanaethau Plant	17,230	18,567	1,337
Tai	2,991	2,990	(1)
Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff	20,495	20,384	(111)
Rheoleiddio a Economaidd	6,083	6,034	(49)
Trawsnewid	8,110	7,527	(583)
Adnoddau	3,906	3,909	3
Gwasanaethau Corfforaethol	6,241	6,572	331
Cyfanswm Gwasanaethau'r Cyngor	**178,931**	**177,982**	**(949)**

Balans cronfa gyffredinol y Cyngor oedd £18.160m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Fel rhan o'r gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2025/26, trosglwyddwyd £2.459m o'r gronfa gyffredinol, gan leihau'r balans i £15.701m. Yn ystod y flwyddyn, rhyddhawyd £716k o'r gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi nad oedd ei angen mwyach i'r gronfa gyffredinol. Law yn llaw â thanwariant y Cyngor yn ystod 2025/26 o £2.635m, mae hyn wedi cynyddu balans y gronfa gyffredinol i £19.051m, fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2026.

Crynodeb o Symudiadau yng Nghronfeydd Wrth Gefn y Cyngor 2025/26

	Cronfa Wrth gefn Gyffredinol Cronfa'r Cyngor	Cronfeydd Wrth Cefn Clustnodedig Cronfa'r Cyngor	Cronfeydd Wrth Gefn Ysgolion	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	Cronfa wrth Gefn Cyfalaf heb ei gymhwyso	Cronfeydd Wrth Gefn Y Bwrdd Uchelgais	Cronfa Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	Cronfa Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy
Eitemau sy'n effeithio ar Gronfeydd Wrth Gefn y Cyngor 2025/26	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Balans Agoriadol ar Gronfa Gyffredinol y Cyngor 1 Ebrill 2025	(18,160)	(20,759)	(5,074)	(2,616)	(538)	(913)	(7,977)	-	(56,037)
Net gor/ (tan) wariant 2025/26	(2,636)	-	-	-	-	-	4,890		2,254
Balans y Cyngor ar ôl gor / (tan) wariant	(20,796)	(20,759)	(5,074)	(2,616)	(538)	(913)	(3,087)	-	(53,783)
Trosglwyddiadau net o/(i) Cronfeydd wrth gefn ar gyfer cyllid cymeradwy	1,745	(3,676)	746	(165)	(697)	913	-	-	(1,134)
Balans y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol ar 31 Mawrth 2026	(19,051)	(24,435)	(4,328)	(2,781)	(1,235)	-	(3,087)	-	(54,917)

Gwariant Cyfalaf

Mae'r rhaglen gyfalaf yn cefnogi amcan ehangach y Cyngor i ddarparu gwasanaethau ac i gefnogi twf economaidd.

Ym mis Mawrth 2025, cymeradwyodd y Cyngor raglen gyfalaf gychwynnol o £44.294m ac, ym mis Gorffennaf 2025, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith bod £2.529m o lithriad o 2024/25 yn cael ei ddwyn ymlaen a'i ychwanegu at gyllideb 2025/26. Rhoddodd hwn gyllideb ddiwygiedig o £46.823m.

Yn ystod y flwyddyn, ychwanegir cynlluniau ychwanegol at y rhaglen capital, i adlewyrchu newidiadau cyllido ac unrhyw gyllid grant ychwanegol a dderbynnir yn ystod y flwyddyn. Ychwanegwyd cyfanswm o £23.825m at y rhaglen gyfalaf. Mae hyn yn dod â chyfanswm y gyllideb Cyfalaf ar gyfer 2025/26 i £70.648m.

Mae'r rhaglen wedi gwneud cynnydd cyson yn ystod y flwyddyn, gan gyflawni cyfradd gyflawni o 77%%. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r cynlluniau sy'n weddill yn cael eu cyflawni yn y flwyddyn ariannol nesaf. O'r cyfanswm gwariant hwn o £54.662m, cyfalafwyd £24.499m a'i ychwanegu at werth asedau ym Mantolen y Cyngor. Codwyd y gweddill ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, gan ei fod naill ai i gefnogi asedau nad ydynt o dan berchnogaeth uniongyrchol y Cyngor (£10.181m) neu nad oedd yn cynyddu gwerth yr asedau cyfalaf (£19.983m). Fodd bynnag, gwellaodd y gwariant cyfalaf hwn y cyflwr asedau ac ar sawl prosiect estynnodd oes yr asedau.

Mae IFRS16 Rhentu o 1 Ebrill 2024 yn gofyn i bob awdurdod lleol ychwanegu asedau rhentu, uwchben eithriad rhenti gwerth isel (llai na £10k i'r Cyngor), at gyfrifon y Cyngor yn debyg i asedau a berir. Yn 2025/26 ychwanegwyd £1.320m o asedau Hawl Defnyddio newydd at y fantolen. (£2.229m in 2024/25).

Derbyniodd y Cyngor swm sylweddol o grantiau cyfalaf yn ystod y flwyddyn gan Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac eraill o £25.937m (£37.883m yn 2024/25). Roedd hyn yn cynnwys £12.179m o grantiau cyfalaf gan Llywodraeth Cymru ar gyfer gwelliant a datblygiad tai'r Cyngor. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i barhau gyda gwelliannau i gyflawni Safonau Ansawdd Tai Cymru a chynyddu nifer tai'r Cyngor ar Ynys Môn. Roedd elwa hefyd o grantiau sylweddol, gan gynnwys £8.759m ar gynlluniau economaidd a adfywio, £4.075m ar bwmpiau gwres carbon isel mewn sawl ysgol a chartrefi gofal, £3.136m o grantiau Ffyrdd, £2.824m ar brosiectau addysgol ynghyd â chyllid ychwanegol ar gyfer sawl prosiect arall.

Mae'r tabl isod yn manylu ar y gwariant cyfalaf, fesul gwasanaeth: -

Gwasanaethau	**2025/26 £'000**	**2024/25 £'000**
Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau	3,070	8,265
Gwasanaethau Oedolion	1,238	486
Tai	1,620	1,966
Tai CRT	25,114	27,468
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	13,072	19,026
Rheoleiddio	9,611	7,948
Trawsnewid	937	396
Ased Rhwymedigaethau Prydles	1,320	2,229
Cyfanswm Cronfa'r Cyngor	**55,982**	**67,784**

Nodyn ynghylch cyfleusterau benthyca cyfredol a benthyca cyfalaf yr Awdurdod:

Cyllidir Gan	2025/26 £'000	Canran %
Benthyca Digefnogaeth	1,491	2.66%
Benthyca a Chefnogaeth	4,229	7.55%
Grantiau Cyfalaf	25,937	46.33%
Derbyniadau Cyfalaf	53	0.09%
Cyfraniad Refeniw	12,935	23.11%
Grantiau REFCUS	9,447	16.88%
Benthyciad	385	0.69%
Cronfa Wrth Gefn Cyfalaf	1,505	2.69%
Cyfanswm	**55,982**	**100%**

Ar 31 Mawrth 2026, roedd gan yr Awdurdod £123.556m o Fenthyciadau sylweddol (ac eithrio llog cronedig o £1.850m). Yn ogystal, roedd y Cyngor yn dal £2.349m o ddyledion hawl defnyddio ar gyfer y dyfeisiau hawl defnyddio (hawl eu rhentu) i'r Cyngor. Mae hyn yn ymwneud â'r dyledion sydd ar ôl ar 31 Mawrth 2025 ar gyfer dyfeisiau rhent yn £10k neu'n uwch. Mae IFRS16 Rhenti, o 1 Ebrill 2024, yn gofyn i'r holl awdurdodau lleol ychwanegu dyfeisiau rhent, yn ogystal â'r eithriad rhent gwerth bychan (llai na £10k i'r Cyngor), i gyfanswm y Cyngor, yn debyg i assedau yr Cyngor. Mae'r taliadau sy'n weddill dan y rhent neu'r cytundeb wedyn yn cael eu trin fel benthyciadau a'u rhannu rhwng brif ac ailenillion, yn debyg i fenthyciadau traddodiadol.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, Gofyniad Ariannu Cyfalaf yr Awdurdod (GAC), sydd yn ei hanfod yn fesur o angen benthyca sylfaenol y Cyngor, oedd £156.537m, sy'n nodi bod y Cyngor wedi defnyddio £32.981m o'i falansau arian dros ben ei hun i ariannu gwariant cyfalaf. Yn Natganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024/25, y Terfyn Benthyca Awdurdodedig a gymeradwywyd gan y Cyngor oedd £176m, felly, mae'r Awdurdod ymhell o fewn ei derfyn benthyca gyda benthyca allanol o £123.556m.

Cronfeydd wrth gefn, perfformiad ariannol a sefyllfa ariannol

Roedd balans Cronfa Gyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2026 yn £19.051m, sy'n cyfateb i 9.75% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer 2025/26. Nod strategaeth ariannol y Cyngor yw cadw o leiaf 5% o'r gyllideb refeniw net fel Balansau Cyffredinol (£9.772m). O ganlyniad, mae Balans Cyffredinol y Cyngor yn uwch na'r targed. Fodd bynnag, gyda'r pwysau cost a galw parhaus sy'n codi'r costau sy'n wynebu'r Cyngor, mae'r llethr hwn yn cynnig mwy o sefydlogrwydd ariannol i'r Cyngor yn enwedig gyda'r materion cyllido sy'n effeithio ar y Llywodraeth a'r holl sefydliadau sector cyhoeddus.

Mae'r perfformiad ariannol ar gyfer 2025/26 wedi dangos tanwariant net o £2.635m ar Gronfa'r Cyngor. Roedd hyn yn cynnwys gorwariant o wasanaethau megis gorwariant o £1.337m yn y Gwasanaethau Plant, sy'n parhau i brofi mwy o alw. Mae nifer o wasanaethau wedi tanwario neu wedi creu incwm dros ben. Mae'r Gwasanaeth Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau wedi tanwario £1.003m ac mae'r Gwasanaeth Oedolion wedi tanwario £873k. Cyfanswm y tanwariant o wasanaethau oedd £949k.

Yn ogystal, roedd peth gorwariant mewn perthynas â Chyllid Corfforaethol, megis £336k ar gyfer dyledion a gafodd eu dileu a chynnydd yn y lwfans colled amhariad (a elwid gynt yn ddarpariaeth dyled drwg). Llwyddodd y budd-daliadau a ddyfarnwyd i greu tanwariant o £189k, gyda Chyllid Cyfalaf yn creu tanwariant o £771k oherwydd llog dros ben derbyniadwy ac oedi wrth fenthyca allanol.

Mae lefelau uchel parhaus y cyfraddau llog gan Fanc Lloegr o fudd i'r Cyngor gan fod y llog sy'n dderbyniadwy o'i fuddsoddiad o gronfeydd dros ben yn parhau i gynhyrchu lefelau llog llawer uwch na'r degawd blaenorol. Ar y cyfan, mae Cyllid Corfforaethol wedi tanwario £393k. Mae'r Cyngor wedi creu incwm dros ben o £1.212m ar premiwm y Dreth Gyngor a £119k drwy'r Dreth Gyngor gan arwain at gyfanswm tanwariant o £2.636 miliwn ar gyfer 2025/26.

Cyfrif Refeniw Tai

Roedd balans Cyfrif Refeniw Tai'r Cyngor yn £3.087m. Gan gynnwys y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf ar 31 Mawrth 2026. Mae'r gronfa wedi'i chlustnodi i ariannu cost datblygu eiddo newydd fel y nodir yng Nghynllun Busnes HRA 30 mlynedd y Cyngor. Bydd y cydbwysedd hwn yn oedi'r angen i'r CRT fenthyca ar gyfer adnewyddu neu adeiladu anheddau cyngor newydd. Mae'r CRT wedi cael blwyddyn lwyddiannus iawn arall o wella, prynu ac adeiladu anheddau cyngor newydd ac oherwydd y lefelau uchel o grantiau allanol nid yw hyn wedi effeithio'n sylweddol ar falansau'r CRT yn 2025/26.

Darpariaethau

Cyfanswm y darpariaethau a oedd gan y Cyngor oedd £2.316m ar 1 Ebrill 2025. Yn ystod y flwyddyn, cynyddodd y balans o £0.269m i £2.585m. Cynyddodd y ddarpariaeth yswiriant i £738k yn unol â'r angen amcangyfrifedig. Cyfanswm y darpariaethau tymor byr oedd £1.123m, i ddarparu ar gyfer costau disgwyliedig yn y dyfodol a allai godi o rwymedigaethau'r gorffennol. Gostyngwyd cyfanswm y ddarpariaeth ar gyfer Safle Gwastraff Penhesgyn gan £0.156m oherwydd cost y gwaith gwella a wnaed ar y safle tirlenwi yn 2025/26 a symud £0.036m i arian wrth gefn clustnodedig. Dangosir manylion y symudiadau mewn darpariaethau yn Nodyn 21 i'r Cyfrifon - Darpariaethau.

Cynllun Pensiwn Athrawon - Mae athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan yr Adran Addysg. Mae'r cynllun yn rhoi buddion penodol i athrawon ar ôl iddynt ymddeol ac mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y costau drwy wneud cyfraniadau yn seiliedig ar ganran o gyflogau pensiynadwy aelodau.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion a gweithwyr eraill, mae'r Cyngor yn cynnig buddion ymddeol drwy gymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Mae hwn yn gynllun a gyllidir, sy'n golygu bod y Cyngor a gweithwyr yn talu cyfraniadau i'r gronfa, wedi ei gyfrifo ar lefel a fwriedir i gydbwyso rhwymedigaethau'r pensiwn gydag asedau buddsoddi. Ni fydd buddion yn daladwy hyd nes y bydd gweithwyr yn ymddeol, ond mae gan y Cyngor ymrwymiad i wneud y taliadau i'r Gronfa Bensiwn y mae angen eu datgelu ar yr adeg y mae'r gweithwyr yn ennill eu hawl yn y dyfodol.

Mae dau brisiad wedi'u cwblhau ar gyfer y gronfa bensiwn. Mae'r rhain yn cael eu cwblhau gan Actiwari sy'n arbenigwr prisio pensiwn. Y cyntaf yw'r prisiad cyllido sy'n cael ei gwblhau bob tair blynedd a gwblhawyd ddiwethaf yn 2025 gyda dyddiad effeithiol o 1 Ebrill 2026. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn ystyried yr asedau gwirioneddol y buddsoddir y gronfa ynddynt ar y dyddiad prisio ac yn asesu a fydd yr enillion ar yr asedau yn ariannu gwerth yr holl daliadau yn y dyfodol yn llawn i aelodau yn seiliedig ar yr holl fudd-daliadau a enillir hyd at y dyddiad prisio. Yna gostyngir gwerth presennol y rhwymedigaethau, fel bod y gwerth yn cael ei drosi i'w gwerth fel ar y dyddiad prisio. Os yw'r prisiad yn cyfrifo nad yw'r gronfa bensiwn yn cael ei hariannu'n llawn, yna bydd cyfraddau cyfraniadau'r Cyngor yn cynyddu i symud tuag at gyllid o 100% dros gyfnod o amser y cytunwyd arno. Os yw'r prisiad yn dangos bod y cynllun yn fwy na 100% wedi'i ariannu, yna gall cyfraniadau i'r gronfa bensiwn leihau.

Yr ail brisiad yw'r prisiad cyfrifeg (a ddefnyddir at ddibenion y cyfrifon hyn) sy'n fwy damcaniaethol ac yn rhagweld beth fyddai atebolrwydd neu ased y Cyngor pe bai'r gronfa bensiwn yn peidio â bodoli. Mae'r prisiad hwn yn seiliedig ar asedau a rhwymedigaethau ar ddyddiad y fantolen. Mae'n ddamcaniaethol oherwydd y rheolau a'r rheoliadau i ddiogelu'r gronfa bensiwn i sicrhau ei bod yn bodoli cyhyd ag y mae rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn yn gofyn ac oherwydd y rhagdybiaethau y mae'n ofynnol i'r Actiwari eu gwneud. Mae hyn yn seiliedig ar ofynion cyfrifyddu nad ydynt yn effeithio ar gronfeydd gwirioneddol y Cyngor. Mae canlyniadau'r prisiad cyllid yn effeithio ar arian y cyngor yn unig.

Y prisiad cyfrifeg pensiwn yw'r gwerth a adroddir bob blwyddyn yn natganiad cyfrifon y Cyngor. Mae rhai taliadau yn effeithio ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, CIES ac adroddir y prisiad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn y fantolen. Fodd bynnag, mae'r rhain yn cael eu gwrthbwyso gan addasiadau yn natganiad y symudiad mewn cronfeydd wrth gefn i'w canslo fel nad oes angen i'r dreth gyngor ariannu'r addasiadau cyfrifeg statudol hyn.

Yn hanesyddol, mae mantolen y Cyngor wedi dangos bod gwerth y Gronfa Bensiwn fel rhwymedigaeth sylweddol. Mae gwerth teg holl fuddsoddiadau'r Gronfa Bensiynau yn cael ei wrthbwyso yn erbyn gwerth presennol rhwymedigaethau'r Gronfa Bensiwn ond fel arfer nid yw'n ddigon i dalu am holl werth presennol amcangyfrifedig y rhwymedigaethau pensiwn.

Yn debyg i'r llynedd, mae prisiad cyfrifyddu'r Actiwary wedi penderfynu bod gwerth yr asedau yn fwy na gwerth y rhwymedigaethau a bod y Gronfa Bensiwn mewn sefyllfa asedau net. Wrth lunio'r prisiad, mae'r Actiwari yn defnyddio'r gyfradd cynnyrch ar Giltiau'r Llywodraeth fel y gyfradd ddisgownt ar gyfer rhwymedigaethau yn y dyfodol. Wrth i'r gyfradd hon gynyddu, mae'r gyfradd ddisgownt yn cynyddu, sy'n cael yr effaith gyffredinol o leihau gwerth presennol rhwymedigaethau yn y dyfodol.

Fodd bynnag, nid yw'r safon cyfrifo pensiynau IAS19 a ddiweddarwyd gan IFRIC14 yn caniatáu rhoi gwybod am ased net pensiwn ar gyfer pensiynau buddion wedi'u diffinio a ariennir fel Cronfa Bensiwn Gwynedd, gan na all y Cyngor sylweddoli gwerth yr ased ar hyn o bryd. Wrth benderfynu ar y gwerth cario ar y fantolen, mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r cysyniad doeth ac mae ganddo'r sefyllfa asedau net wedi'i haddasu ar rwymedigaethau a ariennir o i £0. Fodd bynnag, mae'r actiwari wedi cynghori y dylid dangos rhwymedigaethau net rhwymedigaethau heb eu hariannu ar y fantolen. Felly, mae rhwymedigaeth o £18.293m (£9.259m yn 2024/25) wedi'i gynnwys yn yr rhwymedigaethau pensiynau tymor hir ar y fantolen a ariennir gan y gronfa wrth gefn na ellir ei defnyddio ar bensiynau. Adroddir canlyniadau llawn y prisiad cyfrifeg yn y nodyn Pensiynau Llywodraeth Leol 34.

Porthladd Rhydd

Sefydlodd y Cyngor gwmni'r Porthladd Rhydd ar 25 Tachwedd 2024; fodd bynnag, roedd y cwmni'n segur trwy gydol 2025/26 ac ni ymgymerodd ag unrhyw weithgarwch masnachu yn ystod y flwyddyn. Nid oedd ganddo unrhyw gyflogeion ac ni chyflawnodd unrhyw weithgareddau gweithredol yn 2025/26. Llofnodwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Cyngor sydd yn nodi'r egwyddorion sy'n llywodraethu gweithrediad y Porthladd Rhydd. Pan lofnodwyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu £25m o arian cyfalaf a thalwyd y rhandaliad cyntaf o £11,566,667 i'r Cyngor ar 27 Mawrth 2026. Defnyddir yr arian hwn ar gyfer prosiectau y manylir arnynt yn Atodlen 4 o'r llythyr cynnig grant.

Busnes Gweithredol

Paratoir y cyfrifon ar sail 'busnes gweithredol'. Mae hyn yn golygu bod y cyfrifon wedi'u paratoi ar sail bod y Cyngor yn parhau ar ei ffurf bresennol i'r dyfodol. Crëwyd Cyngor Sir Ynys Môn drwy statud / cyfraith yn 1996 a bydd yn parhau ar ei ffurf bresennol hyd nes y caiff ei newid drwy statud. Gostyngodd cyfanswm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy £1.120mk ond maent yn parhau'n gadarn ar £54.917m. Mae'r cynnydd yng nghronfa wrth gefn gyffredinol y Cyngor o £18.160m i £19.051m yn gwella gwydnwch ariannol y Cyngor ac mae'n annhebygol iawn y bydd y Cyngor yn cyhoeddi hysbysiad Adran 114 yn y flwyddyn ariannol 2026/27. Cyhoeddir yr hysbysiadau hyn gan Gynghorau sydd mewn anhawster lle mae eu gwariant yn fwy na'u hincwm ac mewn diffyg cyllidebol.

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD CYFRIFON

Cyfrifoldebau Cyngor Sir Ynys Môn

Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn:-

- wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau fod gan un o'i swyddogion y cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn y Cyngor hwn, y swyddog yw'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) sydd hefyd wedi'i ddynodi'n Swyddog Adran 151;
- reoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau;
- gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Adran 151

Y Swyddog Adran 151 sydd yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor yn unol â'r ymarferion priodol fel y gosodir yn y Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig ("Y Côd").

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, mae'r Swyddog Adran 151 wedi:-

- dewis polisïau cyfrifo priodol ac yna eu defnyddio'n gyson;
- ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus;
- cydymffurfio â Chôd Ymarfer Awdurdod Lleol CIPFA.

Hefyd, mae'r Swyddog Adran 151 wedi:-

- cadw cofnodion cyfrifo priodol ac amserol;
- cymeryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Tystysgrif

Tystiaf fod y Datganiad Cyfrifon yma yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar y dyddiad cyfrifo a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026:

Llofnodwyd:

Richard Marc Jones FCPFA

CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151

Llofnodwyd:

Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas

CADEIRYDD CYNGOR SIR YNYS MÔN

Dyddiedig:

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Sir Ynys Môn

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid, y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llifoedd Arian Parod, y Datganiad Symud ar y Cyfrif Refeniw Tai, Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasedd arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar 31 Mawrth 2026 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol o Gyngor Sir Ynys Môn yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cyngor Sir Ynys Môn i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26;

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllawiau.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am Gyngor Sir Ynys Môn a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg ac sy'n cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu Cyngor Sir Ynys Môn i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Sir Ynys Môn yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Sir Ynys Môn sy'n ymwneud ag:
  - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a ph'un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a ph'un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cofnodi siwrnalau anarferol;
- Cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Gyngor Sir Ynys Môn, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Sir Ynys Môn.
- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac ymgynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion siwrnalau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Sir Ynys Môn, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Catherine Mealing-Jones
Archwilydd Cyffredinol Cymru
29 Medi 2026

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd,
CF10 4BZ

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw hygrededd gwefan Cyngor Sir Ynys Môn a'r gwaith o gynnal y wefan honno; nid yw'r gwaith a gyflawnir gan archwilwyr yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldebau am unrhyw newidiadau a allai fod wedi cael eu cyflwyno i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR AM Y FLWYDDYN A DDAETH i BEN AR 31 MAWRTH 2026

Dengys y datganiad hwn gostau cyfrifo yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â darparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r symiau a gyllidir o'r trethi. Mae'r Gwasanaethau yr adroddir arnynt isod yn seiliedig ar strwythur sefydliadol y Cyngor. Mae'r Cyngor yn codi trethi i gwrdd â gwariant yn unol â rheoliadau, gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Ceir darlun o'r sefyllfa o ran trethi yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

2025/26			Gwasanaethau	Nodyn	2024/25		
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net			Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£'000	£'000	£'000			£'000	£'000	£'000
95,205	(17,963)	77,242	Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau		93,410	(19,892)	73,518
60,083	(19,107)	40,976	Gwasanaethau Oedolion		55,416	(17,620)	37,796
25,386	(7,107)	18,279	Gwasanaethau Plant		23,108	(6,760)	16,348
10,543	(7,738)	2,805	Tai		10,372	(8,162)	2,210
36,645	(11,965)	24,680	Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff		31,689	(9,688)	22,001
22,380	(14,606)	7,774	Rheoleiddio ac Economaidd		21,940	(16,089)	5,851
7,536	(443)	7,093	Trawsnewid		7,079	(562)	6,517
24,029	(12,849)	11,180	Adnoddau		25,884	(14,832)	11,052
2,582	(224)	2,358	Busnes y Cyngor		2,596	(545)	2,051
1,634	(856)	778	Costau Corfforaethol a Democrataidd		349	(268)	81
863	(12)	851	Rheolaeth Corfforaethol		741	(10)	731
160	-	160	Costau heb eu ddosbarthu		242	-	242
16,808	(23,925)	(7,117)	Cyfrif Refeniw Tai (CRT)		16,364	(23,083)	(6,719)
303,854	**(116,795)**	**187,059**	**Diffyg ar weithrediadau sy'n parhau**		**289,190**	**(117,511)**	**171,679**
		19,793	Gwariant gweithredu arall	10			19,279
		4,415	Cyllido ac incwm a gwariant buddsoddi	11			2,031
		(234,877)	Trethiant ac incwm grant amhenodol	12			(234,111)
		(23,610)	**(Gwarged) / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau**				**(41,122)**
		18,492	Colledion amhariad ar asedau anghyfredol sydd wedi eu rhoi yn erbyn y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn				15,865
		(18,224)	Gwarged ar ailbrisio asedau anghyfredol				(20,007)
		173,935	Dileu Ased Pensiwn Net	9c & 34			139,086
		(159,169)	Ailfesur y rhwymedigaeth Pensiwn Net	9c & 34			(138,345)
		15,034	**Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall**				**(3,401)**
		(8,576)	**Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr**				**(44,523)**

DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLIDO

Nod y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid (DGaC) yw dangos gwir effaith perfformiad ariannol y flwyddyn ar falansau'r Cyngor. Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (DIGC) yn cynnwys llawer o addasiadau cyfrifyddu megis dibrisiant ac addasiadau pensiwn, na chaniateir iddynt, yn ôl y gyfraith, gael eu cyllido gan y Dreth Gyngor. Nid yw'r rhain yn gostau gwirioneddol sy'n effeithio ar falansau defnyddiadwy'r Cyngor. Er mwyn sicrhau nad yw'r costau cyfrifyddu hyn yn effeithio ar dalwyr y dreth gyngor a chronfeydd y Cyngor, caiff y costau hyn eu canslo yn yr DGaC ac fe'u dangosir hefyd yn y Datganiad Symud mewn Cronfeydd Wrth Gefn (DSCWG) a Nodyn 6.

2025/26			Gwasanaethau	2024/25		
Gwariant Net a godir i'r Gronfa Cyffredinol a Balansau'r CRT - A =C - B	Addasiadau rhwng Sail Cyllido a Sail Cyfrifo - B	Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr -C		Gwariant Net a godir i'r Gronfa Cyffredinol a Balansau'r CRT - A = C- B	Addasiadau rhwng Sail Cyllido a Sail Cyfrifo - B	Gwariant Net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - C
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
71,096	6,146	77,242	Cyfarwyddwr Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau	67,309	6,209	73,518
41,268	(292)	40,976	Gwasanaethau Oedolion	37,626	170	37,796
18,536	(257)	18,279	Gwasanaethau Plant	16,304	44	16,348
2,921	(116)	2,805	Tai	2,254	(44)	2,210
17,918	6,762	24,680	Priffydd, Eiddo a Gwastraff	16,058	5,943	22,001
7,111	663	7,774	Rheoleiddio a Economaidd	5,250	601	5,851
6,904	189	7,093	Trawsnewid	6,228	289	6,517
11,387	(207)	11,180	Adnoddau	11,150	(98)	11,052
2,468	(110)	2,358	Busnes y Cyngor	2,087	(36)	2,051
861	(83)	778	Costau Corfforaethol a Democrataidd	676	(595)	81
721	130	851	Rheolaeth Corfforaethol	751	(20)	731
-	160	160	Costau heb eu dosbarthu	-	242	242
15,900	(23,017)	(7,117)	Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	16,535	(23,254)	(6,719)
197,091	**(10,032)**	**187,059**	**Cost Net Gwasanaethau**	**182,228**	**(10,549)**	**171,679**
(195,971)	(14,698)	(210,669)	Incwm a Gwariant Arall	(188,427)	(24,374)	(212,801)
1,120	**(24,730)**	**(23,610)**	**(Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau**	**(6,199)**	**(34,923)**	**(41,122)**
(56,037)			Balans agoriadol y Gronfa Cyffredinol a'r CRT ar 1 Ebrill	(49,838)		
1,120			Llai diffyg ar falans y Gronfa Cyffredinol a'r CRT yn y flwyddyn	(6,199)		
(54,917)	Yn cynnwys:		**Balans cau y Gronfa Cyffredinol a'r CRT ar 31 Mawrth**	**(56,037)**	Yn cynnwys:	
51,830	Cronfa'r Cyngor			(48,060)	Cronfa'r Cyngor	
3,087	CRT			(7,977)	CRT	
54,917				**(56,037)**		

DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH i BEN AR 31 MAWRTH 2026

Dengys y Datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol gronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyngor, wedi eu dadansoddi'n 'Gronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny y gellir eu defnyddio i gyllido gwariant neu leihau trethi lleol) a chronfeydd wrth gefn eraill. Mae'r llinell (Diffyg) / Gwarged ar ddarparu gwasanaethau'n dangos y gwir gost economaidd o ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, gyda manylion pellach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae hwn yn wahanol i'r symiau statudol y mae'n rhaid eu codi ar Falans Cronfa'r Cyngor i bwrpas pennu'r Dreth Gyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai i bwrpas pennu rhenti. Mae'r llinell '(Gostyngiad)/Cynnydd Net cyn Trosglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn' clustnodedig yn dangos y symudiad yn y flwyddyn o falansau Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai cyn i'r Cyngor wneud unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig.

	Balans Cronfa'r Cyngor £'000	Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig Cronfa'r Cyngor (Nodyn 7) £'000	Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf (Nodyn 8) £'000	Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio £'000	Balansau Ysgolion (Nodyn 7) £'000	Arian wrth Gefn Yr Brwdd Uchelgais £'000	Cyfanswm Cronfa y Cyngor wrth gefn y gellir ei defnyddio £'000	Balans CRT (Datganiadau Ariannol Atodol) £'000	Cronfeydd wrth Gefn Clystnodedig CRT (Nodyn 8) £'000	Cyfanswm cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio gan £'000	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy £'000	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Na ellir eu defnyddio (Nodyn 9) £'000	Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn (y Cyngor) £'000
Balans ar 1 Ebrill 2024	**15,605**	**16,517**	**2,390**	**464**	**5,577**	**587**	**41,140**	**8,189**	**509**	**8,698**	**49,838**	**391,735**	**441,573**
Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn													
Addasiad i'r balans agoriadol											-		-
Gwarged / (Diffyg) ar ddarparu gwasanaethau	18,360	-	-	-	-	-	18,360	22,762	-	22,762	**41,122**	**-**	**41,122**
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	**-**	**3,401**	**3,401**
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	**18,360**	**-**	**-**		**-**	**-**	**18,360**	**22,762**	**-**	**22,762**	**41,122**	**3,401**	**44,523**
Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail gyllido yn unol â'r rheoliadau (Nodyn 6)	(11,202)	-	226	(464)	-	-	(11,440)	(22,974)	(509)	(23,483)	**(34,923)**	**34,923**	**-**
Cynnydd / (Gostyngiad) Net cyn trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig	**7,158**	**-**	**226**	**(464)**	**-**	**-**	**6,920**	**(212)**	**(509)**	**(721)**	**6,199**	**38,324**	**44,523**
Trosglwyddiadau i / (o) Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig (Nodyn 7)	(4,603)	4,242	-	538	(503)	326	-	-	-	-	**-**	**-**	**-**
(Gostyngiad) / Cynnydd yn ystod y flwyddyn	**2,555**	**4,242**	**226**	**74**	**(503)**	**326**	**6,920**	**(212)**	**(509)**	**(721)**	**6,199**	**38,324**	**44,523**
Balans ar 31 Mawrth 2025	**18,160**	**20,759**	**2,616**	**538**	**5,074**	**913**	**48,060**	**7,977**	**-**	**7,977**	**56,037**	**430,059**	**486,096**
Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn													
Addasiadau i'r balans agoriadol													
Gwarged / (Diffyg) ar ddarparu gwasanaethau	5,483	-	-	-	-	-	5,483	18,127	-	18,127	**23,610**	-	23,610
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall	-	-	-	-	-	-	-	-	-	-	**-**	(15,034)	(15,034)
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	**5,483**	**-**	**-**	**-**	**-**	**-**	**5,483**	**18,127**	**-**	**18,127**	**23,610**	**(15,034)**	**8,576**
Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail gyllido yn unol â'r rheoliadau (Nodyn 6)	(1,766)		165	(112)	-	-	(1,713)	(23,017)	-	(23,017)	**(24,730)**	24,730	-
Cynnydd / (Gostyngiad) Net cyn trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig	**3,717**	**-**	**165**	**(112)**	**-**	**-**	**3,770**	**(4,890)**	**-**	**(4,890)**	**(1,120)**	**9,696**	**8,576**
Trosglwyddiadau net i/(o)													
Trosglwyddiadau i / (o) Gronfeydd wrth Gefn Clustnodedig	(2,826)	3,676	-	809	(746)	(913)	-	-	-	-	**-**	**-**	**-**
(Gostyngiad) / Cynnydd yn ystod y flwyddyn	**891**	**3,676**	**165**	**697**	**(746)**	**(913)**	**3,770**	**(4,890)**	**-**	**(4,890)**	**(1,120)**	**9,696**	**8,576**
Balans ar 31 Mawrth 2026	**19,051**	**24,435**	**2,781**	**1,235**	**4,328**	**-**	**51,830**	**3,087**	**-**	**3,087**	**54,917**	**439,755**	**494,672**

FANTOLEN AR 31 MAWRTH 2026

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan y Cyngor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyngor (asedau llai rhwymedigaethau) yn cyd-fynd â'r cronfeydd wrth gefn sy'n cael eu dal gan y Cyngor. Adroddir ar gronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Mae'r categori cyntaf o gronfeydd wrth gefn yn gronfeydd wrth gefn y mae modd eu defnyddio, h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny y gall y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gynnal lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn ac unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (er enghraifft y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn y gellir ond ei defnyddio ar gyfer gwariant cyfalaf neu i dalu dyledion). Yr ail gategori o gronfeydd wrth gefn yw'r rheini na all y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n dal enillion a cholledion heb eu gwireddu, lle byddai'r arian ond ar gael i ddarparu gwasanaethau petai'r asedau'n cael eu gwerthu (er enghraifft y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn) a chronfeydd wrth gefn sy'n dal gwahaniaethau amseru a ddangosir yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn, llinell 'Addasiadau rhwng Sail Gyfrifo A Sail Gyllido Dan y Rheoliadau'.

	Nodyn	31 Mawrth 2026 £'000	31 Mawrth 2025 £'000
Eiddo, offer a chyfarpar	13	603,794	580,318
Asedau Treftadaeth	15	2,301	2,299
Eiddo Buddsoddi	16	10,201	10,068
Asedau Anniriaethol		111	175
Dyledwyr tymor hir	18	2,169	1,625
Asedau hawl defnydd tymor hir	43	2,749	1,857
Asedau tymor hir		**621,325**	**596,342**
Asedau a ddelir i'w gwerthu		813	833
Rhestrau stoc		313	421
Dyledwyr tymor byr	18	53,206	67,895
Buddsoddiadau tymor byr	35a	-	-
Arian a chywerthoedd arian	19	20,234	13,571
Asedau Cyfredol		**74,566**	**82,720**
Benthyca tymor byr	35b	(2,507)	(2,206)
Credydwyr tymor byr	20	(49,260)	(41,257)
Darpariaethau tymor byr	21	(1,123)	(749)
Derbyniadau grantiau ymlaen llaw	30	(4,914)	(13,104)
Rhwymedigaethau hawl defnydd tymor byr	43	(446)	(427)
Rhwymedigaethau Cyfredol		**(58,250)**	**(57,743)**
Credydwyr tymor hir	20	(261)	(255)
Darpariaethau tymor hir	21	(1,463)	(1,567)
Benthyca tymor hir	35b	(121,049)	(121,726)
Derbyniadau grantiau tymor hir ymlaen llaw	30	-	(1,349)
Rhwymedigaethau tymor hir eraill	34	(18,293)	(9,259)
Rhwymedigaethau hawl defnydd tymor hir	43	(1,903)	(1,067)
Rhwymedigaethau tymor hir		**(142,969)**	**(135,223)**
Asedau net		**494,672**	**486,096**
Cronfeydd wrth gefn y mae modd eu defnyddio	MIRS	54,917	56,037
Cronfeydd wrth gefn nad na ellir eu defnyddio	9	439,755	430,059
Cyfanswm Cronfeydd wrth gefn		**494,672**	**486,096**

DATGANIAD LLIF ARIAN – AM Y FLWYDDYN A DDAETH i BEN 31 MAWRTH 2026

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn arian parod a chywerthoedd arian y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol. Dengys y datganiad sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu a defnyddio arian parod a chywerthoedd arian trwy ddosbarthu llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Cyngor a gyllidir trwy drethiant ac incwm grant neu gan dderbynwyr y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Mae'r gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli'r all-lif arian ar gyfer adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarparu gwasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol. Mae'r llif arian sy'n codi o weithgareddau cyllido'n ddefnyddiol i ragweld yr hawl a fydd gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) ar lif arian y Cyngor yn y dyfodol.

	Nodyn	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Gwarged /(Diffyg) Net ar Ddarparu Gwasanaethau		**23,610**	**41,122**
Eitemau di-arian a godir ar gyfrifon Incwm a Gwariant	22	29,087	28,946
Eitemau arian ni chodir ar cyfrif Inwm a Gwariant	22	(13,744)	(12,774)
Symudiad mewn Asedau Cyfredol net	22	12,991	(18,721)
Addasiadau am eitemau cynwysedig yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu cyllido	22	(26,155)	(38,773)
Llif arian net o Weithgareddau Gweithredu		**25,789**	**(200)**
Llif arian net o Weithgareddau Buddsoddi	23	**(18,327)**	**(17,413)**
Llif arian net o Weithgareddau Cyllido	24	**(799)**	**(923)**
(Gostyngiad)/Cynnydd Net mewn Arian Parod a Chywerthoedd Arian		**6,663**	**(18,536)**
Arian Parod a Chywerthoedd Arian ar gychwyn y flwyddyn ariannol		13,571	32,107
Arian Parod a Chywerthoedd Arian ar ddiwedd y flwyddyn ariannol	19	**20,234**	**13,571**

NODIADAU I'R CYFRIFON

NODYN 1 – NODYN AR Y DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLIDO

2025/26

Addasiadau o'r Gronfa Cyffredinol i gael Symiau'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Addasiadau Ar Gyfer Dibenion Cyfalaf	Newid Net Ar Gyfer yr Addasiadau Pensiwn	Gwahaniaethau statudol eraill	Cyfanswm Addasiadau
	£'000	£'000	£'000	£'000
Addysg, Pobl ifanc a Sgiliau	7,106	(1,161)	201	6,146
Gwasanaethau Oedolion	647	(1,018)	79	(292)
Gwasanaethau Plant	342	(603)	4	(257)
Tai	46	(156)	(6)	(116)
Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff	6,354	(581)	989	6,762
Rheoleiddio a Economaidd	1,244	(574)	(7)	663
Trawsnewid	494	(329)	24	189
Adnoddau	-	(275)	68	(207)
Busnes y Cyngor	(1)	(104)	(5)	(110)
Costau Corfforaethol a Democrataidd	871	(954)	-	(83)
Rheolaeth gorfforaethol	-	-	130	130
Costau Na Ddosbarthwyd	-	160	-	160
Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	(22,626)	(459)	68	(23,017)
Cost net Gwasanaethau	**(5,523)**	**(6,054)**	**1,545**	**(10,032)**
Incwm a Gwariant arall o'r Dadansoddiad Cyllido	(15,015)	322	(5)	(14,698)
Gwahaniaeth rhwng y Gronfa Cyffredinol a'r CRT (Gwarged) neu Ddiffyg a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Gwarged) neu Ddiffyg	**(20,538)**	**(5,732)**	**1,540**	**(24,730)**

2024/25

Addasiadau o'r Gronfa Cyffredinol i gael Symiau'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Addasiadau Ar Gyfer Dibenion Cyfalaf	Newid Net Ar Gyfer yr Addasiadau Pensiwn	Gwahaniaethau statudol eraill	Cyfanswm Addasiadau
	£'000	£'000	£'000	£'000
Dysgu Gydol Oes	6,127	(375)	457	6,209
Gwasanaethau Oedolion	587	(326)	(91)	170
Gwasanaethau Plant	261	(196)	(21)	44
Tai	35	(47)	(32)	(44)
Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff	6,062	(187)	68	5,943
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	745	(180)	36	601
Trawsnewid	384	(99)	4	289
Adnoddau	-	(87)	(11)	(98)
Busnes y Cyngor	1	(36)	(1)	(36)
Costau Corfforaethol a Democrataidd	452	(1,047)	-	(595)
Rheoli Corfforaethol	-	-	(20)	(20)
Costau Na Ddosbarthwyd	-	242	-	242
Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	(23,084)	(93)	(77)	(23,254)
Cost net Gwasanaethau	**(8,430)**	**(2,431)**	**312**	**(10,549)**
Incwm a Gwariant arall o'r Dadansoddiad Cyllido	(24,801)	427	-	(24,374)
Gwahaniaeth rhwng y Gronfa Cyffredinol a'r CRT (Gwarged) neu Ddiffyg a'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Gwarged) neu Ddiffyg	**(33,231)**	**(2,004)**	**312**	**(34,923)**

NODYN 2 – SAFONAU CYFRIFO SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND NAD YDYNT WEDI EU MABWYSIADU HYD YMA

Y safonau sydd wedi'u cyflwyno gan God 2026/27, lle mae angen datgeliadau yn natganiadau ariannol 2025, yn unol â gofynion paragraff 3.3.4.3 y Cod, yw:

a) Addasiadau i'r Safonau Adrodd Ariannol 102, sy'n berthnasol i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon (Diwygiadau i asedau Treftadaeth) a gyhoeddwyd fis Mawrth 2024

Mae'r safon hwn yn berthnasol i sefydliadau cymwys nad ydynt yn dilyn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Gofynnir i'r Cyngor baratoi'r cyfrifon ariannol mewn cydymffurfiaeth â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, fel y'u diwygiwyd gan God Ymarfer CIPFA ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol 2025/26. Felly, nid yw'r diwygiadau hyn yn effeithio ar y Datganiad o Gyfrifon hwn.

b) Diwygiadau i Ddosbarthiad a Mesuriad Offerynnau Ariannol (Diwygiadau i Safon Adrodd Ariannol 9 a 7) a gyhoeddwyd fis Mai 2024

Mae'r newidiadau i Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 9 yn nodi nad yw atebolrwydd ariannol yn cael adnabod ar 'ddyddiad y setliad', sef dyddiad dod i ben yr hawl i dderbyn arian parod. Yma, bydd y rwymedigaeth perthnasol yn cael ei rhyddhau a hynny drwy ei thalu yn ôl, ei chanslo neu ddod i ben. Yn ychwanegol, os bydd atebolrwydd ariannol yn cael ei setlo yn llawn neu'n rhannol, gan ddefnyddio system taliadau electronig, gall endid fabwysiadu polisi i ddat-gydnabod yr holl atebolrwydd ariannol cyn ddyddiad y setliad mewn amgylchiadau lle nad oes modd tynnu, stopio neu ganslo taliadau electronig na chael gafael ar yr arian parod oherwydd y cyfarwyddyd talu. Yn ystod 2025/26, mae gwaith y Cyngor i ddat-gydnabod offerynnau ariannol yn cyd-fynd â dyddiadau'r setliad.

Mae'r newidiadau i Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol 7 yn ymwneud â'r cynnydd mewn datgeliadau, lle mae newidiadau wedi bod i werth teg ecwiti yn ystod y cyfnod. Ni ddaliodd y Cyngor unrhyw offerynnau ariannol h.y. buddsoddiadau neu atebolrwydd a gafodd eu prisio am werth teg yn 2025/26. Mae buddsoddiadau'r Cyngor i gyd yn asedau ariannol sydd wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio. Roedd y safon hefyd yn cyflwyno newidiadau oedd yn ymwneud â'r buddsoddiadau ac atebolrwydd gwahanol sy'n arwain at newidiadau oherwydd nodweddion dibynnol nad ydynt yn ymwneud â newidiadau mewn risgiau neu gostau benthyca sylfaenol. Nid yw offerynnau ariannol y Cyngor yn cynnwys nodweddion o'r fath.

c) **Mae Gwelliannau Blynyddol i Safonau Cyfrifeg Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol - argraffiad 11,** a gyhoeddwyd fis Gorffennaf 2024

Mae hyn yn gwneud mân ddiwygiadau i bump safon cyfrifeg ar gyfer y cyfnodau hynny sy'n dechrau ar ôl, neu ar 1 Ionawr 2026. Mae CIPFA o'r farn nad oes gan y newidiadau hyn lawer o berthnasedd.

d) Contractau sy'n Cyfeirio at Drydan sy'n Ddibynnol ar Natur (Addasiadau i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol 9 a 7) a gyhoeddwyd fis Rhagfyr 2024

Nid yw'r gofynion hyn yn cael effaith ar y cyfrifon hyn, gan fod y gofynion mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, sef 2026/27.

NODYN 3 – BARNAU ALLWEDDOL WRTH WEITHREDU'R POLISÏAU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisïau cyfrifo a restrir yn Nodyn 44, mae'r Cyngor wedi gorfod gwneud barnau penodol ynglŷn â thrafodion cymhleth neu rheini sydd yn cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau yn y dyfodol. Y barnau allweddol sydd wedi eu gwneud yn y Datganiad Cyfrifon yw:-

- Mae'r Cyfrifon wedi cael eu paratoi mewn modd sy'n tybio y bydd y swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn parhau i fod yn weithredol am y dyfodol rhagweladwy. Corff llywodraeth leol yw'r Cyngor a grëwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Mae'r Cyngor yn gweithredu o fewn hinsawdd ariannol anodd, yr un modd â phob awdurdod lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, ni cheir unrhyw arwyddion naill ai o berfformiad ariannol yr Awdurdod na chynlluniau Llywodraeth Cymru sy'n tanseilio'r farn y bydd y Cyngor yn parhau i weithredu fel sefydliad hyfyw yn y dyfodol.

- Mae'r Cyngor wedi penderfynu nad yw nifer o asedau a ddefnyddir i ddibenion cymdeithasol neu ddatblygu economaidd, stad man daliad Cyngor yw'r un mwyaf nodedig yn cael eu dal i bwrpas creu incwm neu gynyddu cyfalaf yn unig ac, o'r herwydd, nid ydynt yn cael eu hystyried fel eiddo buddsoddiad. O ganlyniad, caiff yr asedau hyn eu nodi fel Asedau Anghfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar ar y Fantolen.

NODYN 4a – RHAGDYBIAETHAU A WNAED YNGHYLCH ANSICRWYDD YN Y DYFODOL AC AMCANGYFRIFON A FFYNONELLAU ERAILL O ANSICRWYDD

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar ragdybiaethau wedi eu gwneud gan y Cyngor am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Gwneir amcangyfrifon drwy ystyried profiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir bennu balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r rhagdybiaethau ac amcangyfrifon.

Gellir ystyried yr eitemau canlynol ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2026 fel rhai sydd fwyaf agored i risg o gamgymeriad amcangyfrif yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod: -

Asedau Anghyfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar (PPE) - Mae asedau yn cael eu dibrisio dros eu hoes fuddiol yn unol ag arferion safonol cyfrifo. Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng y dibrisiant a gwir ddirywiad yr ased ei adlewyrchu ym mhatrymau gwariant y dyfodol. Mae gwybodaeth ynglŷn ag Eiddo, Offer a Chyfarpar wedi ei gynnwys yn Nodyn 13 a nodyn 13b Asedau Seilwaith. Gwerth asedau PPE y Cyngor ar 31 Mawrth 2026 oedd £611.754m (£580.318m ar 31 Mawrth 2025). Mae Asedau Hawl-I-Ddefnyddio sy'n cael eu mesur yn ôl gwerth teg yn cael eu gwerthuso bob pum mlynedd. Yn y blynyddoedd cyfamserol, amcangyfrifir eu gwerthoedd gan ddefnyddio mynegeion allanol addas. Os nad oes mynegai ar gael, bydd yr asedau'n cael eu prisio yn ystod trydedd flwyddyn y rhaglen pum mlynedd.

Mae Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) yn cael ei ailbrisio bob pum mlynedd ac ers 2025/26 a thu hwnt, mae gwerth rhai PPE yn cael eu hamcangyfrif yn y blynyddoedd cyfamserol gan ddefnyddio mynegeion allanol priodol neu, os nad oes mynegai priodol, mae'r asedau'n cael eu prisio yn ystod trydedd flwyddyn y rhaglen pum mlynedd.

Darpariaethau – Mae'r Cyngor wedi gwneud darpariaethau sy'n cyfateb i £2.622m (£2.316m ar 31 Mawrth 2025) ar gyfer materion ansicr all arwain at gostau sylweddol mewn blynyddoedd i ddod. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â chostau ôl-ofal ar gyfer safle tirlenwi Penhesgyn a rhwymedigaethau posibl sy'n deillio o hawliadau yswiriant. Ceir manylion llawn yn Nodyn 21.

Rhwymedigaeth Pensiynau – Yn debyg i'r llynedd, mae Actiwari'r Cyngor wedi dynode gwerth y Gronfa Bensiwn i sefyllfa dros ben ac felly ased pensiwn net o £155.642m heb gynnwys rhwymedigaethau pensiwn heb eu hariannu. Mae'r gwarged hwn wedi'i leihau i ddim o ganlyniad i reolau pensiynau sy'n cyfyngu ar adrodd ar ased pensiynau net yn y fantolen. Mae hyn oherwydd newid yn y tybiaethau y mae'r Actiwari wedi'u defnyddio mewn perthynas â'r ffactor disgownt oherwydd cynnydd mewn llog a chyfraddau bond. Defnyddir hyn i gyfrifo faint fydd rhwymedigaethau pensiwn y dyfodol ar brisiau heddiw, fel y gellir ei gymharu â gwerth cyfredol/gwerth marchnadol buddsoddiadau ac asedau. (adroddwyd am ased o £138.823m heb gynnwys rhwymedigaethau heb eu haniannu am y gwerth ar 31 Mawrth 2025). Mae rhwymedigaeth net o £18.293m (£9.259m ar 31 Mawrth 2025) yn parhau i

fod ar atebolrwydd pensiwn am rwymedigaethau heb eu hariannu na ellir eu gwrthbwyso eto'r gwarged ar y gronfa bensiwn.

Mae prisiad cyfrifeg y pensiwn yn seiliedig ar nifer o asesiadau a dyfarniadau cymhleth sy'n ymwneud â chyfraddau disgownt, codiadau cyflog rhagamcanol, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac enillion disgwyliedig ar asedau pensiwn. Mae cwmni o actiwarïau ymgynghorol yn cael ei gyflogi gan y Cyngor gweinyddu i roi cyngor arbenigol ar y rhagdybiaethau sydd i'w cymhwyso. Ceir rhagor o fanylion yn Nodyn 34 a'r adroddiad naratif. Mae'r nodyn yn cynnwys y gwarged, fodd bynnag, fel yr amlinellir yn yr adroddiad naratif, nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y fantolen oherwydd cyfyngiadau a ragnodir gan IAS19 a IFRIC14 ar gyfrifo pensiynau.

Lwfans Colli Nam a darpariaethau Dyledion Gwael – Ar 31 Mawrth 2026, roedd gan y Cyngor falans o £57.553m (£69.520m yn 2024/25) o ran dyledion net. Awgrymodd adolygiad o'r balans dyledion fod swm amhariad o £9.968m yn briodol ar gyfer dyledion amheus (£8.532m ar 31 Mawrth 2025). Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng lefel yr amhariad a ddefnyddiwyd a'r gwir sefyllfa ôl-ddyledion ei adlewyrchu ym mhatrwm gwariant y dyfodol. Mae'r ffigwr lwfans colledion amhariad / darpariaeth ar gyfer drwgddyledion wedi ei gynnwys yn y ffigyrau Dyledwyr Tymor Byr yn Nodyn 18.

Mesur Gwerth Teg – Mae y mwyafrif o asedau anghyfredol y Cyngor yn cael eu mesur ar Werth Teg, gyda'r eithriad o isadeiledd sydd werth £74.568m, asedau cymunedol gwerth £259k, asedau sy'n cael eu hadeiladu werth £39.989m ac offer, cerbydau a chyfarpar sydd werth £13.167m. Mae'r rhain i gyd yn cael eu prisio ar gost hanesyddol wedi'i ddibrisio.

Prydlesi – Mae'r Cyngor wedi gweithredu gofynion IFRS16 prydlesi o 1 Ebrill 2024. Mae hyn wedi arwain at amcan o'r cyfnod i rhai prydlesi ble mae contractau newydd yn parhau y tu hwnt i ddyddiad gwreiddiol y prydles. Mae cerbydau a eiddo wedi'u rhentu i leddfu digartrefedd yn tueddu i fod yn brydlesi parhaus. Lle nad yw prydles neu gontract gyda mynediad at ased yn benodol am y gyfradd fuddiant wedi'i chynnwys, mae'r Cyngor yn defnyddio cyfradd annuite PWLB ar gyfer cyfnod y prydles, fel ei gyfradd benthyca ychwanegol. Mae llawer o brydlesi yn cael eu gwerthuso ar sail yr fodel costau ond mae rhai asedau, yn enwedig rhai eiddo, yn cael eu gwerthuso ar werth teg. Mae Asedau Hawl-I-Ddefnyddio sy'n cael eu mesur yn ôl gwerth teg yn cael eu gwerthuso bob pum mlynedd. Yn y blynyddoedd cyfamserol, amcangyfrifir eu gwerthoedd gan ddefnyddio mynegeion allanol addas. Os nad oes mynegai ar gael, bydd yr asedau'n cael eu prisio yn ystod trydedd flwyddyn y rhaglen pum mlynedd. Gweler Nodyn 43 am wybodaeth am asedau gyda hawl i'w defnyddio.

NODYN 4b – ADDASIADAU CYFNOD BLAENOROL, NEWIDIADAU MEWN POLISÏAU CYFRIFYDDU AC AMCANGYFRIFON A GWALLAU

Mae polisi prisio PPE y Cyngor wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu gofynion mynegeion newydd CIPFA a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2025. Os nad oes mynegai priodol ar gael, bydd yr asedau perthnasol yn cael eu prisio yn ystod trydedd flwyddyn y rhaglen pum mlynedd.

NODYN 5 – DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Rhaid i'r Cyngor adrodd am ddigwyddiadau perthnasol sy'n digwydd ar ôl y cyfnod adrodd ar 31 Mawrth 2026 a hyd at y dyddiad y cafodd y cyfrifon ddrafft i'w cyhoeddi ar 30 Medi 2026.

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau perthnasol rhwng y cyfnod adrodd a'r dyddiad y cyhoeddwyd y cyfrifon drafft.

NODYN 6 – ADDASIADAU RHWNG SAIL GYFRIFO A SAIL CYLLIDO DAN REOLIADAU

2025/26	Cronfeydd wrth Gefn y mae modd eu ddefnyddio							
	Balans Cronfa'r Cyngor £'000	Gwarchodfa Derbyniadau Cyfalaf £'000	Cronfa Grantiau Cyfalaf Heb ei Gymhwyso £'000	Cyfanswm Cronfa'r Cyngor £'000	Cyfrif Refeniw Tai £'000	Cyfrif Refeniw Tai £'000	Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000	Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn nad oes modd eu defnyddio £'000
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf:								
Gwrthdroi eitemau wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:								
Taliadau am dibrisiant, amhariad ac amorteiddio asedau anghyfredol	17,999	-	-	17,999	3,711	-	3,711	(21,710)
Colledion aibrisiant ar Eiddo, Offer a Chyfarpar	(496)	-	-	(496)	(16)	-	(16)	512
Symudiadau mewn gwerth marchnad Eiddo Buddsoddiad colled / (ennill)	(132)	-	-	(132)	-	-	-	132
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau Anghynwysedig a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(13,697)	-	-	(13,697)	(12,179)	-	(12,179)	25,876
Asedau a roddwyd - prydlesi	(61)	-	-	(61)	-	-	-	61
Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud	733	-	-	733	-	-	-	(733)
Dadgydnabod - prydlesi	(3)	-	-	(3)	-	-	-	3
Swm a gludir o asedau anghyfredol a werthwyd	73	-	-	73	-	-	-	(73)
Cynnwys eitemau na ddebydwyd ac na chredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:								
Darpariaeth Refeniw Isaf ar gyfer Cyllido Cyfalaf	(356)	-	-	(356)	(147)	-	(147)	503
Darpariaeth Refeniw Isaf ar gyfer prydlesu	(400)	-	-	(400)	(24)		(24)	424
Darpariaeth refeniw wirfoddol	-	-	-	-	(1,031)	-	(1,031)	1,031
Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn balansau'r Cronfa'r Cyngor a CRT	(1,505)	-	-	(1,505)	(12,935)	-	(12,935)	14,440
Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf:								
Elw o werthu asedau anghyfredol	(218)	218	-	-	-	-	-	-
Defnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf	-	(53)	-	(53)	-	-	-	53
Defnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf	112	-	(112)	-	-	-	-	-
Addasiadau'n ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:								
Swm ble mae'r costau cyllido yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau cyllido priodoladwy am y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol	(14)	-	-	(14)	(5)	-	(5)	19
Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn:	**2,035**	**165**	**(112)**	**2,088**	**(22,626)**	**-**	**(22,626)**	**20,538**
Addasiadau sy'n cynnwys y Gronfa Bensiynau:								
Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â budd-daliadau ymddeol a ddebyddir neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gweler Nodyn 34)	7,414	-	-	7,414	598	-	598	(8,012)
Cyfraniadau pensiwn cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	(12,687)	-	-	(12,687)	(1,057)	-	(1,057)	13,744
Cyfanswm Addasiadau Pensiynau	(5,273)	-	-	(5,273)	(459)	-	(459)	5,732
Addasiad sy'n cynnwys Cyfrif Addasu Absenoldebau Cronedig				-			-	-
Addasiadau mewn perthynas ag absenoldebau digolledu tymor byr	1,472	-	-	1,472	68	-	68	(1,540)
Cyfanswm addasiad absenoldebau cronedig	1,472	-	-	1,472	68	-	68	(1,540)
Cyfanswm yr addasiadau	**(1,766)**	**165**	**(112)**	**(1,713)**	**(23,017)**	**-**	**(23,017)**	**24,730**

2024/25	Cronfeydd wrth Gefn y mae modd eu ddefnyddio							
	Balans Cronfa'r Cyngor £'000	Gwarchodfa Derbyniadau Cyfalaf £'000	Cronfa Grantiau Cyfalaf Heb ei Gymhwyso £'000	Cyfanswm Cronfa'r Cyngor £'000	Cyfrif Refeniw Tai £'000	Cyfrif Refeniw Tai £'000	Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf £'000	Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn nad oes modd eu defnyddio £'000
Addasiadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r Cyfrif Addasu Cyfalaf:								
Gwrthdroi eitemau wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:								
Taliadau am dibrisiant, amhariad ac amorteiddio asedau anghyfredol	14,647	-	-	14,647	3,700	-	3,700	(18,347)
Colledion aibrisiant ar Eiddo, Offer a Chyfarpar	334	-	-	334	-	-	-	(334)
Symudiadau mewn gwerth marchnad Eiddo Buddsoddiad colled / (ennill)	(2,295)	-	-	(2,295)	-	-	-	2,295
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau Anghynwysedig a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(20,453)	-	-	(20,453)	(17,430)	-	(17,430)	37,883
Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud	999	-	-	999	-	-	-	(999)
Dadgydnabod	712	-	-	712	-	-	-	(712)
Swm a gludir o asedau anghyfredol a werthwyd	235	-	-	235	843	-	843	(1,078)
Cynnwys eitemau na ddebydwyd ac na chredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:	-	-	-	-	-	-	-	-
Darpariaeth Refeniw Isaf ar gyfer Cyllido Cyfalaf	(1,569)	-	-	(1,569)	(141)	-	(141)	1,710
Darpariaeth Refeniw Isaf ar gyfer prydlesu	(327)			(327)	(13)		(13)	340
Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn balansau'r Cronfa'r Cyngor a CRT	(2,155)	-	-	(2,155)	(9,126)	-	(9,126)	11,281
Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf:	-	-	-	-	-	-	-	-
Elw o werthu asedau anghyfredol	(258)	258	-	-	(632)	632	-	-
Defnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf	-	(32)	-	(32)	-	(1,141)	(1,141)	1,173
Defnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf	464	-	(464)	-	-	-	-	-
Derbyniadau cyfalaf eraill	-	-	-	-	-	-	-	-
Addasiadau'n ymwneud â'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol:	-	-	-	-	-	-	-	-
Swm ble mae'r costau cyllido yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r costau cyllido priodoladwy am y flwyddyn yn unol â'r gofynion statudol	(14)	-	-	(14)	(5)	-	(5)	19
Addasiadau'n ymwneud â'r Gronfa Wrth Gefn Pensiwn:	**(9,680)**	**226**	**(464)**	**(9,918)**	**(22,804)**	**(509)**	**(23,313)**	**33,231**
Addasiadau sy'n cynnwys y Gronfa Bensiynau:								
Gwrthdroi eitemau sy'n ymwneud â budd-daliadau ymddeol a ddebyddir neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gweler Nodyn 34)	10,863	-	-	10,863	(93)	-	(93)	(10,770)
Cyfraniadau pensiwn cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	(12,774)	-	-	(12,774)	-	-	-	12,774
Cyfanswm Addasiadau Pensiynau	(1,911)	-	-	(1,911)	(93)	-	(93)	2,004
Addasiad sy'n cynnwys Cyfrif Addasu Absenoldebau Cronedig				-			-	-
Addasiadau mewn perthynas ag absenoldebau digolledu tymor byr	389			389	(77)		(77)	(312)
Cyfanswm addasiad absenoldebau cronedig	389	-	-	389	(77)	-	(77)	(312)
				-			-	-
Cyfanswm yr addasiadau	**(11,202)**	**226**	**(464)**	**(11,440)**	**(22,974)**	**(509)**	**(23,483)**	**34,923**

NODYN 7 – CRONFEYDD WRTH GEFN A GLUSTNODEDIG

	Balans ar 31/03/2024 £'000	Trosglwyddiadau Mewn 2024/25 £'000	Trosglwyddiadau Allan 2024/25 £'000	Balans ar 31/03/2025 £'000	Balans Agoriadol 01/04/2025 £'000	Trosglwyddiadau Mewn 2025/26 £'000	Trosglwyddiadau Allan 2025/26 £'000	Balans ar 31/03/2026 £'000
Cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gwasanaethau - llai na £500k*	5,976	3,183	(1,759)	7,400	7,064	1,946	(2,472)	6,538
Cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gwasanaethau - sydd ers Marwrth 2023 a Mawrth 2024 wedi disgyn yn llai na £500k	1,483	21	(198)	1,306	622	-	(79)	543
Cynllun Hyfforddeion*	-	-	-	-	408	516	(300)	624
Ailgartrefu Pobl Affganistan*	-	-	-	-	427	116	-	543
Llog Cronfa Ffyniant Cyffredin (SPF) a Dderbyniwyd*	-	-	-	-	185	370	-	555
Cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gwasnaethau mwy - £500k neu fwy:-	-	-	-	-	-	-	-	-
Gwastraff / Ailgylchu	-	987	-	987	987	2,386	(220)	3,153
Rhesymoli Ysgolion	402	279	(133)	548	548	-	(224)	324
Cronfa Ad-dalu Offer TGCh Addysg	461	150	-	611	611	217	-	828
Cronfa wrth gefn Yswiriant	1,250	-	-	1,250	1,250	-	-	1,250
Cyfraniadau refeniw tuag at Gyfalaf nas defnyddiwyd	1,340	1,626	(1,716)	1,250	1,250	872	(1,018)	1,104
Cyfraniadau A106 Datblygwyr Tai	840	-	(187)	653	653	197	(264)	586
Tai Fforddiadwy	1,269	82	(649)	702	702	615	(98)	1,219
Gwelliannau Hamdden	762	-	-	762	762	212	(3)	971
Setliad Refeniw Ychwanegol - Ymateb i Gynnydd mewn Chwyddiant	1,715	-	(723)	992	992	1,373	(20)	2,345
Addysg Allsirol	500	-	-	500	500	-	-	500
Cartrefi i Ucrain	519	80	(165)	434	434	-	(308)	126
Risg Ad-dalu Treth y Cyngor	-	900	-	900	900	-	(138)	762
Cwlfert Safle Penhesgyn	-	2,464	-	2,464	2,464	-	-	2,464
Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn a glustnodwyd	**16,517**	**9,772**	**(5,530)**	**20,759**	**20,759**	**8,820**	**(5,144)**	**24,435**
Balansau Ysgolion	5,577	5,223	(5,726)	5,074	5,074	4,376	(5,122)	4,328
Cyfanswm	**22,094**	**14,995**	**(11,256)**	**25,833**	**25,833**	**13,196**	**(10,266)**	**28,763**

*Mae tair cronfa wedi cynyddu i dros £500k yn ystod y flwyddyn felly mae balans agoriadol ar gyfer y flwyddyn wedi ei addasu i adlewyrchu hyn.

Y cronfeydd wrth gefn mwyaf arwyddocaol yw:

Gwastraff / Ailgylchu – defnyddir y gronfa yma i ariannu prosiectau rheoli gwastraff yn y dyfodol.

Rhesymoli Ysgolion – i'w ddefnyddio ar gyfer rhesymoli ysgolion.

Cronfa Ad-dalu Offer TGCh Addysg - mae hon ar gyfer ariannu costau amnewid offer TG mewn ysgolion.

Cronfa wrth Gefn Yswiriant – ar gyfer ariannu colledion nad oes yswiriant ar eu cyfer a thaliadau dros ben polisïau yswiriant.

Cyfraniadau Refeniw nas Defnyddiwyd ar gyfer Cyfalaf – cronfa wrth gefn yw hon sydd yn cynnwys cyfraniadau refeniw tuag at brosiectau nad ydynt wedi cael eu cwblhau, neu sydd wedi cael eu cyllido gan grant cyffredinol, er mwyn gostwng costau cyllido cyfalaf. Lle mae prosiectau wedi derbyn cyllid arall, mae'n rhyddhau'r cyfraniad refeniw i gyllido prosiect arall yn y dyfodol, unwaith eto i ostwng costau cyllido cyfalaf.

Cyfraniadau A106 Datblygwyr Tai – cyfraniadau a dderbyniwyd gan ddatblygwyr a fydd yn ael ei ddefnyddio i gyllido prosiectau o fewn termau'r cytundeb.

Tai Fforddiadwy – mae'r gronfa wrth gefn hon ar gyfer ariannu prosiectau fydd yn cynyddu'r stoc o dai fforddiadwy ar Ynys Môn.

Gwelliannau Hamdden – cyllidir y gronfa wrth gefn hon o daliad annisgwyl a dderbyniwyd gan CThEM ar ôl i CThEM golli achos llys a oedd yn dadlau na ddylai CThEM gasglu TAW ar wasanaethau hamdden. Derbyniodd y Cyngor ad-daliad o bron i £900k gan CThEM. Defnyddir y balans cyfredol o £762k i gyllido gwelliannau i gyfleusterau Hamdden y Cyngor ar Ynys Môn.

Setliad Refeniw Ychwanegol – mae hwn i ariannu pwysau annisgwyl o ganlyniad i chwyddiant yn ystod y flwyddyn ariannol.

Addysg Allsirol – defnyddir y gronfa hon i leihau'r risg sy'n gysylltiedig â'r gyllideb a arweinir gan y galw ac ariannu cynnydd annisgwyl yn ystod y flwyddyn.

Cartrefi i Wcráin – cymorth i deuluoedd o'r Wcráin i sefydlu bywyd yng Nghymru**.**

Arian wrth Gefn Risg Treth Cyngor – i ariannu unrhyw ad-daliadau treth gyngor.

Cwlfert Safle Penhesgyn – mae hwn i ariannu unrhyw waith atal llifogydd posib ac atgyweirio arwyddocaol posib fydd y cwlfert ar safle Penhesgyn ei angen pe bai'r cwlfert yn methu'n gyfan gwbl yn y dyfodol.

Cynllun Hyfforddeion – mae hwn i ariannu cynlluniau ar gyfer cyflogi hyfforddeion ar gytundebau penodol o fewn gwasanaethau gwahanol yn y Cyngor.

Ailgartrefu Pobl Affgan – grant yw hwn i ailgartrefu cyfieithwyr, ffoaduriaid a'u teuluoedd o Affganistan.

Llog Cronfa Ffyniant Cyffredin (SPF) a Dderbyniwyd - swm sy'n cael ei gadw i ariannu unrhyw gostau gweinyddol annisgwyl yn dilyn cloi'r cynllun SPF.

Balansau Ysgolion – Cedwir y balansau hyn ar gyfer defnydd pob ysgol yn unol â'u hamcanion addysgol. Ar 31 Mawrth 2026, roedd chwech o'r pedwardeg ysgol gynradd gyda balansau mewn diffyg (pedwar mewn diffyg ar 31 Mawrth 2025). Nid oedd yr un o'r pum ysgol uwchradd mewn sefyllfa ddiffygiol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (dim ar 31 Mawrth 2025), nid yw'r ysgol arbennig mewn sefyllfa ddiffygiol ar 31 Mawrth 2025. Gwerth cyfunol yr ysgolion mewn diffyg yw £202k (£194k ar 31 Mawrth 2025). Gellir cael copïau o'r Datganiadau Adran 52, y mae'n ofynnol i bob Cyngor ei baratoi ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol o dan Adran 52(2) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, gan yr Adain Gyfrifeg, Swyddogaeth Adnoddau, Swyddfeydd y Sir, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW.

NODYN 8 – CRONFA WRTH GEFN DERBYNIADAU CYFALAF

Dyma dderbyniadau arian parod o werthu asedau'r Cyngor. Defnyddir rhain i gyllido gwariant cyfalaf yn y flwyddyn neu i ddwyn ymlaen am flynyddoedd yn y dyfodol. Bydd balans o £2.781m yn cael ei ddwyn ymlaen i 2026/27 i helpu cyllido rhaglen gyfalaf flwyddyn nesaf.

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Balans 1 Ebrill	2,616	2,899
Derbyniadau Cyfalaf yn y Flwyddyn (net o leihad ar gyfer costau gweinyddu)	218	890
	2,834	**3,789**
Llai:		
Derbyniadau a roddwyd o'r neilltu i ad-dalu dyledion	-	-
Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddiwyd i gyllido	(53)	(1,173)
Eraill	-	-
Balans ar 31 Mawrth	**2,781**	**2,616**

NODYN 9 - CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO

	31/03/2026 £'000	31/03/2025 £'000
a) Cyfrif Addasu Cyfalaf	264,374	238,941
Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol	(271)	(289)
b) Cronfa Ailbrisiant Wrth Gefn	199,010	204,192
c) Cronfa Wrth Gefn Pensiwn	(18,293)	(9,259)
ch) Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol	(5,065)	(3,526)
Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu Defnyddio	**439,755**	**430,059**

NODYN 9a – CYFRIF ADDASU CYFALAF

Mae'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer cyfrifo defnydd asedau anghyfredol a chyllido'r broses o gaffael, adeiladu, neu wella'r asedau hynny dan ddarpariaethau statudol. Mae'r Cyfrif yn cael ei ddebydu gyda chostau megis dibrisiant, colledion amhariad ac amorteiddiad sy'n cael eu codi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a gydag arian a symudwyd o'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i drosi ffigyrau gwerth teg i sail cost hanesyddol.

Credydir y Cyfrif gyda symiau a osodwyd o'r neilltu gan y Cyngor fel cyllid ar gyfer costau caffael, adeiladu, a gwella. Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronnus ar Eiddo Buddsoddiad.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisiant cronnus ar Eiddo, Offer a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, y dyddiad y crëwyd y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i ddal y fath enillion. Mae Nodyn 6 yn rhoi manylion ffynhonnell yr holl drafodion a symudwyd i'r Cyfrif, heblaw am y rheini a oedd yn ymwneud â'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn.

Cyfrif Addasu Cyfalaf	2025/26		2024/25	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans ar 1 Ebrill		**238,941**		**200,735**
Gwyrdroad eitemau yn ymwneud â gwariant cyfalaf wedi'u debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:				
Taliadau am ddibrisiant, amhariad ac amorteiddiad asedau anghyfredol	(21,710)		(18,347)	
Asedau sydd wedi eu dad-gydnabod	3		(712)	
(Colledion) / Enillion Ailbrisiant ar Eiddo, Offer a Chyfarpar	512		(334)	
Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud	(733)		(999)	
Symiau o asedau anghyfredol a ddilëwyd ar waredu neu werthiant (yn cynnwys amhariad) fel rhan o'r enilliad/(colled) ar waredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(73)		(1,078)	
		(22,001)		**(21,470)**
Symiau addasiad a ddilëwyd o'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn		4,912		4,994
Swm net a ddilëwyd o gost asedau anghyfredol a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn		**(17,089)**		**(16,476)**
Cyllido cyfalaf a gymhwyswyd yn y flwyddyn:				
Defnydd y Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd	54		1,173	
Defnydd y Gronfa Wrth Gefn Cyfalaf	1,505		2,155	
Grantiau Cyfalaf a chyfraniadau wedi eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr sydd wedi ei gymhwyso i gyllido cyfalaf	25,937		37,883	
Darpariaeth statudol ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf a godwyd yn erbyn balansau Cronfa'r Cyngor a CRT	1,959		2,050	
Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn balansau Cronfa'r Cyngor a CRT	12,935		9,126	
		42,390		**52,387**
Symudiadau mewn gwerth marchnad Eiddo Buddsoddiad a godwyd yn erbyn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		**132**		**2,295**
Balans ar 31 Mawrth		**264,374**		**238,941**

NODYN 9b – CRONFA AILBRISIANT WRTH GEFN

Mae'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cynnwys yr enillion a wnaed gan y Cyngor yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, Offer a Chyfarpar ac Asedau Treftadaeth.

Mae'r balans yn gostwng pan fo asedau gydag enillion cronnus yn cael eu: -

- hailbrisio i lawr neu fod amhariad arnynt a'r enillion yn cael eu colli;
- defnyddio i ddarparu gwasanaethau a'r enillion yn cael eu colli trwy ddibrisiant; neu
- gwaredu a gwireddu'r enillion.

Dim ond enillion ailbrisiant a gronnwyd ers 1 Ebrill 2007 sydd yn y Gronfa wrth Gefn, sef y dyddiad y crëwyd y Gronfa Wrth Gefn.

Mae enillion cronedig a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw'n cael eu cyfuno i'r balans ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Cronfa Ailbrisiant Wrth Gefn	2025/26	2024/25
	£'000	£'000
Balans ar 1 Ebrill	**204,192**	**205,044**
Ailbrisio asedau a cholledion amhariad na chodwyd ar y Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	(270)	4,142
Gwahaniaeth rhwng dibrisiant werth teg a dibrisiant gost hanesyddol	(4,912)	(4,060)
Balansau ailbrisio ar asedau wedi eu sgrapio neu eu gwaredu	-	(934)
Balans ar 31 Mawrth	**199,010**	**204,192**

NODYN 9c – CRONFA WRTH GEFN PENSIYNAU

Mae'r Gronfa Wrth Gefn Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amseru sy'n deillio o wahanol drefniadau ar gyfer cyfrifo am fuddiannau ôl-gyflogaeth a chyllido buddiannau yn unol â darpariaethau statudol.

Cronfa Wrth Gefn Pensiynau	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Balans ar 1 Ebrill	**(9,259)**	**(10,522)**
Ail-fesur rhwymedigaeth diffinedig net	159,169	138,345
Gwyrdroad eitemau sy'n ymwneud â buddiannau ymddeoliad wedi'u debydu neu gredydu i'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(8,012)	(10,770)
Cyfraniad pensiwn cyflogwyr a thaliad uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	13,744	12,774
Addasiad llethriad ased	(173,935)	(139,086)
Balans ar 31 Mawrth	**(18,293)**	**(9,259)**

Mae'r Cyngor yn rhoi cyfrif am fuddiannau ôl-gyflogaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddiannau yn cael eu ennill gan weithwyr sy'n cronni blynyddoedd o wasanaeth, gan ddiweddaru'r rhwymedigaethau a gydnabyddir i adlewyrchu chwyddiant, rhagdybiaethau sy'n newid a dychweliadau buddsoddiad ar unrhyw adnoddau a osodir o'r neilltu i gwrdd â'r costau. Fodd bynnag, mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i fuddiannau a enillir gael eu cyllido fel y bo'r Cyngor yn gwneud cyfraniadau cyflogwr i'r cronfeydd pensiwn neu, yn y diwedd, yn talu unrhyw bensiynau y mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Felly, mae'r balans ar y Gronfa Wrth Gefn Pensiynau yn dangos gwahaniaeth sylweddol yn y buddiannau a enillwyd gan weithwyr y gorffennol a'r presennol a'r adnoddau y mae'r Cyngor wedi eu rhoi o'r neilltu i gwrdd â nhw. Bydd y trefniadau statudol yn sicrhau y bydd cyllid wedi ei roi o'r neilltu erbyn yr amser y daw'n amser i ni dalu'r buddiannau.

NODYN 9ch – CYFRIF ADDASU ABSENOLDEBAU DIGOLLEDOL CRONNOL

Mae'r Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol yn amsugno'r gwahaniaethau a fyddai fel arall yn codi ar Falans Cronfa'r Cyngor o gronni ar gyfer absenoldebau digolledol a enillwyd ond na chymerwyd yn ystod y flwyddyn, e.e., hawliau gwyliau blynyddol a gariwyd drosodd ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

Cyfrif Addasu Absenoldebau Digolledol Cronnol	2025/26		2024/25	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans ar 1 Ebrill		(3,526)		(3,214)
Setliad neu ddiddymu'r croniad a wnaed ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol	3,526		3,214	
Symiau a gronwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol	(5,065)		(3,526)	
Y gwahaniaeth yn y swm a godir am daliadau swyddogion ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail groniadau o'r taliadau sy'n daladwy yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol		(1,539)		(312)
Balans ar 31 Mawrth		**(5,065)**		**(3,526)**

NODYN 10 – GWARIANT GWEITHREDOL ARALL

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Praesept a delir i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	12,457	11,598
Praesept a delir i'r Cynghorau Cymuned	2,204	1,995
(Enillion)/Colledion ar warediad asedau anghyfredol (Yn cynnwys dad-gydnabyddiaeth)	(148)	796
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	5,186	4,807
Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru	90	77
Bwrdd Gofalwyr Towyn Trewan	-	2
Cyfoeth Naturiol Cymru	4	4
Cyfanswm	**19,793**	**19,279**

NODYN 11 – INCWM A GWARIANT CYLLIDO A BUDDSODDI

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Llog Taladwy a Thaliadau Tebyg	5,385	5,342
Llog net ar y rhwymedigaeth diffinedig	348	453
Llog derbyniadwy ac incwm tebyg	(1,305)	(2,002)
Incwm a Gwariant mewn perthynas ag eiddo buddsoddiad a newidiadau yn eu gwerth teg	(333)	(2,307)
Dadgydnabod ac amhariad ar asedau ariannol	320	545
Cyfanswm	**4,415**	**2,031**

NODYN 12 – TRETHIANT AC INCWM GRANTIAU AMHENODOL

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Incwm y Dreth Gyngor	73,058	67,607
Ailddyrannu Trethi Annomestig	25,097	25,341
Grant Cynnal Refeniw	110,784	103,280
Grantiau Cyfalaf ddefnyddir i gyllido Gwariant Cyfalaf	25,937	37,883
Cyfanswm	**234,876**	**234,111**

NODYN 13a – ASEDAU ANGHYFREDOL – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

2025/26	Eiddo, Offer a Chyfarpar						
	Anheddau Cyngor	Tir ac Adeiladau	Cerbydau, Offer a Chyfarpar	Asedau Cymunedol	Eiddo, Offer a Chyfarpar sy'n cael eu hadeiladu	Asedau Dros Ben	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost neu Brisiant							
Ar 1 Ebrill 2025	**217,285**	**256,735**	**22,631**	**711**	**40,293**	**1,567**	**539,222**
Addasiad balans agoriadol	-	**20**	-	-	-	-	**20**
Ychwanegiadau	**17,570**	**3,368**	**2,381**	**596**	**13,857**	-	**37,772**
Cynnydd /(gostyngiad) ailbrisiant i Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn	**(22,983)**	**(5,804)**	-	-	-	**(25)**	**(28,812)**
Cynnydd /(gostyngiad) ailbrisiant i (Gwarged) / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	-	**(2,606)**	-	-	-	**(5)**	**(2,611)**
Dadgydnabod - Gwarediadau	-	-	**(483)**	-	-	-	**(483)**
Dadgydnabod - Eraill	-	-	-	-	-	-	-
Dadgydnabod - rhannau newidiol	-	-	-	-	-	-	-
Ailddosbarthu	**8,879**	**2,134**	**2,280**	**297**	**(13,590)**	-	-
Ailddosbarthu (i) / o Seilwaith	-	-	-	-	-	-	-
Ailddosbarthu (i) / o Asedau a ddelir i'w gwerthu	-	-	-	-	-	-	-
Ailddosbarthu (i) / o Eiddo Buddsoddiad	-	-	-	-	-	-	-
Ailddosbarthu (i) / o Asedau Treftadaeth	-	-	-	-	-	-	-
Balans ar 31 Mawrth 2026	**220,751**	**253,847**	**26,809**	**1,604**	**40,560**	**1,537**	**545,108**
Dibrisiant ac Amhariad							
Ar 1 Ebrill 2025	**14,808**	**3,177**	**12,400**	**452**	-	**4**	**30,841**
Addasiad balans agoriadol	-	**20**	-	-	-	-	**20**
Tâl Dibrisiant	**3,240**	**9,706**	**2,223**	-	-	**52**	**15,221**
Amhariad - Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	-	**708**	-	**893**	-	-	**1,601**
Tâl nam i Gronfa Wrth Gefn Ailbrisio	**16,019**	**2,473**	-	-	-	-	**18,492**
Dibrisiant wedi ei ysgrifennu allan i'r Gronfa Ailbrisiant wrth Gefn	**(6,501)**	**(10,341)**	-	-	-	-	**(16,842)**
Dibrisiant wedi ei ysgrifennu allan i (Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	-	**(1,448)**	-	-	-	-	**(1,448)**
Amhariad - Cronfa Ailbrisiant Wrth Gefn	**(27,566)**	**(2,582)**	-	-	-	**(28)**	**(30,176)**
Nam ysgrifenedig i (Surplus) neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau	-	**(1,713)**	-	-	-	-	**(1,713)**
Ailddosbarthu (i) / o Eiddo Buddsoddiad	-	-	-	-	-	-	-
Dadgydnabod - Gwarediadau	-	-	**(410)**	-	-	-	**(410)**
Balans ar 31 Mawrth 2026	-	-	**14,213**	**1,345**	-	**28**	**15,586**
Gwerth Llyfr Net							
Balans ar 31 Mawrth 2026	**220,751**	**253,847**	**12,596**	**259**	**40,560**	**1,509**	**529,522**
Balans ar 31 Mawrth 2025	**202,477**	**253,558**	**10,231**	**259**	**40,293**	**1,563**	**508,381**

2023/24	Eiddo, Offer a Chyfarpar						
	Anheddau Cyngor	Tir ac Adeiladau	Cerbydau, Offer a Chyfarpar	Asedau Cymunedol	Eiddo, Offer a Chyfarpar sy'n cael eu hadeiladu	Asedau Dros Ben	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost neu Brisiant							
Ar 1 Ebrill 2024	**203,805**	**228,614**	**21,056**	**259**	**27,792**	**1,452**	**482,978**
Addasiad balans agoriadol	-	(64)	-	-	-	-	(64)
Ychwanegiadau	**11,817**	**5,386**	**1,615**	**452**	**31,275**	-	**50,545**
Cynnydd /(gostyngiad) ailbrisiant i Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn	**(5,325)**	**13,648**	-	-	-	**49**	**8,372**
Cynnydd /(gostyngiad) ailbrisiant i (Gwarged) / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	-	(891)	-	-	-	-	(891)
Dadgydnabod - Gwarediadau	-	(720)	(40)	-	-	(88)	(848)
Ailddosbarthu	**6,988**	**11,686**	-	-	(18,828)	**154**	-
Ailddosbarthu (i) / o Seilwaith	-	-	-	-	-	-	-
Ailddosbarthu (i) / o Asedau a ddelir i'w gwerthu	-	(270)	-	-	-	-	(270)
Ailddosbarthu (i) / o Eiddo Buddsoddiad	-	**58**	-	-	**54**	-	**112**
Ailddosbarthu (i) / o Asedau Treftadaeth	-	-	-	-	-	-	-
Balans ar 31 Mawrth 2025	**217,285**	**256,735**	**22,631**	**711**	**40,293**	**1,567**	**539,222**
Dibrisiant ac Amhariad							
Ar 1 Ebrill 2023	-	**3,356**	**10,248**	-	-	**4**	**13,608**
Tâl Dibrisiant	-	(64)	-	-	-	-	(64)
Amhariad - Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	**3,261**	**8,070**	**2,152**	-	-	**16**	**13,499**
Tâl nam i Gronfa Wrth Gefn Ailbrisio	-	(321)	-	**452**	-	-	**131**
Dibrisiant wedi ei ysgrifennu allan i'r Gronfa Ailbrisiant wrth Gefn	**11,547**	**4,318**	-	-	-	-	**15,865**
Dibrisiant wedi ei ysgrifennu allan i (Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	-	(7,499)	-	-	-	(10)	(7,509)
Amhariad - Cronfa Ailbrisiant Wrth Gefn	-	(269)	-	-	-	-	(269)
Nam ysgrifenedig i (Surplus) neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau	-	(4,126)	-	-	-	-	(4,126)
Ailddosbarthu (i) / o Eiddo Buddsoddiad		(288)					(288)
Dadgydnabod - Gwarediadau	-	-	-	-	-	-	-
Dadgydnabod - Eraill	-	-	-	-	-	(6)	(6)
Balans ar 31 Mawrth 2025	**14,808**	**3,177**	**12,400**	**452**	-	**4**	**30,841**
Gwerth Llyfr Net							
Balans ar 31 Mawrth 2025	**202,477**	**253,558**	**10,231**	**259**	**40,293**	**1,563**	**508,381**
Balans ar 31 Mawrth 2024	**203,805**	**225,258**	**10,808**	**259**	**27,792**	**1,448**	**469,370**

Ailbrisio

Mae gan y Cyngor £603.794m wedi'i gydnabod fel Eiddo, Offer a Chyfarpar (PPE) Mae hyn yn cynnwys £74.42m o asedau isadeiledd, megis ffyrdd a goleuadau stryd. Nid yw'r gwerth hwn ar gyfer isadeledd wedi'i gynnwys yn Nodyn 13a uchod ar gyfer PPE ond, yn hytrach, adroddir isod yn Nodyn 13b. Mae'r Cyngor yn mabwysiadu rhaglen dreigl bum mlynedd ar gyfer prisio'i dir a'i eiddo. Caiff y rhaglen ei chreu mewn modd sy'n sicrhau bod dosbarthiadau cyfan o asedau o fewn ei bortffolio tir ac eiddo yn cael eu hailbrisio o leiaf bob pum mlynedd, gyda'r prisiad yn weithredol ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae Asedau Hawl-I-Ddefnyddio sy'n cael eu mesur yn ôl gwerth teg yn cael eu gwerthuso bob pum mlynedd. Yn y blynyddoedd cyfamserol, amcangyfrifir eu gwerthoedd gan ddefnyddio mynegeion allanol addas. Os nad oes mynegai ar gael, bydd yr asedau'n cael eu prisio yn ystod trydedd flwyddyn y rhaglen pum mlynedd.

Cynhelir y prisiadau gan dîm prisio mewnol y Cyngor, sy'n aelodau o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Mae'r prisiadau wedi'u cwblhau yn unol ag IFRS 13. Nid yw asedau nad ydynt yn eiddo wedi'u hailbrisio gan fod y Cyngor wedi barnu bod gwerth cario'r asedau hyn o gwampas gwerth teg, o ystyried eu bywydau economaidd defnyddiol cymharol fyr a gwerth cymharol yr asedau hyn. Mae gwybodaeth ychwanegol am bolisi'r Cyngor ar fesur a phrisio asedau anghyfredol wedi'i chynnwys yn adrannau 7 i 10 o Bolisïau Cyfrifyddu Nodyn 44.

NODYN 13b – ASEDAU ISADEILEDD

Yn unol â'r Rhyddhad Dros Dro a gynigir gan y Diweddariad i'r Côd am asedau isadeiledd, nid yw'r nodyn isod angen datgan cost gros a dibrisiad cronedig ar gyfer asedau isadeiledd gan fod ymarferion adrodd hanesyddol a diffygion gwybodaeth canlyniadol yn golygu na fydd hyn yn portreadu sefyllfa'r ased yn gywir i ddefnyddwyr y datganiadau o'r cyfrifon.

Mae'r Cyngor wedi dewis peidio datgan y wybodaeth yma gan nad oedd yr ymarferion adrodd blaenorol a diffygion gwybodaeth canlyniadol wedi mesur yn gywir y cost gros a'r dibrisiant cronedig ac ni fydd yn rhoi sail i ddefnyddwyr y datganiadau o'r cyfrifon i wneud penderfyniadau economaidd neu benderfyniadau eraill yn ymwneud ag isadeiledd.

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Gwerth Llyfr Net ar 1 Ebrill	71,937	71,415
Ychwanegiadau	6,691	4,771
Ailddosbarthu	0	0
Amhariad	(4,356)	(4,249)
Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth	**74,272**	**71,937**

Cyfanswm Assedau PPE

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Asedau Isadeiledd	74,272	71,937
Assedau Eiddo, Offer a Chyfarpar eraill (PPE)	529,522	508,381
Cyfanswm Asedau PPE	**603,794**	**580,318**

NODYN 14 – YMRWYMIADAU CYFALAF SYLWEDDOL

Ar 31 Mawrth 2026, ymrwymodd y Cyngor i waith cyfalaf ar gyfer adeiladu Eiddo, Offer a Chyfarpar, gan arwain at ymrwymiadau cyfalaf sylweddol o £12.987m yn 2026/27 a blynyddoedd i ddod, fel y dangosir yn y tabl isod: -

	Ymrwymiad yn 2026/27 a Blynyddoedd y Dyfodol ar 31 Mawrth 2026 £'000
Contractau Cynnal a Chadw Cynlluniedig - CRT	9,271
Datblygu Eiddo Newydd - CRT	1,306
Adnewyddu Eiddo Presennol - CRT	224
Gosod Pwmp Gwres	1,605
Prosiectiau Ynni	581
Cyfanswm	**12,987**

NODYN 15 – ASEDAU TREFTADAETH

2025/26

	Casgliad Celf a Regalia Dinesig £'000	Tir ac Adeiladau Treftadaeth £'000	Cyfanswm Asedau Treftadaeth £'000
Cost neu Brisiant ar 1 Ebrill 2025	**2,299**	**-**	**2,299**
Addasiad balans agoriadol uchaf	2		**2**
Ar 31 Mawrth 2026	**2,301**	**-**	**2,301**
Dibrisiant ac Amhariad Cronedig ar 1 Ebrill 2025	**-**	**-**	**-**
Cost Dibrisiant	-	-	-
Cost Dibrisiant wedi ei sgwennu allan i'r Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	-	-	-
Trosglwyddo (i) / o Eiddo Buddsoddi	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2026	**-**	**-**	**-**
Gwerth Llyfr Net			
Ar 31 Mawrth 2026	**2,301**	**-**	**2,301**
Ar 31 Mawrth 2025	**2,299**	**-**	**2,299**

2024/25

	Casgliad Celf a Regalia Dinesig £'000	Tir ac Adeiladau Treftadaeth £'000	Cyfanswm Asedau Treftadaeth £'000
Cost neu Brisiant ar 1 Ebrill 2024	**2,299**	**114**	**2,413**
Trosglwyddo (i) / o Asedau dan Adeiladwaith	-	(114)	(114)
Ar 31 Mawrth 2025	**2,299**	**-**	**2,299**
Dibrisiant ac Amhariad Cronedig ar 1 Ebrill 2024	**-**	**-**	**-**
Cost Dibrisiant	-	8	8
Cost Dibrisiant wedi ei sgwennu allan i'r Gwarged / Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	-	(8)	(8)
Ar 31 Mawrth 2025	**-**	**-**	**-**
Gwerth Llyfr Net			
Ar 31 Mawrth 2025	**2,299**	**-**	**2,299**
Ar 31 Mawrth 2024	**2,299**	**114**	**2,413**

Ailbrisio Asedau Treftadaeth (Tir ac Adeiladau)

Mae nifer fach o asedau Tir ac Adeiladau wedi'u nodi fel rhai sy'n bodloni'r diffiniad o Asedau Treftadaeth. Ailbrisiwyd yr Asedau Treftadaeth (Tir ac Adeiladau) yn 2023/24, yn unol â gweithdrefnau ailbrisio'r Cyngor. Yr asedau treftadaeth mwyaf nodedig yw: -

Felin Y Graig - Trosglwyddwyd yr ased hwn yn ystod y flwyddyn 2020/21 o Eiddo Buddsoddi i Asedau Treftadaeth i adlewyrchu ei ddosbarthiad yn fwy cywir.

Ailbrisio Asedau Treftadaeth (Casgliadau Celf) - Ailbrisiwyd Casgliadau Celf y Cyngor ar gyfer 2022/23. Gwnaed y prisiad gan Bonhams o Lundain, cwmni o Arwerthwyr a Phriswyr Celf rhyngwladol.

Ailbrisio Asedau Treftadaeth (Regalia Dinesig) - Mae'r Asedau Treftadaeth (Regalia Dinesig) wedi'u hailbrisio yn 2021/22 yn unol â gweithdrefnau ailbrisio'r Cyngor ac yn unol â'r rhaglen dreigl bum mlynedd a fabwysiadwyd ar gyfer Eiddo, Offer a Chyfarpar (PPE) ac Asedau Treftadaeth.

NODYN 16 – EIDDO BUDDSODDI

a) Eiddo Buddsoddi

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Balans ar ddechrau'r flwyddyn	10,068	7,484
Gwarediadau	-	(24)
Ychwanegiadau	-	322
Enillion / (Colledion) net o addasiadau gwerth teg	132	2,294
Dadgydnabod	-	-
Trosglwyddiadau:		-
- (i)/o Eiddo, Offer a Chyfarpar	-	(112)
- (i)/o Asedau Treftadaeth	-	104
Balans ar ddiwedd y flwyddyn	**10,200**	**10,068**

Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar allu'r Cyngor i wireddu'r gwerth sy'n gynhenid yn ei eiddo buddsoddi sy'n eiddo buddsoddi sy'n perthyn i'r mwyafrif sylweddol o'r eiddo buddsoddi, nac ar hawl y Cyngor i ad-dalu incwm a'r enillion gwaredu ar yr asedau hyn.

Mae gan y Cyngor fenter ar y cyd â Llywodraeth Cymru ar gyfer unedau diwydiannol yn Ystâd Ddiwydiannol Penrhos, Caergybi, a gwblhawyd yn 2022/23 gyda Cham 2 wedi'i gwblhau yn 2023/24. Mae'r Cyngor yn dal 16% o werth ac incwm yr eiddo, gyda Llywodraeth Cymru yn dal 84%. Rhaid i'r Cyngor dalu 84% o werth yr unedau i Lywodraeth Cymru, 15 mlynedd ar ôl cwblhau'r unedau.

b) **Mesur Gwerth Teg o Eiddo Buddsoddiad Hierarchaeth Gwerth Teg 2025/26**

Mesurau rheolaidd gwerth teg yn defnyddio:	Prisiau a ddyfynnir yn y marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau yr un fath (lefel 1)	Mewnbynnau sylweddol arall y gellir eu harsylwi (lefel 2)	Mewnbynnau sylweddol ni ellir eu harsylwi (lefel 3)	Gwerth teg ar 31 Mawrth 2026
	£'000	£'000	£'000	£'000
Eiddo manwerthu	-	1,362	-	1,362
Unedau swyddfa	-	1,032	-	1,032
Unedau masnachol	-	7,806	-	7,806
Cyfanswm	**-**	**10,200**	**-**	**10,200**

Hierarchaeth Gwerth Teg 2024/25

Mesurau rheolaidd gwerth teg yn defnyddio:	Prisiau a ddyfynnir yn y marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau yr un fath (lefel 1)	Mewnbynnau sylweddol arall y gellir eu harsylwi (lefel 2)	Mewnbynnau sylweddol ni ellir eu harsylwi (lefel 3)	Gwerth teg ar 31 Mawrth 2025
	£'000	£'000	£'000	£'000
Eiddo manwerthu	-	1,359	-	1,359
Unedau swyddfa	-	1,026	-	1,026
Unedau masnachol	-	7,683	-	7,683
Cyfanswm	**-**	**10,068**	**-**	**10,068**

NODYN 17 – GWARIANT A CHYLLIDO CYFALAF

Gweler y cyfanswm o wariant cyfalaf yr aethpwyd iddo yn y flwyddyn yn y tabl isod, ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w gyllido. Pan mae angen cyllido gwariant cyfalaf mewn blynyddoedd i ddod trwy daliadau i refeniw fel mae asedau'n cael eu defnyddio gan y Cyngor, mae'r gwariant yn arwain at gynnydd yn y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), mesur o'r gwariant cyfalaf yr eir iddo'n hanesyddol sydd eto i'w gyllido. Mae'r symudiad net yn y Gofyniad Cyllido Cyfalaf yn dangos y newid yn yr angen gwaelodol i'r Cyngor fenthyca yn ystod y flwyddyn i gyllido buddsoddiad cyfalaf nad yw wedi ei gyllido'n syth o adnoddau fel grantiau, derbyniadau cyfalaf a cyllido uniongyrchol o refeniw.

Gwariant a Chyllido Cyfalaf	2025/26 £,000	2024/25 £'000
Gofyniad Cyllido Cyfalaf Agoriadol	**152,389**	**145,754**
Cyfalaf a fuddsoddwyd yn y Flwyddyn		
Eiddo, Offer a Chyfarpar	44,482	55,794
Gwariant refeniw a gyllidir o gyfalaf dan statud (REFCUS)	10,181	9,761
Hawliau Defnydd Asedau	1,275	2,229
Addasiad Ased Hawl Defnyddio	45	-
Cyfanswm	**55,983**	**67,784**
Ffynhonnell Cyllid		
Derbyniadau Cyfalaf	(53)	(1,173)
Cronfa Wrth Gefn	(1,506)	(2,155)
Grantiau a Chyfraniadau Llywodraeth	(25,937)	(37,883)
Darpariaethau refeniw	(12,935)	(9,126)
Grantiau REFCUS	(9,447)	(8,762)
Darpariaeth Refeniw Isaf a Gosod o'r Neilltu	(503)	(1,709)
Darpariaeth refeniw wirfoddol	(1,031)	-
Darpariaeth Incwm Isaf a Stocio - Hawl i Ddefnyddio Asedau	(423)	(341)
Cyfanswm	**(50,804)**	**(61,149)**
Cynnydd / (Gostyngiad) Net mewn Gofyniad Cyllido Cyfalaf	**4,148**	**6,635**
Gofyniad Cyllido Cyfalaf Cau	**156,537**	**152,389**
Esboniad o symudiad yn y Flwyddyn		
Cynnydd yn y galw sylfaenol i fenthyca heb gymorth gan y Llywodraeth - Hawl i Ddefnyddio Asedau	1,259	1,832
Cynnydd mewn angen gwaelodol i fenthyca a gefnogir gan gymorth Llywodraeth	4,229	4,243
Cynnydd mewn angen gwaelodol i fenthyca na chefnogir gan gymorth Llywodraeth - Ychwanegiadau Cyfalaf	232	2,491
Benthyca	385	119
Darpariaeth Refeniw Isaf a Gosod o'r Neilltu Gwirfoddol	(503)	(1,709)
Darpariaeth refeniw wirfoddol	(1,031)	-
Darpariaeth Incwm Isaf a Stocio - Hawl i Ddefnyddio Asedau	(423)	(341)
Cynnydd / (Gostyngiad) Net mewn Gofyniad Cyllido Cyfalaf	**4,148**	**6,635**

NODYN 18 – DYLEDWYR

	Dyledwyr Tymor Hir		Dyledwyr Tymor Byr	
	31 Mawrth 2026 £'000	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000	31 Mawrth 2025 £'000
Symiau Masnach Derbyniadwy	-	-	2,621	2,184
Rhagdaliadau	-	-	2,610	2,132
Symiau Derbyniadwy Eraill	2,169	1,625	47,975	63,578
Cyfanswm	**2,169**	**1,625**	**53,206**	**67,895**

Mae'r ffigwr dyledwyr uchod yn net o ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg o £9.192m yn 2025/26 (£8.957m yn 2024/25).

Gellir dadansoddi'r dyddiad dyledus diwethaf ond heb amharu ar y swm ar gyfer y Dreth Gyngor yn ôl oedran fel a ganlyn: -

	31 Mawrth 2026 '£'000	31 Mawrth 2025 '£'000
Llai nac un blwyddyn	3,430	3,235
Mwy nac un blwyddyn	6,538	5,297
Cyfanswm	**9,968**	**8,532**

NODYN 19 – ARIAN PAROD A CHYWERTHOEDD ARIAN

Gellir cysoni arian parod a chywerthoedd arian ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, fel y dangosir yn y Datganiad Llif Arian, i'r eitemau cysylltiedig yn y Fantolen fel a ganlyn:-

	31 Mawrth 2026 £'000	31 Mawrth 2025 £'000
Arian mewn llaw gan yr Awdurdod	93	37
Cyfrifon banc cyfredol	353	569
Adneuon galw	19,788	5,965
Adneuon tymor byr sefydlog	-	7,000
Cyfanswm	**20,234**	**13,571**

NODYN 20 – CREDYDWYR

	Credydwyr Tymor-Hir		Credydwyr Tymor-Byr	
	31 Mawrth 2026 £'000	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2026 £'000	31 Mawrth 2025 £'000
Credydwyr Masnach	-	-	(3,253)	(2,783)
Symiau Taladwy Eraill	(261)	(255)	(46,007)	(38,474)
Cyfanswm	**(261)**	**(255)**	**(49,260)**	**(41,257)**

NODYN 21 – DARPARIAETHAU

	Balans ar 1 Ebrill 2024 £'000	Cynnydd / (Lleihad) yn ystod y flwyddyn £'000	Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn £'000	Balans ar 31 Mawrth 2025 £'000	Cynnydd / (Lleihad) yn ystod y flwyddyn £'000	Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn £'000	Balans ar 31 Mawrth 2026 £'000
Darpariaethau Tymor Byr							
Darpariaeth Hawliadau Yswiriant	456	327	(202)	581	327	(170)	738
Safle Gwastraff Penhesgyn (Tymor Byr)	-	-	-	-	86	-	86
Darpariaeth Strategaeth ADY	-	81	-	81	-	-	81
Darpariaeth Ffioedd Gofal	-	-	-	-	218	-	218
Cyfanswm Darpariaethau Tymor Byr	**456**	**408**	**(202)**	**662**	**631**	**(170)**	**1,123**
Darpariaeth Tymor Hir	-	-	-	-	-	-	-
Safle Gwastraff Penhesgyn (Tymor Hir)	4,247	(2,464)	(129)	1,654	(123)	(69)	1,462
Cyfanswm Darpariaethau	**4,703**	**(2,056)**	**(331)**	**2,316**	**508**	**(239)**	**2,585**

Pwrpas y Prif Ddarpariaethau - Safle Gwastraff Penhesgyn

Mae'r ddarpariaeth hon ar gyfer ôl-ofal yr ardaloedd hynny o'r safle a oedd yn cael eu defnyddio'n flaenorol ar gyfer tirlenwi. Nid oes unrhyw amserlen benodol wedi cael ei phennu ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn er, i ddibenion rheoli, mae cyfnod o 35 blynedd wedi cael ei bennu ar sail barhaus hyd oni cheir tystiolaeth y byddai cyfnod byrrach yn ddigonol. Mae hwn yn ariannu gwaith dadlygru blynyddol ym Mhenhesgyn.

NODYN 22 – LLIF ARIAN O WEITHGAREDDAU GWEITHREDOL

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Addasiad i warged neu ddiffyg ar ddarparu gwasanaethau ar symudiadau nad ydynt yn arian parod		
Dibrisiant, Amhariad ac amorteiddio	21,710	18,347
Ailbrisiadau at i lawr/(i fyny) a dadgydnabyddiaethau nad ydynt yn ymwneud â gwerthiannau	(512)	1,046
(Cynnydd)/gostyngiad mewn stoc	108	(21)
(Cynnydd)/gostyngiad mewn dyledwyr	14,145	(17,837)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn credydwyr	8,008	1,185
Cynnydd/(gostyngiad) mewn grantiau a dderbyniwyd ymlaen llaw	(9,539)	340
Trafodion yn y CIES yn ymwneud â buddiannau ymddeol	(5,732)	(2,004)
Trafodion yn y CIES yn ymwneud â ased Hawl i Ddefnyddio	(64)	-
Swm cario asedau anghyfredol a rhai a delir i'w gwerthu, a werthwyd neu eu dadgydnabod	73	1,078
Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Darpariaethau	269	(2,386)
Symudiad mewn gwerth o Eiddo Buddsoddi - Amhariad ac ailbrisiadau i lawr (a dadgydnabodaethau nad ydynt yn werthiant)	(132)	(2,295)
Cyfanswm	**28,334**	**(2,547)**
Addasiad ar gyfer eitemau a gynhwysir yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi a chyllido		
Elw o werthu Eiddo, Offer a Chyfarpar, Eiddo Buddsoddiad ac Asedau y delir i'w gwerthu	(218)	(890)
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau a dderbyniwyd	(25,937)	(37,883)
Cyfanswm	**(26,155)**	**(38,773)**

NODYN 23 – LLIF ARIAN O WEITHGAREDDAU BUDDSODDI

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Symudiad Buddsoddiad tymor byr a hir	-	-
Offer a Chyfarpar, Asedau Treftadaeth, Eiddo Buddsoddiad, Asedau Annirweddol ac Asedau Hawl Defnydd	(44,482)	(56,187)
Enillion o werthu Eiddo,Offer a Chyfarpar, Eiddo Buddsoddiad ac Asedau y delir i'w gwerthu	218	890
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau a dderbyniwyd	25,937	37,884
Llif arian net o weithgareddau buddsoddi	**(18,327)**	**(17,413)**

NODYN 24 – LLIF ARIAN O WEITHGAREDDAU CYLLIDO

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Symudiad mewn Benthyca		
Benthyca Tymor Byr	301	(1,134)
Ad-daliadau arian parod o Rhwymedigaethau Prydles Hawl i Ddefnyddio	(423)	(341)
Benthyca Tymor Hir	(677)	552
Llif arian net o weithgareddau cyllido	**(799)**	**(923)**

NODYN 25a – DADANSODDIAD O NATUR GWARIANT AC INCWM

Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn rhoi gwybodaeth ariannol mewn perthynas â gwariant ac incwm bob gwasanaeth. Mae'r nodyn yma ar natur y gwariant hwn yn rhoi gwybodaeth ariannol ar y math o wariant, yn hytrach na fesul gwasanaeth.

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Gwariant		
Buddiannau Gweithwyr	125,607	120,285
Gwasanaethau Eraill	156,537	150,558
Dibrisiant, amorteiddio, amhariad a symud mewn gwerth y farchnad eiddo buddsoddiad	21,578	16,077
Taliadau Llog	32,167	23,183
Dadgydnabod ac Amhariad Asedau Ariannol	320	545
Praeseptau ac Ardollau	19,941	18,546
Colli / (enillion) ar waredu asedau	(148)	796
Cyfanswm Gwariant	**356,002**	**329,990**
Incwm		
Ffioedd, Taliadau ac incwm gwasanaeth eraill	(42,703)	(41,669)
Incwm Llog a Buddsoddi	(27,941)	(19,428)
Incwm o'r Dreth Gyngor, Trethi Annomestig	(98,155)	(92,948)
Grantiau a Chyfraniadau Llywodraeth	(210,813)	(217,067)
Cyfanswm Incwm	**(379,612)**	**(371,112)**
Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	**(23,610)**	**(41,122)**

NODYN 25b – INCWM CYLCHRANNOL

Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm incwm y Cyngor gan ffioedd, taliadau a rhenti ar gyfer darparu gwasanaethau. Mae hyn yn eithrio incwm grant ac incwm gan y Dreth Gyngor.

Gwasanaethau	2025/26 Incwm o Wasanaethau £'000	2024/25 Incwm o Wasanaethau £'000
Dysgu Gydol Oes	(654)	(655)
Gwasanaethau Oedolion	(8,556)	(8,106)
Gwasanaethau Plant	(7)	-
Tai	(478)	(713)
Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff	(5,289)	(5,249)
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	(3,416)	(3,279)
Trawsnewid	(1)	(37)
Adnoddau	(188)	(209)
Busnes y Cyngor	(155)	(468)
Costau Corfforaethol a Democrataidd	(290)	(265)
Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	(23,669)	(22,688)
Cyfanswm Incwm	**(42,703)**	**(41,669)**

Mae'r rhan fwyaf o'r trafodion y mae'r Cyngor yn eu sefydlu gyda derbynwyr gwasanaethau yn syml. Mae prisiau'r holl drafodion yn seiliedig ar lyfryn Ffioedd a Thaliadau'r Cyngor a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ac sydd wedi eu hamlinellu ar wefan y Cyngor drwy'r linc/cyfeiriad gwefan canlynol: -

Ffioedd a thaliadau y cyngor (llyw.cymru)

Fel arfer, caiff derbynwyr gwasanaethau 14 diwrnod i dalu'r ffioedd a'r taliadau sy'n ddyledus i'r Cyngor. Nid yw hyn yn cynnwys ffioedd a thaliadau sy'n daladwy wrth bwynt darparu'r nwyddau/gwasanaethau.

Gall contractau ymwneud â'r flwyddyn ariannol rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026. Bydd unrhyw incwm nad yw wedi ei dderbyn erbyn diwedd mis Mawrth yn cael ei gronni er mwyn ei gyfatebu gyda'r gwasanaethau a ddarparwyd. Caiff rhywfaint o incwm ei dderbyn ar yr adeg y caiff y gwasanaeth/nwyddau eu darparu, er enghraifft, rhoddion a werthir yn siop yr Oriel, tâl mynediad i sesiwn nofio yn y Canolfannau Hamdden. Mae un o'r mathau mwyaf cymhleth o incwm yn ymwneud â ffioedd a thaliadau ar gyfer lleoliadau Gofal Cymdeithasol Oedolion cymhleth. Gall y taliadau yma gael eu gohirio hyd nes daw incwm ar gael o werthu eiddo. Nid yw Gwasanaethau Oedolion yn cydnabod yr incwm hwn bob blwyddyn ariannol, er gwaethaf y ffaith ei fod yn cael ei ohirio er mwyn ei gyfatebu â'r cyfnod y darparwyd y gofal.

NODYN 26 – LWFANSAU AELODAU

Talwyd cyfanswm o £1.162m (£1.061m yn 2024/25) o ran lwfansau i Aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn, fel a ganlyn: -

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Lwfansau sylfaenol a chyfrifoldeb arbennig	914	865
Lwfansau'r Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd	16	10
Costau pensiwn	105	101
Costau Yswiriant Cenedlaethol	113	77
Costau teithio	3	3
Cynhaliaeth	3	2
Amrywiol	8	3
Cyfanswm	**1,162**	**1,061**

Yn ychwanegol at hyn, gwariodd y Cyngor £33,906.35 ar dreuliau i aelodau lleyg (£27,510.71 yn 2024/25).

NODYN 27 – CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I SWYDDOGION

Roedd y nifer o weithwyr (yn cynnwys uwch swyddogion) yr oedd eu cydnabyddiaeth ariannol blynyddol yn 2025/26, ac eithrio cyfraniadau pensiwn ond yn cynnwys tâl diswyddo, gor-amser a thaliadau cyfrifoldebau addysgu a dysgu yn fwy na £60k ond dim yn fwy na £150k yn: -

Cydnabyddiaeth Ariannol i Swyddogion	Heb fod yn Ysgolion 2025/26 Nifer o weithwyr	Heb fod yn Ysgolion 2024/25 Nifer o weithwyr	Ysgolion 2025/26 Nifer o weithwyr	Ysgolion 2024/25 Nifer o weithwyr
£60,000 i £64,999*	17	17	65	31
£65,000 i £69,999*	8	2	15	23
£70,000 i £74,999*	1	2	26	22
£75,000 i £79,999*	2	-	15	6
£80,000 i £84,999*	2	1	4	7
£85,000 i £89,999*	-	6	4	5
£90,000 i £94,999*	8	-	6	5
£95,000 i £99,999	-	3	3	1
£100,000 i £104,999	3	-	-	2
£105,000 i £109,999	-	1	2	1
£110,000 i £114,999	1	-	2	-
£115,000 i £119,999	-	-	-	1
£120,000 i £124,999	-	-	-	-
£125,000 i £129,999	-	-	-	-
£130,000 i £134,999	-	-	-	-
£135,000 i £139,999	1	1	-	-
Cyfanswm	**43**	**33**	**142**	**104**

*Ni fyddai 8 sydd wedi eu cynnwys yn y bandiau yma'n ymddangos uchod oni bai eu bod wedi derbyn tâl diswyddo o fewn y flwyddyn (7 achos yn 2024/25). Yn ychwanegol, mae 51 wedi eu cynnwys uchod o ganlyniad i dâl cyfrifoldebau dysgu ac addysgu ychwanegol (19 achos yn 2024/25), ac mae 2 wedi eu cynnyws oherwydd cyfuniad o dâl cyfrifoldebau dysgu ac addysgu ychwanegol a thâl am swydd ychwanegol (3 wedi eu cynnwyso ganlyniad i dâl am swydd ychwanegol 2024/25).

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r gydnabyddiaeth ariannol a dalwyd i uwch swyddogion sy'n cael eu cyflogi ar sail barhaol ac y mae eu cyflogau blynyddol a buddion eraill yn uwch na £60k y flwyddyn. Mae uwch swyddogion gyda chyflog mwy na £150k y flwyddyn yn cael eu henwi'n unigol hefyd er mwyn cydymffurfio gyda gofynion statudol:-

Cydnabyddiaeth Ariannol i Uwch Swyddogion 2025/26	Nodyn	Cyflog, Ffioedd a Lwfansau £	Lwfansau Costau £	Cyfraniad Pensiwn £	Cyfanswm £
Prif Weithredwr	1	136,041	-	27,344	**163,385**
Dirprwy Brif Weithredwr		112,748	-	22,662	**135,410**
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro		91,601	-	18,412	**110,013**
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog 151		101,101	-	20,321	**121,422**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol		101,101	-	20,321	**121,422**
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc		101,101	-	20,321	**121,422**
Pennaeth Proffesiwn: AD a Thrawsnewid	2	70,446	-	13,570	**84,016**
Pennaeth Digidol, Perfformio a Moderneiddio	2	18,148	-	3,648	**21,796**
Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad Cwsmer	2	18,148	-	3,648	**21,796**
Pennaeth Gwasanaeth: Tai		90,015	-	18,093	**108,108**
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd		90,015	-	18,093	**108,108**
Pennaeth Gwasanaeth: Oedolion		90,015	-	18,093	**108,108**
Pennaeth Gwasanaeth: Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo		90,015	-	18,093	**108,108**
Cyfanswm		**1,110,495**	**-**	**222,619**	**1,333,114**

[1]Elfen Swyddog Canlyniadau o gyflog y Prif Weithredwr yw £170 ac nid yw wedi ei gynnwys yn y ffigyrau uchod.
[2]Gadawodd y Pennaeth Proffesiwn: AD a Thrawsnewid ei swydd ar 31/12/2025. Disodlwyd y swydd yma gyda deilyddion y swyddi Pennaeth Digidol, Perfformio a Moderneiddio a'r Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad Cwsmer yn dechrau ar 19/01/2026.

Mae cymhareb taliad cyflog y Prif Weithredwr fel canolrif o gyflogau'r holl weithwyr eraill yn 4.39:1 ar gyfer 2025/26 (4.39:1 yn 2024/25). Y canolrif cyflog ar gyfer holl weithwyr yn 2025/26 yw £31,022 (£30,060 yn 2024/25). Dyma'r cyflog ar y pwynt canol holl gyflogau gweithwyr o'r isaf i'r uchaf

Ceir ffigyrau cymharol ar gyfer 2024/25 yn y tabl isod: -

Cydnabyddiaeth Ariannol i Uwch Swyddogion 2024/25	Nodyn	Cyflog, Ffioedd a Lwfansau £	Lwfansau Costau £	Cyfraniad Pensiwn £	Cyfanswm £
Prif Weithredwr	1	131,823	-	26,496	158,319
Dirprwy Brif Weithredwr		109,252	-	21,960	131,212
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro		88,761	-	17,841	106,602
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog 151		97,966	-	19,691	117,657
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol		97,966	-	19,691	117,657
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc	2	89,802	-	18,050	107,852
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc	2	7,637			
Pennaeth Proffesiwn: AD a Thrawsnewid		87,224	-	17,532	104,756
Pennaeth Gwasanaeth: Tai		87,224	-	17,532	104,756
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd		87,224	-	17,532	104,756
Pennaeth Gwasanaeth: Oedolion		87,224	-	17,532	104,756
Pennaeth Gwasanaeth: Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo		87,224	-	17,532	104,756
Cyfanswm		**1,059,327**	**-**	**212,924**	**1,272,251**

[1] Elfen Swyddog Canlyniadau o'r cyflog yw £3,937 ac nid yw wedi ei gynnwys yn y ffigyrau uchod.

[2] Gwnaeth y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc adael cyflogaeth y Cyngor ar 28/02/25 a dechreuodd y Cyfarwyddwr newydd ar 03/03/25

NODYN 28 – TALIADAU YMADAEL

Mae'r nifer o becynnau ymadael gyda chyfanswm cost fesul band a chyfanswm cost diswyddiadau gorfodol a diswyddiadau eraill wedi eu nodi yn y tabl isod: -

Band cost ymadael (gan gynnwys taliadau arbennig)	Nifer o ddiswyddiadau gorfodol		Nifer o ymadawiadau eraill a gytunwyd		Cyfanswm y nifer o becynnau ymadael fesul band cost		Cyfanswm cost pecynnau ymadael	
	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26	2024/25	2025/26 £'000	2024/25 £'000
£0 - £20,000	2	10	6	4	8	14	85	65
£20,001 - £40,000	5	2	3	5	8	7	241	216
£40,001 - £60,000	-	-	3	-	3	-	140	-
£60,001 - £80,000	1	-	1	-	2	-	123	-
£80,001 - £100,000	1	-	-	-	1	-	98	-
£100,001 - £250,000	-	-	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm	**9**	**12**	**13**	**9**	**22**	**21**	**687**	**281**

Yn unol â'r gofynion, mae costau ymadael a oedd y Cyngor wedi ymrwymo i'w talu fel ar 31 Mawrth, ond a dalwyd ar ôl y dyddiad hwn, wedi eu cynnwys yn yr uchod. Mae'r cyfansymiau a ddatgelwyd yn cynnwys taliadau a wnaed i'r unigolyn ac unrhyw daliadau a wnaed gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn pan fydd gweithiwr yn ymddeol yn gynnar heb ostyngiad actiwaraidd yn eu pensiwn yn unol â Pholisi Iawndal drwy Ddisgresiwn y Cyngor Sir.

NODYN 29 – FFIOEDD ARCHWILIO ALLANOL

Codwyd y ffioedd canlynol ar y Cyngor mewn perthynas ag archwilio allanol ac arolygiaeth: -

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Ffioedd yn daladwy i Archwilio Cymru mewn perthynas â gwasanaethau archwilio allanol gan yr archwilydd apwyntiedig am y flwyddyn	236	236
Ffioedd yn daladwy i Archwilio Cymru mewn perthynas ag arolygon statudol	117	97
Ffioedd yn daladwy i Archwilio Cymru ar gyfer ardystio hawliadau a dychweliadau grant am y flwyddyn	76	80
Cyfanswm	**429**	**413**

NODYN 30 – INCWM GRANTIAU

Mae'r Cyngor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn 2025/26 a 2024/25: -

	Nodyn	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Credydwyd i Drethiant ac Incwm grant Amhenodol			
Grant Cynnal Refeniw (Grantiau Llywodraeth sydd heb eu neilltuo)	12	110,784	102,245
Arall (Grantiau Llywodraeth sydd heb eu neilltuo)		-	1,035
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf		13,758	20,453
AEF Trethi Annomestig (TA)	12	25,097	25,341
Grant – CRT (Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf)		12,179	17,430
Cyfanswm		**161,818**	**166,504**
Credydwyd i'r Gwasanaethau			
Grantiau:			
Grant Ôl 16 (Addysg)		3,331	3,326
Grant Addysg Awdurdod Lleol (yn cynnwys Grantiau Gwelliant Addysg a Datblygu Disgyblion)		10,704	11,365
Grant Plant a Chymunedau* (Gwasanaethau Plant)		4,016	3,425
Grant Tocynnau Rhatach		504	521
Cymhorthdal Budd-daliadau Tai		10,061	12,575
Grant Cymorth Tai**		4,381	3,899
Grant yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy		462	464
Cronfa Codi'r Gwastad		6,598	5,032
Cronfa Gofal Integredig		1,788	2,184
Cyfanswm		**41,845**	**42,791**
Grantiau sy'n ymwneud â Covid			
Cronfa Caledi Brys Sengl Llywodraeth Leol Covid:			
Grant Rhyddhad Trethi Annomestig		-	18
Cyfanswm		**-**	**18**
Addysg, Sgiliau a Phobol Ifanc		1,555	3,251
Gwasanaethau Oedolion		3,211	2,002
Gwasanaethau Plant		2,050	1,971
Tai		2,479	3,400
Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff		5,473	2,352
Datblygu Economaidd a Rheoleiddio		3,994	6,922
Trawsnewid Corfforaethol		442	520
Adnoddau		2,585	2,010
Busnes y Cyngor		69	77
Costau Corfforaethol a Democrataidd		565	1
Rheolaeth Corfforaethol		10	10
Cyllid Corfforaethol		-	63
Cyfrif Refeniw Tai		116	167
Cyfanswm		**22,549**	**22,746**
Cyfraniadau:		**9,697**	**10,350**
Cyfanswm grantiau a chyfraniadau a gredydwyd i'r gwasanaethau		**74,091**	**75,905**
Cyfanswm		**235,909**	**242,409**

Grantiau Refeniw a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw

Grantiau Refeniw a derbyniwyd Ymlaen llaw	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Addysg, Sgiliau a Phobol Ifanc	42	185
Datblygu Economaidd a Rheoleiddio	313	693
Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff	186	-
Tai	61	3
Gwasanaethau Cymdeithasol	9	23
Trawsnewid Corfforaethol	19	30
Rhyddhad Ar Drethi	8	8
Cyfanswm	**638**	**942**

Grantiau Cyfalaf a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw

Derbyniwyd y grantiau cyfalaf canlynol o flaen llaw ac nid ydynt wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr: -

Grantiau Cyfalaf a derbyniwyd Ymlaen llaw	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf Llywodraeth Cymru a Dderbyniwyd ymlaen llaw:		
Tymor Hir		
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	-	1,349
Tymor Byr		
Tir wedi'i Halogi	17	17
Safloeoedd a Safai	2	-
Cynnig Gofal Plant	121	121
Grant Adfer Gwyrdd	71	71
Cysylltu Gofal	52	-
Isadeiledd Cerbydau Trydan	131	166
Grant Gwres Carbon Isel	679	494
Cynlluniau Llifogydd	40	-
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	-	3,846
Anghenion Dysgu Ychwanegol	-	153
Arall	22	98
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf a Dderbyniwyd ymlaen llaw gan Sefydliadau eraill:		
Cyfrif Refeniw Tai	-	84
Cronfa Ffyniant Gyffredin	164	-
Cronfa Lefelu i Fyny	1	6,794
Chwaraeon Cymru	67	177
Cronfa Effaith Balchder Mewn Lle	750	
Arall	-	141
Cyfanswm	**4,276**	**13,511**

NODYN 31 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae gofyn i'r Cyngor ddatgelu gwybodaeth mewn perthynas â thrafodion a balansau dyledus yr Awdurdod gyda'i bartïon cysylltiedig. Mae materoldeb y trafodion unigol sy'n codi trwy bartïon cysylltiedig a'r datgeliadau canlynol yn ymwneud â thrafodion rhwng y Cyngor a'i bartïon cysylltiedig. Caiff manylion am gyd-bwyllgorau a gweithrediadau ar y cyd eu gweld o fewn Nodyn 37 Cyd-Bwyllgorau a Chyllidebau Cyfun. Gellir gweld rhestr o gynrychiolaeth cydranddeiliaid gyda sefydliadau o dan Atodiad 1.

Aelodau - Mae'r Aelodau'n gyfrifol am reolaeth uniongyrchol o bolisïau'r Cyngor. Mae'r cyfanswm o lwfansau Aelodau a dalwyd yn ystod y flwyddyn i'w weld yn Nodyn 26. Penodir Aelodau gan y Cyngor i rai cyrff cyhoeddus, elusennol a gwirfoddol, sy'n annibynnol i'r Cyngor ond sy'n cael effaith ar ei feysydd gwasanaeth. Fel bod y Cyngor yn gallu cynnal perthnasau effeithiol gyda nifer o'r sefydliadau hyn, mae cynrychiolwyr o'r Cyngor, sef Cynghorwyr etholedig fel arfer, yn eistedd ar y gwahanol bwyllgorau a fforymau sy'n gyfrifol amdanynt.

Uwch Swyddogion - Gellir gweld cyfansymiau cydnabyddiaeth ariannol Uwch Swyddogion o fewn Nodyn 27. Mae'n ofynnol i Uwch Swyddogion gwblhau datganiad o fuddiant personol, gan nodi unrhyw fuddiannau sydd ganddynt gydag unrhyw sefydliad a allai dderbyn taliadau gan y Cyngor.

Mae dadansoddiad o'r trafodion gyda phartïon cysylltiedig fel a ganlyn:

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Taliadau a wnaed	11,425	10,249
Taliadau a Dderbyniwyd	12,495	5,139
Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor	13,508	6,280
Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor	1,940	15,808

Dyma grynodeb o'r sefydliadau unigol sydd gan drafodion gyda'r Cyngor o dros £10k:-

Corff	Cysylltiad	Taliadau a Wnaed £'000	Taliadau a Dderbyniwyd £'000	Swm sy'n ddyledus gan y Cyngor £'000	Swm sy'n ddyledus i'r Cyngor £'000
2025/26					
Amgueddfa Forwrol Caergybi	Aelod wedi datgan diddordeb	24	-	126	-
Cynghrair Cymuned Seiriol	Aelod wedi datgan diddordeb	10	-	-	-
Cyngor Cymuned Llanddaniel	Aelod wedi datgan diddordeb	11	-	-	-
Cyngor Bro Bryngwran	Aelod wedi datgan diddordeb	10	-	-	-
Clwn Pêl Droed Ieuenctid Llangefni	Aelod wedi datgan diddordeb	8	13	-	4
Action for Children	Aelod wedi datgan diddordeb	326	-	40	-
Cyngor Cymuned y Fali	Aelod wedi datgan diddordeb	12	-	-	-
Cymell Ltd	Aelod wedi datgan diddordeb	279	12	27	2
Urdd Gobaith Cymru	Aelod wedi datgan diddordeb	6	23	1	7
Cyngor Tref Caergybi	Aelod wedi datgan diddordeb	734	-	1	14
Mencap	Aelod wedi datgan diddordeb	50	1	1	-
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Aelod wedi datgan diddordeb	485	101	111	122
Cymdeithas Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru	Aelod wedi datgan diddordeb	74	-	5	-
Cyngor Gwynedd Council	Aelod wedi datgan diddordeb	8,760	728	1,594	1,769
Cyngor Cymuned Trearddur	Aelod wedi datgan diddordeb	10	-	-	-
Hwb Cybi	Aelod wedi datgan diddordeb	15	-	-	-
Canolfan Ucheldre	Aelod wedi datgan diddordeb	20	-	-	-
Cylch Meithrin Llanerchymedd	Aelod wedi datgan diddordeb	76	-	-	1
Antur Waunfawr	Swyddog wedi datgan diddordeb	14	-	2	-
Porthladd Rhydd Ynys Môn Ltd	Swyddog wedi datgan diddordeb	-	11,567	-	-
Cyngor ar Bopeth Ynys Môn	Aelod wedi apwyntio gan y Cyngor i fod yn gynrychiolydd	125	-	22	-
Prifysgol Bangor	Aelod wedi apwyntio gan y Cyngor i fod yn gynrychiolydd	14	59	27	26
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Aelod wedi apwyntio gan y Cyngor i fod yn gynrychiolydd	1,440	5,145	942	7,030
Cwmni'r Frân Wen	Aelod wedi apwyntio gan y Cyngor i fod yn gynrychiolydd	-	-	24	-
Grŵp Llandrillo Menai	Aelod wedi apwyntio gan y Cyngor i fod yn gynrychiolydd	509	14	182	-
Medrwn Môn	Aelod wedi apwyntio gan y Cyngor i fod yn gynrychiolydd	479	32	28	2
Menter Môn	Aelod wedi apwyntio gan y Cyngor i fod yn gynrychiolydd	552	46	-	95
Cymdeithas Tai Gogledd Cymru	Aelod wedi apwyntio gan y Cyngor i fod yn gynrychiolydd	23	-	-	-
Heddlu Gogledd Cymru	Aelod wedi apwyntio gan y Cyngor i fod yn gynrychiolydd	8	107	12	66
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	Aelod wedi apwyntio gan y Cyngor i fod yn gynrychiolydd	136	833	-	369
2024/25					
Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru	Aelod wedi datgan diddordeb	404	-	185	-
Cyngor Cymdeithas Llanbadrig	Aelod wedi datgan diddordeb	30	-	-	1
Clwb Pêl Droed Aberffraw	Aelod wedi datgan diddordeb	18	1	-	1
Clwb Pêl Droed Ieuenctid Llangefni	Aelod wedi datgan diddordeb	20	-	2	-
Action for Children	Aelod wedi datgan diddordeb	271	-	12	-
Cyngor Cymuned y Fali	Aelod wedi datgan diddordeb	11	-	-	-
Age Cymru Gwynedd a Môn	Aelod wedi datgan diddordeb	88	-	5	-
Cymell Ltd	Aelod wedi datgan diddordeb	249	13	20	2
Urdd Gobaith Cymru	Aelod wedi datgan diddordeb	46	16	1	6
Bwyd Da Môn CBC	Aelod wedi datgan diddordeb	23	-	-	-
Cyngor Tref Caergybi	Aelod wedi datgan diddordeb	30	-	-	-
Mencap	Aelod wedi datgan diddordeb	89	1	4	1
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Aelod wedi datgan diddordeb	555	3	193	78
Cymdeithas Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru	Aelod wedi datgan diddordeb	-	-	18	-
Cyngor Gwynedd Council	Aelod wedi datgan diddordeb	5,765	394	4,429	8,427
Eglwys yng Nghymru	Aelod wedi datgan diddordeb	-	45	-	27
Canolfan Ucheldre	Aelod wedi datgan diddordeb	19	-	-	-
Cyngor ar Bopeth Ynys Môn	Aelod wedi apwyntio gan y Cyngor i fod yn gynrychiolydd	95	-	-	-
Prifysgol Bangor	Aelod wedi apwyntio gan y Cyngor i fod yn gynrychiolydd	35	23	-	19
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Aelod wedi apwyntio gan y Cyngor i fod yn gynrychiolydd	1,334	3,813	755	7,015
Cwmni'r Frân Wen	Aelod wedi apwyntio gan y Cyngor i fod yn gynrychiolydd	13	-	12	-
Grŵp Llandrillo Menai	Aelod wedi apwyntio gan y Cyngor i fod yn gynrychiolydd	292	181	123	12
Medrwn Môn	Aelod wedi datgan diddordeb	89	-	414	5
Menter Môn	Aelod wedi datgan diddordeb	529	125	104	112
Cymdeithas Tai Gogledd Cymru	Uwch Swyddog wedi datgan diddordeb	23	10	-	-
Heddlu Gogledd Cymru	Aelod ac Uwch Swyddog wedi datgan diddordeb	19	46	-	82
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	Aelod wedi apwyntio gan y Cyngor i fod yn gynrychiolydd	145	448	-	3

Llywodraeth Cymru - Mae gan Llywodraeth Cymru reolaeth effeithiol dros weithrediadau cyffredinol y Cyngor gan ei fod yn darparu'r fframwaith statudol i'r Cyngor ei weithredu. Mae hefyd yn darparu'r mwyafrif o gyllid y Cyngor drwy grantiau ac mae'n pennu termau nifer o drafodion sydd gan y Cyngor gyda phartïon eraill (e.e. treth cyngor, budd-daliadau tai). Ceir manylion Incwm Grantiau yn Nodyn 30 ac mae cyfansymiau ar gyfer Trethi a Threthi Amhenodol wedi eu cynnwys yn Nodyn 12.

DIDDORDEBAU MEWN CWMNÏAU

Mae gan y Cyngor ddiddordeb yn y cwmnïau canlynol:

Cymdeithas Elusennol Ynys Môn (Y Gymdeithas)

Sefydlwyd Cymdeithas Elusennol Ynys Môn, Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn gynt, gan Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn, rhagflaenydd y Cyngor Sir, i weinyddu buddsoddiadau a brynwyd o arian a dderbyniwyd gan Shell (UK) Limited pan roddodd y cwmni'r gorau i weithredu Terfynell Olew ar Ynys Môn. Mae'r Gymdeithas bellach yn endid cyfreithiol arwahân gyda'r un dibenion elusennol ag Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn.

Mae'r gymdeithas yn cael ei reoli gan Aelodaeth o holl aelodau etholedig y Cyngor mewn modd ex-officio gyda Bwrdd o 12 Ymddiriedolwyr, chwech wedi eu hethol o'r Aelodaeth, gyda'r chwech sy'n weddill (yn cynnwys y Cadeirydd) wedi eu penodi'n anibynnol o gymuned ehangach.

Amcanion y Gymdeithas yw darparu amwynderau a chyfleusterau er budd cyhoeddus cyffredinol pobl sy'n byw yn Ynys Môn. Cyflawnir hyn drwy gyfrannu at wariant ar wasanaethau cyhoeddus a thrwy roi grantiau i sefydliadau elusennol a gwirfoddol.

Derbyniodd y Cyngor £35k gan y Gymdeithas tuag at gostau rhedeg Oriel Ynys Môn (£93k yn 2024/25).

Porthladd Rhydd Ynys Môn Limited - Sefydlwyd y cwmni hwn ym mis Tachwedd 2024 i redeg y porthladd rhydd yng Nghaergybi. Ar hyn o bryd, y Cyngor yw'r unig gyfranddaliad ar gyfer y cwmni hwn gyda'r Prif Weithredwr yn cael ei restru fel y Cyfarwyddwr. Disgwylir y bydd hyn yn newid yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf i gynnwys cwmnïau eraill. Derbyniodd y Cyngor grant gan Lywodraeth Cymru o £250k yn 2025/26 (£301k yn 2024/25) i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol a Therfynol ar gyfer sefydlu a datblygu'r porthladd rhydd. Yn ystod 2025/26, derbyniodd y Cyngor £11.6m ar ran y Porthladd Rhydd gan Lywodraeth Cymru. Mae hwn i'w ddefnyddio i gyflawni prosiectau cyfalaf y Porthladd Rhydd.

Unwaith bydd y cwmni'n weithredol, bydd yn derbyn taliadau gan berchnogion tir sydd wedi'u dynodi fel safleoedd/lleoedd treth. Bydd y Cyngor yn derbyn gwerth y dreth o'r datblygiadau gan Lywodraeth Cymru am nifer o flynyddoedd, bydd rhan o'r incwm hwn yn cael ei ddefnyddio i ariannu costau rhedeg y cwmni. Os yw gwerth y trethi a dderbynnir yn fwy nac angen ariannol y cwmni, bydd yr elw dros ben yn cael ei ddefnyddio gan y Cyngor i ariannu prosiectau sy'n cyd-fynd â nodau'r porthladd rhydd. Yn ogystal, bydd y Cyngor yn derbyn grant cyfalaf gyda'r nod o ddenu cwmnïau i'r Ynys.

Mae gan y Cyngor ddiddordebau yn y cwmnïau canlynol hefyd:-

Ysgol Sefydledig Caergeiliog - Mae'r balansau ar gyfer asedau ac ymrwymiadau cyfredol a reolir gan Ysgol Sefydledig Caergeiliog wedi eu cynnwys yn y cyfrifon hyn ac, felly, mae cronfeydd wrth gefn yr ysgol, fel y nodir yn y Fantolen yma, yn cynrychioli'r asedau cyfredol net yn unig. Mae gan yr ysgol hefyd asedau anghyfredol sydd wedi eu nodi ar Fantolen yr ysgol, sef £729k ar 31 Mawrth 2026 (£770k ar 31 Mawrth 2025), ar gyfuniad o brisiant a chost hanesyddol, llai dibrisiant. Mae'r asedau anghyfredol wedi eu breinio yng Nghorff Llywodraethu'r ysgol ac nid ydynt wedi'u cyfuno ym Mantolen y Cyngor hwn.

NODYN 32 – CRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETH

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel ymddiriedolwr ar gyfer nifer o gronfeydd ymddiriedolaeth sydd yn elusennau gofrestredig. Mae'r gwaith gweinyddu ariannol ar gyfer y cronfeydd hyn yn cael ei gwblhau gan y Cyngor fel Ymddiriedolwr er bod y wybodaeth a gadwir am bob cronfa yn cael ei hadnabod yn unigol. Cronfa Degwm Cyngor Sir Ynys Môn ac Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yw'r ddwy gronfa fwyaf mae'r Cyngor yn ymddiriedolwr ar eu cyfer.

2025/26	2025/26 Income £'000	2025/26 Expenditure £'000	2025/26 Assets £'000	2025/26 Liabilities £'000
Isle of Anglesey County Council Welsh Church Act Fund - Unaudited	22	-	939	-
Anglesey Further Education Trust Fund - Unaudited	204	97	3,528	28

2024/25	2024/25 Incwm £'000	2024/25 Gwariant £'000	2024/25 Asedau £'000	2024/25 Rhwymedigaethau £'000
Cronfa Degwm Cyngor Sir Ynys Môn - Heb eu harchwilio	25	-	807	-
Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn - Cyfrifon terfynol	198	160	3,395	9

Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn (Rhif 525254)

Mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cynnwys tair cronfa. Mae hyn yn cynnwys Ystâd Ffermydd aman ddaliad David Hughes sy'n cael ei rheoli gan dîm Tyddynnod y Cyngor yn yr Adran Eiddo. Mae cronfa David Hughes yn casglu rent gan dyddynnod yn ogystal â llog ar ei fuddsoddiadau eraill. Mae'r ddwy gronfa arall yn ennill incwm gan fuddsoddiadau sy'n cael eu rheoli nad ydynt yn eiddo. Mae incwm net y gronfa yn darparu cymorth ariannol ar gyfer disgyblion hŷn a phobl ifanc cymwys dan 25 oed i'w helpu nhw i gwblhau cyrsiau os ydynt yn wynebu anfantais ariannol.

Gellir gweld y cyfrifon terfynol cyfredol sydd wedi'u harchwilio ar gyfer yr ymddiriedolaeth sy'n berthnasol i 2024/25 drwy glicio ar y ddolen isod.

Chyfrifon Drafft Ymddiriedolaeth Addysg Bellach

Cronfa Degwm Cyngor Sir Ynys Môn

Roedd y Gronfa hon yn cae ei rheoli'n flaenorol gan Gyngor Gwynedd a drosglwyddodd asedau'r gronfa i'r Cyngor ym mis Mai 2019. Mae ymgynghorydd yn adolygu'r gronfa ar hyn o bryd gyda'r bwriad o lansio cynllun newydd fydd yn amlinellu diben y gronfa, ei chynllun ar gyfer darparu cymorth elusennol yn ogystal â chreu elusen newydd. Roedd yr asedau net o fewn y gronfa ar 31 Mawrth 2025 yn £939k (£807k i Mawrth 2025).

Gellir gweld y cyfrifon terfynol cyfredol sydd heb eu harchwilio ar gyfer yr Cronfa sy'n berthnasol i 2025/26 drwy glicio ar y ddolen isod.

Penderfyniad Gronfa Degwm

Mân Gronfeydd

Mae'r Cyngor hefyd yn ymddiriedolwr ar gyfer nifer o fân gronfeydd addysg, fel y gweler isod.

Mân Ymddiriedolaethau	2025/26 Asedau £'000	2024/25 Asedau £'000
Amlwch		
Sir Thomas Jones ac ysgolion bwydo	-	1
Mrs Dilys Evans BA	2	2
Mr Caradoc Evans MSc	2	2
Caergybi		
Stanley Scholarship	16	14
Porthaethwy		
F C Baines AP	38	35
Eraill		
Llanynghenedl War Heroes	2	7
John Williams-Hughes	4	3
Anwen Williams	7	6
Cyfanswm Mân Ymddiriedolaethau Addysg	**71**	**70**

Cronfeydd eraill a weinyddir gan y Cyngor

Mae'r Cyngor fel rhan o'i gylch gwaith diogelu a chefnogi pobl agored i niwed hefyd yn gweinyddu nifer o gyfrifon banc cleientiaid y mae'r Cyngor wedi'u penodi i'w rheoli gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) fel Penodai Corfforaethol neu'r Llys Gwarchod fel sy'n berthnasol. Mae hyn ar ran unigolion nad oes ganddynt y gallu i reoli eu materion ariannol eu hunain. Rheolir y rhain gan dîm mewn gwasanaethau Oedolion ac fe'u monitro ddwywaith y flwyddyn gan y Llys Gwarchod. Cyfanswm gwerth y cyfrifon hyn ar 31 Mawrth 2026 oedd £1.256m (£1.023m ar 31 Mawrth 2026). Nid yw'r gwerth hwn wedi'i gynnwys yn mantolen y Cyngor gan nad yw'r arian yn perthyn i'r Cyngor.

NODYN 33 – CYNLLUN PENSIWN ATHRAWON

Mae athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o Gynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan yr Adran Addysg. Mae'r cynllun yn rhoi buddiannau penodol i athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar ganran o dâl pensiynadwy aelodau.

Yn dechnegol, cynllun buddiannau diffiniedig yw'r cynllun. Fodd bynnag, mae'r cynllun heb ei gyllido ac mae'r Adran Addysg yn defnyddio cronfa dybiannol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w thalu gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Cyngor yn gallu adnabod ei gyfran o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad Cyfrifon yma maent, felly, yn cael eu cyfrifo ar yr un sail â chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2025/26, talodd y Cyngor £8.701m i Bensiynau Athrawon yn ymwneud â buddiannau ymddeol athrawon, a oedd yn cynrychioli 28.62% o dâl pensiynadwy (£8.530m a 28.47% yn 2024/25).

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a ddyfernir ar gyfer ymddeoliad cynnar y tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig a manylir arnynt yn Nodyn 34 isod.

NODYN 34 – CYNLLUN PENSIWN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG LLYWODRAETH LEOL

Buddiannau Ymddeoliad Cyfranogiad yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith ei swyddogion a'i weithwyr eraill, mae'r Cyngor yn cynnig buddiannau ymddeoliad. Er nad yw'r buddiannau yma yn cael eu talu hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyngor ymrwymiad i wneud y taliadau sydd raid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau i'r dyfodol. Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd, sy'n darparu buddion wedi'u diffinio ac yn cael ei weinyddu gan Gyngor Gwynedd. Mae hwn yn gynllun a gyllidir, gan olygu fod y Cyngor a gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, a gyfrifir ar lefel y bwriedir iddi gydbwyso rhwymedigaethau'r pensiwn gydag asedau buddsoddiad.

Mae effaith terfyn asedau yn 2024/25 wedi cael ei hail-ddatgan oherwydd newid ynghylch sut mae'r ffigur yn cael ei gyflwyno yn 2025/26. Mae hyn i sicrhau bod 2024/25 yn cael ei gyflwyno yn y fformat newydd at ddibenion cymharu.

a) Trafodion yn ymwneud â buddiannau ôl-gyflogaeth

Mae'r Cyngor yn adnabod cost y buddiannau ymddeol yn yr adroddiadau ar gostau'r gwasanaethau pan mae'r gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan mae'r buddiannau yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd raid ei dangos yn erbyn Cronfa'r Cyngor yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn ac, felly, mae gwir gost buddiannau ôl-gyflogaeth / ymddeoliad yn cael eu gwyrdroi o'r Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Yn ystod y flwyddyn, mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn:-

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Cost y gwasanaeth yn cynnwys:		
Costau cyfredol y gwasanaeth	7,504	10,075
Colledion ar setliadau neu gwtogiadau	160	242
Cyfanswm cost y Gwasanaeth	**7,664**	**10,317**
Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi		
Cost llog ar yr ymrwymiad budd diffiniedig	18,737	17,843
Diddordeb ar effaith y nenfwd ased	8,054	3,451
Incwm llog ar asedau'r cynllun	(26,443)	(20,841)
Cyfanswm y buddiannau Ôl-Gyflogaeth a godwyd i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaeth	**8,012**	**10,770**
Elw ar Asedau'r Cynllun (ac eithrio symiau sydd wedi eu cynnwys yn y gwariant llog net)	(22,028)	1,958
(Elw) a cholledion actiwarïaid yn codi oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig	(9,194)	(643)
(Elw) a cholledion actiwarïaid yn codi oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol	(8,442)	(61,449)
Arall	27,510	(3,616)
Effaith y Nenfwd Asedau	26,920	64,491
Cyfanswm Ailfesur y rhwymedigaeth o ran buddiannau net diffiniedig	**14,766**	**741**
Cyfanswm y buddiannau Ôl-gyflogaeth a godwyd ar Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	**22,778**	**11,511**
Gwyrdroi'r taliadau net a wnaed ar gyfer buddiannau ymddeoliad yn unol â'r côd	(5,732)	(982)
Swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn balans Cronfa'r Cyngor ar gyfer pensiynau yn ystod y flwyddyn:		
Cyfraniad y cyflogwyr sy'n daladwy i'r cynllun	13,744	11,752
Cyfanswm y buddiannau Ôl-gyflogaeth a godwyd i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	**8,012**	**10,770**

b) Asedau a Rhwymedigaethau Pensiwn a gydnabyddir yn y Fantolen

Mae rhwymedigaethau wedi cael eu hasesu ar sail actiwarïaid gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagdybiedig, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y blynyddoedd i ddod yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaethau, lefelau cyflogau ac ati. Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'r rhwymedigaethau o ran Buddiannau Dewisol wedi cael eu hasesu gan Hymans Robertson LLP, cwmni annibynnol o actiwarïaid, ac mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar y prisiad llawn ddiweddaraf o'r Cynllun ar 31 Mawrth 2026.

Mae'r symiau sydd wedi eu cynnwys yn y Fantolen yn codi o ymrwymiad yr Awdurdod mewn perthynas â'i gynllun buddiannau diffiniedig fel a ganlyn:	**31 Mawrth 2026 £'000**	**31 Mawrth 2025 £'000**
Gwerth Presennol Asedau'r Cynllun	505,052	450,508
Gwerth Presennol Ymrwymiadau'r Cynllun	(340,303)	(311,422)
Gwerth Presennol Rhwymedigaethau Cynllun - Heb ei Ariannu	(9,107)	(9,259)
Effaith y Nenfwd Asedau	(173,935)	(139,086)
Rhwymedigaeth net yn codi o'r Rhwymedigaethau diffiniedig	**(18,293)**	**(9,259)**

Cysoni Gwerth Presennol Rhwymedigaethau'r Cynllun

	2025/26 £'000 £'000	**2024/25 £'000 £'000**
Balans ar 1 Ebrill	**320,681**	**367,789**
Addasiad i agor cydbwysedd I ddiwygio BUEGC	**(169)**	**-**
Cost gwasanaeth cyfedrol	7,504	10,075
Cost llog	18,737	17,843
Cyfraniadau gan cyfranogwyr y cynllun	3,817	3,624
(Elw) / colledion Ailfesur	7,854	(65,708)
Costau gwasanaeth blaenorol	160	242
Amcangyfrif o'r buddiannau a dalwyd nad oeddynt yn cael eu cyllido	(975)	(1,022)
Amcangyfrif o'r buddiannau a dalwyd	(12,426)	(12,162)
Effaith cyfuniadau busnes a gwarediadau	4,227	-
Balans ar 31 Mawrth	**349,410**	**320,681**

Cysoni Gwerth Presennol Asedau'r Cynllun

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Gwerth Teg Agoriadol Asedau'r Cynllun ar 1 Ebrill	**450,507**	**428,411**
Addasiad i agor cydbwysedd I ddiwygio BUEGC 2021/22	**(293)**	-
Incwm Llog	26,443	20,841
Elw ar asedau cynllun (heb gynnwys gwariant llog net)	22,028	(1,958)
Arall	(2,020)	-
Cyfraniadau gan aelodau	3,817	3,624
Cyfraniadau gan y cyflogwr	12,315	11,752
Cyfraniadau mewn perthynas â buddiannau nad oeddynt yn cael eu cyllido	975	1,021
Buddiannau a dalwyd nad oeddynt yn cael eu cyllido	(975)	(1,021)
Buddiannau a dalwyd	(12,426)	(12,163)
Effaith cyfuniadau busnes a gwarediadau	4,681	-
Balans ar 31 Mawrth	**505,052**	**450,507**

c) Gwerth Teg Asedau'r Cynllun

Mae'r tabl isod yn dangos y categoreiddio ecwitïau a buddsoddiadau eraill rhwng y Prisiau a Ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol a phrisiau nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn Marchnadoedd Gweithredol a chanran pob math o fuddsoddiadau. Mae rheolwyr y gronfa fuddsoddi yn amrywio'r buddsoddiadau i sicrhau'r enillion gorau mewn buddsoddiadau diogel.

Ers 2018/19, mae rheolwyr y gronfa bensiwn wedi dechrau symud buddsoddiadau o'r rhai a ddyfynnir mewn marchnadoedd gweithredol i ddwy gronfa gyfun fyd-eang ym Mhartneriaeth Pensiynau Cymru (WPP). Dangosir y buddsoddiadau hyn o fewn Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Uned nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn marchnadoedd agored. Mae rhagor o wybodaeth am Gronfa Bensiwn Gwynedd yn ei chyfanrwydd ar gael ar y ddolen ganlynol:-

https://www.cronfabensiwngwynedd.cymru/cy/Cartref.aspx

Cyfran y Cyngor o Asedau'r Cynllun Pensiwn yw: -

	2025/26 Prisiau a Ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd £'000	2025/26 Prisiau nas dyfynnwyd mewn Marchnadoedd £'000	2025/26 Canran o gyfanswm asedau	2024/25 Prisiau a Ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol £'000	2024/25 Prisiau nas dyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol £'000	2024/25 Canran o gyfanswm asedau
Arian a chywerthoedd arian	-	7,918	2%	-	4,916	1%
Ecwiti preifat	-	23,297	5%	-	23,140	5%
Cronfeydd Buddsoddi ac Unedau Ymddiriedolaeth						
Ecwiti	-	245,943	49%	-	239,467	53%
Bondiau	-	173,731	34%		131,455	29%
Isadeiledd	-	29,623	6%	-	27,032	6%
Eraill			0%		-	
Eiddo Tiriog						
Eiddo yn y DU	-	24,540	5%	-	24,498	6%
Eiddo Tramor					-	
Deilliadau	-	-		-	-	
Cyfanswm Gwerth yr holl Asedau	**-**	**505,052**	**100%**	**-**	**450,508**	**100%**
Cyfanswm Gwerth yr Asedau Gweithredol ac Anweithredol		**505,052**			**450,508**	

ch) Hanes y Cynllun

Dadansoddiad o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun: -

	31 Mawrth 2026 £'000	31 Mawrth 2025 £'000	31 Mawrth 2024 £'000	31 Mawrth 2023 £'000	31 Mawrth 2022 £'000
Gwerth Teg Asedau'r Cynllun Pensiwn	505,052	450,508	428,411	383,797	397,617
Gwerth Presennol Rhwymedigaeth Budd Diffinedig y Cynllun	(349,410)	(320,681)	(367,789)	(363,983)	(518,816)
(Diffyg)/Asedau yn y Cynllun	**155,642**	**129,827**	**60,622**	**19,814**	**(121,199)**

Mae'r dadansoddiad o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun yn dangos yr ymrwymiadau sylfaenol sydd gan y Cyngor yn y tymor hir i dalu buddion ymddeol. Ar gyfer 2025/26, gwerth presennol rhwymedigaethau buddion wedi'u diffinio o £349.410m, sy'n sylweddol is na'r gwerth arferol oherwydd y ffactor disgownt cynyddol a ragnodir gan safonau cyfrifeg ac a ddefnyddir gan yr Actiwari. Mae hyn, fel y soniwyd yn yr adroddiad naratif, yn gysylltiedig â'r gyfradd sylfaenol banc uwch a gwerth bondiau corfforaethol y DU y mae'r ffactor disgownt yn seiliedig arnynt. Gwerth teg asedau yn y cynllun pensiwn yw £505.052m, sy'n uwch na gwerth presennol y rhwymedigaethau buddion diffiniedig o £349.410m. Arweiniodd hyn at sefyllfa asedau net ac eithrio buddion heb eu cyllido o £155.642m. O dan reolau cyfrifo (IFRIC14), ni chaniateir i'r Cyngor ddangos ased pensiwn net ar y fantolen oherwydd cyfyngiadau ar y gronfa bensiynau.

Mae'r Cyngor wedi defnyddio nenfwd asedau net o £173.935m, a fydd yn dod â'r ased i ddim ar y fantolen ar dudalen 18. Fodd bynnag, ni ellir gwrthbwyso rhwymedigaethau heb eu cyllido yn erbyn yr ased pensiwn net at ddibenion y nenfwd asedau. Felly, rhwymedigaethau pensiwn net ar y fantolen yw £18.293m er gwaethaf perfformiad cadarnhaol y gronfa bensiwn yn 2025/26.**)**

Prif Ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr Actiwari oedd:

	2025/26	2024/25
Rhagdybiaethau Marwolaeth:		
Hirhoedledd yn 65 bensiynwyr presennol:		
Dynion	21.0 years	20.7 years
Merched	23.7 years	23.5 years
Hirhoedledd yn 65 bensiynwyr dyfodol:		
Dynion	22.2 years	21.8 years
Merched	25.4 years	25.3 years
Graddfa Cynnydd Chwyddiant / Pensiwn	3.0%	2.8%
Gradda cynnydd mewn cyflogau	3.5%	3.3%
Dychweliad disgwyliedig ar yr asedau	10.7%	4.4%
Graddfa ddisgownt ar rwymedigaethau'r cynllun	6.2%	5.8%
Defnyddio'r opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeoliad:		
Gwasaneath i Ebrill 2008	50.0%	50.0%
Gwasaneath ar ol Ebrill 2008	75.0%	65.0%

dd) Dadansoddiad Sensitifrwydd

Newid Mewn Tybiaethau fel ar 31 Mawrth 2026	% y Cynnydd yn fras i'r Cyflogwr	Swm Ariannol Bras £'000
Lleihad o 0.1% yn y gyfradd ddisgownt real	2%	5,732
Cynnydd 1 blwyddyn yn nisgwyliad oes aelodau	4%	13,976
Cynnydd o 0.1 % yn y gyfradd cynnydd cyflog	0%	314
Cynnydd o 0.1 % yn y gyfradd cynnydd pensiwn	2%	5,412

Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd uchod yn seiliedig ar newidiadau rhesymol bosibl i'r rhagdybiaethau sy'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae'n tybio ar gyfer pob newid yn y dybiaeth bod yr holl dybiaethau eraill yn aros yn gyson. Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd yn dangos gall effaith gostyniad o 0.1% yn y gyfradd ddisgownt fod oherwydd newidiadau posibl i'r farchnad leihau rhwymedigaethau'r gronfa gan £5.732m. Gallai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes aelodau gynyddu rhwymedigaethau gan £13.976m. Yn ymarferol, bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn dibynnu ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os bydd gwelliannau i gyfraddau goroesi yn bennaf yn berthnasol i oedrannau iau neu hŷn). Gallai cynnydd o 0.1% yn y gyfradd cynyddu cyflog gynyddu costau'r gronfa gan £314k. Gallai cynnydd o 0.1% yn y gyfradd bensiwn gynyddu rhwymedigaethau gan £5.412m. Cyfrifwyd yr amcangyfrifon yn y dadansoddiad sensitifrwydd yn unol â rhagdybiaethau actiwarïaid proffesiynol, IAS19 a FRS102.

Mae hyn yn golygu bod y defnydd o'r rhagdybiaethau 0.1% isod wedi'u dewis gan yr actiwari arbenigol yn unol â'u barn broffesiynol. Byddai'r Actiwari wedi ystyried gwybodaeth gyfredol a gorffennol. Byddai gwybodaeth am oes pobl a gwybodaeth ddemograffig hefyd wedi dylanwadu ar hyn.

e) Yr Effaith ar Lif Arian yr Awdurdod

Amcan y cynllun yw cadw cyfraniadau cyflogwyr mor gyson â phosibl. Mae gan y Cyngor strategaeth gyda actiwari'r cynllun i gyflawni lefel cyllido o 100% dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae lefelau cyllido'n cael eu monitro'n flynyddol. Roedd prisiad tair blynedd wedi cael ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2026.

Bydd angen i'r cynllun gymryd i ystyriaeth y newidiadau cenedlaethol i'r cynllun dan Ddeddf Gwasanaethau Pensiynau Cyhoeddus 2013.

O dan y Ddeddf, efallai na fydd y CPLlL yng Nghymru a Lloegr, a phrif gynlluniau gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n bodoli eisoes, yn darparu buddion mewn perthynas â gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2014 (neu Wasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2015 ar gyfer prif gynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus presennol eraill yng Nghymru a Lloegr). Mae'r Ddeddf yn darparu bod rheoliadau cynlluniau yn cael eu gwneud o fewn fframwaith cyffredin, i sefydlu cynlluniau enillion ailbrisio cyfartalog gyrfa newydd i dalu pensiynau a buddion eraill.

Mae'r ased / atebolrwydd net yn dangos ymrwymiadau sylfaenol sydd gan y Cyngor yn y tymor hir i dalu buddion ôl-gyflogaeth (ymddeol). Mae'r ased net o £155.642m yn cael effaith sylweddol ar werth net y Cyngor fel y'i cofnodwyd yn y Fantolen. Mae hwn yn ased cyfrifyddu statudol nad yw'n effeithio ar falansau'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'r safon cyfrifo ar gyfer Pensiynau, IAS19 ac IFRIC14, yn ei gwneud yn ofynnol na ellir cynnwys ased pensiwn net fel ased ar y fantolen, felly, mae hyn wedi'i eithrio ac mae'r atebolrwydd pensiwn yn dangos y balans o £18.293m ar rwymedigaethau heb eu cyllido, yn unol â'r rheolau.

f) Amcangyfrif o'r cyfraniadau i'w talu i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2024/25

Mae'r Cyngor yn rhagweld talu £10.348m o gyfraniadau i'r cynllun yn 2025/26. Y swm sy'n ddyledus i Gyngor Gwynedd mewn perthynas â chyfraniadau CPLlL ar gyfer 2025/26 ar 31 Mawrth 2026 yw £1.330m, ac mae wedi'i gynnwys yn nodyn datgelu'r credydwyr tymor byr.

ff) Ansicrwydd ynghylch effaith bosibl achos Virgin Media mewn perthynas â newidiadau i fudd-daliadau'r aelodau rhwng 1996 a 2016

Ym mis Mehefin 2023, canfu'r Uchel Lys yn yr achos Virgin Media bod newidiadau i fuddion aelodau mewn cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio sydd wedi eu contractio allan rhwng 1996 a 2016 yn ddi-rym os na chwblhawyd tystysgrif actiwaraidd yn unol ag adran 37 o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993. Mae hyn yn berthnasol i hawliau gwasanaeth yn y gorffennol a hawliau gwasanaeth yn y dyfodol, a newidiadau sydd o anfantais i aelodau cynllun buddion. Apeliwyd yn erbyn y dyfarniad ym mis Mehefin 2024 ond gwrthodwyd yr apêl. Mae'r actwari ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd, sy'n cynnwys pensiynau Cyngor Sir Ynys Môn, wedi cadarnhau bod cryn ansicrwydd ynglŷn â ph'un a fydd y dyfarniad hwn yn effeithio ar y Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol.

NODYN 35 – OFFERYNNAU ARIANNOL

Cytundebau contractiol rhwng dau neu fwy o bartïon yw offerynnau ariannol yn ymwneud â hawl i dderbyn tâl ariannol. Byddai gan un parti ased ariannol lle mae arian neu ased ariannol arall yn cael ei roi i'r parti arall, yn gyfnewid am ddychwelyd yr arian neu'r offeryn ariannol, yn aml gyda llog neu enillion ffafriol ar y buddsoddiad. Byddai'r trafodiad yn rhwymedigaeth ariannol i'r parti neu'r partïon eraill. Y cytundeb i ad-dalu'r arian ar yr amser y cytunwyd arno ac i ddychwelyd yr arian yn unol â'r cytundeb fyddai hynny. Er enghraifft, prif asedau ariannol y Cyngor yw ei fuddsoddiadau mewn adneuon banc.

Mae enghreifftiau o asedau ariannol yn cynnwys arian parod, adneuon banc, symiau sy'n ddyledus drwy fasnach (dyledwyr), ecwitiau, bondiau a deilliadau. Mae enghreifftiau o rwymedigaethau ariannol yn cynnwys benthyciadau, symiau sy'n daladwy drwy fasnach (credydwyr) ac unrhyw rwymedigaeth gontractiol i ddarparu arian parod neu ased ariannol i endid arall.

NODYN 35a – ASEDAU ARIANNOL

Mae'r nodyn yma'n dangos y categorïau gwahanol o asedau ariannol sy'n ofynnol o dan SAARh 9 a gwerth asedau ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2025. Mae'n rhoi gwerth asedau anariannol hefyd, sydd yn cynnwys gwerth Tir ac Eiddo ac asedau eraill. Ni all y Cyngor ond ymrwymo i asedau a rhwymedigaethau ariannol yn unol â Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor. Mae'r Strategaeth yn gosod meini prawf caeth, felly, ni all y Cyngor ond buddsoddi mewn asedau ariannol sydd yn hynod o ddiogel ac y gellir cael mynediad atynt pan fydd y Cyngor angen yr arian.

Adneuon banciau yn y DU sy'n bodloni meini prawf statws credyd y Cyngor yw'r rhan fwyaf o fuddsoddiadau, neu fenthyciadau i awdurdodau lleol eraill. Daw'r cyfan ohonynt o dan ddosbarthiad SAARh 9 Asedau Ariannol a fesurir yn ôl cost wedi'i amorteiddio, fel yr amlygir yn Nodyn 35a.

Mae'r tabl isod yn dangos swm cario'r asedau ariannol. Dyma werth yr asedau ariannol yn y fantolen yn seiliedig ar gost wedi ei amorteiddio. Darperir y gwerth teg hefyd; mae hwn yn werth mwy cyfredol, sef y pris i werthu'r asedau ariannol ar 31 Mawrth 2026.

Asedau Ariannol	Tymor Byr				Tymor Hir				Cyfanswm			
	31/03/2026		31/03/2025		31/03/2026		31/03/2025		31/03/2026		31/03/2025	
	Swm Cario	Gwerth Teg	Swm Cario	Gwerth Teg	Swm Cario	Gwerth Teg	Swm Cario	Gwerth Teg	Swm Cario	Gwerth Teg	Swm Cario	Gwerth Teg
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Asedau ariannol a ddelir ar gost wedi'i amorteiddio												
Arian a chywerthoedd arian												
Arian a chywerthoedd arian - adneuon	19,788	19,788	5,965	5,965	-	-	-	-	19,788	19,788	5,965	5,965
Arian a chywerthoedd arian eraill	446	446	606	606	-	-	-	-	446	446	606	606
Buddsoddiadau tymor byr eraill	-	-	7,000	7,000	-	-	-	-	-	-	7,000	7,000
Cyfanswm Buddsoddiadau	**20,234**	**20,234**	**13,571**	**13,571**	**-**	**-**	**-**	**-**	**20,234**	**20,234**	**13,571**	**13,571**
Dyledwyr												
Rhenti	421	421	367	367	-	-	-	-	421	421	367	367
Benthyciadau i weithwyr	194	194	334	334	14	14	14	14	208	208	348	348
Dyledwyr Masnach	2,972	2,972	2,535	2,535	-	-	-	-	2,972	2,972	2,535	2,535
Incwm gohiriedig	-	-	-	-	2,155	2,155	1,611	1,611	2,155	2,155	1,611	1,611
Gordaliadau budd-daliadau tai	171	171	171	171	-	-	-	-	171	171	171	171
Dyledwyr Eraill	3,550	3,550	4,367	4,367	-	-	-	-	3,550	3,550	4,367	4,367
Cyfanswm Asedau Ariannol - Dyledwyr	**7,308**	**7,308**	**7,775**	**7,775**	**2,169**	**2,169**	**1,625**	**1,625**	**9,478**	**9,478**	**9,400**	**9,400**
Cyfanswm Offerynnau Ariannol	**27,542**	**27,542**	**21,346**	**21,346**	**2,169**	**2,169**	**1,625**	**1,625**	**29,712**	**29,712**	**22,971**	**22,971**
Asedau heb eu diffinio fel Offerynnau Aria	**47,024**	**47,024**	**61,374**	**61,374**	**619,153**	**619,153**	**594,717**	**594,717**	**666,177**	**666,177**	**656,092**	**656,092**
Cyfanswm Asedau	**74,566**	**74,566**	**82,720**	**82,720**	**621,323**	**621,323**	**596,342**	**596,342**	**695,889**	**695,889**	**679,062**	**679,062**

Mae'r asedau ariannol wedi eu rhannu rhwng buddsoddiadau a dyledwyr. Y buddsoddiadau yw adneuon arian parod i mewn i fanciau y DU ynghyd â'r arian parod ac chywerthoedd arian eraill yn ymwneud â'r symiau a ddelir ar gyfer bancio gweithredol a thalu costau o ddydd i ddydd. Mae'r Cyngor hefyd yn buddsoddi mewn adneuon tymor penodol ar gyfraddau llog uwch.Mae'r symiau a ddelir fel arian parod a chywerthoedd arian yng nghyfrifon adneuon banc y DU dros anghenion dydd i ddydd ond bydd eu hangen yn y dyfodol. Mae'r rhain yn ennill llog am y cyfnod a fuddsoddwyd. Y categori arall o asedau ariannol yw dyledwyr.

Mae'r rhain yn ymwneud â sefydliadau neu unigolion sy'n ddyledus i'r Cyngor. Y mwyaf sylweddol yw dyledwyr masnach sy'n ymwneud â symiau sy'n ddyledus am wasanaethau a dderbynnir. Dangosir benthyciadau cyflogeion hefyd; benthyciadau meddal yw'r rhain sy'n ymwneud yn bennaf â benthyciadau ceir i aelodau o staff sy'n teithio'n fwy helaeth ar fusnes y Cyngor. Darparwyd y benthyciadau ar gyfradd is na gwerth y farchnad oherwydd yr angen am deithio sy'n gysylltiedig â gwaith. Nid yw dyledwyr yn cynnwys trafodion gydag adrannau'r llywodraeth, ac incwm a thaliadau sy'n deillio o drethiant, gan gynnwys y Dreth Gyngor a threthi annomestig.

NODYN 35b – RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL A DDELIR GAN Y CYNGOR

Mae holl Rwymedigaethau Ariannol y Cyngor yn cael eu dosbarthu fel Rhwymedigaethau Ariannol ar gost wedi'i hamorteiddio. Dangosir hyn yn Nodyn 35b. Mae'r nodyn hefyd yn dangos gwerth rhwymedigaethau anariannol.

Cyfanswm rhwymedigaethau benthyca'r Cyngor oedd £123.556m ar 31 Mawrth 2026. Dyma'r benthyciad a gymerwyd dros y blynyddoedd i gyllido gwariant cyfalaf ar adeiladu neu adnewyddu asedau'r Cyngor. Y benthyciadau tymor byr yw'r symiau sydd i'w had-dalu erbyn 31 Mawrth 2027. Disgwylir i'r benthyciadau hirdymor gael eu talu ymhen mwy na blwyddyn. Prif ddarparwr benthyciadau i'r Cyngor yw'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB), sy'n rhan o Adran Trysorlys y Llywodraeth Ganolog.

Cyfrifwyd gwerth teg benthyca'r Cyngor gan ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor, Gwasanaethau Asedau Cyswllt. Cyfanswm gwerth teg benthyca'r Cyngor oedd £95.893m, sy'n is na'r gwerth cario ar y fantolen o £123.556m ar 31 Mawrth 2026. Mae gwerth teg yr asedau £27.663m yn is na'r swm cario oherwydd bod y Bwrdd Benthyciadau Cyfalaf yn cynnig gostyngiad net os yw'r Cyngor yn disodli'r benthyciadau hyn gyda benthyciadau newydd. Mae'r Cyngor wedi elwa o fenthyciadau llog is tra bod y gyfradd llog sylfaenol wedi bod yn isel. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod llog ad-daladwy bob blwyddyn yn is na'r blynyddoedd blaenorol pan oedd cyfraddau llog yn uwch. Byddai cynnydd mewn cost llog ad-daladwy blyddynol yn uwch na gwerth cyfanswm gostyngiad PWLB ac ni fyddai'r gost llog flynyddol ar y benthyciadau newydd yn fforddiadwy.

Rhwymedigaethau Ariannol	Tymor Byr				Tymor Hir				Cyfanswm			
	31/03/2026		31/03/2025		31/03/2026		31/03/2025		31/03/2026		31/03/2025	
	Swm Cario	Gwerth Teg	Swm Cario	Gwerth Teg	Swm Cario	Gwerth Teg	Swm Cario	Gwerth Teg	Swm Cario	Gwerth Teg	Swm Cario	Gwerth Teg Ailddatgan
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Rhwymedigaethau ariannol a ddelir ar gost wedi'i amorteiddio												
Benthyciadau												
PWLB	1,849	1,857	1,850	1,858	117,670	90,524	117,690	94,009	119,519	92,381	119,540	95,867
Salix	658	658	356	356	3,379	2,854	4,036	3,257	4,037	3,512	4,392	3,614
Cyfanswm Rhwymedigaethau Ariannol - Benthyciadau	**2,507**	**2,515**	**2,206**	**2,214**	**121,049**	**93,378**	**121,726**	**97,266**	**123,556**	**95,893**	**123,932**	**99,481**
Credydwyr												
Masnach	2,302	2,302	1,957	1,957	-	-	-	-	2,302	2,302	1,957	1,957
Credydwyr Eraill	30,322	30,322	20,355	20,355	-	-	-	-	30,322	30,322	20,355	20,355
Cyfanswm Rhwymedigaethau Ariannol - Credydwyr	**32,624**	**32,624**	**22,312**	**22,312**	**-**	**-**	**-**	**-**	**32,624**	**32,624**	**22,312**	**22,312**
Cyfanswm Rhwymedigaethau Ariannol	**35,130**	**35,138**	**24,518**	**24,526**	**121,049**	**93,378**	**121,726**	**97,266**	**156,179**	**128,516**	**146,244**	**121,793**
Cyfanswm Rhwymedigaethau nad ydynt wedi'u diffinio fel Rhwymedigaethau Ariannol	**23,119**	**23,119**	**33,137**	**33,137**	**21,920**	**21,920**	**13,585**	**13,585**	**45,039**	**45,039**	**46,722**	**46,722**
Cyfanswm Rhwymedigaethau	**58,249**	**58,257**	**57,655**	**57,663**	**142,969**	**115,298**	**135,311**	**110,851**	**201,218**	**173,555**	**192,966**	**168,515**

Tudalen 102

NODYN 35c – INCWM, GWARIANT, ENILLION A CHOLLEDION

Mae'r tabl isod yn dangos effaith offerynnau ariannol y Cyngor a ddelir ar gyfrif refeniw blynyddol y Cyngor ar gyfer 2025/26.

Incwm, Gwariant, Enillion a Cholledion	2025/26		2024/25	
	Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall
	£'000	£'000	£'000	£'000
(Enillion)/colledion net ar:				
Asedau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio (lwfans amhariad a dadgydnabod)	320	-	545	-
Cyfanswm yr enillion/colledion net	**320**	**-**	**545**	**-**
Refeniw llog:				
Asedau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio	(1,161)	-	(2,001)	-
Cyfanswm Refeniw Llog	**(1,161)**	**-**	**(2,001)**	**-**
Cost llog:				
Rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio	5,385		5,341	-
Cyfanswm Cost Llog	**5,385**	**-**	**5,341**	**-**

Mae'r tabl yn dangos y codwyd £320k (£545k yn 2024/25) ar y Cyngor am amhariad a dadgydnabyddiaeth o'r asedau ariannol a nodir uchod yn Nodyn 35a. Dangosir taliadau amhariad a dadgydnabyddiaeth yn fanylach yn Nodyn 36a. Mae ased y dyledwyr yn cael ei amharu i ystyried y risg na fydd yr holl ddyledion sy'n weddill yn cael eu talu. Codir tâl am ddad-gydnabod incwm sy'n ddyledus sy'n annhebygol o gael ei dalu. Mae hyn yn lleihau gwerth yr asedau yn ôl y swm hwn ac yn cael ei godi i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES).

Derbyniodd y Cyngor £1.161m (£2.001m yn 2024/25) mewn llog o'i ernesau mewn banciau yn y DU a benthyciadau i awdurdodau lleol eraill. Mae llog ar fuddsoddiadau wedi gostwng yn sylweddol oherwydd bod Banc Lloegr yn parhau i ostwng cyfraddau llog wrth i chwyddiant ostwng yn sylweddol. Mae balansau arian parod y cyngor hefyd yn lleihau ar adegau oherwydd pwysau costau a llai o gyllid. Rhagwelwyd gostyngiadau pellach yn y gyfradd sylfaenol, ond ers mis Rhagfyr 2025, mae'r gyfradd sylfaenol wedi aros ar 3.75% oherwydd rhybudd yn deillio o ansicrwydd a gwrthdaro byd-eang. Felly, mae'n debygol y bydd y llog sy'n dderbyniadwy yn is yn 2026/27 a thu hwnt. Roedd y llog taladwy ar fenthyciadau yn ymwneud â 2025/26 yn £5.385m (£5.341m yn 2024/25).

NODYN 36 – NATUR A MAINT Y RISGIAU SY'N DEILLIO O OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae gwaith y Cyngor yn golygu ei fod yn agored i sawl risg ariannol: -

Risg Credyd – y posibilrwydd bod partïon eraill yn methu â thalu'r symiau sy'n dyledus i'r Cyngor.

Risg Hylifedd – y posibilrwydd na fydd cyllid gan y Cyngor i gwrdd â'i ymrwymiadau yng nghyswllt taliadau.

Risg y Farchnad – y posibilrwydd y bydd y Cyngor yn wynebu colled ariannol oherwydd newidiadau mewn mesurau megis cyfraddau llog. Mae'r rheolaeth gyffredinol dros risgiau sylweddol sy'n codi o'r Offerynnau Ariannol yn cael cefnogaeth gan Ddatganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor a hefyd y Strategaeth Buddsoddi Blynyddol sydd wedi ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn. Mae'r Cyngor ond wedi buddsoddi mewn banciau DU ac awdurdodau lleol eraill yn ystod y flwyddyn.

Risg Credyd – Mae Risg Credyd yn deillio o adneuon gyda banciau a sefydliadau ariannol, yn ogystal ag amlygiad credyd i gwsmeriaid y Cyngor (dyledwyr ar y Fantolen). Mae'r safon yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu ar gyfer colledion credyd posibl o beidio â thalu incwm dyledus i'r Cyngor. Gelwir hyn yn lwfans colli amhariad (ILA). Yn hytrach na seilio colledion posibl ar wybodaeth hanesyddol yn unig, y ma''r Cyngor yn ystyried colledion credyd posibl yn y dyfodol yn gynharach ac mae wedi diwygio'r polisi amhariad i amharu ar golledion credyd posibl ar ddyledwyr mwy cyfredol. Mae'r polisi diwygiedig i'w weld yn Nodyn 44 Polisïau Cyfrifyddu.

Mae'r Cyngor wedi asesu'r risg credyd o adneuon banc ar y tebygolrwydd o'r banc yn diffygio wrth ad-dalu'r buddsoddiad. Mae risg uwch i'r sector bancio gan Brexi, effaith y Pandemig ac, yn fwy diweddar, effaith y rhyfel yn yr Wcrain. Fodd bynnag, parheir i ystyried y risg o ddiffyg i fod yn isel. Mae hyn o ganlyniad i wytnwch ariannol uwch gan y banciau yn dilyn deddfwriaeth newydd a gyflwynwyd yn dilyn argyfwng bancio 2008. Nid yw'r adneuon banc, felly, wedi eu hamharu. Nid ydym yn trefnu adneuon gyda banciau a sefydliadau ariannol oni bai eu bod, ar ôl cael eu graddio'n annibynnol, wedi cael graddfa credyd digonol neu lefel o warant llywodraeth, a phenderfynir ar uchafsymiau credyd i bob gwrthbarti. Gosododd y Cyngor nifer o uchafsymiau yn seiliedig ar ansawdd credyd ar gyfer gwahanol math o selfydliadau, gwahanol gyfnodau a symiau, ac mae ganddo bolisi o beidio â benthyca mwy na £15m i unrhyw un sefydliad heblaw am lywodraeth y DU. Mae'r Cyngor yn monitro cyfraddau credyd yn gyson a chaiff rhybudd o unrhyw newidiadau gan ei ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys. Cymerir camau priodol yn sgil unrhyw newid gan ddilyn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Paratoir Adroddiad Trysorlys Blynyddol sy'n manylu ar y gwaith buddsoddi.

Ni aethwyd tu draw i unrhyw uchafswm credydd yn ystod y flwyddyn arianol ac ni thorwyd unrhyw feini prawf gwrthbariton. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl y bydd unrhyw golledion o ganlyniad i unrhyw un o'i wrthbartïon fethu â pherfformio yng nghyswllt adneuion.

Nid yw'r Cyngor fel rheol yn caniatáu credyd i gwsmeriaid; mae ganddo weithdrefnau casglu rhagnodedig ar gyfer symiau dyledus gan gwsmeriaid a gwneir darpariaethau priodol ar gyfer dyledion a allai fod yn rhai drwg. Mewn rhai amgylchiadau, mae'r Cyngor yn cael pridiant cyfreithiol ar eiddo ar gyfer rhai dyledion gohiriedig, megis hunan gyllidwyr mewn cartrefi gofal. Yn ogystal, mae gan y Cyngor nifer o ddyledwyr tymor hirach, sy'n bennaf yn fenthyciadau car i staff a morgeisi gweddilliol o gynllun caeëdig yn cynnig benthyciadau cartrefi i denantiaid ac i aelodau'r cyhoedd. Mae'r morgeisi gweddilliol yn rhai risg isel oherwydd bod y Cyngor yn diogelu'r hawl gyntaf ar yr eiddo morgeisiedig. Ystyrir bod y benthyciadau ceir yn rhai risg isel oherwydd bod modd tynnu ad-daliadau am y benthyciadau ceir o gyflogau'r gweithwyr, mae trefniadau dwyochrog gydag awdurdodau lleol eraill ar gyfer staff sy'n trosglwyddo gyda dyledion ar eu benthyciadau ceir, yswiriant ar gyfer benthyciadau heb eu had-dalu oherwydd marwolaeth mewn gwasanaeth a hefyd trefniadau arferol i ad-ennill dyledion yng nghyswllt gweithwyr sy'n gadael eu swyddi mewn llywodraeth leol.

NODYN 36a - AMHARIAD A DAD-GYDNABOD ASEDAU ARIANNOL

Er mwyn sicrhau nad yw incwm y Cyngor yn cael ei orbwysleisio yn y cyfrifon hyn, mae balansau dyledwyr yn cael eu amharu i gyfrif am y risg credyd o dderbyn llai o incwm nag sy'n ddyledus. Mae'r amhariad hwn yn ystyried mwy o ddyledwyr cyfredol yn ogystal â dyledion sy'n ddyledus dros gyfnod hwy o amser. Er mwyn sicrhau nad yw'r Cyngor yn cydnabod unrhyw incwm na ellid byth ei adennill, ystyrir dileu y dyledion yma, a mae'n rhaid cymeradwyo hyn yn unol â chyfansoddiad y Cyngor. Mae'r rhai a gymeradwywyd i'w dileu yn cael eu tynnu o falans y dyledwyr a'u codi yn erbyn refeniw yn adran Cyllido a Buddsoddi Incwm a Gwariant y CIES.

Dangosir y newidiadau mewn lwfans amhariad a'r swm sy'n cael ei gydnabod isod: -

Dosbarth Ased (cost wedi'i amnewid)	**2025/26 Colledion credyd disgwyliedig dros oes yr ased - heb amhariad credyd £'000**	**2024/25 Colledion credyd disgwyliedig dros oes yr ased - heb amhariad credyd £'000**
Balans Agoriadol ar 1 Ebrill	5,555	5,246
Adneuon mewn banciau'r DU	-	-
Dyledwyr Masnachol (ac eithrio'r sector cyhoeddus a threthi)	70	289
Benthyciadau Meddal	-	-
Gordaliadau budd-dal Tai	(4)	(86)
Rhenti	(26)	106
Cyfanswm y lwfans amhariad 31 Mawrth	**5,595**	**5,555**
Asedau Ariannol sydd wedi cael eu dad-adnabod	280	236
Cyfanswm Amhariad a Dad-gydnabod	**320**	**545**

NODYN 36b – Risg credyd o fuddsoddiadau

Mae'r meini prawf isod yn darparu'r statws credyd isaf ar gyfer sefydliadau y mae'r Cyngor yn buddsoddi ynddynt. Yn ymarferol, mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn banciau a chymdeithasau adeiladu yn y DU ac awdurdodau lleol eraill y DU ar ôl asesu eu gwybodaeth ariannol. Mae'r meini prawf hefyd yn caniatáu ar gyfer offerynnau ariannol Llywodraeth Ganolog y DU a chronfeydd marchnad arian A triphlyg. Mae'r meini prawf hyn wedi'u cynnwys yn Natganiad Blynyddol Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ac mae wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor Llawn.

Categori	Statws Credyd Tymor Byr (Fitch)	Statws Credyd Tymor Byr (Moody's)	Statws Credyd Tymor Byr (Safon a Gwael)	Statws Credyd Hirdymor (Fitch)	Statws Credyd Hirdymor (Moody's)	Statws Credyd Hirdymor (Safon a Gwael)	Uchafswm Arian Parod	Terfyn Amser
Cymdeithasau Banciau ac Adeiladu (heb eu gwladoli neu eu gwladoli'n rhannol)	F1+	P-1	A-1+	AAA	Aaa	AAA	£10m	5 blwyddyn
	F1+	P-1	A-1+	AA	Aa2	AA	£10m	3 blwyddyn
	F1+	P-1	A-1+	AA-	Aa3	AA-	£10m	364 diwrnod
	F1	P-1	A-1	A	A2	A	£7.5m	6 mis
Banciau'r DU wedi'u Gwladoli / Yn rhannol	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	£10m	364 diwrnod
Cyfrif busnes a rheolwr arian banc NatWest - pan gedwir symiau yn NatWest fel rhan o drefniadau bancio gweithredol. Bydd y symiau a'r terfynau dilynol yn berthnasol er mwyn sicrhau fod digon o arian ar gael i dalu biliau pan fyddant yn ddyledus.	F1	P-1	A-1	A+	A1	A+	1) £20m to £25m 2) £15m to £20m 3) £10m to £15m	5 diwrnod gwaith 1 mis 2 Fis
Llywodraeth Ganolog y DU (waeth beth fo statws credyd)	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	Dim uwchafswm	Dim uwchafswm
Awdurdodau Lleol y DU	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	£10m	364 diwrnod

NODYN 36c - PROFFIL O BA BRYD Y MAE'R CYNGOR i FOD i AD-DALU BENTHYCIADAU

Mae Risg Hylifedd yn isel am nad yw'r Cyngor yn y gorffennol wedi cael unrhyw broblem cael cyllid ac mae'n rhydd i fynd at y Bwrdd Benthyca ar gyfer Gwaith Cyhoeddus (PWLB) fel corff i fenthyca oddi arno ar ôl methu fel arall. Prif nodau'r Strategaeth Rheoli Trysorlys yw i sicrhau bod yr Awdurdod yn agored i risg isel ac i sicrhau hylifedd. Mae'r rhan fwyaf o fuddsoddiadau'r Cyngor mewn cyfrifon adneuon mynediad yn syth. Felly, mae llai o risg y bydd yn methu â chodi'r cyllid i gwrdd â'i ymrwymiadau dan yr offerynnau ariannol.

Fodd bynnag, yn aml mae risg y bydd y Cyngor yn gorfod adnewyddu cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg pan fo'r cyfraddau llog yn uchel. Byddai'r cyfraddau llog isel cyfredol yn gostwng cyfraddau llog ar fenthyciadau newydd a gymerir i ad-dalu'r ddyled sy'n aeddfedu. I gynorthwyo i gyflawni'r nod hwn, mae'r Cyngor yn defnyddio cynghorwyr rheoli'r trysorlys allanol.

Dangosir dadansoddiad aeddfedu benthyciadau sy'n sefyll yn Nodyn 36c isod. Mae holl daliadau masnachol a thaliadau eraill yn daladwy mewn llai na blwyddyn.

	2025 /26 Prifswm Gweddillol £'000	2025/26 Llog wedi Cronni £'000	2025/265 Costio llai amorteiddiad cronedig £'000	2024/25 Prifswm Gweddillol £'000	2024/25 Llog wedi Cronni £'000
>50 blwyddyn	-	-	-	-	-
34-50 blwyddyn	31,200	-	31,200	32,963	-
23-33 blwyddyn	52,015	-	52,015	50,251	-
15-22 blwyddyn	14,494	-	14,494	17,994	-
11-14 blwyddyn	9,313	-	9,313	6,522	-
7-10 blwyddyn	2,471	-	2,471	3,127	-
4-6 blwyddyn	4,276	-	4,276	5,339	-
1-3 blwyddyn	5,900	-	5,900	5,530	-
Cyfanswm y Benthyciadau Tymor Hir	**119,669**	**-**	**119,669**	**121,726**	**-**
Cyfanswm Benthyciadau Tymor Byr (< 1 blwyddyn)	**2,037**	**1,850**	**3,887**	**356**	**1,850**
Cyfanswm	**121,706**	**1,850**	**123,556**	**122,082**	**1,850**

NODYN 36ch – RISG Y FARCHNAD AC AMCANGYFRIF O EFFAITH CYNNYDD UN Y CANT MEWN CYFRADDAU LLOG AR ASEDAU ARIANNOL

Risg Cyfraddau Llog – Mae'r Cyngor yn gwynebu risg posibl pan fo symudiadau ymhlith cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae unrhyw symudiad yn y cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar y Cyngor.

Er enghraifft, byddai cynnydd yn y cyfraddau llog yn cael yr effaith a ganlyn: -

- Benthyciadau ar gyfraddau amrywiol – byddai cynnydd yn y treuliau llog a godir ar y Gwarged neu Ddiffyg ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr;
- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gostyngiad yn rhwymedigaethau gwerth teg y benthyciadau;
- Buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol – byddai cynnydd yn yr incwm llog wedi'u gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr; a
- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog - bydd gostyngiad yng ngwerth teg yr asedau.

Nid yw benthyciadau'n cael eu cario ar werth teg gan fod y rhain yn cael eu cario ar Gost Wedi'i Amorteiddio yn unol â chod CIPFA. Felly, ni fyddai enillion a cholledion nominal ar fenthyciadau cyfradd sefydlog yn effeithio ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau nac Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall. Fodd bynnag, bydd newidiadau mewn llog sy'n daladwy ac sy'n dderbyniadwy ar fenthyciadau a buddsoddiadau cyfradd amrywiol yn cael eu postio i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ac yn effeithio ar Gydbwysedd Cronfa'r Cyngor.

Mae gan y Cyngor nifer o strategaethau ar gyfer rheoli risg cyfradd llog. Polisi'r Cyngor yw benthyca'n bennaf ar gyfraddau sefydlog, gan gael sicrwydd o ran llog sy'n daladwy dros gyfnod y benthyciadau. Mae'r Cyngor, gyda chefnogaeth ei gynghorwyr trysorlys, yn monitro'n barhaus y cyfraddau llog sy'n bodoli a rhagolygon y farchnad. Pe bai risg sylweddol o gynnydd sydyn mewn cyfraddau tymor hir a thymor byr, yna byddai sefyllfa'r portffolio yn cael ei hail-arfarnu a'r canlyniad tebygol fyddai y byddai cyllid cyfradd sefydlog yn cael ei dynnu i lawr tra bod cyfraddau llog yn dal i fod yn gymharol rad. Pe bai risg sylweddol o ostyngiad sydyn mewn cyfraddau tymor hir a thymor byr, yna byddai benthyciadau hirdymor yn cael eu gohirio a byddai unrhyw aildrefnu priodol o gyllid cyfradd sefydlog i gyllid cyfradd fer yn cael ei wneud.

Cedwir holl fenthyciadau cyfredol a hir dymor y Cyngor ar gyfraddau sefydlog. Mae hyn yn gymorth i leihau effaith newidiadau i gyfraddau banc ar y Cyngor. Mae

Nodyn 36ch yn dangos effaith cynnydd o 1% yn y gyfradd llog ar werth teg Offerynnau Ariannol y Cyngor. Byddai gwerth y benthyciadau yn y Fantolen yn aros yr un fath oherwydd bod y cyfraddau llog yn cael eu pennu. Fodd bynnag, byddai'r gwerth teg yn gostwng. Byddai'r cynnydd yn y gyfradd yn cael effaith gadarnhaol ar adneuon y Cyngor gan y byddai llog ychwanegol o £176k yn cael ei dderbyn pe bai cynnydd o 1% mewn cyfraddau llog. Fodd bynnag, gan fod buddsoddiadau'r Cyngor yn dueddol o fan yn rhai term penodol sydd yn cynnig enillion uwch, tydi'r effaith cynnydd o 1% ddim yn cael ei gynnwys yn y ffigwr isod.

Effaith cynnydd o 1% mewn cyfraddau llog	**£000**
Cynnydd yn y llog sy'n dderbyniadwy o fuddsoddiadau	176
Effaith ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall	**176**
Gostyngiad yng ngwerth teg ymrwymiadau benthyciadau cyfradd sefydlog (dim effaith ar y Gwarged neu'r Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau neu Incwm Cynhwysfawr arall)	**(10,191)**

Mae'r Cyngor yn derbyn gwybodaeth a chyngor rheolaidd am y farchnad, Brexit, Covid-19 ac yn fwy diweddar, y rhyfel yn yr Wcrain gan ei ymgynghorwyr rheoli trysorlys.

Mae gan y Cyngor falansau arian parod digonol ac nid yw wedi cymryd unrhyw fenthyciadau PWLB yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mi wnaeth y Cyngor gymryd dau fenthyciad Salix a oedd yn benodol ar gyfer defnydd mwy effeithiol o ynni.

NODYN 37 – CYD-BWYLLGORAU A CHYLLIDEBAU CYFUN

NODYN 37a – CYD-BWYLLGORAU

GwE

Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chynghorau Gwynedd, Conwy, Sir Y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych yn rhan o gydbwyllgor GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol).

Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am redeg y pwyllgor hwn, ac mae'r balansau diwedd blwyddyn wedi eu cynnwys yn eu Mantolen. Gellir edrych ar gyfrifon y pwyllgor drwy'r ddolen ganlynol: -

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad-a-gwariant/Cyllidebau-a-gwariant/Datganiad-or-cyfrifon/Cyd-bwyllgor-GwE.aspx

Ar 31 Ionawr 2024, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a'r Iaith Gymraeg y bydd trefniadau newydd yn ymwneud â datblygu ysgol yn cael eu gweithredu. Mae hyn yn cynnwys symud i ffwrdd o'r model rhanbarthol. O ganlyniad, daeth y cytundeb cydweithio GwE i ben ar 31 Mai 2025.

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CBC)

Sefydlwyd CBC Gogledd Cymru yn ystod 2021/22 ac yn cynnwys y chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru ynghyd â Pharc Cenedlaethol Eryri. Mae'r cydbwyllgor yma'n gyfrifol am waith cynllunio datblygu strategol, gwaith cynllunio trafnidiaeth ranbarthol a hyrwyddo llesiant economaidd Gogledd Cymru.

Ar 1 Ebrill 2025, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb o gyflawni'r Fargen Twf yn g Ngogledd Cymru o'r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i CBC. Pecyn cyllid yw'r Fargen Twf, gan y Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth Cymru i gyflawni prosiectau i sicrhau twf cynaliadwy ac economaidd.

Cyfrannodd Cyngor Sir Ynys Môn £90k ar gyfer 2025/26 (2024/25 £77k). Gellir gweld Datganiad o'r Cyfrifon yma:

Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd

Mae Cyngor Sir Ynys Môn hefyd yn rhan o amryfal drefniadau ar y cyd gyda Chynghorau cyfagos yng Ngogledd Cymru a Llywodraeth Cymru'r Bwrdd Iechyd fel a ganlyn: -

- Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru (Arweinydd: Wrecsam. Partïon: Sir Y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd)
- Gwasanaeth Mwynau a Gwastraff (Arweinydd: Sir Y Fflint. Partïon: Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd)
- Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol (Arweinydd: Sir Y Fflint, Partïon Wrecsam, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd)
- Galw Gofal (Arweinydd: Conwy. Partïon: Gwynedd, Sir y Fflint)

- O dan reoliad 19 (1) o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, cytunwyd ar drefniant cyllideb gyfun rhwng awdurdodau lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (gweler Nodyn 37b);
- Stâd Diwydiannol Penrhos Gwedd 1 a 2 - Trefniant ar y cyd ers 2020/21 gyda Llywodraeth Cymru, lle mae 16% o'r incwm rhent net yn cael ei gadw gan y Cyngor a'r gweddill yn cael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru.

NODYN 37b CYLLIDEBAU CYFUN AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

O dan reoliad 19(1) o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, cytunwyd ar drefniant anffurfiol cyllideb gyfun rhwng chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn perthynas â darparu llety cartrefi gofal i bobl hŷn ar gyfer 2025/26. Mae incwm a gwariant y trefniadau cyllideb gyfun hyn wedi eu cynnwys er gwybodaeth yn unig a heb eu cronni yng nghyfrifon y partneriaid. Mae'r trafodion ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yn unig wedi eu cynnwys yn llinell Gwasanaethau Oedolion y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae hyn yn cyfateb i £8.320m yn 2025/26 (£7.126m 2024/25).

Mae incwm a gwariant tybiannol y cyllideb gyfun fel a ganlyn:

Cyllideb Gyfun Gogledd Cymru ar gyfer Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Gwariant		
Costau Cartrefi Gofal	147,652	136,047
Cyfanswm gwariant	**147,652**	**136,047**
Cyllido		
Cyngor Sir Ynys Môn	(8,320)	(7,126)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	(19,835)	(18,090)
Cyngor Sir Ddinbych	(13,600)	(12,423)
Cyngor Sir y Fflint	(17,767)	(14,980)
Cyngor Gwynedd	(15,282)	(13,084)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(15,975)	(16,470)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	(56,873)	(53,874)
Cyfanswm a Gyllidwyd	**(147,652)**	**(136,047)**
(Gwarged)/Diffyg a drosglwyddwyd i'r gronfa wrth gefn	**-**	**-**

NODYN 38 – TREFNIADAU ASIANTAETH

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu fel asiant ar gyfer gwahanol gynlluniau ar ran Llywodraeth Cymru

Troi Tai'n Gartrefi

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel asiant i Lywodraeth Cymru ar gyfer darparu benthyciadau i unigolion i atgyweirio cartrefi gwag er mwyn lleihau'r nifer o gartrefi gweigion ar Ynys Môn a chynyddu'r cyfleoedd tai.

Tai'n Gartrefi £917k (£777k 2024/25);

Gwelliannau i'r Cartref, Cartrefi Gwag £69k (£55k 2024/25);

Cynllun Canol Tref £490k (£490k 2024/25);

Cynllun Adnewyddu Cartrefi Gwag £333k (£333k 2024/25).

Cartrefi i Wcráin

Mae'r elfen asiantaeth o'r cynllun yma'n cynnwys taliadau 'diolch' o £350 y mis i'r rhai sy'n rhoi llety i deuluoedd sy'n ffoi o'r Wcráin, sy'n codi i £500 ar ôl 12 mis, hyd at ddwy flynedd. Elfen arall o'r cynllun yw taliadau o £200 i'r teuluoedd o'r Wcráin, i'w cynorthwyo i sefydlu bywyd yng Nghymru.

Cefnogaeth Band Lefel Isel

Pwrpas y cynllun yma yw rhoi taliad cefnogaeth un tro o £100 i gartrefi cymwys yng Nghymru fel cymorth tuag at gostau byw.

Cynllun Bwrsariaeth Cadw Athrawon Cymraeg mewn Addysg

Bwrsariaeth ar gyfer y rhai sydd wedi bod yn dysgu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion uwchradd am dair blynedd. Mae hwn yn cefnogi'r uchelgais Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a'i nod yw cynyddu nifer yr athrawon uwchradd Cymraeg a chyfrwng Cymraeg drwy eu hannog i aros yn y proffesiwn.

Mae'r tabl isod yn cynnwys taliadau a wnaed i unigolion a busnesau yn ystod y flwyddyn ac nid y grant a hawliwyd:

	2025/26			
Teitl y Grant	**Taliadau a Wnaed £'000**	**Grant a Dderbyniwyd gan y Llywodraeth £'000**	**Ffi Gweinyddu a Dderbyniwyd £'000**	**Balans yn ddyledus (i)/gan Llywodraeth ar 31 Mawrth £'000**
Cefnogaeth Band Lefel Isel	6	-	-	6
Bwrsariaeth Athrawon Cymraeg mewn Addysg	130	(130)	-	-
Cartrefi i Wcrain	69	(70)	-	14
Cyfanswm	**205**	**(200)**	**-**	**20**

2024/25

	2024/25			
Teitl y Grant	**Taliadau a Wnaed £'000**	**Grant a Dderbyniwyd gan Llywodraeth £'000**	**Ffi Gweinyddu a Dderbyniwyd £'000**	**Balans yn ddyledus (i)/gan Llywodraeth ar 31 Mawrth £'000**
Cefnogaeth Band Lefel Isel	-	-	-	-
Bwrsariaeth Athrawon Cymraeg mewn Addysg	-	-	-	-
Cartrefi i Wcrain	100	(54)	-	47
Cyfanswm	**100**	**(54)**	**-**	**47**

NODYN 39 – Y DRETH GYNGOR

Mae incwm y Dreth Gyngor yn deillio o godi ar werth eiddo preswyl, ac mae'r gwerth hwnnw wedi ei rannu'n naw band yr amcangyfrifwyd eu gwerth ar 1 Ebrill 2003 i'r pwrpas penodol hwn. Penderfynir ar y taliadau trwy amcangyfrif faint o incwm y bydd raid i'r Cyngor ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ei gael dros y flwyddyn nesaf ac wedyn rhennir y swm gyda'r sylfaen y Dreth Gyngor. Sylfaen y Dreth Gyngor yw cyfanswm nifer yr eiddo ym mhob band prisio gan addasu trwy gyfran a throsi'r nifer i'r hyn sy'n cyfateb i fand D ac addasu ar gyfer disgownt. Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer 2025/26 oedd 33,472.17 (33,170.03 yn 2024/25).

Wedyn, mae'r swm i eiddo band D yn 2025/26, £2,143.94 (£1,982.09 yn 2024/25), yn cael ei luosi gan y gyfran a benodir i'r band penodol er mwyn rhoi'r swm dyledus fesul band. Cyfrifir am symiau unigol sy'n ddyledus gan ganiatáu disgownt a budd-dal i'r swm dyledus fesul band.

Roedd biliau'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar y lluosyddion isod i fandiau A i I: -

Band	Cyfanswm Anheddau	Lluosydd	Band "D" Cyfatebol
A*	9	5/9	4.72
A	4,278	6/9	2,852.17
B	6,193	7/9	4,816.39
C	6,705	8/9	5,959.78
D	7,199	9/9	7,198.50
E	5,436	11/9	6,644.31
F	2,767	13/9	3,996.78
G	1,129	15/9	1,880.83
H	181	18/9	362.00
I	58	21/9	135.33
Cyfanswm			**33,850.81**

Cyfrifir Sylfaen Treth y Cyngor fel a ganlyn:-

	2025/26	2024/25
Band D cyfatebol fel yr uchod	33,850.81	33,544.06
Cyfradd Gasglu	98.50%	98.50%
Band D cyfatebol diwygiedig	33,343.05	33,040.89
Eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn – Band D cyfatebol	129.13	129.14
Sylfaen y Dreth Gyngor	**33,472.18**	**33,170.03**

Dadansoddiad o'r enillion net o'r Dreth Gyngor:	**2025/26 £'000**	**2024/25 £'000**
Y Dreth Gyngor Gros	**73,411**	**67,924**
Ychwanegu / Llai: darpariaeth ar gyfer diffyg-dalu nid oedd ei angen neu cyfrifwyd amdano o'r blaen	(353)	(317)
Y Dreth Gyngor sy'n Gasgladwy	**73,058**	**67,607**
Llai Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a roddwyd i breswylwyr	(7,308)	(6,729)
Enillion Net o'r Dreth Gyngor	**65,750**	**60,878**

Yn 2013/14, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor i gymryd lle'r cynllun budd-daliadau'r Dreth Gyngor. Dyfarnwyd £7.308m o ostyngiadau'r dreth gyngor yn 2025/26 (£6.729m yn 2024/25).

NODYN 40 – TRETHI ANNOMESTIG (TA)

Fel arfer, asesir eiddo annomestig bob pum mlynedd at ddibenion cyfrifo atebolrwydd ar gyfer NDR. Daeth y rhestr ddiweddaraf i rym ar 1 Ebrill 2023. Nid yw ailbrisio yn codi refeniw ychwanegol yn gyffredinol ond maent yn adlewyrchu newidiadau yng ngwerthoedd y farchnad eiddo ledled y wlad, gan ailddosbarthu'r un cyfanswm atebolrwydd treth ar gyfer NDR. Bydd rhai biliau ardrethi yn codi a bydd rhai yn gostwng ond dim ond gyda chwyddiant y bydd y bil cenedlaethol cyfartalog yn newid.

Mae Llywodraeth Cymru yn pennu swm ar gyfer y gyfradd - 56.8c yn 2025/26 (56.2c yn 2024/25), a threthi cyflogau busnesau lleol a gyfrifir drwy luosi eu gwerth ardrethol â'r swm hwnnw. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gasglu cyfraddau sy'n ddyledus gan drethdalwyr yn ei ardal ond mae'n talu'r elw i'r gronfa NDR a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Yna mae Llywodraeth Cymru yn ailddosbarthu'r symiau a dalwyd i'r gronfa yn ôl i awdurdodau lleol ar sail swm sefydlog fesul pen o'r boblogaeth.

Cyfanswm incwm NDR, ar ôl rhyddhad a darpariaethau (gan gynnwys Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru), oedd £13.810m ar gyfer 2025/26 (£15.258m yn 2024/25) ac roedd yn seiliedig ar werth ardrethol ar ddiwedd y flwyddyn o £41.252m (£41.889m yn 2024/25).

Dadansoddiad o'r enillion net o drethi annomestig:	**2025/26 £'000**	**2024/25 £'000**
Trethi annomestig casgladwy	13,810	15,258
Cost lwfans casglu	(186)	(189)
Llog dalwyd ar ordaliadau	(13)	(3)
Darpariaeth ar gyfer dyledion drwg	(118)	(142)
Cyfraniad i gost rhyddhad trethi elusennol/gwledig	89	64
Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch wedi'i fodloni o'r grant	1,837	1,384
Rhyddhad Manwerthu a'r Stryd Fawr y talwyd trwy grant	-	-
Taliadau i mewn i'r gronfa genedlaethol	**15,419**	**16,372**
Ailddosbarthu o'r gronfa genedlaethol	**25,097**	**25,341**

NODYN 41 – RHWYMEDIGAETHAU WRTH GEFN

Targedau Ailgylchu Gwastraff

Mae Llywodraeth Cymru, mewn ymgais i gynyddu ailgylchu, wedi gosod targedau ailgylchu ar gyfer Llywodraeth Leol ers nifer o flynyddoedd. Mae methiant i gyrraedd y targedau yma'n golygu y bydd rhaid i'r Cynghorau hynny dalu dirwy ar sail £200 ar gyfer pob tunnell dros y targed. Methodd Cyngor Sir Ynys Môn a chyrraedd y targed ar gyfer 2022/23, 2024/25 a 2025/26. Gall Llywodraeth Cymru wneud y penderfyniad i beidio gofyn i'r ddirwy cael ei dalu.

Hawl Atebolrwydd Cyhoeddus yn erbyn Rhagflaenydd Cyngor Sir Ynys Môn

O ganlyniad i amgylchiadau presennol sydd yn ymwneud â chyn-bennaeth ysgolion yng Ngwynedd, mae Cyngor Gwynedd yn asesu ac yn ystyried ceisiadau atebolrwydd cyhoeddus posib yn erbyn y Cyngor a'i ragflaenydd. Os bydd rhaid i Gyngor Gwynedd setlo hawliadau'n ymwneud â digwyddiadau cyn 31 Mawrth 1996, efallai y bydd rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn wneud cyfraniad, ar radd a gytunwyd arno eisoes, i dalu am ordaliadau polisi ac unrhyw rwymedigaethau sydd ddim yn cael eu cynnwys o dan bolisïau yswiriant a gymerwyd gan Gyngor Sir Gwynedd gynt. Mae gan Gyngor Gwynedd gronfa wrth gefn wedi ei glustnodi ar gyfer costau hawliadau'n ymwneud â Chyngor Sir Gwynedd gynt, felly bydd ond angen i Gyngor Sir Ynys Môn wneud cyfraniad pe bai'r gronfa wrth gefn yma ddim yn ddigonol i dalu unrhyw gostau sydd i'w hariannu gan y Cyngor.

NODYN 42 – ASEDAU WRTH GEFN

Pridiannau Cyfreithiol

Mae'r Cyngor yn cadw nifer o bridiannau cyfreithiol dros eiddo preswyl â pherchnogion preifat, lle darparwyd cefnogaeth i'r prynwyr dan gynlluniau ar gyfer prynu tai â chefnogaeth, gyda'r Cyngor hefo'r hawl am ran o'r enillon ar werthiant yr eiddo. Bydd amrywiaeth yn y gwir swm a dderbynnir, yn seiliedig ar brisiau gwerthu'r eiddo unigol a natur unrhyw alwadau cyfreithiol arall yn eu herbyn byddai, efallai, yn cymryd blaenoriaeth dros bridiant y Cyngor. Mae amseru unrhyw dderbyniadau yn ddibynnol ar unrhyw werthiannau.

Asesiadau Ariannol

Mae oedi wedi bod wrth gwblhau aseiadau ariannol defnyddwyr gwasanaeth Gwasnaethau Cymdeithasol. Mae'r aseiadau yma'n pennu'r ffi, uwchlaw'r isafswm, mae defnyddwyr gwasanaeth yn ei dalu am eu gofal. Gan nad yw'r asesiadau yma wedi eu cwblhau, nid yw rhai defnyddwyr gwasanaeth wedi dechrau talu am eu gofal.

NODYN 43 – PRYDLESI ASEDAU HAWL I'W DEFNYDDIO

	2025/26			2024/25		
	Tir ac Adeiladau £'000	Cerbydau, Offer a Chyfarpar £'000	Cyfanswm £'000	Tir ac Adeiladau £'000	Cerbydau, Offer a Chyfarpar £'000	Cyfanswm £'000
1 Ebrill 2024	1,628	229	1,857	1,401	142	1,543
Addasiadau i flynyddoedd blaenorol	45	-	45	-	-	-
Ychwanegiadau	1,160	115	1,275	527	159	686
Ailbrisiadau	223	-	223	-	-	-
Dibrisiadau ac Amorteiddiadau	(375)	(91)	(466)	(300)	(72)	(372)
Gwarediadau	(101)	(84)	(185)	-	-	-
Balans ar 31 Mawrth 2025	2,580	169	2,749	1,628	229	1,857

NODYN 44 – POLISÏAU CYFRIFO

Yn yr adran hon, ceir manylion am y polisïau cyfrifo penodol a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar gyfer cwblhau'r cyfrifon.

Cyfeirnod Polisi	Teitl Polisi
1	Egwyddorion Cyffredinol
2	Cronni Incwm a Gwariant
3	Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen
4	Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd ac Asedau a Reolir ar y Cyd
5	Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau Mewn Polisïau Cyfrifo ac Amcangyfrifon a Chamgymeriadau
6	Treth ar Werth (TAW)
7	Mesur Gwerth Teg
8	Asedau Anghyfredol (Eiddo, Offer a Chyfarpar)
9	Eiddo Buddsoddiad
10	Asedau Anniriaethol
11	Rhestrau Stoc a Chontractau Tymor Hir
12	Arian Parod a Chywerthoedd Arian
13	Offerynnau Ariannol
14	Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn
15	Cronfeydd Wrth Gefn
16	Cydnabyddiaeth Refeniw
17	Llog Mewnol
18	Prydlesau
19	Taliadau i Refeniw ar gyfer Asedau Anghyfredol - Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP)
20	Grantiau a Chyfraniadau gan y Llywodraeth
21	Gwariant Refeniw a Gyllidir gyda Chyfalaf Dan Statud (REFCUS)
22	Gorbenion a Gwasanaethau Cefnogol
23	Arian Tramor
24	Buddiannau'r Gweithwyr
25	Eitemau Eithriadol
26	Cyfrifo am TA (Trethi Annomestig)
27	Incwm a Gwariant Asiantaeth

1. Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor am flwyddyn ariannol 2025/26 a'i sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2026. Mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi Datganiad Cyfrifon blynyddol dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018, a than y Rheoliadau rhaid eu paratoi'n unol ag arferion cyfrifo priodol. Yr arferion hyn, yn bennaf, yw Côd Ymarfer CIPFA ar Gyfrifo Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2025/26 a Chôd Ymarfer CIPFA ar gyfer Adroddiadau Gwasanaeth 2025/26, ac a ategir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh). Mae'r holl brif bolisïau cyfrifo wedi cael eu defnyddio'n gyson drwy gydol y flwyddyn. Paratowyd y Datganiad Cyfrifon ar sail "busnes hyfyw".

2. Cronni Incwm a Gwariant

Rhoddir cyfrif am drafodion yn y flwyddyn pryd y digwyddodd, nid pan fydd yr arian yn cael ei dalu neu ei dderbyn. Mae'r dull hwn o gyfrifo croniadau yn darparu sylfaen fwy cyflawn ar gyfer adrodd ar berfformiad ariannol y Cyngor oherwydd mae'n cynnwys ymrwymiadau'r Cyngor yn y dyfodol i dalu/derbyn arian am nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd erbyn 31 Mawrth 2026 ond nas talwyd amdanynt. Caiff incwm a gwariant eu cyfrifo amdanynt yn y flwyddyn y digwyddodd y gweithgaredd y mae'n berthnasol iddynt, nid pan fo arian yn cael ei dalu neu ei dderbyn, h.y. ar sail gronnol. Mae hyn yn golygu fod incwm yn cael ei gofnodi pan gaiff ei ennill ac nid ar adeg ei dderbyn a gwariant pan mae'n digwydd yn hytrach nag ar adeg ei dalu. Fe gynhwysir incwm am werthu nwyddau yn y cyfrifon pan gwblheir y gwerthiant, nid pan dderbynnir yr arian. Caiff incwm o ddarparu gwasanaethau ei gydnabod pan fedr y Cyngor fesur yn ddibynadwy'r ganran o'r trafodyn a gwblhawyd ac, o ganlyniad i hyn, bydd y Cyngor yn cael incwm yn gyfnewid am y gwasanaethau a ddarparwyd. Yn ychwanegol at hyn:-

- Mae cyflenwadau'n cael eu cofnodi fel gwariant pan gânt eu defnyddio – pan fo bwlch rhwng dyddiad derbyn cyflenwadau a'u defnyddio, cânt eu cario fel rhestrau stoc ar y Fantolen;

- Mae treuliau yng nghyswllt gwasanaethau a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaethau a ddarparwyd gan weithwyr) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fo'r gwasanaethau'n cael eu derbyn yn hytrach na phan fo taliadau'n cael eu gwneud;

- Mae'r llog a dderbynnir ar fuddsoddiadau ac adneuon banc ac sy'n daladwy ar fenthyciadau (gan gynnwys gorddrafftiau banc) yn cael ei gyfrifo fel incwm a gwariant yn seiliedig ar y gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn ariannol perthnasol yn hytrach nag fel llif arian parod sy'n cael ei bennu neu ei sefydlu dan y contract; a

- Pan fo refeniw a gwariant wedi'i gydnabod ond dim arian parod wedi'i dalu na'i dderbyn, mae dyledwr neu gredydwr i'r swm perthnasol yn cael ei gofnodi ar y Fantolen. Pan na fydd dyledion o bosib yn cael eu setlo, mae balans y ddyled yn cael ei amharu a chodir ar refeniw am yr incwm na chaiff, o bosib, ei gasglu.

3. Digwyddiadau ar ôl Dyddiad y Fantolen

Gall pethau ddigwydd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol a all gael effaith sylweddol ar ganlyniadau ariannol y flwyddyn honno. Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y flwyddyn ariannol a'r dyddiad pan fo'r Datganiad Cyfrifon wedi ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Caiff y Datganiad Cyfrifon ei awdurdodi i'w gyhoeddi pan fydd y Swyddog Adran 151 wedi llofnodi'r cyfrifon terfynol wedi eu harchwilio, ar ôl i'r cyfrifon gael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn. Yn unol â'r gyfraith, rhaid cwblhau'r cyfrifon terfynol wedi eu harchwilio a'u hawdurdodi erbyn 31 Gorffennaf ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Gellir dynodi dau fath o ddigwyddiad:-

- y rheini sy'n rhoi tystiolaeth o'r amgylchiadau oedd yn bodoli ar ddiwedd y flwyddyn ariannol – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau; a
- y rheini sy'n arwydd o amgylchiadau a gododd ar ôl y flwyddyn ariannol – nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau ond, lle byddai categori o ddigwyddiadau yn cael effaith sylweddol, gwneir datgeliad yn y nodiadau ar natur y digwyddiadau a'r effaith y disgwylir iddynt eu cael o safbwynt ariannol.

Nid yw digwyddiadau ar ôl dyddiad awdurdodi'r datganiad ar gyfer ei gyhoeddi yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad Cyfrifon.

4. Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd ac Asedau a Reolir ar y Cyd

Y gweithrediadau a reolir ar y cyd yw'r gwaith hwnnw a wna'r Cyngor ar y cyd â mentrau eraill pan fo defnydd yn cael ei wneud o asedau ac o adnoddau'r mentrau yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Cyngor yn cydnabod ar ei Fantolen ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau y mae'n eu hwynebu. Caiff y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ei ddebydu gyda'r gwariant hwnnw a'i gredydu gyda'r gyfran o'r incwm y mae'n ei ennill o ganlyniad i weithrediad y fenter.

Asedau a reolir ar y cyd yw eitemau o eiddo, offer neu gyfarpar sydd yn cael eu cydreoli gan y Cyngor a mentrau eraill a phan fo'r asedau'n cael eu defnyddio i sicrhau buddiannau i'r mentrwyr. Nid yw'r fenter ar y cyd yn golygu sefydlu endid ar wahân. Mae'r Cyngor yn cadw cyfrif am ei gyfran ei hun yn unig o'r asedau a reolir ar y cyd, am y rhwymedigaethau a'r treuliau a gaiff ar ei ran ei hun neu ar y cyd ag eraill yng nghyswllt ei fuddiannau yn y fenter ar y cyd a'r incwm a ddaw iddo o'r fenter.

5. Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau Mewn Polisïau Cyfrifo ac Amcangyfrifon a Chamgymeriadau

Gall addasiadau ar gyfer cyfnod blaenorol ddeillio o newid mewn polisïau cyfrifo neu o gywiro camgymeriad materol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifo yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol ac yn ystod y blynyddoedd i ddod a fydd yn cael eu heffeithio gan y newid ac nid ydynt yn achosi addasiad cyfnod blaenorol.

Ni fydd newidiadau i bolisïau cyfrifo ond yn cael eu gwneud pan mae hynny'n ofynnol dan arferion cyfrifo cywir neu pan fo'r newid yn rhoi gwybodaeth sy'n fwy dibynadwy neu berthnasol o safbwynt effeithiau trafodion, digwyddiadau eraill a'r amodau mewn perthynas â sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol y Cyngor. Pan wneir newid, caiff ei ddefnyddio'n ôl-weithredol (oni ddywedir fel arall) trwy addasu'r balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel petai'r polisi newydd wedi ei ddefnyddio erioed.

Mae camgymeriadau materol a ganfyddir yn ffigyrau'r cyfnod blaenorol yn cael eu cywiro'n ôl- weithredol trwy addasu balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

6. Treth ar Werth (TAW)

Mae TAW sy'n daladwy ond yn cael ei gynnwys fel traul i'r graddau nad oes modd ei hawlio oddi ar Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn unig. Mae'r TAW derbyniadwy yn cael ei eithrio o incwm Mesur Gwerth Teg.

7. Mesur Gwerth Teg

Mae Mesur Gwerth Teg SAARh13 yn golygu bod rhaid i'r rhan fwyaf o'r asedau, rhwymedigaethau ac offerynnau ariannol nad ydynt yn gyfredol gael eu prisio ar werth teg, yn aml yn ôl cyfraddau marchnad actif lle mae un ar gael. O safbwynt asedau gweithredol, mae'r safon yn cyflwyno'r cysyniad o werth teg yn seiliedig ar werth cyfredol (yn aml, gwerth mewn defnydd) ar gyfer ailbrisio Eiddo, Offer a Chyfarpar. Mae hyn yn golygu y dylai'r mesur adlewyrchu amodau'r farchnad ar gyfer y gwasanaeth neu'r swyddogaeth ar ddyddiad cyflwyno'r adroddiad. Mae'r safon yn darparu gwahanol ddulliau prisio teg ar gyfer mathau o asedau gwahanol. Yn achos asedau nad ydynt yn rhai gweithredol, h.y. asedau buddsoddi, asedau a ddelir i'w gwerthu ac asedau nad oes mwyach eu hangen, caiff y rhain eu prisio ar eu huchaf ac yn ôl y defnydd gorau y gellir ei wneud ohonynt. Mewn achos lle gellid gwneud defnydd arall ohonynt a fyddai o werth teg uwch, dyna'r gwerth teg a fyddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer prisio asedau nad ydynt yn rhai gweithredol. O dan y côd hwn, nid oes angen ailbrisio asedau isadeiledd yn ôl eu gwerth cyfredol. Yn lle hynny, caiff asedau isadeiledd eu prisio yn ôl y gost hanesyddol dibrisiedig.

Mae'r Awdurdod yn mesur gwerth teg ased neu rwymedigaeth drwy ddefnyddio'r rhagdybiaethau y byddai'r sawl sy'n weithredol yn y farchnad yn eu defnyddio wrth brisio ased neu rwymedigaeth, gan dybio y byddai'r rheini yn gweithredu er eu budd economaidd gorau.

8. Asedau nad ydynt yn Gyfredol (Eiddo, Offer a Chyfarpar)

Cydnabyddiaeth

Mae asedau anghyfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar - yn asedau ffisegol sy'n para am flwyddyn neu ragor ac sy'n cael eu defnyddio gan y Cyngor i gefnogi'r ddarpariaeth o nwyddau a gwasanaethau. Mae'r Cyngor wedi pennu isafswm ar gyfer gwariant ar asedau a fydd yn cael ei gategoreiddio fel gwariant cyfalaf. Y swm de-minimus hwn yw £10k. Caiff gwariant ar brynu, creu neu wella asedau anghyfredol ac sy'n costio £10k neu fwy ei gyfalafu ar sail croniadau ar yr amod ei fod yn cwrdd â'r diffiniad uchod o ased anghyfredol. Byddai Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cynnwys asedau megis peiriannau, ni fyddai fel arfer yn cynnwys asedau a ddelir i'w gwerthu oherwydd, fel arfer, byddid yn disgwyl cael gwared ar y rhain o fewn 12 mis.

Gall costau'r asedau hyn gynnwys costau cychwynnol eu prynu a'u hadeiladu a chostau dilynol i wella neu i adnewyddu rhan o'r ased. Caiff unrhyw wariant arall a gyfyd yn sgil gynnal a chadw asedau o ddydd i ddydd, yn cynnwys atgyweiriadau a chynnal a chadw, ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wrth i'r costau hynny godi.

Mesur

Caiff asedau eu mesur yn y lle cyntaf ar gost, yn cynnwys:-

- y pris prynu;
- unrhyw gostau a briodolir i ddod ag ased i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol i bwrpas ei weithredu yn y dull a fwriadwyd gan reolwyr; ac
- amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle y mae'r eitem arno mewn achosion lle mae'n rhaid, er mwyn defnyddio'r ased, ei hail-leoli.

Nid yw'r Cyngor yn cyfalafu costau benthyca a geir tra bo asedau'n cael eu hadeiladu.

Tybir bod cost asedau a gafaelir mewn modd ac eithrio drwy eu prynu yn gost gwerth teg, ac eithrio pan nad oes sylwedd masnachol i'r pryniant (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian y Cyngor). Yn yr achos olaf, pan afaelir ased drwy gyfnewid, cost y pryniant yw swm cario'r ased a roddir i fyny gan y Cyngor.

Yna mae'r asedau'n cael eu cario yn y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:-

- Isadeiledd, asedau cymunedol ac asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost dibrisiant hanesyddol;
- Tai Cyngor – gwerth teg, a bennir gan ddefnyddio sail gwerth defnydd presennol ar gyfer tai cymdeithasol (EUV-SH);
- Swyddfeydd y Cyngor – gwerth cyfredol, a bennir gan y swm a delir am yr ased yn ei ddefnydd presennol;
- Adeiladau ysgolion – byddent yn cael eu prisio yn ôl eu gwerth cyfredol wrth gael eu defnyddio ond, oherwydd eu natur arbenigol, fe'u mesurir yn ôl cost amnewid dibrisiant;
- Asedau dros ben – y mesur gwerth cyfredol yw gwerth teg, amcangyfrifir ar y defnydd uchaf a gorau o bersbectif rhai sy'n weithgar ar y farchnad;
- Mae'r holl asedau gweithredol eraill wedi cael eu mesur yn unol â'u gwerth presennol yn seiliedig ar eu gwerth defnydd presennol (EUV). Mae hyn yn golygu mai gwerth cyfredol tir ac adeiladau fyddai'r swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol. Os nad oes marchnad amlwg ar gyfer ased oherwydd ei natur arbenigol neu os nad yw'r math hwnnw o ased yn cael ei werthu'n aml, bydd yr Awdurdod yn amcangyfrif ei werth cyfredol gan ddefnyddio'r dull cost amnewidiol dibrisiedig. Er enghraifft, yn achos eiddo sy'n cynnwys tir ac adeiladau, y gost ddibrisiedig o'i amnewid byddai gwerth marchnad y tir y mae'r adeilad arno ar gyfer ei ddefnydd cyfredol ynghyd â chost gros amnewid yr adeilad llai lwfansau ar gyfer dirywiad ffisegol, darfodedigrwydd ac optimeiddio;
- Caiff asedau a dderbynnir fel rhoddion eu mesur yn y lle cyntaf yn ôl eu gwerth teg. Caiff y gwahaniaeth rhwng gwerth teg ac unrhyw bris a dalwyd ei gredydu i'r llinell Incwm a Gwariant Trethiant a Grant Amhenodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Lle mae amodau ynghlwm wrth unrhyw asedau a gafwyd yn rhodd, caiff yr enillion eu credydu i'r Cyfrif Asedau a gafwyd yn rhodd. Lle mae enillion yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, cânt eu symud allan o falans y Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn;
- Lle mae rhan neu gydran o ased yn cael ei amnewid, caiff gwerth cario'r hen ran neu gydran ei ddad-gydnabod er mwyn osgoi cyfrif dwbl. Caiff gwerth y gydran newydd ei hychwanegu at y swm sy'n cario. Os nad yw'n ymarferol gwneud penderfyniad ynghylch gwerth cario'r rhan sydd wedi ei amnewid, defnyddir cost y rhan newydd fel arwydd o gost y rhan sydd wedi cael ei amnewid; a
- Os nad yw ased yn cael ei ddal i bwrpas cynhyrchu llif arian, tybir bod gwerth mewn defnydd o leiaf yn gyfartal i gost amnewid gwasanaeth potensial o'r ased.

Pan fo gan asedau nad ydynt yn eiddo oes ddefnyddiol fer neu werth isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol dibrisiedig fel procsi ar gyfer gwerth teg. Fel arfer, mae 'oes defnyddiol byr' yn golygu 7 mlynedd neu lai, er gall fod yn hirach am eitemau arbenigol o offer a chyfarpar.

Rhaid ailbrisio asedau sydd wedi eu cynnwys ar y Fantolen ar eu gwerth cyfredol bob pum mlynedd i sicrhau bod eu swm cario ymlaen yn hanfodol gywir. Lle nad oes tystiolaeth seiliedig ar y farchnad o'r gwerth cyfredol, efallai y bydd y Cyngor yn amcangyfrif gwerth cyfredol gan ddefnyddio dull cost amnewid ddibrisiedig.

Daeth rheolau mynegeio newydd i rym 1 Ebrill 2025, lle mae mynegai allanol addas yn cael ei ddefnyddio yn ystod yr ail a'r bumed blwyddyn rhwng y prisiadau bob pum mlynedd ar gyfer yr asedau, fel y gweler isod. Rhaid i'r Cyngor ddefnyddio'r mynegai allanol gorau sydd ar gael wrth fynegeio asedau rhwng prisiadau llawn. Bydd mynegai Pris Pob Tendr (TPI) BCIS yn cael ei gymhwyso i asedau sy'n cael eu gwerthuso ar cost amnewid ddibrisiedig rhwng prisiadau pum mlynedd. Defnyddir CPI neu CPIH 12 mis, Mawrth i Fawrth, ar gyfer asedau addas. Lle nad oes mynegai addas ar gyfer asedau sydd angen eu mynegeio, bydd y Cyngor yn ailbrisio'r ased penodol ym mlwyddyn 1 a blwyddyn 3 bob pum mlynedd.

- Tir ac adeiladau eraill;
- asedau gwarged;
- asedau hawl-i-ddefnyddio yn cael eu mesur ar eu gwerth cyfredol yn hytrach nag ar sail cost;
- peiriannau, cerbydau ac offer ddim yn cael eu prisio ar gost hanesyddol.

Mae'r Cyngor yn gwerthuso ei asedau Eiddo, Peiriannau ac Offer dan raglen dreigl pum mlynedd. Bydd rhai asedau'n cael eu prisio yn 2025/26, gyda'r dosbarthiadau asedau sy'n weddill yn cael eu prisio yn unol â'r rhaglen yn y blynyddoedd ariannol dilynol. Felly bydd gwahanol ddosbarthiadau asedau yn cael eu prisio bob blwyddyn, ac eithrio lle mae angen ailbrisio blynyddol, fel ar gyfer eiddo buddsoddi. Bydd asedau a brisiwyd yn 2025/26 yn cael eu hailbrisio nesaf yn 2030/31, pan fydd y cylch yn ailgychwyn. Bydd asedau newydd a adeiladwyd neu a brynwyd ar ôl y flwyddyn werthuso a drefnwyd ar gyfer eu dosbarth asedau yn cael eu prisio yn y flwyddyn y cânt eu cwblhau neu eu caffael, oni bai bod cost yn darparu sail briodol ar gyfer prisio.

Gosodir de minimis o £10k mewn perthynas â gwerth asedau o'r categorïau asedau uchod y dylid eu mynegeio. Mae hyn yn golygu na fydd mynegeio yn cael ei gymhwyso i asedau sydd â gwerth net ar bapur llai na £10k gan na fyddai'r cynnydd o'r mynegeio yn berthnasol h.y. ni fyddai'r cynnydd yn newid y farn wir a theg o brisiad yr eiddo perthnasol yn unigol nac yn gyfan gwbl. Profwyd hyn gyda mynegeion hyd at 5%. Os bydd cynnydd sylweddol yn y mynegai sy'n effeithio ar nifer o asedau a allai arwain at y de minimis gan achosi i werthoedd yr asedau fod yn sylweddol anghywir, bydd y gwerth de minimis yn cael ei ailasesu. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i beidio â chymhwyso'r gwerth de minimis.

Yn unol â gofynion CIPFA, ni fydd y Cyngor yn defnyddio mynegai ar gyfer y dosbarthiadau asedau canlynol:

- Anheddau cyngor gan fod y rhain wedi'u heithrio ac yn cael eu hailbrisio bob pum mlynedd yn ôl eu gwerth mewn defnydd ar gyfer tai cymdeithasol;
- asedau seilwaith gan fod y rhain yn cael eu gwerthuso ar gost hanesyddol wedi'i dibrisio;
- asedau cymunedol oni bai bod y Cyngor wedi mabwysiadu'r opsiwn prisio;
- asedau sy'n cael eu hadeiladu sy'n cael eu prisio ar gost;
- asedau treftadaeth;
- eiddo buddsoddi y mae'n rhaid eu hailbrisio bob blwyddyn;
- Asedau nad ydynt yn eiddo sydd ag oes ddefnyddiol fyr neu werthoedd isel (neu'r ddau) lle mae awdurdodau'n dewis mabwysiadu sail cost hanesyddol wedi'i dibrisio ar gyfer dirprwy gwerth cyfredol.

Ar gyfer dosbarthiadau asedau lle nad yw mynegeio yn cael ei gymhwyso, bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau bod gwerthoedd cario yn parhau i fod yn gywir drwy'r dull gwerthuso a drefnwyd a nodir uchod, adolygiadau diffygion blynyddol, ac ystyried unrhyw ddangosyddion o newid sylweddol mewn gwerth. Lle mae tystiolaeth y gallai gwerth cario ased fod wedi'i gamddatgan yn sylweddol, gan gynnwys o ganlyniad i newid mewn defnydd, amodau'r farchnad, cyflwr ffisegol, darfodedigaeth, neu benderfyniad i waredu'r ased, bydd y Cyngor yn trefnu gwerthusiad neu asesiad diffygion y tu allan i'r cylch prisio arferol. Bydd asedau a gadwir ar gost neu gost hanesyddol wedi'i dibrisio yn parhau i gael eu dibrisio dros eu hoes economaidd ddefnyddiol, gyda hoes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol yn cael eu hadolygu lle bo'n briodol.

Ailddosbarthu asedau – yn ystod y cyfnod pum mlynedd a gwmpesir gan raglen dreigl o werthuso, mae'n bosibl y bydd polisi neu benderfyniadau'r Cyngor yn effeithio ar gategoreiddio asedau neu y gallai fod newid yn y defnydd o ased. Gallai'r newidiadau hyn newid y gwerth, er enghraifft pan fydd y Cyngor yn penderfynu gwerthu eiddo ac yn marchnata'r eiddo'n weithredol i'w werthu. Mae'r eiddo'n cael ei symud i asedau a gadwir i'w gwerthu ac mae hyn yn sbarduno ailbrisio'r ased, gan fod asedau eiddo yn cael eu gwerthu am werth y farchnad sydd fel arfer yn uwch na'r gwerth mewn defnydd.

Amhariad

Mae gwerth asedau'n cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn am arwydd o amhariad ar werth.

Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau a newidiadau mewn amgylchiadau sy'n rhoi arwydd y gallai amhariad fod wedi digwydd yn cynnwys:-

- dirywiad sylweddol (h.y. mwy na'r disgwyl o ganlyniad i dreigl amser neu ddefnydd cyffredin) yn swm cario'r ased yn ystod y cyfnod, sy'n benodol i'r ased;
- tystiolaeth o ddarfodiad neu niwed ffisegol i ased;
- ymrwymiad gan y Cyngor i ymgymryd ag ad-drefnu sylweddol; a
- newid andwyol sylweddol yn yr amgylchedd statudol neu reoleiddiol arall y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo.

Pan fo arwyddion, ac amcangyfrifir bod gwahaniaethau posib yn faterol, yna amcangyfrifir swm adferadwy'r ased ac, mewn achos lle mae'r swm hwn yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled amhariad ar gyfer y diffyg.

Pan ddynodir colledion amhariad ar asedau a gawsant eu hailbrisio, cyfrifir amdanynt trwy:-

- pan mae balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, nodir swm yr amhariad yn erbyn yr ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion cronnus);

- pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, nodir swm yr amhariad yn erbyn yr ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Pan fo colled amhariad yn cael ei wrthdroi wedyn, credydir y gwyrdroad i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, i fyny at swm y golled wreiddiol, wedi ei addasu ar gyfer dibrisiant y byddid wedi ei godi pe na fyddai'r golled wedi ei chydnabod. Nodir unrhyw beth dros ben yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn.

Pan mae'r amhariad yn ymwneud ag ased na chafodd ei hailbrisio (h.y. ased â gwerth cario yn seiliedig ar gost hanesyddol), caiff yr amhariad ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Dibrisiant

Darperir ar gyfer dibrisiant yr holl asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar er mwyn dyrannu eu symiau dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau heb oes ddefnyddiol benodol (h.y. tir rhydd-ddaliadol) ac asedau nad ydynt eto ar gael i'w defnyddio (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu). Fodd bynnag, os bydd unrhyw asedau y disgwylir i'w bywydau economaidd defnyddiol fod yn fyrrach neu'n hirach na'r cyfnodau a nodir isod, o ganlyniad i farn broffesiynol neu a ddarperir gan y gweithgynhyrchwr neu a ddangosir fel safon y diwydiant. Gellir codi dibrisiant ar fywyd economaidd defnyddiol y tu allan i'r ffiniau isod.

Cyfrifir dibrisiant ar y seiliau canlynol:-

- Adeiladau ac eithrio anheddau'r Cyngor– dyraniad llinell syth dros gyfnodau o hyd at 75 mlynedd, fel y amcangyfrifir gan y Gwerthwr, fodd bynnag gellir defnyddio mwy na 75 mlynedd os yw'r gwerthwr yn ystyried bod gan asedau oes economaidd ddefnyddiol sy'n fwy na'r 75 mlynedd a ddefnyddir fel arfer.;
- Bydd anheddau cyngor bob amser yn cael eu cyfrifo ar ddibrisiant llinell syth er y bydd oes economaidd ddefnyddiol yr anheddau o fewn y cyfrifiad yn aros yn 50 oherwydd y buddsoddiad sylweddol bob blwyddyn yn y stoc tai
- isadeiledd – dyraniad llinell syth dros gyfnodau hyd at 45 mlynedd
- cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar – dyraniad llinell syth dros 5 i 15 mlynedd.

Mewn achos lle mae gan eitem o ased Eiddo, Offer a Chyfarpar cydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn cysylltiad â chost gyfan yr eitem, dibrisir y cydrannau ar wahân.

Mae enillion ailbrisiant hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng gwerth presennol dibrisiant a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi ei godi yn seiliedig ar eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Ni chodir dibrisiant yn y flwyddyn y prynir yr ased.

Pan fo gan eitem o Eiddo, Peiriannau ac Offer (Ased Nad yw'n Gyfredol) gydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn perthynas â chyfanswm cost yr eitem, mae'r cydrannau'n cael eu dibrisio ar wahân.

Mae cymhwyso hyn yn ymarferol yn gofyn am asesiad yn erbyn y meini prawf isod, er mwyn canfod a yw:-

- Mae'r bywyd defnyddiol economaidd yn wahanol iawn i elfennau eraill yr ased h.y. 15 mlynedd neu fwy;
- Mae gwerth yr ased yn £2m neu'n fwy ac mae'r gydran dros 25% o gyfanswm gwerth yr ased;
- Mae'r bywyd defnyddiol economaidd yn wahanol iawn ond mae'r gwerth yn cynrychioli llai na 25% o gyfanswm gwerth yr ased; bydd y gydran yn cael ei nodi ar wahân os bernir, ym marn y Prisiwr, ei bod yn materol, e.e. lle mae gwerth cydran, dyweder, yn £3m (10%) o'r ased dibrisio sydd â chyfanswm gwerth o £30m.

Os yw'r ased dibrisio yn rhan o grŵp ehangach a ddelir at yr un diben, er enghraifft, canolfannau hamdden, bydd y polisi a argymhellir hwn ar gydrannau yn cael ei gymhwyso i gyfanswm y grŵp ehangach hwn ac nid i bob ased unigol sy'n dibrisio ased o fewn y grŵp.

Asedau y ceir gwared arnynt ac Asedau Anghyfredol a delir i'w Gwerthu

Mae'r asedau hyn yn cael eu marchnata'n rhagweithiol ar gyfer eu gwerthu ac mewn achosion ble y mae'r Cyngor yn disgwyl iddynt gael eu gwerthu yn y 12 mis nesaf. Fe nodir yr asedau yma ar wahân oherwydd bydd y gwerth ar y Fantolen yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na pharhau i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Mae'r ased yn cael ei ailbrisio yn union cyn ei ail-gategoreiddio ac yna ei gario ar yr isaf o'r swm hwn a gwerth teg llai costau gwerthu. Caiff gwerth teg asedau anghyfredol a delir i'w gwerthu, eu mesur yn unol â'u lefel uchaf a gorau o ddefnydd. Pan fo gostyngiad dilynol i werth teg llai costau gwerthu, mae'r golled yn cael ei phostio i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dim ond hyd at swm unrhyw golledion a gydnabuwyd yn flaenorol yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau y cydnabyddir enillion mewn gwerth teg. Ni chodir dibrisiant ar Asedau a delir i'w Gwerthu.

Os nad yw asedau bellach yn cwrdd â'r meini prawf i'w dosbarthu fel Asedau a delir i'w Gwerthu, yna cânt eu hailddosbarthu'n ôl i asedau anghyfredol a'u prisio ar yr isaf o'u swm cario cyn iddynt gael eu dosbarthu fel rhai y delir i'w gwerthu, wedi'i addasu ar gyfer dibrisiant, amorteiddiad neu ailbrisiadau a fyddai wedi cael eu cydnabod petaent ddim wedi cael eu dosbarthu fel rhai a Delir i'w Gwerthu, a'u swm adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio gwerthu.

Nid yw asedau fydd yn cael eu gadael neu eu sgrapio yn cael eu hailddosbarthu fel Asedau a delir i'w Gwerthu.

Cael Gwared ar Asedau Anghyfredol

Pan ceir gwared ag ased neu pan gaiff ei ddigomisiynu, dilëir swm cario'r ased yn y Fantolen (os yw'n Eiddo, Offer a Chyfarpar neu Asedau a delir i'w Gwerthu) i linell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r budd neu'r golled ar adeg gwaredu. Caiff y gost hon ei drosglwyddo wedyn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Mae derbyniadau o warediadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r budd neu golled ar waredu (h.y. wedi ei netio i ffwrdd yn erbyn gwerth cario'r ased adeg cael gwared arno). Mae unrhyw enillion ailbrisiant a gronnwyd i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Mae symiau uwch na £10k a dderbynnir ar gyfer eitem a waredwyd yn cael eu categoreiddio fel derbyniadau cyfalaf ac ni fedrir ond eu defnyddio wedyn ar gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd neu eu gosod o'r neilltu i leihau angen gwaelodol y Cyngor i fenthyca (y gofyniad Cyllido Cyfalaf). Mae derbyniadau yn cael eu neilltuo i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Nid yw gwerth dileu gwarediadau'n cael ei godi yn erbyn y Dreth Gyngor, oherwydd darperir yn llawn ar gyfer asedau anghyfredol dan drefniadau ar wahân ar gyfer Cyllido Cyfalaf. Mae symiau'n cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Asedau nad oes eu hangen mwyach

Gwerth teg asedau nad oes eu hangen mwyach yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn i werthu ased neu ei dalu i drosglwyddo rhwymedigaeth mewn trafodiad trefnus rhwng rhai sy'n weithgar yn y farchnad ar adeg mesur. Bydd hyn yn seiliedig ar y defnydd uchaf a gorau a amcangyfrifir gan ddefnyddio mewnbynnau Lefel 1 yn seiliedig ar ddull marchnad / dull prisio tebyg.

Asedau Treftadaeth

Asedau Treftadaeth yw'r rheini y bwriedir eu cadw mewn ymddiriedolaeth i genedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwydiannol, amgylcheddol neu hanesyddol. Maent yn cael eu dal gan y Cyngor yn unol â'i amcanion cyffredinol i warchod treftadaeth Ynys Môn.

Mae'r Cyngor yn berchen ar nifer o asedau treftadaeth diriaethol megis adeiladau hanesyddol a gwaith celf.

Rhoddir gwerth ar Asedau Treftadaeth weithredol (h.y. rheini sydd, ynghyd â chael eu dal am eu nodweddion treftadaeth, hefyd yn cael eu defnyddio gan y Cyngor am weithgareddau arall neu i ddarparu gwasanaethau arall) a chyfrif amdanynt fel asedau gweithredol, yn yr un modd ag asedau arall o'r math cyffredinol yna (e.e. adeiladau gweithredol).

Rhoddir gwerth ar Asedau Treftadaeth ar y sail fwyaf priodol a pherthnasol i'r ased unigol neu ddosbarth yr asedau. Lle nad yw'n ymarferol i gael prisiad ar gost sy'n gymesur â'r buddiannau i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol, mesurir yr Asedau Treftadaeth ar gost hanesyddol (llai unrhyw dibrisiant cronedig, amorteiddio a cholledion amhariad fel sy'n briodol). Lle mesurir Asedau Treftadaeth ar brisiad, fe fesurir y swm cario yn ddigon aml i sicrhau fod y prisiadau yn parhau i fod yn gyfredol, ac ar gyfnodau dim mwy na phum mlynedd. Mewn achos lle na fedrir penderfynu ar gost neu werth Ased Treftadaeth heb fynd i gost anghymesur, ni fydd yr asedau'n cael eu cydnabod yn y Fantolen. Yn lle hynny, bydd yr ased yn cael ei datgelu yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Pan fo Ased Treftadaeth ag oes benodol, darperir dibrisiant ar yr un sail â chategorïau eraill o asedau (am fanylion, gweler y Polisi Cyfrifo am Ddibrisiant, 8.4 uchod).

Ni ddarperir dibrisiant ar Asedau Treftadaeth sydd ag oes amhenodol a gwerth gweddilliol uchel. Dylid adolygu swm cario Ased Treftadaeth pan fo tystiolaeth o amhariad, er enghraifft, pan mae wedi dioddef dirywiad ffisegol neu wedi cael ei dorri neu pan fo amheuon newydd yn codi ynglŷn â'i ddilysrwydd. Adnabyddir unrhyw amhariad ar yr un sail â dosbarthiadau arall o ased (am fanylion gweler Polisi Cyfrifo 8.3, Amhariad). Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn mynd ati'n weithredol i gaffael mwy o Asedau Treftadaeth, ond mae'n ymateb i gyfleoedd i wella ei bortffolio fel maent yn codi. Cedwir y casgliadau celf yn Oriel Ynys Môn, gyda gwaith cynnal a chadw'n cael ei wneud pan fo'r angen. Rhannau o'r casgliad sy'n cael ei arddangos ar unrhyw adeg, tra gellir trefnu i gael mynediad i'r gweddill. Mae'r Eiddo Treftadaeth yn cael eu rheoli a'u cynnal a'u cadw, wrth ystyried eu nodweddion treftadaeth, fel rhan o bortffolio cyffredinol y Cyngor o dir ac adeiladau.

Trin Asedau Ysgol

Cymerir yn ganiataol mai awdurdodau lleol sy'n rheoli'r ysgolion y maent yn eu cynnal. O ganlyniad, caiff asedau, rhwymedigaethau, cronfeydd wrth gefn a llif arian yr ysgolion a gynhelir gan yr Awdurdod eu cynnwys yn natganiadau ariannol y Cyngor.

Ymddiriedolwyr yr ysgol neu'r corff sefydledig sy'n berchen ar, ac yn rheoli, tir ac adeiladau ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol ac ysgolion sefydledig ac, o'r herwydd, ni chânt eu cynnwys ar Fantolen y Cyngor.

Caiff gwariant cyfalaf ar ysgolion cymunedol ei ychwanegu at falansau'r ysgolion hynny. Caiff balansau ysgolion unigol ar 31 Mawrth bob blwyddyn eu cynnwys ym Mantolen y Cyngor oherwydd eiddo'r Cyngor fydd unrhyw gyllidebau datganoledig i'r ysgolion sydd heb eu gwario.

I bwrpas cyfrifo, mae asedau ysgolion dan reolaeth wirfoddol ac ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol fel a ganlyn:-

- Ysgolion Dan Reolaeth Wirfoddol: mae'r tir wedi ei gynnwys ar y Fantolen ond nid yr adeiladau;
- Ysgolion a Gynorthwyir yn Wirfoddol: nid yw'r tir na'r adeiladau wedi eu cynnwys ar y Fantolen; ac
- Yn ychwanegol, nid yw'r tir na'r adeiladau yn Ysgol Sefydledig Caergeiliog wedi eu cynnwys ar y Fantolen oherwydd mae'r asedau hyn wedi eu breinio gydag ymddiriedolwyr yr ysgol.

9. Eiddo Buddsoddiad

Eiddo buddsoddiad yw'r tir a'r adeiladau hynny a ddefnyddir i bwrpas cynhyrchu rhent a/neu ar gyfer cynnydd cyfalaf yn unig. Nid yw'r diffiniad yn cael ei fodloni os ydyw'r eiddo'n cael ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd i hwyluso darparu gwasanaethau neu i gynhyrchu nwyddau neu pan fo'n cael ei ddal i'w werthu.

Mae eiddo buddsoddiad yn cael eu cydnabod pan mae'n debygol y bydd buddion economaidd cynlluniedig ar gyfer y dyfodol yn llifo i'r Awdurdod ac y gellir mesur mewn modd dibynadwy gost neu werth teg yr eiddo buddsoddiad hwnnw. Caiff eiddo buddsoddiad eu mesur yn ôl cost yn y lle cyntaf ac, wedyn, yn ôl gwerth teg, gan ddibynnu ar faint y gellid ffeirio'r ased rhwng partïon gwybodus hyd braich. Yn unol â'r Côd, rhaid prisio Eiddo Buddsoddiad yn ôl y defnydd mwyaf a gorau y gellir ei wneud ohonynt, waeth beth fo bwriadau'r Cyngor ar eu cyfer. Mae hyn yn golygu bod defnydd amgen wedi cael ei ystyried ar gyfer pob eiddo buddsoddiad ac, os byddai modd defnyddio'r eiddo i bwrpas arall a hynny'n codi ei werth teg, yna dylid defnyddio'r gwerth teg hwnnw. Nid yw'r eiddo'n cael ei ddibrisio, yn hytrach caiff eu hailbrisio'n flynyddol yn unol â SAARh13 yn ôl amgylchiadau'r farchnad ar ddyddiad y Fantolen. Mae enillion a cholledion adeg ailbrisio'n cael eu symud i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yr un driniaeth yn union a roddir i enillion a cholledion wrth gael gwared ohonynt.

Mae rhent a dderbynnir am eiddo buddsoddiad yn cael ei gredydu i'r llinell Incwm Cyllido a Buddsoddiad ac yn arwain at gynnydd ym malans Cronfa'r Cyngor. Fodd bynnag, dan drefniadau statudol, ni chaniateir i enillion a cholledion a geir yn sgil ailbrisio a gwerthu gael effaith ar falans Cronfa'r Cyngor. Felly, mae'r enillion a'r colledion yn cael eu symud allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn a'u symud i mewn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf ac (yn achos arian gwerthiant uwch na £10k) i'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf.

10. Asedau Anniriaethol

Mae asedau anniriaethol yn asedau nad ydynt yn gyfredol, nac yn ariannol, y gellir eu hadnabod ar wahân ond nid oes ganddynt sylwedd ffisegol (er enghraifft, meddalwedd cyfrifiadurol). Caiff y rhain eu rheoli gan y Cyngor oherwydd digwyddiadau yn y gorffennol. Nid yw gwariant ar ddatblygu gwefannau'n cael ei gyfalafu pan fo'r wefan yn cael ei defnyddio'n llwyr neu'n bennaf i hyrwyddo neu i hysbysebu nwyddau'r Cyngor neu ei wasanaethau. Caiff gwariant ar asedau anniriaethol eu cyfalafu pan dybir y bydd buddiannau economaidd yn y dyfodol neu wasanaeth posib yn llifo o'r ased anniriaethol i'r Cyngor. Mae oes economaidd defnyddiol asedau anniriaethol yn cael ei benderfynu gan y gweithiwr proffesiynol perthnasol sy'n arwain ar brynu/datblygu'r ased anniriaethol. Mae oes economaidd ddefnyddiol ased anniriaethol yn fyrrach nag asedau dirweddol, er enghraifft, rhwng pump a saith mlynedd. Mae asedau anniriaethol yn cael eu hamorteiddio ar sail llinell syth dros fywyd economaidd defnyddiol yr ased.

Yn y lle cyntaf, mesurir asedau anniriaethol yn ôl y gost. Nid yw'r symiau'n cael eu hailbrisio oni bai fod modd pennu gwerth yr asedau y mae'r Cyngor yn eu dal drwy droi at y farchnad weithredol. Yn ymarferol, nid oes ased anniriaethol y mae'r Cyngor yn ei ddal yn bodloni'r maen prawf hwn ac, felly, cawn eu cario yn ôl ar gost llai amorteiddio cronedig. Mae swm dibrisiannol ased anniriaethol yn cael ei amorteiddio dros ei oes ddefnyddiol i linell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Rhoddir prawf amhariad ar asedau anniriaethol yn flynyddol a phryd bynnag y ceir arwydd bod amhariad ar yr ased. Mae unrhyw golledion a ganfyddir yn cael eu nodi yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Bydd unrhyw enillion neu golledion wrth gael gwared ag ased n anniriaethol eu wrth roi'r gorau iddo yn cael ei nodi yn erbyn y llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo gwariant ar asedau anniriaethol yn gymwys i'w ystyried fel gwariant cyfalaf i ddibenion statudol, ni chaniateir i amorteiddio, colledion amhariad nag enillion a cholledion cael gwared â'r asedau gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Felly, mae'r enillion a'r colledion yn cael eu symud allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn a'u symud i mewn i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf ac (yn achos arian gwerthiant uwch na £10k) i'r Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf.

11. Rhestrau Stoc a Chontractau Tymor Hir

Cynhwysir rhestrau stoc yn y Fantolen yn ôl y gost neu'n ôl y gwerth gwerthu net - pa un bynnag o'r ddau sydd isaf. Mae cost rhestrau stoc yn cael ei aseinio trwy ddefnyddio fformiwla gostio 'Cyntaf i Mewn, Cyntaf Allan' (FIFO).

Rhoddir cyfrif am gontractau tymor hir trwy godi ar y Gwarged neu ar y Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn seiliedig ar werth y gwaith neu'r gwasanaeth a dderbynnir dan y contract yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mae gwaith sydd yn y broses o gael ei wneud yn cael ei gynnwys yn y Fantolen yn ôl y gost.

12. Arian Parod a Chywerthoedd Arian

Cynrychiolir arian parod gan arian mewn llaw ac adneuon gyda sefydliadau ariannol sy'n ad- daladwy heb gosb ar rybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae cywerthoedd arian yn fuddsoddiadau hynod o hylifol sy'n aeddfedu ymhen tri mis neu lai o'r dyddiad prynu ac yn rhai y gellir eu trosi'n hawdd i symiau hysbys o arian parod heb beri unrhyw risg o bwys yn sgil newid mewn gwerth.

Yn y Datganiad Llif Arian, dangosir arian parod a chywerthoedd arian net o'r gorddrafftiau banc sy'n daladwy ar alw ac maent yn rhan hanfodol o reolaeth arian parod y Cyngor.

13. Offerynnau Ariannol

Ymrwymiadau Ariannol

Mae ymrwymiadau ariannol yn cael eu hadnabod ar y Fantolen pan ddaw'r Awdurdod yn barti i'r darpariaethau cytundebol mewn offeryn ariannol, cânt eu mesur i gychwyn ar werth teg, a'u cario ar eu cost wedi'i amorteiddio. Mae costau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) ar gyfer llog sy'n daladwy yn seiliedig ar swm cario'r rhwymedigaeth, wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n disgowntio'n union y taliadau arian parod a amcangyfrifir yn y dyfodol dros oes yr offeryn i'r swm y cafodd ei gydnabod arno'n wreiddiol.

Ar gyfer y mwyafrif o'r benthyciadau sydd gan yr Awdurdod, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm yn weddill sy'n daladwy (a llog wedi cronni); a'r llog a godir i'r CIES yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn ôl y cytundeb benthyca.

Pan fo premiymau a disgowntiau wedi eu codi i'r CIES, mae'r rheoliadau yn caniatáu i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei thaenu dros y blynyddoedd i ddod. Mae gan yr Awdurdod bolisi o daenu'r enillion neu'r colledion dros y tymor oedd yn weddill ar y benthyciad yr oedd y premiwm yn daladwy yn ei erbyn, neu yr oedd y disgownt i'w dderbyn pan gafodd ei ad-dalu. Mae cysoniad y symiau a godir i'r CIES i'r taliad net sydd ei angen yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei reoli trwy drosglwyddo i neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn.

Asedau Ariannol

Caiff asedau ariannol eu dosbarthu yn seiliedig ar ddull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Mae tri phrif ddosbarth o asedau ariannol sef:-

- cost wedi'i amorteiddio;
- gwerth teg trwy elw neu golled (FVPL); a
- gwerth teg trwy incwm cynhwysfawr arall (FVOCI).

Model busnes yr Awdurdod yw dal buddsoddiadau er mwyn casglu llifoedd arian cytundebol.

Felly, mae asedau ariannol yn cael eu dosbarthu fel cost wedi'i amorteiddio, heblaw am y rheini nad yw eu taliadau cytundebol ar ffurf talu'r prifswm a llog yn unig (h.y. lle nad yw'r llifoedd arian ar ffurf offeryn dyled sylfaenol).

Asedau Ariannol wedi eu Mesur ar Gost wedi'i Amorteiddio

Mae asedau ariannol wedi eu mesur ar gost wedi'i amorteiddio yn cael eu hadnabod ar y Fantolen pan ddaw'r Awdurdod yn barti i'r darpariaethau cytundebol mewn offeryn ariannol, a chânt eu mesur i gychwyn ar werth teg. Wedyn cânt eu mesur ar eu cost wedi'i amorteiddio. Mae credydau blynyddol i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) ar gyfer llog sy'n dderbyniadwy yn seiliedig ar swm cario yr ased wedi'i luosi â'r gyfradd llog effeithiol ar gyfer yr offeryn. Ar gyfer y mwyafrif o'r asedau ariannol y mae'r Awdurdod yn eu dal, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm yn weddill y gellir ei dderbyn (ynghyd â llog wedi cronni) a'r llog a gaiff ei gredydu i'r CIES yw'r swm sydd i'w dderbyn am y flwyddyn yn y cytundeb benthyca.

Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi gwneud nifer o fenthyciadau i weithwyr ar lai na chyfraddau'r farchnad (benthyciadau meddal). Mae'r Cyngor yn defnyddio cyfradd CThEM ar gyfer benthyciadau buddiol i weithwyr fel procsi ar gyfer gwerth y farchnad/cyfradd llog effeithiol. Os yw'r gwahaniaeth rhwng y gyfradd ostyngedig a'r gyfradd llog effeithiol yn fwy na £100k, caiff colled ei gofnodi ar y CIES am werth presennol y llog a fydd yn cael ei ildio dros oes yr offeryn, gan arwain at gost wedi'i amorteiddio is na'r prifswm sy'n weddill.

Caiff llog ei gredydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y CIES ar gyfradd llog effeithiol fymryn yn uwch na'r gyfradd a dderbynnir gan y gweithwyr, ac effaith y gwahaniaeth yw cynyddu cost wedi'i amorteiddio'r benthyciad yn y Fantolen. Mae'n ofynnol yn y darpariaethau statudol mai effaith benthyciadau meddal ar Falans y Gronfa Gyffredinol yw'r llog sy'n dderbyniadwy am y flwyddyn ariannol - mae cysoniad y symiau a gaiff eu debydu neu eu credydu i'r CIES i'r enillion net sydd ei angen yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei reoli trwy drosglwyddo i neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd wrth Gefn.

Mae unrhyw enillion a cholledion sy'n codi pan fo ased yn cael ei ddad-gydnabod, yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y CIES.

Model Colled Credyd Disgwyliedig

Mae'r Awdurdod yn cydnabod colledion credyd disgwyliedig ar bob un o'i asedau ariannol a ddelir ar gost wedi'i amorteiddio [neu FVOCI pan fo'n berthnasol], naill ai ar sail 12 mis neu sail oes. Mae'r model colled credyd disgwyliedig ar sail oes (model symledig) hefyd yn gymwys i symiau les sy'n dderbyniadwy ac asedau contract. Dim ond colledion oes sy'n cael eu cydnabod ar gyfer symiau masnach derbyniadwy (dyledwyr) a ddelir gan yr Awdurdod.

Bydd y Cyngor hefyd yn ymestyn y drefn symledig i symiau derbyniadwy ar les a masnach ac asedau contract os oes cydran gyllido sylweddol.

Mae colledion amhariad yn cael eu cyfrifo i adlewyrchu'r disgwyliad efallai na fydd y llifoedd arian yn y dyfodol yn digwydd oherwydd gallai'r benthyciwr fethu talu ei rwymedigaethau. Mae risg credyd yn chwarae rhan hollbwysig wrth asesu colledion. Os yw risg wedi cynyddu'n sylweddol ers i offeryn gael ei gydnabod i gychwyn, caiff colledion eu hasesu ar sail oes. Os yw'r risg heb gynyddu'n sylweddol, neu os yw parhau yn isel, caiff colledion eu hasesu ar y sail colledion disgwyliedig dros 12 mis.

Mae Mân Ddyledwyr roedd y canrannau drwg dyledion canlynol yn berthnasol:-

6 mis i 1 flwyddyn: 50%;
1 flwyddyn i 2 flynedd: 75%;
Dros 2 flynedd: 100%.

Byddai canrannau uwch yn berthnasol i rai dyledwyr, gan ystyried amgylchiadau unigol, e.e. diddymiad cwmni, methdaliad personol.

Dyledwyr a gohiriwyd h.y., ffioedd preswyl y Gwasanaethau Cymdeithasol a gohiriwyd hyd nes y bydd yr eiddo yn cael ei werthu (pan fo tâl ar yr eiddo yn berthnasol), darpariaeth o 10% wedi'i chymhwyso waeth beth fo'u hoedran – er y byddai darpariaeth uwch yn gymwys o dan amgylchiadau penodol e.e. cyflwr presennol eiddo neu werth eiddo neu anghydfod.

Mae SAARh yn ei gwneud yn ofynnol i adnabod dyledion yn gynt (nid yw'r arfer cyfredol yn darparu ar gyfer dyledion yn gynt na chwe mis oed, er y byddai darpariaeth yn cael ei wneud ar gyfer amgylchiadau dyledwyr unigol sy'n hysbys e.e. methdalwr, oedran llai na hyn) ac mae'n rhaid eithrio dyledion sector cyhoeddus (ar hyn o bryd mae dyledion ar gyfer y bwrdd iechyd lleol, praeseptwyr mawr a lleol (cynghorau)/cyrff sy'n codi trethi ac ati, a gweinyddiaethau canolog/datganoledig ac ati wedi eu cynnwys). Gan roi ystyriaeth i SAARh9, mae angen lwfansau amharu colledion diwygiedig ac fe wneir yr ystyriaethau canlynol i gyrraedd y lwfansau diwygiedig:-

Nid yw SAARh9 yn diffinio diffyg ar ddyled, ond mae'n ofynnol i sefydliad ddarparu diffiniad o'r fath sy'n gyson â'i ddibenion rheoli credyd. Defnyddir y diffiniad canlynol at ddibenion y gofyniad lwfans amharu colledion ar gyfer Mân Ddyledion, sy'n ddigon syml ac sy'n gyson â rheolaeth credyd yr Awdurdod –

Mae dyledwyr wedi diffygio ar ddyled (at ddibenion lwfans amharu colledion yng nghyswllt Mân Ddyledwyr) os nad oes taliad wedi'i dderbyn yn erbyn dyled yn y system Dyledwyr Civica (erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn) pan fo oedran y ddyled yn fwy nag 14 diwrnod calendr o'r dyddiad pwynt treth.

Cynigir y lwfansau canlynol ar gyfer cyfnodau o hyd at chwe mis:-

- Diwrnod 1 i 14 niwrnod ar ôl codi'r anfoneb – 2%;
- 1 - 30 diwrnod ar ôl y diwrnod dyledus h.y. 15 diwrnod i 45 diwrnod o'r dyddiad pwynt treth - 2.5%;
- 31 - 60 diwrnod ar ôl y diwrnod dyledus h.y. 46 diwrnod i 75 diwrnod o'r dyddiad pwynt treth - 4.5%;
- 61 - 90 diwrnod ar ôl y diwrnod dyledus h.y. 76 diwrnod i 105 diwrnod o'r dyddiad pwynt treth – 7.5%;
- 91 – 168 diwrnod ar ôl y diwrnod dyledus h.y. 106 diwrnod i 182 diwrnod o'r dyddiad pwynt treth – 15%.

Byddai'r Cyngor wedyn yn parhau i ddefnyddio'r canrannau cyfredol ar gyfer dyledion hŷn na chwe mis o'r dyddiad pwynt treth h.y.

- 183 – 365 diwrnod o'r dyddiad pwynt treth – 50%;
- 366 – 730 diwrnod o'r dyddiad pwynt treth – 75%;
- 731 diwrnod neu fwy o'r dyddiad pwynt treth – 100%.

Taliadau wedi eu gohirio

O 183 diwrnod o'r dyddiad pwynt treth mae'r rhain i gael eu cymhwyso ar 10% YN UNIG ac nid ar y cyfraddau uwch a ddangosir. Dim darpariaeth ar gyfer dyledion gohiriedig sy'n llai na chwech mis oed. Mae gan y Cyngor bridiannau cyfreithiol wedi'u sicrhau yn erbyn cartrefi unigolion, felly, mae'r swm ar gyfer amhariad yn is. Yr enillion neu'r golled amhariad flynyddol fydd y newid mewn colledion credyd disgwyliedig cydol oes dros y flwyddyn.

Gordaliadau Budd-daliadau Tai

Mae gan y Cyngor lwfans colledion amhariad o 90% o'r gordaliad budd-daliadau tai a waned i'r defnyddiwr gwasanaeth ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r lwfans colledion amhariad yn uchel oherwydd bod adnoddau ariannol unigolion sy'n derbyn budd-daliadau fel arfer yn brin ac mae'r risg o fethu ag adennill y gordaliadau budd-daliadau'n yn uchel.

Rhenti

Mae'r lwfans colledion amhariad ar gyfer dyledion rhent yn seiliedig ar y swm o arian sy'n ddyledus, gyda dyledion uwch ar ganrannau uwch oherwydd bod y risg o beidio ag ad-dalu yn cynyddu wrth i'r ddyled gynyddu. Bydd lwfans colledion amhariad yn cael ei gosod ar y symiau dyledus ym mhob band. Mae bandiau a chanrannau'r lwfans colledion amhariad fel a ganlyn:

Tenantiaid Presennol

Gwerth yr Ôl-ddyled	**Lwfans Colledion Amhariad**
£0.01 i £49.99	10%
£50 i £99.99	20%
£100 i £249.99	30%
£250 i £499.99	45%
£500 i £999.99	60%
>£1,000	85%

Gosodir lwfans colledion amhariad o 90% ar gyfer yr holl dyledion gan gyn-denantiaid gan fod y dyledion hyn yn llai tebygol o gael eu hadennill na chan denantiaid presennol.

Asedau Ariannol yn cael eu Mesur ar Werth Teg trwy Elw neu Golled (FVPL)

Mae asedau ariannol sy'n cael eu mesur ar werth FVPL yn cael eu hadnabod ar y Fantolen pan ddaw'r Awdurdod yn barti i'r darpariaethau cytundebol mewn offeryn ariannol, a chânt eu mesur i gychwyn a'u cario ar werth teg. Mae enillion neu golledion gwerth teg yn cael eu hadnabod wrth iddynt gyrraedd yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau.

Mae mesuriadau gwerth teg yr asedau ariannol yn seiliedig ar y technegau canlynol:-

Offerynnau gyda phrisiau'r farchnad wedi'u dyfynnu – pris y farchnad offerynnau eraill gyda thaliadau sefydlog a chanfyddadwy – dadansoddiad llif arian gostyngedig.

Mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur wedi eu categoreiddio yn unol â'r tair lefel ganlynol:-

Mewnbynnau Lefel 1 – prisiau wedi'i dyfynnu (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd actif ar gyfer asedau yr un fath y gall yr Awdurdod gael mynediad atynt ar y dyddiad mesur.
Mewnbynnau Lefel 2 – mewnbynnau ar wahân i'r prisiau wedi'u dyfynnu sydd wedi'u cynnwys yn Lefel 1 sy'n ganfyddadwy ar gyfer yr ased, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Mewnbynnau Lefel 3 – mewnbynnau anghanfyddadwy ar gyfer yr ased.

Y Datganiadau Ariannol

Mae unrhyw enillion a cholledion sy'n codi pan fo ased yn cael ei ddad-gydnabod yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Asedau Ariannol ar Gael i'w Gwerthu

Nid oes gan y Cyngor asedau ariannol ar gael i'w gwerthu ac yn annhebygol o gael rhai yn y tymor byr gan ni chynhwysir yr asedau ariannol yma yn y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2022/23.

Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn

14. Darpariaethau

Gwneir darpariaethau pan fo rhywbeth wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddehongliadol i'r Cyngor sy'n debygol o fod angen setliad trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu wasanaeth posibl, a phan fo modd darparu amcangyfrif dibynadwy o faint y rhwymedigaeth. Er enghraifft, efallai bod y Cyngor yn rhan o achos llys fyddai'n debygol o arwain yn y pen draw at wneud setliad neu dalu iawndal.

Codir darpariaethau fel traul ar y llinell gwasanaeth priodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r Cyngor yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a chânt eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y Fantolen o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth, gan gymryd i ystyriaeth y risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Pan fo taliadau'n cael eu cyflwyno, yn y diwedd, rhoddir nhw yn erbyn y ddarpariaeth a gludir yn y Fantolen. Mae setliadau amcangyfrifiedig yn cael eu hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol – pryd y bydd hi'n llai na thebygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd (neu gwneir setliad llai na'r disgwyl), caiff y ddarpariaeth ei gwrthdroi a'i rhoddi mewn credyd yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

Pan fo disgwyl hawlio cyfran neu'r cyfan o'r taliad i setlo'r ddarpariaeth oddi ar barti arall (e.e. oddi ar hawliad yswiriant), caiff ei gydnabod fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol ond os oes sicrwydd go bendant y bydd ad-daliad ar gael os ydyw'r Cyngor yn setlo'r rhwymedigaeth.

Rhwymedigaethau wrth gefn

Mae rhwymedigaeth wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth bosib ar y Cyngor, ond na fydd cadarnhad hyd oni fydd digwyddiadau nad oes modd eu rhagweld wedi digwydd yn y dyfodol, neu heb ddigwydd, a rheini heb fod yn gyfan gwbl dan reolaeth y Cyngor. Mae rhwymedigaethau wrth gefn hefyd yn codi mewn amgylchiadau ble byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau neu ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Ni chydnabyddir rhwymedigaethau wrth gefn yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon petaent yn codi.

Asedau wrth gefn

Mae ased wrth gefn yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi ased bosib i'r Cyngor, ond na fydd cadarnhad hyd oni fydd digwyddiadau nad oes modd eu rhagweld wedi digwydd yn y dyfodol, neu heb ddigwydd, a rheini heb fod yn gyfan gwbl dan reolaeth y Cyngor.

Ni chydnabyddir asedau wrth gefn yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon ble mae'n debygol y bydd mewnlif o fuddiannau economaidd neu wasanaeth posib.

15. Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r Cyngor yn cadw amryw o gronfeydd wrth gefn sy'n adlewyrchu i ba raddau y mae ei asedau'n fwy na'i ymrwymiadau ac unrhyw gyfyngiadau, statudol neu wirfoddol, a roddir ar y defnydd o'r balansau hyn. Mae gan y Cyngor y disgresiwn i osod o'r neilltu symiau penodol fel Cronfeydd wrth Gefn y mae'n dymuno eu clustnodi i ddibenion polisi i'r dyfodol, i ymdrin â materion wrth gefn neu i reoli llif arian. Ceir crynodeb o'r rhan yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn.

Caiff Cronfeydd wrth Gefn eu creu drwy drosglwyddo symiau o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn. Pan ceir traul sydd i'w gyllido o gronfa wrth gefn, caiff ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno i'w sgorio yn erbyn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Yna trosglwyddir y gronfa wrth gefn yn ôl i Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn fel nad oes taliad net yn erbyn y Dreth Gyngor ar gyfer y gwariant. Cedwir rhai Cronfeydd wrth Gefn penodol er mwyn rheoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau nad ydynt yn gyfredol, offerynnau ariannol, buddiannau ymddeoliad a buddiannau gweithwyr ac nid ydynt yn cynrychioli adnoddau y gellir eu defnyddio i'r Cyngor - eglurir y Cronfeydd wrth Gefn hyn yn y polisïau a'r nodiadau perthnasol.

16. Cydnabyddiaeth Refeniw

Caiff refeniw ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y cafodd ei ennill yn hytrach na phan gafodd yr arian ei dderbyn. Mae hyn yn ymwneud ag incwm a geir o werthu nwyddau (a gynhyrchir gan y Cyngor i ddibenion eu gwerthu neu eu prynu i bwrpas ailwerthu), darparu gwasanaethau (ac eithrio gwasanaethau a wnelont yn uniongyrchol â chontractau adeiladu), llog, breindaliadau a difidendau, trafodion nad oes modd eu cyfnewid (h.y. y Dreth Gyngor) a lle cynt yr oedd rhwymedigaeth wedi'i hadnabod (h.y. credydwr) ar ôl bodloni'r meini prawf cydnabyddiaeth refeniw.

Caiff refeniw ei gydnabod hefyd ar enillion a all godi neu beidio o weithgareddau cyffredin megis enillion ar ail-brisio asedau anghyfredol, enillion ar werthu asedau anghyfredol ac enillion ar asedau ariannol ar-gael-i'w-gwerthu. Lle mae'r Awdurdod yn gweithredu fel asiant, dim ond yr incwm a delir i'r Cyngor ar gyfer ei rôl fel asiant fydd yn cael ei gydnabod yn y cyfrifon. Ni fydd y swm sy'n gysylltiedig â'r trydydd parti (sef y prif swm) yn cael ei gynnwys yn y cyfrifon.

Mae refeniw'n cael ei gydnabod a'i fesur yn ôl gwerth teg y gydnabyddiaeth a dderbynnir. Dyma'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn i werthu ased neu ei dalu i drosglwyddo rhwymedigaeth mewn trafodiad busnes trefnus rhwng y rhai sy'n weithgar yn y farchnad ar y dyddiad mesur. Bydd ad- daliadau a setliadau ariannol, lle'n berthnasol, yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth fesur gwerth teg y gydnabyddiaeth a gafwyd.

Os yw'r taliadau'n cael eu cyflwyno yn ôl telerau gohiriedig, mae'r gydnabyddiaeth a dderbynnir yn cael ei lleihau i'w gwerth presennol er mwyn sicrhau gwerth teg. Mae'r gwahaniaeth rhwng y swm hwn a chyfanswm y taliadau a dderbynnir yn cael ei gydnabod fel refeniw llog yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau. Mae derbyniadau tymor byr heb raddfa llog dynodedig yn cael eu mesur yn ôl y swm ar yr anfoneb wreiddiol pan fo effaith disgownt yn amherthnasol. Nid oes gwahaniaeth rhwng dyddiad cyflenwi a dyddiad talu yn achos trafodion digontract a rhai lle nad oes cyfnewid yn digwydd h.y. refeniw yng nghyswllt y Dreth Gyngor a threthi cyffredinol ac, felly, mesurir y trafodion hyn yn ôl y symiau llawn a dderbynnir yn eu cylch.

17. Llog Mewnol

Buddsoddir balansau arian gan y Cyngor yn unol â'i pholisïau Rheoli Trysorlys a Buddsoddi ac fe gronnir a chredydir y llog i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Credydir llog i'r cronfeydd ymddiriedol a chronfeydd trydydd parti eraill ar sail y raddfa llog cyfartaledig a enillwyd gan y Cyngor. Mae rhai cronfeydd wrth gefn yn derbyn llog trwy drosglwyddiad sydd wedi ei glandro ar yr un sail.

18. Prydlesi

Yr awdurdod fel lesddeiliad

Mae contractau'n cael eu dynodi'n brydlesi gan yr awdurdod ar sail eu manylion. Mae contractau, a rhannau o gontractau, gan gynnwys y rhai a ddisgrifir fel contractau ar gyfer gwasanaethau, yn cael eu dadansoddi er mwyn penderfynu p'un a ydynt yn rhoi'r hawl i reoli'r defnydd o ased a nodwyd, trwy gyfrwng hawliau i dderbyn, i raddau helaeth, holl fuddiannau economaidd neu wasanaeth posib yr ased hwnnw a rheoli ei ddefnydd. Mae'r Cod yn ymestyn cwmpas IFRS 16 Prydlesi er mwyn cynnwys trefniadau lle nad oes unrhyw gydnabyddiaeth yn cael ei dalu, neu lle gwneir taliadau enwol neu isel iawn.

Y mesur cychwynnol

Mae prydlesi'n cael eu cydnabod fel asedau hawl-i-ddefnyddio gydag atebolrwydd cyfatebol ar y dyddiad y mae'r ased a brydlesir ar gael i'w ddefnyddio (neu o 1 Ebrill 2024 os bydd prydlesi presennol yn trosglwyddo). Fel arfer, mae'r prydlesi am gyfnodau penodedig o fwy na blwyddyn, ond efallai y bydd opsiynau i'w hymestyn.

Yn y lle cyntaf, mae'r awdurdod yn cydnabod atebolrwydd prydles yn ôl gwerth presennol taliadau'r brydles, gan ddisgowntio trwy ddefnyddio cyfradd benthyca cynyddrannol yr awdurdod os nad yw'n bosib penderfynu ar y gyfradd llog sydd ymhlyg yn y brydles. Bydd cyfradd fenthyca gynyddrannol yr awdurdod yn seiliedig ar gyfradd blwydd-dal y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ar gyfer yr un cyfnod â thymor y brydles. Mae taliadau prydles a gynhwysir yn y mesur o atebolrwydd y brydles yn cynnwys:

- taliadau sefydlog, yn cynnwys taliadau sefydlog gwirioneddol ('in-substance')
- taliadau prydles newidiol sy'n ddibynnol ar fynegai neu gyfradd, ac a fesurir yn y lle cyntaf gan ddefnyddio'r brif fynegai neu gyfradd ar y dyddiad mabwysiadu
- symiau y disgwylir iddynt fod yn daladwy o dan warant gwerth gweddilliol
- y pris gweithredol o dan opsiwn prynu y mae'r awdurdod yn gymharol sicr o'i weithredu
- taliadau prydles mewn cyfnod adnewyddu dewisol os yw'r awdurdod yn gymharol sicr o arfer opsiwn i ymestyn y brydles

- dirwyon am ddod â phrydles i ben yn gynnar, oni bai bod yr awdurdod yn gymharol sicr o beidio â dod â'r brydles i ben yn gynnar.

Mae'r ased hawl-i-ddefnyddio yn cael ei fesur yn ôl swm atebolrwydd y brydles, wedi'i addasu ar gyfer unrhyw daliadau a wnaed, ynghyd ag unrhyw gostau uniongyrchol a gafwyd er mwyn datgymalu'r ased dan sylw a'i symud oddi ar y safle, neu adfer yr ased dan sylw ar y safle, a thynnu cost unrhyw gymhellion prydles a dderbyniwyd.

Er hynny, ar gyfer prydlesi sydd â thaliadau isel iawn, taliadau enwol neu ddim taliadau o gwbl, mae'r ased yn cael ei fesur yn ôl gwerth teg.

Mesuriadau dilynol

Wedi hynny, mae'r ased hawl-i-ddefnyddio'n cael ei fesur gan ddefnyddio'r model gwerth teg. Mae'r awdurdod o'r farn bod y model cost yn ddirprwy rhesymol oni bai am:

- asedau sy'n cael eu dal o dan brydlesi anfasnachol
- prydlesi lle nad yw adolygiadau rhent o reidrwydd yn adlewyrchu amodau'r farchnad
- prydlesi sydd â thelerau o fwy na phum mlynedd nad ydynt yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer adolygiadau rhent
- prydlesi lle bydd adolygiadau rhent yn cael eu cynnal ar gyfnodau o fwy na phum mlynedd.

Ar gyfer y prydlesi hyn, mae'r ased yn cael ei gario ar swm wedi'i ailbrisio. Yn y datganiadau ariannol hyn, mae asedau hawl-i-ddefnyddio sy'n cael eu dal o dan brydlesi mynegrifol wedi cael eu haddasu ar gyfer newidiadau yn y fynegai berthnasol, tra bod asedau sy'n cael eu dal o dan brydlesi taliadau isel iawn neu brydlesi lle nad oes taliad o gwbl wedi cael eu prisio gan ddefnyddio prisiau'r farchnad neu brisiau rhent ar gyfer tir neu eiddo cyfatebol.

Mae'r ased hawl-i-ddefnyddio'n cael ei ddibrisio mewn llinell syth dros gyfnod byrrach, sef tymor y brydles sy'n weddill ac oes ddefnyddiol yr ased dan sylw ar y dyddiad mabwysiadu.

Wedi hynny, mae atebolrwydd y brydles yn cael ei fesur yn ôl cost wedi'i hamorteiddio, gan ddefnyddio'r dull llog gwirioneddol. Bydd yr atebolrwydd yn cael ei ail-fesur pan fydd:

- newid yn y taliadau prydles yn y dyfodol oherwydd newid yn y mynegai neu gyfradd
- newid yn amcangyfrif y grŵp o'r swm y disgwylir iddo fod yn daladwy o dan warant gwerth gweddilliol
- yr awdurdod yn newid ei asesiad o ph'un a fydd yn arfer opsiwn i brynu, ymestyn neu derfynu, neu
- taliad prydles sefydlog gwirioneddol ('in-substance') diwygiedig.

Pan ddigwydd ail-fesuriad o'r fath, gwneir addasiad cyfatebol i swm cario'r ased hawl-i-ddefnyddio, ac mae unrhyw addasiad pellach sydd ei angen oherwydd yr ail-fesuriad yn cael ei gofnodi yn y datganiad incwm.

Eithriad ar gyfer gwerth isel a phrydles fer

Yn unol â'r hyn y mae'r Cod yn ei ganiatáu, mae'r awdurdod yn eithrio prydlesi:

- ar gyfer eitemau isel eu gwerth sydd yn costio llai na £10,000 pan fyddant yn newydd, ar yr amod nad ydynt yn ddibynnol iawn ar eitemau eraill, neu wedi eu cyplysu gydag eitemau eraill, a

- mae ganddynt dymor o lai na 12 mis (yn cynnwys y cyfnod lle na ellir canslo'r brydles ynghyd ag unrhyw opsiynau i ymestyn y mae'r awdurdod yn gymharol sicr o'u harfer, ac unrhyw opsiynau terfynu y mae'r awdurdod yn gymharol sicr o beidio eu harfer).

Gwariant ar brydlesi

Mae gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys llog, dibrisiad llinell syth, unrhyw amhariadau ar yr ased a newidiadau yn y taliadau prydles newidiol nad ydynt wedi eu cynnwys yn y mesur o atebolrwydd yn ystod y cyfnod y digwyddodd y digwyddiad sbarduno. Mae taliadau prydles yn cael eu cofnodi fel debyd yn erbyn yr atebolrwydd. Mae rhenti ar gyfer prydlesi eitemau isel eu gwerth neu fyrrach na 12 mis yn cael eu trin fel costau.

Nid yw dibrisiant ac amhariadau'n gostau yn erbyn y dreth gyngor, gan fod darpariaeth lawn yn cael ei gwneud ar gyfer costau asedau nad ydynt yn rhai cyfredol o dan drefniadau cyllido cyfalaf ar wahân. Mae symiau felly'n cael eu neilltuo i'r cyfrif addasiadau cyfalaf o falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad ar y Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Yr awdurdod fel lesydd

Mae prydlesi'n cael eu dynodi'n brydlesi cyllid os yw telerau'r brydles yn trosglwyddo, i raddau helaeth, yr holl risgiau a gwobrau yn gysylltiedig â bod yn berchen ar yr eiddo neu offer a pheiriannau o'r lesydd i'r lesddeiliaid. Mae'r holl brydlesi eraill yn cael eu dynodi'n brydlesi gweithredu.

Prydlesi Cyllid

Os yw'r awdurdod yn caniatáu prydles cyllid ar gyfer eiddo neu offer a pheiriannau, mae'r ased perthnasol yn cael ei dynnu o'r Fantolen fel gwarediad. Pan fydd y brydles yn cychwyn, mae swm cario'r ased yn y Fantolen (boed yn eiddo, offer a pheiriannau neu asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu) yn cael ei ddileu a'i symud i'r llinell gwariant gweithredu arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw neu golled pan waredir â'r ased. Mae enillion, sydd yn cynrychioli buddsoddiad net yr awdurdod yn y brydles, yn cael ei gofnodi fel credyd ar yr un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a hefyd fel rhan o'r enillion neu golled pan waredir â'r ased (h.y. mae'n cael ei netio yn erbyn gwerth cario'r ased ar adeg ei waredu), ac mae ased prydles (dyledwr hirdymor) cyfatebol yn cael ei gynnwys ar y Fantolen.

Mae rhenti prydlesi derbyniadwy yn cael eu dosbarthu rhwng:

- tâl am gaffael y diddordeb yn yr eiddo - sy'n cael ei gofnodi er mwyn gostwng gwerth dyledwr y brydles (ynghyd ag unrhyw bremiymau a dderbyniwyd), ac
- incwm cyllid (wedi'i gredydu i'r llinell incwm a gwariant cyllido a buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Pan waredir ag ased, ni chaniateir, trwy statud, i'r enillion sy'n cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gynyddu balans y Gronfa Gyffredinol ac mae'n rhaid ei drin fel derbyniad cyfalaf. Os oes premiwm wedi'i dderbyn, mae'n cael ei symud o falans y Gronfa Gyffredinol i'r gronfa derbyniadau cyfalaf yn y Datganiad ar y Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Os yw'r swm sy'n ddyledus mewn perthynas ag ased y brydles yn cael ei setlo trwy dalu rhenti yn ystod blynyddoedd ariannol yn y dyfodol, mae'n cael ei symud o falans y Gronfa Gyffredinol i'r gronfa derbyniadau cyfalaf gohiriedig yn y Datganiad ar y Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Pan dderbynnir y rhenti yn y dyfodol, mae'r elfen ar gyfer y derbyniad cyfalaf ar gyfer gwaredu'r ased yn cael ei ddefnyddio i ostwng gwerth dyledwr y brydles. Ar yr adeg hon, mae'r derbyniadau cyfalaf a ohiriwyd yn cael eu trosglwyddo i'r gronfa derbyniadau cyfalaf.

Pan fydd ased yn cael ei waredu, nid yw'r gwerth sy'n cael ei ddileu yn gost yn erbyn y dreth gyngor, gan fod darpariaeth lawn yn cael ei wneud ar gyfer costau asedau nad ydynt yn asedau cyfredol o dan drefniadau ar wahân ar gyfer cyllido cyfalaf. Mae symiau'n cael eu priodoli, felly, i'r cyfrif addasiadau cyfalaf o falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad ar y Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Prydlesi Gweithredu

Os yw'r awdurdod yn caniatáu prydles gweithredu ar gyfer eiddo neu offer a pheiriannau, mae'r ased yn cael ei gadw ar y Fantolen. Mae incwm rhent yn cael ei gofnodi fel credyd ar y llinell gwariant gweithredu arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae unrhyw gredyd yn cael ei wneud ar sail llinell syth dros oes y brydles, neu i'r gwasanaeth unigol os yw'n cael ei gychwyn gan wasanaeth, hyd yn oed os nad yw'n cyd-fynd â phatrwm taliadau (e.e. mae premiwm yn cael ei dalu ar gychwyn y brydles). Mae costau uniongyrchol cychwynnol yn gysylltiedig â negodi a threfnu'r brydles yn cael eu hychwanegu at swm cario'r ased perthnasol a chodir amdanynt fel cost dros gyfnod y brydles ar yr un sail ag incwm rhent.

19. Taliadau i Refeniw ar gyfer Asedau Anghyfredol

Mae gwasanaethau a gwasanaethau cefnogol yn gyfrifol am y symiau canlynol er mwyn cofnodi gwir gost dal asedau anghyfredol yn ystod y flwyddyn:-

- Dibrisiant asedau a ddefnyddir gan y Gwasanaeth;
- Ailbrisio a cholledion amhariad ar asedau a ddefnyddir gan y gwasanaeth lle nad oes unrhyw enillion cronedig yn y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn y gellir dileu'r colledion yn ei herbyn; a
- Amorteiddio asedau anniriaethol sydd i'w priodoli i'r gwasanaeth.

Nid yw'n ofynnol i'r Cyngor godi'r dreth gyngor i dalu am y costau hyn. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i neilltuo cyfraniad blynyddol o refeniw tuag at ei ofyniad benthyca cyffredinol. Felly, disodlir y costau hyn gan y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (MRP) trwy drafodyn addasu gyda'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn y Datganiad o'r Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn ar gyfer y gwahaniaeth rhwng y ddau.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru reoliadau newydd yn 2008/09 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer MRP, gan gynnwys opsiwn i ddarparu MRP dros oes ased. Mae'r polisi hefyd yn caniatáu gohirio'r MRP tan y comisiynir yr ased.

Cyfrifir darpariaeth y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) yn hanesyddol fel 2% o Ofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) CRT. Yn 2015, newidiodd Llywodraeth Cymru'r penderfyniad i ganiatáu mwy o opsiynau ar sut i gyfrifo cost MRP CRT. Argymhellwyd y bydd defnyddio'r dull oes ased yn rhoi'r NPV uchaf ar gyfer benthyciadau gyda chefnogaeth a digefnogaeth, a'r opsiwn mwyaf fforddiadwy ar gyfer cenedlaethau presennol a'r dyfodol yw'r opsiwn lle mae'r blwydd-dal yn seiliedig ar oes ased 60 mlynedd gan ddefnyddio cyfradd fenthyca ar gyfartaledd y Cyngor o 4.58%. Felly, ar gyfer benthyciadau CRT gyda chefnogaeth a digefnogaeth mae'r dull oes ased dros gyfnod o 60 mlynedd ar gyfradd llog o 4.58% yn cael ei weithredu o 1 Ebrill 2022. Bydd hyn yn caniatáu dull mwy darbodus na'r dull cyfredol gan y bydd CFR yn cymryd 60 mlynedd i leihau i sero yn hytrach na 300.

Cofnodir trafodion mewn perthynas ag eiddo buddsoddi yn erbyn llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsodd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

20. Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth

P'un a ydynt yn cael eu talu ar gyfrif, trwy randaliadau neu fel ôl-ddyledion, cydnabyddir grantiau llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti fel rhai sy'n ddyledus i'r Cyngor pan fo sicrwydd rhesymol:-

- y bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm â'r taliadau; ac
- y derbynnir y grantiau neu gyfraniadau.

Ni chaiff symiau a gydnabyddir fel rhai sy'n ddyledus i'r Cyngor eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd nes bydd yr amodau sydd ynghlwm i'r grant neu'r cyfraniad yn cael eu bodloni. Amodau grant yw'r gofynion y mae'n rhaid eu diwallu er mwyn bod yn gymwys i dderbyn y grant, er enghraifft, adeiladu ysgol neu allbynnau allweddol a benodir o fewn yr amdodau. Mae unrhyw arian a roddwyd fel grantiau a chyfraniadau, a'r amodau perthnasol heb eu bodloni, yn cael eu cario yn y Fantolen fel credydwyr. Pan fo'r amodau'n cael eu bodloni, mae'r grant neu'r cyfraniad yn cael ei roddi fel credyd yn y llinell gwasanaeth perthnasol (grantiau a chyfraniadau refeniw priodoladwy) neu fel Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol (grantiau refeniw heb eu hamgáu a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, maent yn cael eu gwyrdroi o Balans Cronfa'r Cyngor drwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Pan fo grant heb ei ddefnyddio eto i gyllido gwariant cyfalaf, mae'n cael ei symud i'r Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn Na Chawsant Eu Defnyddio. Pan fo wedi'i ddefnyddio, mae'n cael ei symud i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Mae'r symiau yn y Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn Na Chawsant Eu Defnyddio yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf unwaith y cânt eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf.

Mae rhai cyrff sy'n rhoddi grantiau yn gosod cyfyngiadau neu'n pennu i ba bwrpas y gellir defnyddio'r grant ond nid ydynt yn dweud a fydd angen ad-dalu'r grant ai peidio.

21. Gwariant Refeniw a Gyllidir gyda Chyfalaf Dan Statud (REFCUS)

Mae gwariant yr aethpwyd iddo yn ystod y flwyddyn y gellir ei gyfalafu dan ddarpariaethau statudol ond yn wariant nad yw'n creu ased anghyfredol wedi ei godi fel gwariant i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Pan fo'r Cyngor wedi penderfynu cwrdd â chost y gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu trwy fenthyca, mae trosglwyddiad yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yna'n gwyrdroi'r symiau a godwyd fel nad oes effaith ar lefel y Dreth Gyngor.

22. Gorbenion a Gwasanaethau Cefnogol

Mae costau gorbenion a gwasanaethau cefnogol yn cael eu codi ar y gwasanaethau hynny sy'n cael y buddiant o'r cyflenwad neu o'r gwasanaeth yn unol â threfniadau'r Awdurdod ar gyfer atebolrwydd a pherfformiad ariannol ar gyfer y pwrpas o gyfrifyddu cost llawn ar gyfer dychweliadau ystadegol statudol, er enghraifft, dychweliadau blynyddol RA a RO'r Llywodraeth. Fodd bynnag, ar gyfer monitro'r gyllideb a'r cyfrifon blynyddol statudol, fe eithrir ad-daliadau ac fe adroddir ar wasanaethau corfforaethol a chefnogol fel cylchrannau gwasanaeth ac fe'i delir yn gyfrifol am reolaeth cyllideb.

23. Arian Tramor

Mae gan y Cyngor nifer o gynlluniau a gaiff gymorth grant o Ewrop lle mae'r grantiau efallai'n cael eu dyrannu mewn Ewros (mai nifer y cynlluniau hyn yn lleihau). Agorwyd cyfrif banc Ewro i gefnogi'r cynlluniau hyn. Caiff y balans ar y cyfrif hwn ar ddiwedd y flwyddyn ei drosi yn ôl y cyfraddau cyfnewid fel yr oeddynt ar 31 Mawrth, gyda'r enillion neu'r colledion canlyniadol yn cael eu cydnabod yn y linell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

24. Buddiannau'r Gweithwyr

Buddiannau sy'n daladwy yn ystod cyflogaeth

Y buddiannau tymor byr i'r gweithwyr yw'r rheini sy'n cael eu talu cyn pen 12 mis i ddiwedd y flwyddyn - buddiannau megis cyflogau wythnosol a misol, gwyliau blynyddol gyda thâl, absenoldeb gwaeledd gyda thâl, taliadau bonws a buddiannau heblaw arian i'r gweithwyr presennol a'r rheini'n cael eu cydnabod fel treuliau i'r gwasanaethau yn ystod y flwyddyn pryd y rhydd y gweithwyr wasanaeth i'r Cyngor. Darperir ffigwr cronnus ar gyfer costau hawliadau gwyliau (neu unrhyw fath o absenoldeb, e.e. amser i ffwrdd *in lieu*) a enillwyd gan weithwyr a'r rheini heb eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn a hawl ganddynt i'w cario drosodd i'r flwyddyn ariannol ddilynol.

Mae'r ffigwr cronnol yn seiliedig ar y cyfraddau perthnasol i gyflogau wythnosol a misol yn y flwyddyn gyfrifo ddilynol, sef pryd y bydd y gweithiwr yn cymryd y budd. I atal amrywiadau gael effaith ar y Dreth Gyngor, mae'r newidiadau blwyddyn ar flwyddyn yn y gost a gynhyrchir gan y cronni yma'n cael ei godi yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau, ond wedyn caiff ei wyrdroi trwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn i'r Cyfrif Addasu Absenoldebau Cronnol, fel bod buddiannau gwyliau yn cael eu codi yn erbyn refeniw yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau'n digwydd ynddi.

Nid yw'r Cyngor yn rhoddi buddiannau tymor hir i weithwyr h.y. y rheini nad oes disgwyl y byddant yn cael eu talu neu eu setlo cyn pen 12 mis i ddyddiad y Fantolen.

Buddiannau Terfynu

Buddiannau terfynu yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Cyngor i ddod â chyflogaeth swyddog i ben cyn y dyddiad ymddeol cyffredin neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddo gwirfoddol. Codir y buddiannau hyn ar sail gronnol i'r llinell gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan na fedr y Cyngor mwyach dynnu'n ôl y cynnig o'r buddiannau hynny neu mewn achosion lle mae'r Awdurdod yn cydnabod costau ailstrwythuro.

Pan fo buddiannau terfynu'n golygu ychwanegu at bensiynau (fel arfer ar ffurf blynyddoedd ychwanegol), mae darpariaethau statudol yn mynnu bod y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu bensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifiwyd yn unol â'r safonau cyfrifo perthnasol, yn cael ei godi ar Falans y Gronfa Gyffredinol. Yn y Datganiad o'r Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae angen symud arian i mewn ac allan o'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau er mwyn cael gwared â'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer ychwanegiadau pensiwn a dalwyd fel buddiannau ar adeg terfynu cyflogaeth a rhoi yn eu lle ddebydau ar gyfer yr arian a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

Buddiannau Ôl-Gyflogaeth

Mae gan weithwyr y Cyngor hawl i fod yn aelodau o ddau gynllun pensiwn sydd ar wahân i'w gilydd:-

- Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Capita Teachers' Pensions ar ran yr Adran Addysg; a
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddiannau diffiniedig i aelodau (lwmp swm ymddeol a phensiwn), a enillwyd tra oedd gweithwyr yn gweithio i'r Cyngor.

Cynllun Pensiwn Athrawon

Oherwydd trefniadau cynllun yr athrawon, nid yw'n bosib fel arfer priodoli'r atebolrwydd am y buddiannau hyn i'r Cyngor. Felly, mae cyfrif am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid oes yn y Fantolen gydnabyddiaeth yng nghyswllt unrhyw atebolrwydd i dalu buddiannau yn y dyfodol. Codir yn erbyn y llinell Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yng nghyswllt cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Asiantaeth Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Gall unrhyw weithwyr (ac eithrio athrawon) a Chynghorwyr, yn amodol ar feini prawf cymhwyso penodol, ymuno gyda'r Cynllun Pensiwn ar gyfer Llywodraeth Leol. Enw'r Cynllun yw Cronfa Bensiwn Gwynedd a chaiff ei gweinyddu gan Gyngor Gwynedd yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 ar ran y cyflogwyr sy'n rhan ohono. Yn unol â Safona Cyfrifo Rhyngwladol (SCRh19), mae'r Cynllun ar gyfer Llywodraeth Leol yn cael ei gyfrif fel cynllun buddiannau diffiniedig.

Mae'r rhwymedigaethau i Gynllun Pensiwn Gwynedd a briodolir i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen yn ôl dull actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull uned rhagamcanedig - h.y. asesiad o'r taliadau a wneir yn y dyfodol yng nghyswllt buddiannau ymddeoliad a enillwyd hyd yma gan y gweithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau yng nghyswllt cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant y gweithwyr, ayyb., a hefyd ar ragamcanion yng nghyswllt enillion rhagamcanedig y gweithwyr presennol.

Rhoddir disgownt yn erbyn y rhwymedigaethau i lawr i'w gwerth yn ôl prisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt real, yn seiliedig ar raddfa dychweliad arwyddol ar fondiau Llywodraeth y DU wedi ei addasu ar gyfer ychwanegiad at y cynnyrch sy'n adlewyrchu'r risg ychwanegol sydd ynghlwm wrth ddefnyddio cynnyrch Bondiau Corfforaethol AA - a adwaenir fel taeniad credyd.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd a briodolir i'r Cyngor wedi'u cynnwys yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg:-

- Stociau a ddyfynnir - pris bid presennol;
- Stociau heb eu dyfynnu - amcangyfrif proffesiynol;
- Stociau fesul uned - pris bid bresennol; ac
- Eiddo – eu gwerth ar y farchnad.

Mae'r newid yn y rhwymedigaethau pensiwn net yn cael ei ddadansoddi fesul pedwar rhan:-

a) Costau gwasanaeth cyfredol - cynnydd yn y rhwymedigaethau oherwydd nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - wedi ei ddyrannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau y mae'r gweithwyr yn gweithio iddynt.

b) Costau gwasanaeth y gorffennol - y cynnydd yn y rhwymedigaethau oherwydd penderfyniadau a wnaed eleni ac effaith y rheini yn ymwneud â nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd ym mlynyddoedd y gorffennol - debyd i Warged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r Costau na Ddosberthir. Llog net ar yr ymrwymiad net o ran buddiannau diffiniedig, h.y. y costau llog net i'r Cyngor - mae'r newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad net o ran buddiannau diffiniedig sy'n codi o dreigl amser yn cael ei godi i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae hyn yn cael ei glandro drwy ddefnyddio'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddiwyd i fesur yr ymrwymiad o ran buddiannau diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod, i'r ymrwymiad net diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod (gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad o ran buddiannau diffiniedig net (yr ased) yn ystod y cyfnod fel canlyniad cyfraniadau a thaliadau buddiannau).

c) Atebolrwydd budd-dal (ased) yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd-daliadau).

d) Ail-fesuriad yn cynnwys:-

- Yr enillion ar asedau'r cynllun (ac eithrio unrhyw symiau sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y llog net ar fuddiannau net diffiniedig) sy'n cael ei godi i'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall;

- Enillion a Cholledion Actiwaraidd - newidiadau yn yr ymrwymiadau pensiwn net sy'n codi am nad yw'r digwyddiadau yn cyfateb i'r rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu oherwydd bod yr actiwarïaid wedi diweddaru eu rhagdybiaethau. Mae hyn yn cael ei godi i'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

e) Cyfraniadau a dalwyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian parod a dalwyd i mewn fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa bensiwn fel setliad o rwymedigaethau; heb ei gyfrif fel traul.

Mewn perthynas â buddiannau ymddeol, mae darpariaethau statudol yn mynnu bod y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifwyd yn unol â'r safonau cyfrifo perthnasol, yn cael ei godi ar Falans y Gronfa Gyffredinol. Yn y Datganiad o'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn, mae angen symud arian i mewn ac allan o'r Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau er mwyn cael gwared â'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddiannau ymddeol a rhoi yn eu lle ddebydau ar gyfer yr arian a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol yn y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Pensiynau felly'n fesur o'r manteision i'r Gronfa Gyffredinol yn sgil yr arfer o gyfrif am fuddiannau ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na phan enillir buddiannau gan weithwyr.

Buddiannau Dewisol

Yn ogystal, mae gan y Cyngor rai pwerau cyfyngedig i dalu buddiannau ymddeoliad dewisol pan fo gweithwyr yn ymddeol yn gynnar. Mae unrhyw rwymedigaethau y tybir eu bod am godi yn sgil rhoi dyfarniad i unrhyw aelod o staff (gan gynnwys athrawon) yn cronni yn ystod blwyddyn y penderfyniad a gwneir cyfrif amdanynt gan ddefnyddio'r un polisïau â'r rheini a ddefnyddir yng nghyswllt Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

25. Eitemau Eithriadol

Lle mae hynny'n berthnasol a lle mae eitemau o incwm a gwariant yn sylweddol yng nghyswllt y cyfrifon yma, caiff natur a swm yr eitemau eu datgelu ar wahân naill ai ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y nodiadau ar y cyfrifon, gan ddibynnu ar arwyddocâd yr eitemau o ran cael dealltwriaeth o berfformiad ariannol y Cyngor.

26. Cyfrifo am TA (Trethi Annomestig)

Gan fod y Cyngor yn gweithredu fel asiant ar gyfer casglu incwm TA, nid yw'n cynnwys y sefyllfa ariannol o ran y trethdalwyr ac nid yw ond yn adrodd ar y sefyllfa ariannol net gyda Llywodraeth Cymru yn ei Fantolen. Felly, os ydi'r swm a gesglir gan yr Awdurdod oddi ar drethdalwyr TA (net y gost o lwfans casglu) yn fwy na delir i Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth, mae'r swm sydd heb ei dalu eto i Lywodraeth Cymru in cael ei gynnwys yn y Fantolen fel credydwr. Yn yr un modd, os yw'r arian a dalwyd i Llywodraeth Cymru yn fwy na'r arian a gasglwyd gan drethdalwyr TA (net y gost o lwfans casglu), mae'r swm dros ben yn cael ei gynnwys yn y Fantolen fel dyledwr.

Mae'r Cyngor yn cadw cofnod o ddyledion TA, lwfansau amhariad, rhagdaliadau a gordaliadau yn ei gofnodion cyfrifon sylfaenol; fodd bynnag, i ddiben y cyfrifon terfynol, caiff y balansau hyn eu cyfuno'n un cyfrif asiantaeth, gyda'r ffigyrau ar gyfer dyledwyr/credydwyr yn ymddangos fel ffigwr net ar gyfer y gronfa genedlaethol. Cost y lwfans casglu a dderbynnir gan Gyngor Sir Ynys Môn yw incwm y Cyngor sy'n bilio a chaiff ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Nid yw'r arian a gasglwyd gan drethdalwyr TA yn cael ei gynnwys yn y Datganiad Llif Arian heblaw am yr arian a ddelir yn ôl mewn perthynas â'r lwfans casglu. Mae unrhyw wahaniaeth rhwng yr arian a gasglwyd oddi wrth drethdalwyr TA â'r arian sydd yn cael ei dalu i'r Gronfa Drethi Annomestig yn cael ei gynnwys o fewn y gweithgareddau ariannol yn Natganiad y Llif Arian.

27. Incwm a Gwariant Asiantaeth

Yn unol ag amryfal bwerau statudol, gall Cynghorau gytuno gydag awdurdodau lleol eraill, cwmnïau dŵr ac adrannau'r llywodraeth i wneud gwaith ar eu rhan. Caiff y corff sy'n gwneud y gwasanaethau asiantaeth ei ad-dalu gan y corff cyfrifol hyd at swm a gymeradwywyd ynghyd ag unrhyw gyfraniad y cytunwyd arno tuag at gostau gweinyddol. Dim ond y symiau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor, er enghraifft y ffioedd a gafwyd am ddarparu gwasanaethau'r asiantaeth, fydd yn cael eu cynnwys yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Cyngor.

DATGANIAD ARIANNOL ATODOL

CYFRIF REFENIW TAI (CRT)

Datganiad Incwm a Gwariant am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2026

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Gwariant		
Rheoli a Chynnal a Chadw - Atgyweirio a Chynnal a Chadw	6,417	6,183
Rheoli a Chynnal a Chadw - Goruchwylio a Rheoli	6,878	6,508
Rhenti, Ardrethi, Trethi a Thaliadau Eraill	133	102
Dibrisiant, Amhariad a Cholledion Ailbrisio Asedau Anghyfredoll	3,696	3,700
Costau Rheoli Dyled	12	12
Symudiad yn y Ddarpariaeth Amhariad ar gyfer Drwg Dyledion	(15)	153
Symudiad yng Nghroniad Absenoldebau Cronedig	68	(76)
Addasiad Cyfrifed IAS19	(486)	(120)
Cyfanswm Gwariant	**16,703**	**16,462**
Incwm		
Rhenti Preswyl	(23,067)	(22,184)
Rhenti Dibreswyl	(266)	(264)
Taliadau am Wasanaethau a Chyfleusterau	(264)	(176)
Cyfraniadau tuag at Wariant	(212)	(292)
Arall	(116)	(167)
Cyfanswm Incwm	**(23,925)**	**(23,083)**
Gwariant Net Gwasanaethau CRT fel yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yr Awdurdod Cyfan	**(7,222)**	**(6,621)**
Cyfran Gwasanaethau CRT o'r Costau Craidd Corfforaethol a Democrataidd	**89**	56
Gwariant Net Gwasanaethau CRT	**(7,133)**	**(6,565)**
Cyfran Gwasanaethau CRT o'r Incwm a Gwariant Gweithredol yn Natganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yr Awdurdod Cyfan		
(Ennill) / collad ar werthu Asedau Anghyfredol CRT	-	211
Cost llogau pensiwn net	27	27
Llog Taladwy a Thaliadau Cyffelyb	1,344	1,380
Llog ac Incwm o Fuddsoddiad	(186)	(385)
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau Derbyniadwy:	-	-
- Lwfans Atgyweiriadau Mawr	(3,581)	(3,816)
- Arall	(8,598)	(13,614)
Gwarged am y Flwyddyn ar Wasanaethau CRT	**(18,127)**	**(22,762)**

Datganiad Symudiadau ar Falans y CRT

Eitemau a gynhwysir yn y Cyfrif Incwm a Gwariant CRT ond a eithriwyd o'r symudiad ar Falans CRT am y flwyddyn

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Balans y CRT ar ddiwedd y Cyfnod Adrodd Blaenorol	**(7,977)**	**(8,189)**
Diffyg/(Gwarged) am y Flwyddyn ar Wasanaethau CRT	(18,127)	(22,762)
Addasiadau rhwng Seiliau Cyfrifo ac Cyllido yn ôl Statud	23,017	22,974
Gostyngiad/(Cynnydd) Net cyn Trosglwyddiadau i / o Gronfeydd Wrth Gefn	**4,890**	**212**
Trosglwyddiadau i / (o) Gronfeydd Wrth Gefn Clwsnodedig	-	-
Gostyngiad/ (Cynnydd) Net yn y Flwyddyn ar y CRT	**4,890**	**212**
Addasiad i gronfeydd wrth gefn	**-**	-
Balans y CRT ar ddiwedd y Cyfnod Adrodd Cyfredol	**(3,087)**	**(7,977)**

NODIADAU AR Y CYFRIF REFENIW TAI (CRT)

NODYN 1 – CYFRIF REFENIW TAI

Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn gofnod o wariant ar, ac incwm o, ddarparu tai Cyngor lleol, ac mae ffurf a chynnwys y Cyfrif yn cael ei ragnodi gan statud. Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn cael ei "amgáu" a rhaid iddo fod yn hunangynhaliol. Mae cyfraniadau i ac o'r Cyfrif Refeniw Tai (e.e. o Gronfa'r Cyngor) yn cael eu cyfyngu i amgylchiadau arbennig.

NODYN 2 – STOC TAI

Ar 31 Mawrth 2026, roedd y nifer o dai yn 4,026, sy'n gynnydd o 46 eiddo o blwyddyn 2024/25. Mae'r dadansoddiad yn ôl math o dŷ fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2026	31 Mawrth 2025
Stoc y Cyngor		
Tai	2,162	2,137
Tai Unllawr	1,069	1,065
Fflatiau	787	770
Fflatiau un ystafell	8	8
Cyfanswm Stoc y Cyngor	**4,026**	**3,980**

NODYN 3 – GWARIANT CYFALAF CYFRIF REFENIW TAI

	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Gwariant Cyfalaf		
Tir	593	1,388
Anneddau	22,281	24,496
Arall - Cyfleusterau Anabledd ac Addasiadau	499	474
Arall - Adeiladau Swyddfa	-	229
Arall - Cyfleusterau Gofal Cymdeithasol	1,209	909
Arall - Garejys	163	103
Arall - Cerbydau	369	-
Arall - Meysydd Parcio	-	99
Cyfanswm	**25,114**	**27,698**
Ffynonellau Cyllido		
Grantiau llywodraeth a chyfraniadau eraill	(12,179)	(17,430)
Derbyniadau cyfalaf	-	(1,141)
Cyllido Refeniw Uniongyrchol	(12,935)	(9,127)
Cyfanswm	**(25,114)**	**(27,698)**

Defnyddiwyd y Lwfans Atgyweiriadau Mawr o £3.581m ar gyfer 2025/26 yn llawn yn ystod y flwyddyn (£3.816m yn 2024/25).

NODYN 4 – DIBRISIANT, AMHARIAD A COLLEDIION AILBRISIO MEWN PERTHYNAS AG EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

	2025/26 Ailbrisio £'000	2025/26 Dibrisiant £'000	2025/26 Cyfanswm £'000	2024/25 Ailbrisio £'000	2024/25 Dibrisiant £'000	2024/25 Cyfanswm £'000
Tir	-	-	-	-	-	-
Anheddau	-	3,240	**3,240**	-	3,261	**3,261**
Eiddo Arall – Asedau Gweithredol	(16)	448	**432**	-	418	**418**
	(16)	**3,688**	**3,672**	**-**	**3,679**	**3,679**

NODYN 5 – DEBYNIADAU CYFALAF

Doedd dim derbyniadau cyfalaf yn 2025/26. Cwmnwyd pum anheddiad yn 2024/25 gyda derbyniadau cyfalaf o £632k, a ddefnyddiwyd yn llawn i ariannu'r rhaglen gyfalaf yn 2024/25.

NODYN 6 – ÔL-DDYLEDION RHENT A LWFANS COLLI NAM

Yn ystod 2025/26, gostyngodd cyfanswm ôl-ddyledion rhent £9k. Dangosir crynodeb o ôl-ddyledion rhent a rhagdaliadau yn y tabl canlynol: -

Ôl-ddyledion Rent	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Ôl-ddyledion Tenantiaid Cyfredol	730	786
Ôl-ddyledion Gyn-denantiaid	326	261
Cyfanswm Ôl-ddyledion Rent	**1,056**	**1,047**

Gwnaed lwfans yn y Fantolen ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ar gyfer rhenti, roedd hyn yn £745k (£771k yn 2024/25).

NODYN 7 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Cyngor yn cynnig buddiannau ymddeoliad. Er na fydd y buddiannau hyn yn daladwy hyd nes bo'r gweithwyr yn ymddeol, mae gan y Cyngor ymrwymiad i wneud y taliadau sydd angen eu datgelu ar yr adeg mae gweithwyr yn ennill eu hawl ar gyfer y dyfodol. Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Mae hyn yn gynllun a gyllidir, sy'n golygu fod y Cyngor a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, sydd wedi ei chyfrifo ar lefel a fwriedir i gydbwyso rhwymedigaethau'r pensiwn gydag asedau buddsoddiad.

Cydnabyddir cost buddiannau ymddeoliad yng Nghost Net y Gwasanaethau pan gânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan fo'r fath fuddiannau yn cael eu talu yn y pen draw fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r tâl y mae gofyn ei godi yn erbyn y Cyfrif Refeniw Tai wedi ei seilio ar yr arian sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly, mae cost wirioneddol buddiannau ymddeoliad yn cael ei wyrdroi allan o'r Cyfrif Refeniw Tai ar ôl Gwariant Gweithredu Net. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Cyfrif Refeniw Tai yn ystod y flwyddyn:-

Pensiynau	2025/26 £'000	2024/25 £'000
Cost gwasanaeth cyfredol wedi'i gynnwys yn y datganiad symudiad mewn cronfeydd		
Cost gwasanaeth cyfredol SCR19	514	673
Effaith Cyfuniadau Busnes a Gwarediadau Cronfa Bensiwn	35	-
Costau heb eu hariannu	76	73
Cyfanswm costau gwasanaeth SCR19	625	746
Llai: costau gwirioneddol cyflogwr	(1,057)	(866)
Symudiad I arian wrth gefn pensiynau	(432)	(120)
Cost Gwasanaeth Gyfredol wedi'i gynnwys yn symudiad mewn cronfeydd wrth gefn	432	120
Cost llogau pensiwn net	27	(27)
Cost llogau pensiwn net wedi'i gynnwys yn symudiad mewn cronfeydd wrth gefn	(27)	27
Cyfanswm yr effaith ar gronfa wrth gefn y gellir ei defnyddio	-	-

DATGELIAD PARTI CYSYLLTIEDIG – CYNRYCHIOLAETH CYDRANDDEILIAID GYDA SEFYDLIADAU TRYDYDD PARTI	
Grŵp Mynediad Ynys Môn	Liz Wood
Sioe Amaethyddol Môn	Dafydd Roberts
Partneriaeth Cymunedau Mwy Diogel Ynys Môn a Gwynedd	Carwyn Jones
Canolfan Cyngor ar Bopeth Ynys Môn	Robin Wyn Williams
Fforwm Iaith Môn	Gwilym O Jones, Gary Pritchard, Arfon Wyn, Dafydd Roberts
Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (Ynys Môn)	Paul Ellis, John Ifan Jones, Pip O'Neill, Alun Roberts, Dafydd Rhys Thomas
Grŵp Cyfeirio Cydranddeiliaid Betsi Cadwaladr	Neville Evans
Pencampwr Anghenion Dysgu Ychwanegol	Arfon Wyn
Pencampwr Diogelu Oedolion	Neville Evans
Pencampwr Gofalwyr	
Pencampwr Plant a Phobl Ifanc	Llio Angharad Owen
Pencampwr Plant Mewn Gofal	Dyfed Wyn Jones
Pencampwr Newid Hinsawdd	Geraint ap Ifan Bebb
Pencampwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	Alun Roberts
Pencampwr Aelodau	Dylan Rees
Pencampwr Sgriwtini	Jeff M Evans, Dylan Rees
Pencampwr Lluoedd Arfog	Glyn Haynes
Llys Llywodraethwyr Prifysgol Bangor	Dafydd Roberts
Cwmni Frân Wen	Gary Pritchard
Partneriaeth Cyrchfan Môn	Dafydd Roberts
Cyngor Llyfrau Cymru	Alun Roberts
Panel Maethu	Gary Pritchard
Pencampwr Oed Gyfeillgar	Gwilym O Jones
Grŵp Llandrillo/Menai	Dafydd Roberts
Cyd-Bwyllgor GwE	
Panel Mabwysiadu Gwynedd a Môn	Alun Roberts

DATGELIAD PARTI CYSYLLTIEDIG – CYNRYCHIOLAETH CYDRANDDEILIAID GYDA SEFYDLIADAU TRYDYDD PARTI	
Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn	Dyfed Wyn Jones
Pwyllgor Cronfa Bensiynau Gwynedd (Cyngor Gwynedd)	Robin Wyn Williams
Cyngor Cyswllt Cymru WLGA	Carwyn Jones, Robin Wyn Williams
Medrwn Môn	Gary Pritchard
Bwrdd Aelodau Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru (CLAW)	Ieuan Williams
Menter Môn	Gary Pritchard
Cyd-Bwyllgor Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru	Ieuan Williams
Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (Pwyllgor Lleol Môn)	Non Dafydd, Jeff M Evans
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	Gary Pritchard
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	Jeff M Evans, John Ifan Jones, Dylan Rees
Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	Jeff M Evans
Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	John Ifan Jones, Dylan Rees
Cymdeithas Tai Gogledd Cymru	Carwyn Jones
Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	Non Dafydd
Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru (Gofal a Llesiant)	Gary Pritchard
Grŵp Llywio Adolygiad Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru	Ieuan Williams
Cyd-bwyllgor Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru	Nicola Roberts, Ieuan Williams
Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru	Alun Roberts
Ymddiriedolaeth Addysgol Owen Lloyd, Penrhoslligwy	Margaret Murley Roberts
Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (Môn a Gwynedd)	Gary Pritchard
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014)	Neville Evans, Dyfed Wyn Jones
Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel	Carwyn Jones
Ymddiriedolaeth yr Harbwr, Caernarfon	Alun Roberts
Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol	Jeff M Evans, Gwilym O Jones, Jackie Lewis, Keith Roberts, Arfon Wyn
Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru	Gary Pritchard, Robin Wyn Williams

DATGELIAD PARTI CYSYLLTIEDIG – CYNRYCHIOLAETH CYDRANDDEILIAID GYDA SEFYDLIADAU TRYDYDD PARTI	
Grŵp Rhanddeiliad y Safle Wylfa	Kenneth Hughes, Aled Morris Jones, Gwilym O Jones, Jackie Lewis, Llio Angharad Owen, Derek Owen, Liz Wood

GEIRFA

ADDASIAD BLWYDDYN FLAENOROL
Mae Addasiad Blwyddyn Flaenorol yn addasiad perthnasol sy'n ymwneud â'r blynyddoedd blaenorol sy'n deillio o newidiadau mewn polisïau cyfrifo neu gywiriad i gamgymeriadau sylfaenol. Nid yw hyn yn cynnwys cywiriadau cylchol arferol neu addasiadau o amcangyfrifon cyfrifo a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol.

ADNODDAU HYLIFOL
Buddsoddiadau ased cyfredol sy'n rhwydd i'w gwaredu gan y Cyngor heb aflonyddu ar ei fusnes ac sydd naill ai: -

- Yn drosglwyddadwy'n hawdd i symiau hysbys o arian parod ar, neu'n agos at, y swm a gludir; neu
- Yn cael eu masnachu mewn marchnad weithredol.

AMHARIAD
Lleihad mewn gwerth ased anghyfredol dan ei swm a gludir yn y Fantolen. Fel arfer, mae hyn oherwydd digwyddiad sydd wedi gostwng gwerth ased yn sylweddol, er enghraifft tân neu os mae ased wedi darfod.

ARIAN A NEILLTUIR (APPROPRIATION)
Y symiau a drosglwyddir rhwng y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r cronfeydd refeniw neu gyfalaf wrth gefn.

ARCHWILIO CYFRIFON
Archwiliad annibynnol o faterion ariannol y Cyngor.

ARIAN A CHYWERTHOEDD ARIAN
Dyma'r arian mewn llaw, arian a ordynnwyd, arian a ddelir mewn cyfrifon banc a buddsoddiadau tymor byr (e.e. 3 mis) ac y gellir eu trosi'n rhwydd i symiau ariannol sy'n hysbys.

ASED
Eitem sydd â gwerth i'r Cyngor mewn termau ariannol. Mae asedau'n cael eu categoreiddio fel rhai cyfredol neu rhai nad ydynt yn gyfredol:-

- Bydd ased cyfredol yn cael ei ddefnyddio neu â gwerth isel iawn yn y flwyddyn ariannol nesaf (e.e. arian parod a stoc);
- Mae asedau anghyfredol yn rhoi buddiannau i'r Cyngor ac i'r gwasanaethau mae'n darparu ar eu cyfer am gyfnod o fwy na blwyddyn a gall fod yn ddiriaethol (e.e. canolfan gymuned), neu annirweddol (e.e. trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol).

ASED WRTH GEFN
Mae ased wrth gefn yn ased posib sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond trwy ddigwyddiad o un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Cyngor.

ASEDAU ANNIRIAETHOL
Gellir diffinio eitem anniriaethol (nid un ffisegol) fel ased pan fo'r mynediad at fuddiannau economaidd i'r dyfodol y mae'n ei gynrychioli'n cael ei reoli gan yr endid adrodd. Mae Asedau Anniriaethol y Cyngor hwn yn cynnwys trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol.

ASEDAU CYMUNEDOL

Asedau mae'r Cyngor yn bwriadu eu dal am byth, nad oes iddynt oes ddefnyddiol benodadwy ac a all fod â chyfyngiadau ar eu gwaredu. Enghreifftiau o asedau cymunedol yw parciau ac adeiladau hanesyddol.

ASEDAU ISADEILEDD

Asedau anghyfredol sy'n perthyn i'r Cyngor na ellir eu trosglwyddo na'u gwerthu, y mae gwariant yn adferadwy yn unig drwy ddefnydd parhaus o'r ased a grëwyd. Enghreifftiau yw priffyrdd, llwybrau a phontydd.

ASEDAU GWEITHREDOL

Asedau anghyfredol sy'n cael eu dal a'u meddiannu, defnyddio neu eu treulio gan y Cyngor wrth iddo ddilyn ei strategaeth ac wrth gyflenwi'n uniongyrchol y gwasanaethau hynny y mae ganddo gyfrifoldeb drostynt naill ai'n statudol neu'n ddewisol.

ASEDAU NAD YDYNT YN WEITHREDOL

Asedau anghyfredol a ddelir gan y Cyngor ond nad ydynt yn cael eu meddiannu, defnyddio neu eu treulio'n uniongyrchol wrth gyflenwi gwasanaethau. Enghreifftiau yw eiddo buddsoddiad, asedau yn cael eu hadeiladu neu asedau gwarged i anghenion tra'n disgwyl eu gwerthu neu ailddatblygu.

ASEDAU TREFTADAETH

Ased sydd hefo rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol sydd yn cael ei ddal a'i gynnal yn bennaf am ei gyfraniad at wybodaeth a diwylliant.

BENTHYCA DI-GEFNOGAETH

Gall y Cyngor fenthyca arian ychwanegol i'r benthyca gyda chefnogaeth y Llywodraeth i gyllido ei wariant cyfalaf cyn belled a'i fod yn fforddiadwy a chynaliadwy. Fe lywodraethir y pŵer yma gan Gôd Pwyllog CIPFA, a mae'r Cyngor yn lwyr gydymffurfio â hwn.

BENTHYCA DROS DRO

Arian a fenthycir am gyfnod o lai na blwyddyn.

BENTHYCA GYDA CHEFNOGAETH

Mae'r Cyngor yn benthyca arian i gyllido rhan o'i raglen cyfalaf. Fe adnabyddir y benthycaid gan Lywodraeth Ganolog yn ei glandriad cyllido ar gyfer y Cyngor.

BUDD-DALIADAU TAI

System o gymorth ariannol i unigolion tuag at gostau tai penodol a weinyddir gan awdurdodau, gyda chymhorthdal gan lywodraeth ganolog.

BUDDIANNAU Â DISGRESIWN (PENSIYNAU)

Buddiannau ymddeoliad, nad oes gan y cyflogwr unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, gytundebol neu adeiladol i'w dyfarnu, ac sy'n cael eu dyfarnu'n ôl pwerau dewisol y Cyngor fel y Rheoliadau Llywodraeth Leol (Taliadau Dewisol) 1996.

BUDDIANNAU YMDDEOLIAD

Bob ffurf o gydnabyddiaeth a roddir gan gyflogwr yn lle gwasanaethau a gyflenwyd gan weithwyr sy'n daladwy ar ôl terfyn y gyflogaeth.

BUDDSODDIADAU (CRONFA BENSIWN)

Bydd buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn yn cael eu cyfrifo yn natganiadau'r gronfa honno. Fodd bynnag, mae'n ofynnol hefyd ar awdurdodau i ddatgelu, fel rhan o ofynion datgelu sy'n ymwneud â buddiannau ymddeoliad, cyfran o asedau'r cynllun pensiwn sy'n gysylltiedig â'u rhwymedigaethau gwaelodol.

BUSNES HYFYW

Y cysyniad fod y Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi ar y dybiaeth y bydd y Cyngor yn parhau mewn bodolaeth weithredol am y dyfodol rhagweladwy.

BWRDD BENTHYCIADAU GWEITHIAU CYHOEDDUS (PWLB)

Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n rhoi benthyciadau am flwyddyn a/neu fwy i awdurdodau ar raddfeydd llog sydd ond ychydig yn uwch na'r rheini y gall y llywodraeth fenthyca ei hun.

CIPFA

Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifo. Y prif gorff proffesiynol a rheoleiddiol ar gyfer cyfrifon llywodraeth leol.

COLLEDION CREDYD

Hwn yw'r gwahaniaeth rhwng y symiau arian sy'n ddyledus i'r Awdurdod yn unol â'r gontract a'r holl lif arian ddisgwylir i'r Awdurdod ei dderbyn, wedi ei ddisgowntio ar y raddfa llog effeithiol gwreiddiol.

COLLEDION CREDYD DISGWYLIEDIG 12 MIS

Hwn yw'r cyfran o golledion credyd disgwyliedig oes gyfan sy'n cynrychioli'r colledion credyd disgwyliedig sy'n deillio o ddiffyg offeryn ariannol sy'n bosib o fewn deuddeng mis ar ôl y dyddiad adrodd.

CONTRACT TYMOR HIR

Contract a ffurfir ar gyfer dylunio, cynhyrchu neu adeiladu ased sylweddol unigol neu ddarpariaeth gwasanaeth (neu gyfuniad o asedau neu wasanaethau sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio prosiect unigol), ble bo'r amser a gymerir i gwblhau'n sylweddol y contract o'r fath fel ei fod yn disgyn i mewn i fwy nag un flwyddyn ariannol.

COST GWASANAETH CYFREDOL (PENSIYNAU)

Y cynnydd mewn gwerth cyfredol o rwymedigaethau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y disgwylir iddo ddeillio o wasanaeth gweithiwr yn y flwyddyn bresennol.

COST GWASANAETH YN Y GORFFENNOL (PENSIYNAU)

Ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y cynnydd yng ngwerth cyfredol rhwymedigaethau'r Cynllun sy'n gysylltiedig â gwasanaeth gweithiwr mewn blynyddoedd ariannol blaenorol sy'n deillio yn y flwyddyn ariannol bresennol o ganlyniad i gyflwyno neu wella buddiannau ymddeoliad.

COSTAU HEB EU DOSBARTHU

Dyma orbenion nad yw unrhyw ddefnyddiwr yn cael budd ohonynt yn awr ac, fel y cyfryw, nid ydynt yn cael eu dosrannu i wasanaethau.

COST LLOG (PENSIYNAU)

Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig, y cynnydd disgwyliedig yn ystod y flwyddyn ariannol o werth cyfredol rhwymedigaethau'r Cynllun oherwydd bod y buddiannau yn un flwyddyn ariannol yn agosach at setliad.

CORFFORAETHOL A DEMOCRATAIDD CRAIDD

Mae'r Corfforaethol a Democrataidd Craidd yn cynnwys yr holl weithgareddau penodol y mae awdurdodau lleol yn ymgymryd â nhw oherwydd eu bod yn awdurdodau etholedig, amlbwrpas. Felly, mae cost y gweithgareddau hyn yn uwch na phe byddai cyfres o gyrff annibynnol, un pwrpas, enwebedig yn rheoli'r un gwasanaethau. Felly, nid oes sail resymol dros ddyrannu'r costau hyn i wasanaethau.

COSTAU CYLLIDO CYFALAF

Costau cyllido cyfalaf yw unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o fenthyca i gyllido prosiectau cyfalaf. Tuedda rhain i fod y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a gymerir a'r gost Darparieth Refeniw Isaf (MRP) a godir ar gyllid prosiectau drwy fenthyciadau. Y MRP yw'r isafswm mae'n rhaid codi i'r cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn daparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau a symiau arall fenthycwyd gan y Cyngor.

CREDYDWR

Swm sy'n ddyledus i unigolion neu sefydliadau eraill gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaethau a gyflenwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, ond na thalwyd amdanynt cyn diwedd y flwyddyn ariannol honno.

CRONFEYDD WRTH GEFN

Croniad gwarged, diffygion a meddiannau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cronfeydd wrth gefn o natur refeniw ar gael a gellir eu gwario neu eu clustnodi ar ddisgresiwn y Cyngor. Ni ellir defnyddio peth cronfeydd wrth gefn cyfalaf, fel y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn, i gwrdd â gwariant cyfredol.

CRONFEYDD WRTH GEFN DEFNYDDIADWY

Symiau penodol a osodir o'r neilltu ar gyfer pwrpasau polisi'r dyfodol neu ar gyfer digwyddiadau annisgwyl. Gall eu defnyddio i gyllido gwariant neu i leihau trethi.

CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO

Y cronfeydd wrth gefn a ddefnyddir i amsugno'r gwahaniaeth rhwng y canlyniad o ddefnyddio ymarferion cyfrifo cywir â gofyniad trefniadau statudol ar gyfer cyllido gwariant. Mae cronfeydd wrth gefn o'r fath yn cynnwys enillion a cholledion heb eu gwireddu mewn perthynas ag ail-brisio eiddo, offer a chyfarpar ble mae rhaid gwerthu'r ased cyn i'r gwerth fod ar gael.

CRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETH

Cronfeydd a weinyddir gan y Cyngor i bwrpasau fel gwobrwyon, elusennau, prosiectau penodol ac ar ran plant dan oed.

CRONIADAU

Symiau a gynhwysir yn y cyfrifon terfynol i gydnabod nwyddau/gwasanaethau a dderbyniwyd yn y flwyddyn neu incwm a gwariant a enillwyd neu yr aethpwyd iddo yn y flwyddyn ariannol, ond nad oedd taliad gwirioneddol wedi ei dderbyn neu ei wneud ar ei gyfer ar 31 Mawrth.

CYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Yr holl symiau a delir i, neu sy'n dderbyniadwy gan, weithiwr a symiau sy'n ddyledus trwy lwfansau treuliau (cyn belled ag y mae'r symiau hynny'n daladwy yn nhreth incwm y DU) a gwerth ariannol unrhyw fuddiannau eraill a dderbyniwyd heblaw mewn arian parod. Mae cyfraniadau pensiwn sy'n daladwy gan y cyflogwr yn cael eu heithrio.

CYFNOD CYFRIFO

Y cyfnod o amser a gynhwysir yn y cyfrifon, fel arfer cyfnod o ddeuddeng mis yn cychwyn ar 1 Ebrill. Diwedd y cyfnod cyfrifo yw dyddiad y Fantolen, fel arfer 31 Mawrth y flwyddyn ddilynol.

CYFRIF REFENIW TAI (CR*T*)

Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys yr incwm a gwariant sy'n deillio o'r ddarpariaeth llety tai gan y Cyngor.

CYLLIDEB

Datganiad o faint o gyllid y mae'r Cyngor wedi ei neilltuo i bob gwasanaeth a swyddogaeth i'w wario neu ei godi mewn incwm ar gyfer y flwyddyn ariannol.

CYLLIDO CYFALAF

Cyllid sydd ar gael i dalu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd o gyllido gwariant cyfalaf yn cynnwys benthyca, prydlesu, cyllido refeniw uniongyrchol, derbyniadau cyfalaf defnyddiadwy, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd wrth gefn refeniw a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

CYNLLUN PENSIWN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG

Cynlluniau pensiwn ble bo buddiannau a dderbynnir gan y cyfranogwyr yn annibynnol ar y cyfraniadau a dalwyd, ac nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â buddsoddiadau'r cynllun.

CYSONDEB

Y cysyniad fod triniaeth gyfrifo o eitemau tebyg o fewn blwyddyn ariannol ac o un flwyddyn i'r nesaf yr un fath.

DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLIDO

Mae'r datganiad yn anelu i ddangos sut defnyddir gwariant blynyddol a sut y'i gyllidiri o adnoddau. Dangosa'r golofn gynta, y gwariant net a godir i'r Gronfa Gyffredinol a balansau'r CRT, y gwir effaith o'r gost o ddarparu gwasanaethau am y flwyddyn, ac eithrio addasiadau cyfrifo.

DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

Dangosir y datganiad y symudiad o gychyn y flwyddyn i'w diwedd ar gyfer yr holl gronfeydd wrth gefn ddefnyddiadwy a ddelir gan y Cyngor ac y gellir eu defnyddio i gyllido costau'r Cyngor neu i leihau trethiant lleol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn nad oes modd eu defnyddio.

DARPARIAETH

Swm a osodir o'r neilltu yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau neu golledion i'r dyfodol sy'n sicr neu'n debygol iawn, o ddigwydd ond bod y symiau neu'r dyddiadau pryd y byddant yn digwydd yn ansicr.

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Un o brif ddatganiadau ariannol y Cyngor sy'n cofnodi'r holl incwm a gwariant ar gyfer y Cyngor wedi ei gategoreiddio'n unol â gofynion safonol CIPFA fel y gellir cymharu awdurdodau.

DATGANIAD LLIF ARIAN

Mae'r datganiad llif arian yn dangos y newidiadau yn yr arian a'r cywerthoedd ariann sydd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol.

DERBYNIADAU CYFALAF

Yr elw o waredu tir neu asedau anghyfredol. Gellir defnyddio cyfrannau o dderbyniadau cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd, o fewn y rheolau a osodir i lawr gan y llywodraeth, ond ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant refeniw.

DIBRISIANT

Mesur o'r gost o wisgo allan, defnyddio neu fel arall leihau oes economaidd ddefnyddiol asedau anghyfredol y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol, p'un a yw hynny o ddefnydd, treuliad amser neu ddarfodiad trwy newidiadau technegol neu rai eraill.

DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol neu anffafriol, sy'n digwydd rhwng dyddiad y Fantolen a'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon Terfynol.

DYCHWELIAD DISGWYLIEDIG AR ASEDAU PENSIWN

Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig a gyllidir, hwn yw'r raddfa dychweliad ar gyfartaledd, yn cynnwys incwm a newidiadau mewn gwerth teg ond yn net o dreuliau cynllun, a ddisgwylir dros weddill oes y rhwymedigaeth gysylltiedig ar yr asedau gwirioneddol a ddelir gan y cynllun.

DYLED NET

Benthyciadau'r Cyngor llai arian parod ac adnoddau hylifol.

DYLEDWR

Swm sy'n ddyledus i'r Cyngor gan unigolion neu sefydliadau eraill am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaethau a gyflenwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, ond na thalwyd amdanynt cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

ENILLION A CHOLLEDION ACTIWARÏAID

I gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y newidiadau mewn gwarged neu ddiffyg actiwaraidd sy'n codi oherwydd: -

- Nad yw digwyddiadau wedi cyd-fynd â'r tybiaethau actiwarïaid a wnaethpwyd i'r prisiant diwethaf (enillion a cholledion profiad); neu
- Fod y tybiaethau actiwaraidd wedi newid.

GRANT CYNNAL REFENIW

Grant a delir gan Lywodraeth Ganolog i awdurdodau, yn cyfrannu tuag at gost gyffredinol eu gwasanaethau.

GRANTIAU LLYWODRAETH

Grantiau a wneir gan y llywodraeth tuag at naill ai wariant refeniw neu gyfalaf gan ddisgwyl cydymffurfiad yn y gorffennol neu i'r dyfodol gyda rhai amodau penodol sy'n ymwneud â gweithgareddau'r Cyngor. Gall y grantiau hyn fod yn benodol i gynllun neilltuol neu gall gefnogi gwariant refeniw'r Cyngor yn gyffredinol.

GWAITH YN MYND YN EI FLAEN (WIP)

Cost gwaith a berfformir ar brosiect heb ei orffen ar ddyddiad y Fantolen.

GWARIANT CYFALAF

Gwariant ar brynu ased anghyfredol, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tu draw i'r flwyddyn ariannol gyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at, ac nid cynnal yn unig, werth ased presennol anghyfredol. Mae enghreifftiau'n cynnwys : adeiladu ysgol newydd, prynu offer TG, adnewyddu sylweddol cartref gofal.

GWARIANT REFENIW

Treuliau dydd i ddydd o ddarparu gwasanaethau.

GWARIANT REFENIW A GYLLIDIR O GYFALAF O DAN STATUD (REFCUS)

Gwariant y gellir ei ohirio'n gywir (h.y. ei drin fel cyfalaf o ran natur) ond nad yw'n arwain at, neu'n parhau i gydweddu ag, ased diriaethol. Enghreifftiau o daliadau gohiriedig yw grantiau o natur cyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

GWASANAETHAU ASIANTAETH

Y Gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor i drydydd parti neu ar ran sefydliad arall.

GWERTH GWEDDILLIOL

Gwerth net ased y gellir ei wireddu ar ddiwedd ei oes ddefnyddiol.

GWERTH LLYFR NET

Y swm y mae asedau anghyfredol yn cael eu cynnwys yn y Fantolen, h.y. eu costau hanesyddol neu werth cyfredol llai'r symiau cronnus ar gyfer dibrisiant.

GWERTH NET

Gwerth y Cyngor o gyfanswm asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau.

GWERTH TEG

Gwerth teg ased yw'r pris y gellid ei gyfnewid amdano mewn trafodion hyd braich, llai, ble bo'n berthnasol, unrhyw grantiau derbyniadwy tuag at brynu neu ddefnyddio'r ased.

GWERTH TRETHADWY

Rhent tybiedig blynyddol hereditament, a ddefnyddir i bwrpasau Trethi Annomestig.

ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW (MRP)

Yr isafswm sydd raid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-daliad benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan y Cyngor.

LLOG A DDERBYNNIR NEU A DELIR

Defnyddir y dull gyfradd log sydd mewn grym gweithredol i fesur beth yw gwerth cludadwy ased ariannol neu rwymedigaethau a fesurir yn ôl y gost lai amorteiddio cronedig, ac i ddyrannu incwm neu dreuliau cysylltiedig i'r cyfnod perthnasol. Y gyfradd log sydd mewn grym yw hwnnw sy'n rhoddi disgownt cysáct ar y taliadau arian parod neu'r derbyniadau amcangyfrifiedig yn y dyfodol dros oes ddisgwyledig yr offeryn ariannol yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo'n y lle cyntaf. Mae'r gyfradd log sydd mewn grym yn cael ei diwygio yn ôl y tâl llog neu'r derbyniadau gwirioneddol trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn i sicrhau mai dim ond llog gwirioneddol a godir yn erbyn y Dreth Gyngor.

Yn achos asedau a rhywymedigaethau ariannol a gludwyd yn ôl y gost gan fod y llog sydd mewn grym yr un faint â'r llog cludo, mae'r gwerth cludo'n cael ei ddiwygio ar gyfer llog cronnus.

MATEROLDEB

Y cysyniad y dylai'r Datganiad Cyfrifon gynnwys yr holl symiau y gellid disgwyl iddynt, pe gadewid hwy allan neu eu cam-ddatgan, arwain at lurguniad o'r datganiadau ariannol ac, yn y pen draw, gamarwain defnyddiwr y cyfrifon.

OES ECONOMAIDD DDEFNYDDIOL (UEL)

Y cyfnod dros yr hwn y bydd y Cyngor yn cael buddiannau o ddefnydd ased anghyfredol.

PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Ceir diffiniad manwl o Bartïon Cysylltiedig yn SCRh 24. i bwrpasau'r Cyngor, ystyrir fod partïon cysylltiedig yn cynnwys Llywodraeth Ganolog, Awdurdodau Lleol a chyrff arall, sy'n codi un ai praeseptau neu ardollau ar y Cyngor. Gall partïon cysylltiedig hefyd gynnwys is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiedig, a cydfenter a phartïon cydfenter ac yn enwedig Aelodau a phrif swyddogion y Cyngor.

Pan yn ystyried pwy sy'n barti cysylltiedig, rhoddir sylw hefyd i drafodion yn gysylltiedig ag aelodau teulu agos neu gartref unrhyw unigolyn a restrir.

PRAESEPT

Yr ardoll a wneir gan awdurdodau praesept ar awdurdodau bilio, sy'n ei gwneud yn ofynnol ar i'r olaf gasglu incwm y Dreth Gyngor ar eu rhan.

PRYDLES ARIANNOL

Prydles sy'n trosglwyddo'n sylweddol risgiau a gwobrwyon perchnogaeth ased anghyfredol i'r prydleswr.

PRYDLES WEITHREDOL

Prydles ble mae'r berchnogaeth o'r ased anghyfredol yn aros gyda'r prydleswr.

RHAGLEN GYFALAF

Y cynlluniau cyfalaf mae'r Cyngor yn bwriadu eu cynnal dros gyfnod penodol o amser.

RHESTRAU STOC

Eitemau o ddeunyddiau crai a deunyddiau mae'r Cyngor wedi eu caffael ac sy'n cael eu dal gan ddisgwyl defnydd i'r dyfodol. Enghreifftiau yw deunyddiau traul, deunyddiau crai a gwaith sy'n mynd yn ei flaen.

RHWYMEDIGAETH

Rhwymedigaeth yw pan fo gan y Cyngor ddyled i'w thalu i unigolyn neu sefydliad arall.

- Mae rhwymedigaeth gyfredol yn swm a fydd yn dod yn daladwy neu y gellid ei galw i mewn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, e.e. credydwyr neu arian parod wedi'u gordynnu.
- Mae rhwymedigaeth ohiriedig yn swm sydd, drwy drefniant, yn daladwy tu draw i'r flwyddyn nesaf ar ryw bwynt yn y dyfodol neu i'w dalu i ffwrdd trwy swm blynyddol dros gyfnod o amser.

RHWYMEDIGAETH WRTH GEFN

Mae rhwymedigaeth wrth gefn naill ai'n:-

- Rhwymedigaeth bosib sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond trwy ddigwyddiad o un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Cyngor; neu'n
- Rhwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol ble nad yw'n debygol y bydd angen trosglwyddiad o fuddiannau economaidd, neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth gyda dibynadwyedd digonol.

RHWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN PENSIWN

Rhwymedigaethau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig ar gyfer treuliau sy'n ddyledus ar ôl y dyddiad prisiant. Mae rhwymedigaethau'r cynllun a fesurir yn ystod y dull uned a ragamcenir yn adlewyrchu'r buddiannau mae'r cyflogwr wedi ymrwymo i'w darparu am wasanaeth hyd at y dyddiad prisiant.

TRETHI ANNOMESTIG (TA)

Mae'r Trethi Annomestig yn ardoll ar fusnesau wedi'i seilio ar raddfa genedlaethol yn y bunt a osodir gan y llywodraeth a'i luosi gan werth trethadwy asesedig yr eiddo dan sylw. Caiff ei gasglu gan y Cyngor ar ran llywodraeth ganolog ac yna ei ailddosbarthu'n ôl i gefnogi cost gwasanaethau.

TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir yn gwneud datgeliad o unrhyw drafodion perthnasol rhwng y Cyngor a Phartïon Cysylltiedig yn ofynnol er mwyn sicrhau fod cydranddeiliaid yn ymwybodol pryd mae'r trafodion hyn yn digwydd a'r swm a goblygiadau hynny.

Y FANTOLEN

Datganiad o werth cywir a theg o'r asedau, rhwymedigaethau a balansau eraill cofnodedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

This page is intentionally left blank

Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2025/26

Paratowyd gan: Y Grŵp Llywodraethu

Dyddiad Cyhoeddi: Medi 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

Cynnwys

Cwmpas y Cyfrifoldeb 3
Y Fframwaith Llywodraethu 4
Llywodraethiant Gwleidyddol ..... **Error! Bookmark not defined.**
Newidiadau i Strwythur y Sefydliad 4
Adolygiad o Effeithiolrwydd 5
Adolygiad Blynyddol o Effeithiolrwydd Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor 6
Casgliad yr Asesiad 6
Datganiadau'r Swyddogion Statudol 8
Materion Llywodraethu a Nodwyd 10
Cynnydd mewn perthynas â'r Materion Llywodraethu a Nodwyd y llynedd 10
Gwaith llywodraethu nodedig arall a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn 15
Materion Llywodraethu a Nodwyd 2025/26 16
Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 19
Atodiad 1 20
Cod Rheolaeth Ariannol CIPFA (2019) 20
Casgliad Statudol: 20

Cwmpas y Cyfrifoldeb

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cynnal ei fusnes yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrif amdano'n briodol, a sut mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio.

Mae dyletswydd ar y Cyngor hefyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus yn y modd y mae'n arfer ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o fod yn ddarbodus, yn effeithlon ac effeithiol.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am roi yn eu lle drefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei fusnes, a'i gwneud yn bosib iddo arfer ei swyddogaethau yn effeithiol, gan gynnwys trefniadau i reoli risg, ynghyd â rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo a mabwysiadu'r cod llywodraethu corfforaethol lleol diwygiedig ym mis Mawrth 2022, sy'n gyson â saith egwyddor graidd Fframwaith CIPFA/SOLACE 'Delivering Good Governance in Local Government', yn cynnwys y canllawiau a ddiweddarwyd a nodir yn Adendwm CIPFA/SOLACE ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Cyngor yn parhau i adolygu a chryfhau ei drefniadau llywodraethu yn unol ag arfer dda sy'n esblygu, yn cynnwys gofynion Adendwm CIPFA/SOLACE a ffurfio Grŵp Llywodraethu mewnol.

Mae'r datganiad hwn yn egluro sut y gwnaeth y Cyngor gydymffurfio â'r cod a sut mae'n ateb gofynion ymarfer priodol anstatudol sy'n annog cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae hefyd yn diwallu gofynion rheoliad 5 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reolaeth fewnol.

Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau, prosesau a gwerthoedd diwylliannol sy'n rheoli ac yn gosod cyfeiriad i'r Cyngor. Mae hefyd yn arwain y gweithgareddau a ddefnyddir i roi cyfrif, ymgysylltu ac arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro pa mor dda y mae'n cyflawni ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost-effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith honno ac wedi'i dylunio i reoli risg i lefel resymol. Ni all ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion a dim ond sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd llwyr, y gellir ei rhoi o ran effeithiolrwydd.

Llywodraethiant Gwleidyddol

Gyda thristwch, nododd y Cyngor farwolaeth dau Aelod Etholedig, sef y Cynghorydd Trefor Ll Hughes ym mis Tachwedd 2025, a oedd yn cynrychioli Ward Cybi, a'r Cynghorydd Ken Taylor ym mis Mai 2026, a oedd yn cynrychioli ward Bro'r Llynnoedd. Rhoddwyd gweithdrefnau angenrheidiol ar waith gan dîm Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor i reoli'r seddi gweigion hyn. Mae'r ddwy sedd bellach wedi'u llenwi yn dilyn isetholiadau lleol: etholwyd y Cynghorydd Celfyn Furlong i gynrychioli ward Ynys Gybi, ac etholwyd y Cynghorydd Jon Paul Taylor i gynrychioli ward Bro'r Llynnoedd. Trwy gydol y cyfnod hwn mae'r Swyddog Monitro a'r Gwasanaethau Democrataidd wedi sicrhau fod cydbwysedd gwleidyddol yn cael ei reoli a bod cworwm wedi'i gynnal yn llwyddiannus ar gyfer yr holl bwyllgorau statudol er mwyn sicrhau cadernid cyfreithiol penderfyniadau. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r strwythur pwyllgorau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Newidiadau i Strwythur y Sefydliad

Yn ystod 2025/26, fe wnaeth y Cyngor adolygu a chryfhau galluogrwydd a chapasiti ei Dîm Rheoli er mwyn alinio'n well â'i flaenoriaethau strategol a'i agenda moderneiddio. Yn dilyn ymadawiad y Pennaeth Proffesiwn AD a Thrawsnewid, ailstrwythurwyd y Gwasanaeth Trawsnewid blaenorol trwy greu dau wasanaeth ar wahân sydd â ffocws penodol. Y gwasanaethau newydd yw'r gwasanaeth 'Digidol, Perfformiad a Moderneiddio' a'r gwasanaeth 'Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer'. Mae'r ail-alinio strategol hwn yn darparu capasiti arweinyddiaeth benodedig i yrru moderneiddio digidol ar yr un pryd â sicrhau trosolwg cadarn o'r fframweithiau gweithlu ac ymgysylltu â chwsmeriaid.

Yn ogystal â hynny, daeth y swyddogaethau gwella ysgolion a chefnogaeth addysgol o dan adain y Cyngor yn llawn ac yn ffurfiol yn ystod y flwyddyn, gan symud oddi wrth y model consortiwm blaenorol. O safbwynt llywodraethu, mae'r symudiad strategol hwn yn atgyfnerthu trefniadau rheoli risg ac mae'n sicrhau bod Gwasanaeth Dysgu'r Cyngor bellach ag atebolrwydd a throsolwg uniongyrchol, lleol o berfformiad ysgolion ac adeiladu capasiti.

Adolygiad o Effeithiolrwydd

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gyfrifoldeb am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithlonrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y drefn rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithlonrwydd yn cael ei lywio gan waith rheolwyr o fewn y Cyngor sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol, a hefyd sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol ac asiantaethau arolygu ac archwilio eraill.

Mae effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu wedi cael ei werthuso trwy gyfuniad o:

- yr Asesiad Perfformiad Panel statudol, oedd yn darparu sicrwydd allanol annibynnol ynghylch trefniadau llywodraethu, perfformiad a chapasiti'r Cyngor.
- canlyniadau adolygiadau a monitro cyson yn ystod y flwyddyn gan swyddogion a phwyllgorau;
- adolygiad o ddogfennau perthnasol a baratowyd yn ystod y flwyddyn, neu'n ymwneud â'r flwyddyn;
- adolygiad o gynnydd yn erbyn Cynllun y Cyngor;
- adolygu adborth gan archwilwyr ac arolygwyr allanol, gan gynnwys Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC);
- y panelau sgriwtini mewn perthynas â gwaith yn gysylltiedig â Chyllid, Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol;
- trafodaethau a derbyn sylwadau gan grwpiau o swyddogion ac aelodau, gan gynnwys yr Tîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith.

Yn ogystal, mae adolygiadau a monitro rheolaidd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:-

- gweithgareddau rheoli risg ffurfiol, gan gynnwys ystyriaeth benodol o'r risgiau hynny sy'n gysylltiedig â phrosesau llywodraethu;
- archwilio mewnol, sydd â'i waith yn cynnwys archwilio'r risgiau mwyaf a nodwyd yn y Gofrestr Risgiau Strategol, gan gynnwys rheoli risgiau, a hynny'n unol â'r strategaeth archwilio mewnol flynyddol ac yn cynnwys gwaith 'dilynol' i sicrhau fod uwch swyddogion yn rhoi sylw i'r argymhellion a gytunwyd;
- gwaith Pwyllgorau Sgriwtini, Llywodraethu ac Archwilio a Safonau y Cyngor a phwyllgorau eraill;
- barn ac argymhellion archwilwyr allanol y Cyngor ynghyd ag asiantaethau adolygu ac arolygwyr eraill;
- monitro cyson gan aelodau ac uwch-reolwyr o welliant a pherfformiad yn erbyn Cynllun y Cyngor a'r cynlluniau a'r strategaethau ategol.

Adolygiad Blynyddol o Effeithiolrwydd Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor

Casgliad yr Asesiad

Mae'r tabl isod yn darparu casgliad yr asesiad ar gyfer 2025/26:

Egwyddorion Craidd y Fframwaith	Casgliad yr asesiad
Egwyddor A: Ymddwyn yn ddidwyll, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu rheolaeth y gyfraith	Mae'r Cyngor yn parhau i gynnal gwerthoedd moesegol cadarn a pharchu rheolaeth y gyfraith. Cefnogir y trefniadau hyn gan Gyfansoddiad y Cyngor, Codau Ymddygiad a fframwaith Safonau, ynghyd â diweddaru strategaethau atal twyll a threfniadau cyfansoddiadol yn barhaus er mwyn cryfhau trosolwg. Un o'r prif flaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf yw sicrhau fod y sefydliad yn barod i weithredu a chydymffurfio â Deddf Caffael 2023, ac mae hyn yn cael ei reoli ar lefel strategol er mwyn ymgorffori arferion cyson ym mhob gwasanaeth. Mae'r Cyngor yn parhau i hyrwyddo diwylliant sefydliadol cryf sydd yn seiliedig ar ei werthoedd ei hun, ac mae'r Asesiad Perfformiad Panel yn amlygu'r berthynas adeiladol rhwng aelodau a swyddogion, gweithlu ymrwymedig a chydweithio cadarnhaol ar draws y sefydliad.
Egwyddor B: Sicrhau natur agored ac ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid	Mae'r Cyngor yn arddangos ymrwymiad cryf i fod yn agored, yn hygyrch ac i ymgysylltu'n weithredol â'r cyhoedd. Mae partneriaethau cydweithredol ac ymgynghoriadau cyhoeddus yn parhau i siapio'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu a chynlluniau gwydnwch cymunedol. Mae'r Cyngor yn cynnal trefniadau effeithiol i sicrhau fod preswylwyr yn gallu cael mynediad at wybodaeth a dylanwadu ar benderfyniadau ac mae monitro perfformiad ceisiadau am wybodaeth yn cefnogi hyn er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn ymatebol a thryloyw.
Egwyddor C: Diffinio canlyniadau yn nhermau buddion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol cynaliadwy	Mae ymrwymiad y Cyngor i ddarparu buddion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yn cael ei gyfleu'n glir yng Nghynllun y Cyngor. Mae bwriad strategol yn parhau i fod yn gryf, ac mae'n cael ei gefnogi gan gynlluniau cyngor cyfan i symleiddio cefnogaeth i breswylwyr a mynd i'r afael â thlodi. I sicrhau fod y canlyniadau hyn yn cael eu gwireddu'n llawn, mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar wreiddio'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn fwy cyson mewn penderfyniadau lefel uchel a chryfhau'r defnydd o ganlyniadau mesuradwy er mwyn gyrru'r ddarpariaeth gwasanaeth. Datblygwyd Cynllun y Cyngor yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), gan sicrhau fod agweddau ataliol a chydweithredol yn cael eu gwreiddio ym mhob rhan o'r sefydliad.
Egwyddor D: Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir hyd eithaf ein gallu	Mae'r Cyngor yn cynnal fframwaith rheoli perfformiad sydd wedi hen sefydlu ac sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor, gan sicrhau fod ymyraethau gwasanaeth yn cael eu targedu'n briodol a'u bod yn seiliedig ar dystiolaeth. Er mwyn cryfhau llywodraethiant a phenderfyniadau ymhellach, mae'r Cyngor yn mireinio ei brosesau dilysu data i sicrhau fod swyddogaethau'r Pwyllgor Gwaith a Sgriwtini yn cael eu cefnogi gan wybodaeth gadarn o safon uchel er mwyn caniatáu her effeithiol, atebolrwydd a throsolwg strategol.

Egwyddorion Craidd y Fframwaith	Casgliad yr asesiad
Egwyddor E: Datblygu capasiti'r endid, ynghyd â gallu ei arweinyddion a'r unigolion ynddo	Mae arweinyddiaeth a chapasiti'r gweithlu'n cael eu rheoli'n dda, ac mae hyn yn cael ei gefnogi gan raglenni talent a datblygu sydd wedi'u sefydlu ac sydd bellach wedi'u greiddio yn y trefniadau busnes fel arfer. Mae'r Cyngor yn cydnabod cymhlethdod cynyddol gofynion statudol diogelu data, ac mae cryfhau gwydnwch o ran Llywodraethu Gwybodaeth yn flaenoriaeth llywodraethu allweddol ar gyfer 2026/27. Mae hyn yn cynnwys datblygu modelau capasiti cynaliadwy ar gyfer rolau statudol arbenigol ac atgyfnerthu diwylliant o ddiogelwch data ar draws y sefydliad. Mae capasiti'r gweithlu, gan gynnwys recriwtio, cadw staff a pharhad mewn arweinyddiaeth yn parhau i gael ei fonitro drwy Gofrestr Risgiau Strategol y Cyngor, gan sicrhau trosolwg a rheolaeth briodol o'r heriau strategol hyn.
Egwyddor F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheoli arian cyhoeddus yn gadarn	Mae rheolaethau ariannol y Cyngor yn gweithredu'n effeithiol iawn. Mae gwaith archwilio oedd yn edrych ar daliadau a wnaed gan y Cyngor yn dyst i hyn gan ei fod yn dangos fod cywirdeb trafodion yn uchel iawn ac, yn ogystal â hynny, derbyniwyd barn ddiamod gan Archwilio Cymru ar y Datganiad Cyfrifon Blynyddol, gan gadarnhau nad oedd unrhyw wendidau sylweddol yn y rheolaethau mewnol. Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Chod Rheolaeth Ariannol CIPFA. Mae gwydnwch ariannol tymor canolig yn parhau i gael ei reoli'n fwriadus, gan gynnwys ymateb i heriau setliadau ariannol am flwyddyn ar y tro yn unig, trwy ddatblygu Cynllun Strategol Moderneiddio trawsbynciol, yn unol ag argymhelliad yr Asesiad Perfformiad Panel, er mwyn cefnogi cynaliadwyedd yn y tymor hir. Mae trefniadau rheoli risgiau strategol wedi'u hen sefydlu, ac mae'r Tîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn craffu'n rheolaidd ar y Gofrestr Risgiau Strategol. Er bod trefniadau rheoli risgiau gwasanaeth ar waith, nodwyd peth anghysondeb wrth adolygu cofrestri risgiau Gwasanaeth ac mae cynllun gwella wedi'i lunio ar gyfer 2026/27.
Egwyddor G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn cyflawni	Mae atebolrwydd, tryloywder a threfniadau adrodd yn gadarn ac effeithiol, ac maent yn cael eu cefnogi gan brosesau archwilio mewnol ac allanol cadarn ac mae rheolwyr yn ymateb yn dda iawn wrth fynd i'r afael â risgiau a gwendidau mewn rheolaethau a nodwyd. Mae Archwilio Mewnol yn darparu sicrwydd trydedd linell drwy ei waith archwilio seiliedig ar risg a'r farn flynyddol gyffredinol. Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor wedi cael eu dilysu'n allanol drwy'r Asesiad Perfformiad Panel statudol. Mae adolygiad allanol wedi nodi cyfleoedd i gryfhau effeithiolrwydd swyddogaeth sgriwtini'r Cyngor ymhellach, ac mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth llywodraethu allweddol ar gyfer 2026/27. Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran adolygu'r llinell sicrwydd gyntaf a'r ail linell sicrwydd, mae cwblhau fframwaith mapio sicrwydd Cyngor cyfan yn parhau'n flaenoriaeth. Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth y Cyngor ymateb i ymchwiliad gan reoleiddiwr mewn perthynas â swyddogaethau Rheolaeth Adeiladu. Sefydlwyd trefniadau llywodraethu a throsolwg mwy cadarn i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion statudol er mwyn cryfhau rheolaeth fewnol. Ni nodwyd unrhyw faterion llywodraethiant sylweddol yn ystod y flwyddyn.

Datganiadau'r Swyddogion Statudol

Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig



Dylan Williams
Prif Weithredwr

"Fel Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn, rydw i'n ymfalchïo yn y ffaith ein bod ni'n sicrhau bod gennym drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith er mwyn cynnal tryloywder, atebolrwydd a safonau gwasanaeth cyhoeddus o'r radd flaenaf.

Mae fy rôl yn cynnwys darparu arweiniad a chyfarwyddyd strategol i'r sefydliad, gan weithio'n agos ag aelodau etholedig, swyddogion a phartneriaid. Rwyf yn fodlon bod gennym fframwaith llywodraethu cadarn, ffaith a ddilyswyd eleni yn sgil y sicrwydd annibynnol a dderbyniwyd fel rhan o'n Asesiad Perfformiad Panel statudol. Er hynny, nid ydym yn aros yn ein hunfan. Mae llywodraeth leol yn parhau i wynebu galw digynsail ac rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â hyn trwy ddatblygu Cynllun Strategol Moderneiddio trawsbynciol.

Trwy ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid, rydym wedi meithrin diwylliant o gyfathrebu agored a gwelliant parhaus. Rwyf yn ffyddiog bod ein trefniadau llywodraethu'n darparu'r sylfaen gref sydd ei hangen i wireddu ein hamcanion strategol, addasu i heriau yn y dyfodol a chyflawni ein cyfrifoldebau i drigolion Ynys Môn."

Swyddog Adran 151



Marc Jones
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)

"Fel Swyddog Adran 151, mae'n gyfrifoldeb statudol arnaf i gynnal trosolwg o reolaeth ariannol y Cyngor a sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn effeithlon.

Rydw i'n falch fod rheolaethau ariannol craidd a fframweithiau rheoli risg strategol y Cyngor yn parhau i weithredu yn hynod effeithiol, gan ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer stiwardiaeth ariannol. Mae cywirdeb eithriadol o gryf trafodion yn tystio i hyn, ynghyd â'r sicrwydd annibynnol a ddarparwyd gan ein harchwilwyr mewnol ac allanol.

Fodd bynnag, mae sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor yn parhau'n her sylweddol. Mae dibyniaeth ar setliadau ariannol am flwyddyn ar y tro, ynghyd â phwysau economaidd parhaus, yn parhau i gyfyngu ar gynllunio ariannol hirdymor manwl iawn. Er gwaethaf hyn, trwy gynllunio ariannol tymor canolig diwyd, rheolaeth gyllidebol ddisgybledig a'n hymrwymiad i drawsnewid gwasanaethau, rydw i'n hyderus bod ein trefniadau llywodraethu yn diogelu adnoddau'r Cyngor ac yn cefnogi rheolaeth ariannol ddarbodus a gwydn."

Swyddog Monitro



Lynn Ball
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) /

"Fel Swyddog Monitro, un o fy mhrif swyddogaethau yw gweithio'n agos ag aelodau etholedig a swyddogion i hyrwyddo llywodraethu da, sicrhau penderfyniadau cyfreithlon a chynnal y Cyfansoddiad ar draws y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn cynnal fframwaith llywodraethu cadarn ac rydym yn mynd ati'n fwriadol i sicrhau bod ein diwylliant gwaith yn adlewyrchu'r gofynion hynny ac yn hyrwyddo atebolrwydd, tryloywder ac uniondeb ein penderfyniadau democrataidd.

Eleni, rydym wedi parhau i fireinio ein trefniadau cyfansoddiadol i sicrhau eu bod yn parhau'n hyblyg ac addas i bwrpas. Mae meithrin safonau uchel o ymddygiad moesegol a sicrhau fod y Cyngor yn barod ar gyfer fframweithiau statudol newydd, megis Deddf Caffael 2023 a gwydnwch diogelu data parhaus, yn hanfodol. Rydw i'n fodlon bod ein trefniadau llywodraethu'n darparu'r mesurau diogelu cyfreithiol a moesegol angenrheidiol i ganiatáu'r Cyngor gyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol ac yn gyfreithiol."

Pennaeth Archwilio Mewnol



Marion Pryor

"Fel Pennaeth Archwilio a Risg, fy swyddogaeth statudol yw darparu barn flynyddol annibynnol a gwrthrychol ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor. Yn seiliedig ar y gwaith archwilio mewnol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, mae fy nghasgliad ffurfiol fel a ganlyn:

Ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, barn Pennaeth Archwilio a Risg Cyngor Sir Ynys Môn yw bod gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Er nad wyf yn ystyried bod pryder corfforaethol sylweddol ynglŷn ag unrhyw feysydd, mae angen cyflwyno neu wella rheolaethau mewnol mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni, a'u bod yn cael eu monitro. Mae hon yn farn ddiamod."

Materion llywodraethu a nodwyd

Cynnydd mewn perthynas â'r Materion Llywodraethu a nodwyd y llynedd

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r materion llywodraethu a nodwyd y llynedd ac yn cynnwys diweddariad ar gynnydd:

Materion llywodraethu a nodwyd	Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol	Diweddariad ar gynnydd	Statws CAMG
1. Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn bodloni gofynion y ddeddf Caffael newydd, sef Deddf Caffael 2023	Adnoddau	Mae'r Cyngor wedi parhau i roi'r Cynllun Gwella Caffael ar waith, er gwaethaf heriau cychwynnol wrth recriwtio i'r swydd Rheolwr Caffael. Mae trefniadau dros dro wedi sicrhau parhad, gyda staff asiantaeth yn cefnogi'r gwaith o wireddu'r cynllun gweithredu, tra bod polisïau a gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru yn unol â gofynion Deddf Caffael 2023. Cyflwynwyd hyfforddiant ar draws yr Awdurdod hefyd, er mwyn cryfhau dealltwriaeth a chydymffurfiaeth staff. Mae penodi Rheolwr Caffael parhaol, sydd yn y swydd ers Ebrill 2026, yn darparu capasiti ychwanegol i ddatblygu caffael ymhellach ar draws y Cyngor. Cymeradwyodd y Cyngor gynnydd yng nghyllideb y Tîm Caffael yn 2026/27 er mwyn cyflogi aelod ychwanegol o staff a buddsoddi mewn systemau caffael fydd yn sicrhau gwell cydymffurfiaeth, gwell gwybodaeth reoli, gwell rheolaeth o berfformiad contractau a gwell rheolaeth ac adrodd ar werth cymdeithasol a buddion cymunedol. Er bod cynnydd yn arafach na'r disgwyl, dengys y gweithredoedd hyn fod y sylfeini allweddol yn cael eu sefydlu er mwyn gwreiddio arferion caffael sydd yn gyson ac yn cydymffurfio â'r gofynion ar draws y Cyngor.	Ar ei hôl hi
2. Mae angen i'r Cyngor ymateb i heriau a nodwyd mewn perthynas â chynllunio'r gweithlu, gan gynnwys ei broffil oedran mewn rhai gwasanaethau	Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer	Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd cadarnhaol wrth ymateb i heriau cynllunio'r gweithlu, yn enwedig wrth fynd i'r afael â phwysau'n gysylltiedig â recriwtio a chadw mewn gwasanaethau allweddol. Cyflwynwyd dull recriwtio wedi'i dargedu drwy'r Rhaglen Denu Talent, rhan o Gynllun Dyfodol Môn, ac mae wedi bod ar waith yn llwyddiannus am ddwy flynedd yn olynol. Mae'r cynllun hwn wedi	Wedi'i gwblhau ar gyfer 2025/26. Ystyrir fod y broses

Materion llywodraethu a nodwyd	Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol	Diweddariad ar gynnydd	Statws CAMG
a phroblemau recriwtio a chadw mewn eraill.		cryfhau'r cyflenwad o weithwyr yn y dyfodol trwy ddenu pobl ifanc o'r chweched dosbarth, colegau a phrifysgolion ac mae nifer wedi mynd ymlaen i gael swyddi gyda'r Cyngor neu fynegi diddordeb mewn gyrfaoedd mewn meysydd megis gwaith cymdeithasol yn y dyfodol. Bydd y Tîm Dysgu a Datblygu'n parhau i ddatblygu'r dull hwn yn ystod 2026, ar y cyd â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynorthwyo i gynnal capasiti'r gweithlu a gwneud y Cyngor yn gyflogwr mwy deniadol. Mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu system fwy strwythuredig ar gyfer cynllunio'r gweithlu trwy gyswllt rheolaidd rhwng Adnoddau Dynol, Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr Busnes, gan sicrhau fod heriau'n gysylltiedig â'r gweithlu'n cael eu hadolygu fel mater o drefn a'u hadrodd i'r Tîm Arweinyddiaeth. Ochr yn ochr â hyn, lansiwyd y Rhaglen Graddedigion Dyfodol Môn, ac mae'r garfan gyntaf o raddedigion wedi cael eu penodi mewn sawl maes proffesiynol allweddol, gan gynnwys cyfrifeg, peirianneg a datblygu economaidd. Bydd y rhaglen yn parhau yn ystod 2026, gan barhau i ddarparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau arbenigol yn fewnol a chefnogi cynllunio olyniaeth. Gyda'i gilydd mae'r gweithredoedd hyn yn dangos bod gan y Cyngor agwedd ragweithiol a chynaliadwy tuag at dyfu ei weithlu ei hun a mynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw yn y tymor hwy.	bellach yn rhan o drefniadau busnes arferol.
3. Mae'n rhaid i'r cyngor reoli a rhesymoli asedau er mwyn sicrhau bod galw amdanynt a'u bod yn addas i'r diben, ac os nad ydynt yn addas i'r diben, adnabod y gwaith sydd angen ei wneud i sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau.	Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Mae'r Cyngor wedi rhoi gweithredoedd ar waith i gryfhau rheolaeth a chynaliadwyedd hirdymor ei asedau, gan gynnwys datblygu a mabwysiadu'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau, y Cynllun Strategol Rheoli Mân-ddaliadau, gyda chymorth cyllid unwaith ac am byth, a pharhau i weithredu'r System Reoli Cyfleusterau gyda Chymorth Cyfrifiadur. Mae'r swyddogaethau craidd bellach yn weithredol, ac mae gwelliannau pellach ar y gweill er mwyn gwella data asedau, monitro ac integreiddio â systemau eraill y cyngor.	Ar ei hôl hi

Materion llywodraethu a nodwyd	Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol	Diweddariad ar gynnydd	Statws CAMG
		Mae asedau ffisegol y Cyngor yn cael eu cydnabod fel risg strategol ac maent yn destun trosolwg strategol, gan sicrhau eu bod yn cael eu llywodraethu a'u blaenoriaethu'n briodol. Er bod y datblygiadau hyn yn darparu sylfaen gref ar gyfer rheoli asedau yn well, megis dechrau mae'r gwaith o resymoli asedau'r Cyngor a bydd angen gwella ansawdd data a systemau mwy aeddfed er mwyn llywio penderfyniadau yn y dyfodol. Cydnabyddir hefyd y bydd angen gwneud penderfyniadau strategol gwybodus ynghylch buddsoddi a blaenoriaethu er mwyn cynnal cynaliadwyedd hirdymor asedau'r Cyngor.	
4. Mae gwydnwch ariannol y Cyngor dan bwysau oherwydd yr argyfwng costau byw a gostyngiad mewn cyllid.	Adnoddau	Mae'r Cyngor wedi defnyddio dull strwythuredig a rhagweithiol i gryfhau ei wydnwch ariannol mewn ymateb i bwysau costau byw parhaus a gostyngiad mewn cyllid. Un maes allweddol y canolbwyntiwyd arno oedd gwneud y gorau o incwm allanol, a pharhau i geisio sicrhau unrhyw grantiau oedd ar gael, a chyllid cyfalaf yn arbennig. Cefnogwyd hyn trwy gyflwyno protocol ffurfiol i awdurdodi bidiau a threfniadau monitro cadarn i sicrhau fod amodau grantiau'n cael eu bodloni'n llwyr ac osgoi colli unrhyw arian. Ochr yn ochr â hyn, diweddarwyd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) a'i fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2025, gan ddarparu fframwaith strategol ar gyfer rheoli pwysau ariannol yn y dyfodol, a bwriedir ei fireinio ymhellach ar ôl cadarnhau cyllideb 2026/27. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Cyngor wedi gwireddu gwelliannau ariannol gwirioneddol trwy adnabod £975k o arbedion wrth osod cyllideb refeniw 2026/27, arian sydd wedi cael ei ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau blaenoriaeth. Mae mesurau effeithlonrwydd ehangach hefyd yn cael eu gwreiddio mewn gwasanaethau, gan gynnwys buddsoddi mewn gwelliannau digidol a gweithredol, megis systemau ffôn gwell, mwy o ddefnydd o CRM, dulliau talu diogel a thechnolegau casglu incwm. Mae arian wrth gefn yn cael ei ddyrannu i gefnogi'r cynlluniau hyn er mwyn moderneiddio gwasanaethau ac maent yn	Wedi'i gwblhau ar gyfer 2025/26. Ystyrir fod y broses bellach yn rhan o drefniadau busnes arferol.

Materion llywodraethu a nodwyd	Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol	Diweddariad ar gynnydd	Statws CAMG
		cyfrannu at ddarparu gwasanaeth yn fwy effeithlon ac effeithiol. Gyda'i gilydd mae'r gweithredoedd hyn yn dangos fod y Cyngor yn cymryd camau bwriadus i reoli pwysau ariannol wrth gynnal cynaliadwyedd gwasanaethau.	
5. Mae angen i'r Cyngor barhau i foderneiddio ei seilwaith digidol a data.	Bwrdd Digidol	Mae'r Cyngor wedi parhau i foderneiddio ei seilwaith digidol a data, a chanolbwyntio'n arbennig ar gryfhau ei alluogrwydd mewn perthynas â data. Cymeradwywyd adnoddau ychwanegol yng nghyllideb 2026/27 i sefydlu rôl Rheolwr Data, fydd yn gyfrifol am ddatblygu, sicrhau cymeradwyaeth a gweithredu Cynllun Strategol Data. Mae parhau i gyflawni'r Cynllun Strategol Digidol yn golygu fod systemau, diogelwch a gwasanaethau i gwsmeriaid wedi gwella, gan gynorthwyo i foderneiddio gwasanaethau a gwella'r defnydd o offerynnau digidol ar draws y sefydliad. Mae gwaith wedi'i dargedu wedi'i wneud hefyd i adolygu'r model Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid, a chytunwyd ar gyfleoedd gwella fydd yn llywio'r cam datblygu nesaf. Fodd bynnag, ailaseswyd y datrysiad sgwrs fôt a gynigiwyd yn flaenorol ac ni ystyrir bellach fod y dull presennol yn ymarferol a bydd opsiynau amgen yn cael eu harchwilio. Yn gyffredinol, dengys y gweithredoedd hyn gynnydd parhaus o ran trawsnewid ddigidol, wrth gydnabod bod rhai elfennau angen eu mireinio ymhellach wrth i'r rhaglen ddatblygu.	Yn unol â'r cynllun - dyddiad targed Mawrth 2027
6. Nid yw'r Cyngor yn mapio pob ffynhonnell sicrwydd	Swyddfa'r Prif Weithredwr / Digidol, Perfformiad a Moderneiddio / Adnoddau	Mae cynnydd wedi'i wneud o ran cryfhau dulliau'r Cyngor o fapio ffynonellau sicrwydd, er bod elfennau allweddol yn parhau i gael eu datblygu. Cwblhawyd gwaith yn gysylltiedig ag adolygu'r Gofrestr Risgiau Strategol, cam paratoi sylfaenol ar gyfer sefydlu dull mapio sicrwydd cadarn a chydlynus. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Grŵp Llywodraethu a sefydlwyd yn ddiweddar wedi dechrau cyflawni rôl gydgordio ac mae'n gyfrifol am adolygu llinellau sicrwydd y Cyngor fel rhan o'i raglen ehangach, sydd yn cynnwys prosesau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, y Cod Llywodraethu Lleol a'r Adroddiad Hunanasesu a Pherfformiad (Llesiant).	Ar ei hôl hi

Materion llywodraethu a nodwyd	Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol	Diweddariad ar gynnydd	Statws CAMG
		Mae gwaith wedi dechrau ar y llinellau cyntaf ac ail, yn dilyn cwblhau'r Gofrestr Risgiau Strategol. Mae cynnydd yr ymarfer mapio sicrwydd wedi bod yn arafach na'r disgwyl ac mae'n parhau i fod tu ôl i'r amserlen. Mae disgwyl i'r Grŵp Llywodraethu ddatblygu'r gwaith hwn yn ystod 2026/27 pan fydd gwaith mapio ffynonellau sicrwydd cynhwysfawr a systematig yn cael ei wneud ar draws y Cyngor. Bydd y gweithredoedd hyn yn bwysig i gryfhau trosolwg, gwella trefniadau llywodraethu a darparu darlun mwy eglur o sut mae risgiau'n cael eu rheoli ar draws y sefydliad.	

Gwaith llywodraethu nodedig arall a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn

Asesiad Perfformiad Panel

Ym mis Tachwedd 2025, comisiynodd y Cyngor Asesiad Perfformiad Panel (APP) statudol trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Roedd yr adolygiad cymheiriaid annibynnol yn darparu sicrwydd lefel uchel, cadarn ynglŷn â pherfformiad, capasiti a threfniadau llywodraethu cyffredinol y Cyngor. Amlygodd y Panel nifer o gryfderau ar draws y sefydliad ond cyhoeddodd wyth o argymhellion hefyd i sicrhau fod y Cyngor yn parhau i foderneiddio a chynnal ei wydnwch. Er mwyn sicrhau aliniad strategol rhwng yr adolygiad cymheiriaid allanol a'r hunanasesiad mewnol, mae argymhellion llywodraethu penodol yr APP wedi cael eu hymgorffori'n uniongyrchol yng Nghynllun Gweithredu Materion Llywodraethu a Nodwyd y Cyngor ar gyfer 2026/27.

Materion Llywodraethu a Nodwyd 2025/26

Er nad yw'r un o'r materion yn cyrraedd trothwy 'materion llywodraethu sylweddol', fel y diffinnir hynny yng nghanllawiau CIPFA, nodwyd rhai meysydd llywodraethu i'w gwella. Maent yn adlewyrchu'r risgiau a'r gwendidau mewn rheolaethau a nodwyd drwy waith archwilio mewnol, adolygiadau allanol a fframwaith sicrwydd ehangach y Cyngor ac maent yn destun monitro parhaus fel rhan o drefniadau llywodraethu'r Cyngor.

Dalier Sylw: I osgoi dyblygu mae'r risgiau perfformiad gweithredol, strategaethau economaidd a phrosiectau moderneiddio gwasanaeth yn cael eu monitro drwy adroddiad Hunanasesu a Pherfformiad (Llesiant) statudol y Cyngor. Mae'r materion isod y mae'r Cyngor yn cadw llygaid arnynt yn ymwneud yn uniongyrchol ag amgylchedd rheoli mewnol y Cyngor, cydymffurfiaeth statudol, trefniadau llywodraethu a adolygwyd gan gymheiriaid a fframweithiau sicrwydd.

Materion llywodraethu a nodwyd	**Camau gwella a nodwyd**	**Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol**	**Beth fydd yn digwydd os nad ydynt yn cael eu cyflawni?**	**Erbyn Pryd**
1. Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau trefniadau caffael a rheoli contractau effeithiol sy'n bodloni'r gofynion.	• Rhoi ar waith y gweithredoedd a gytunwyd o'r Cynllun Strategol Caffael nad ydynt wedi cael eu gweithredu eto. • Datblygu a Gweithredu Strategaeth Gwerth Cymdeithasol i sicrhau bod Gwerth Cymdeithasol yn cael ei gynnwys yn gyson ac yn ystyrlon mewn prosesau caffael. • Datblygu a gweithredu Polisi Rheoli Contractau sydd yn amlinellu sut y dylid rheoli contract ar sail ei broffil risg.	Adnoddau	• Gallai methu â chydymffurfio arwain at ddirwyon, camau cyfreithiol a chraffu gan reoleiddwyr • Niweidio enw da'r Cyngor • Methiant gwasanaeth posib • Methu â chyflawni nodau gwerth cymdeithasol ehangach	Mawrth 2029
2. Mae'n rhaid i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau	• Cwblhau'r ymarfer mapio sicrwydd ar gyfer y Cyngor	Grŵp Llywodraethu /	• Llai o sicrwydd ynghylch trefniadau llywodraethu	Mawrth 2027

Materion llywodraethu a nodwyd	Camau gwella a nodwyd	Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol	Beth fydd yn digwydd os nad ydynt yn cael eu cyflawni?	Erbyn Pryd
sicrwydd a'i drefniadau rheoli sicrwydd ar gyfer Gwasanaethau	• Gweithredu cynllun gwella rheoli risgiau ar lefel gwasanaethau er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n gyson ym mhob gwasanaeth.	Swyddfa'r Prif Weithredwr / Adnoddau	• Anghysonderau wrth reoli risgiau • Risg uwch o ran darparu gwasanaethau	
3. Mae'n rhaid i'r Cyngor gryfhau gwydnwch Llywodraethu Gwybodaeth mewn perthynas â chydymffurfio statudol a chapasiti	• Cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth tor-diogelwch data wedi'i dargedu i staff er mwyn atgyfnerthu diwylliant adrodd mewnol • Sefydlu model capasiti hirdymor, cynaliadwy ar gyfer y rôl Swyddog Diogelu Data Ysgolion	Busnes y Cyngor / Dysgu	• Achosion o dor-diogelwch data heb eu lliniaru yn arwain at ddirwyon difrifol o dan ddeddfwriaeth GDPR y DU a niweidio enw da'r Cyngor. • Un pwynt methiant ar gyfer goruchwylio diogelu data statudol mewn ysgolion	Mawrth 2027
4. Mae'n rhaid i'r Cyngor gryfhau ei swyddogaeth Sgriwtini er mwyn ymateb yn effeithiol i flaenoriaethau'r sefydliad	• Cryfhau'r rhaglen datblygu aelodau fel rhan o'n proses gynefino ar gyfer aelodau yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol yn 2027. • Adolygu trefniadau llywodraethu sgriwitni ac ystyried sut y gellir craffu'n well ar faterion economaidd.	Busnes y Cyngor	• Trosolwg a her ddemocrataidd aneffeithiol o benderfyniadau'r pwyllgor gwaith • Methu â dal y sefydliad i gyfrif am ganlyniadau economaidd a strategol	Mehefin 2027
5. Mae'n rhaid i'r Cyngor fireinio ei fframwaith Monitro Perfformiad	• Adolygu'r fframwaith monitro perfformiad i gryfhau sicrwydd trwy fonitro ac	Swyddfa'r Prif Weithredwr / Digidol,	• Diffyg cyswllt rhwng gweithredoedd dydd i ddydd a nodau strategol hirdymor	Gorffennaf 2027

Materion llywodraethu a nodwyd	Camau gwella a nodwyd	Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol	Beth fydd yn digwydd os nad ydynt yn cael eu cyflawni?	Erbyn Pryd
	adrodd yn effeithiol ar gynnydd yn erbyn Cynllun y Cyngor a Chynlluniau Strategol • Cryfhau'r cyswllt rhwng y maes rheoli risg, rheolaeth ariannol a monitro perfformiad. • Sicrhau fod cynlluniau strategol yn llywio datblygiad amcanion strategol a dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer y Cynllun y Cyngor nesaf (o 2028)	Perfformiad a Moderneiddio / Adnoddau	• Dyrannu adnoddau i feysydd nad ydynt yn cael fawr o effaith • Y Pwyllgor Gwaith yn gwneud penderfyniadau strategol diffygiol	
6. Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Rheolau Safonau Gweithredol (Cymru) 2024 mewn perthynas â swyddogaethau Rheolaeth Adeiladu, yn dilyn ymchwiliad rheoleiddio gan Weinidogion Cymru.	• Gweithredu a monitro'r camau gweithredu a gytunwyd, gan gynnwys cryfhau trefniadau llywodraethu a throsolwg drwy'r Grŵp Ymateb Rheolaeth Adeiladu	Rheoleiddio a Datblygu Economaidd / Grŵp Ymateb Rheolaeth Adeiladu	• Gallai methu â chydymffurfio arwain at ymyrraeth barhaus gan reoleiddwyr, mwy o risgiau cyfreithiol a diogelwch, a niweidio enw da'r Cyngor	Rhagfyr 2026

Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym wedi ein cynghori ynglŷn ag oblygiadau canlyniad yr adolygiad o effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ar sail y sicrwydd a ddarparwyd drwy'r Adolygiad o Effeithiolrwydd a barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol, a bod y trefniadau yn parhau i gael eu hystyried yn addas i bwrpas yn unol â'r fframwaith llywodraethu. Mae'r meysydd sydd eisoes wedi cael sylw a'r rhai fydd yn derbyn sylw penodol trwy gamau gweithredu newydd sydd ar y gweill yn cael eu hamlinellu yn y ddogfen.

Er nad oes unrhyw faterion yn cyrraedd trothwy 'materion llywodraethu sylweddol', nodwyd rhai meysydd llywodraethu sydd angen eu gwella ac rydym yn bwriadu cymryd camau priodol i fynd i'r afael â nhw a gwella ein trefniadau llywodraethu a sicrwydd ymhellach yn ystod y flwyddyn nesaf.

Byddwn yn monitro gweithrediad y gwelliannau trwy'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

Ar ran Cyngor Sir Ynys Môn





Y Cynghorydd Gary Pritchard
Arweinydd, Cyngor Sir Ynys Môn
Medi 2026

Dylan Williams
Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ynys Môn
Medi 2026

Atodiad 1

Cod Rheolaeth Ariannol CIPFA (2019)

Dyluniwyd Cod Rheolaeth Ariannol CIPFA (2019) i gefnogi arfer dda yn y maes rheolaeth ariannol a chynorthwyo awdurdodau lleol i arddangos eu cynaliadwyedd ariannol yn yr hirdymor. O dan y Cod, mae'n ofynnol i gynghorau ddangos eu bod yn cydymffurfio'n barhaus â chwe egwyddor graidd: Arweinyddiaeth, Atebolrwydd, Tryloywder, Safonau Proffesiynol, Sicrwydd a Chynaliadwyedd.

Yn dilyn ei ddatganiad gwreiddiol ei fod yn cydymffurfio'n llawn yn 2022, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol trwy adolygiad mewnol parhaus a chraffu allanol cadarn. Yn ystod 2025/26, profwyd gwydnwch ariannol y Cyngor mewn dau adolygiad allanol ac un adolygiad Archwilio Mewnol perthnasol:

- Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol Archwilio Cymru: Daethpwyd i'r casgliad bod y Cyngor yn cynnal trefniadau da i ymateb i heriau ariannol yn y tymor byr a'r tymor canolig. Er bod Archwilio Cymru yn argymell ffurfioli strategaethau ariannol hirdymor, nododd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ffurfiol bod cynllunio ariannol hirdymor manwl iawn yn parhau i gael ei gyfyngu yn ei hanfod gan ddibyniaeth Llywodraeth Cymru ar setliadau cyllido am flwyddyn yn unig.
- Asesiad Perfformiad Panel Annibynnol (Tachwedd 2025): I liniaru cyfyngiadau setliadau blwyddyn yn unig a chryfhau egwyddor 'Cynaliadwyedd' y Cod Rheolaeth Ariannol, roedd y Panel yn argymell datblygu Cynllun Moderneiddio trawsbynciol wedi'i alinio'n agos â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC). Mae hyn yn sicrhau fod adnoddau'n cael eu blaenoriaethu'n effeithlon i gwrdd â bylchau ariannu yn y dyfodol ac mae bellach yn flaenoriaeth sy'n cael ei fonitro'n ffurfiol yng Nghynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2026/27.
- Archwilio Mewnol - 'Rheolaeth Ariannol: monitro cyllidebau a llunio rhagolygon': Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod "trefniadau'r cyngor ar gyfer rheoli cyllidebau, llunio rhagolygon ariannol a monitro perfformiad yn gweithio'n effeithiol". Mae'r adroddiad yn amlygu "rhai meysydd i'w gwella mewn perthynas â darparu hyfforddiant a dargedir ar gyfer swyddogion y mae cyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo iddynt am gyllidebau, tracio gweithredoedd cyfarfodydd y Panel Sgriwtini Adnoddau ac opsiynau i wella gwybodaeth monitro ariannol, sydd yn cynnig cyfle i gryfhau'r trefniadau presennol".

Casgliad Statudol:

O ystyried y rheolaethau mewnol ac adolygiadau diweddar gan gymheiriaid allanol, mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn cadarnhau bod y Cyngor yn cymryd camau rhagweithiol i reoli ei bwysau ariannol tymor canolig, ei fod yn cynnal fframwaith cadarn o reolaethau mewnol a'i fod yn arddangos cydymffurfiaeth ag egwyddorion craidd Cod Rheolaeth Ariannol CIPFA, ac mae camau gweithredu parhaus ar waith i gryfhau trefniadau ymhellach lle nodwyd cyfleoedd gwella.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Cyngor Sir Ynys Môn

Blwyddyn archwilio: 2025-26

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2026

Cyfeirnod y ddogfen: 5461A2026



Cynnwys

Cynnwys	2
Cyflwyniad	4
Cipolwg ar eich archwiliad	5
Perthnasedd	6
Canfyddiadau Archwilio	7
Tîm archwilio a chydymffurfio moesegol	10
Atodiad 1 – Risgiau archwilio a'r canlyniadau	12
Atodiad 2 – Crynodeb o gywiriadau a wnaed	17
Atodiad 3 – Adroddiad archwilio arfaethedig	23
Atodiad 4 – Llythyr sylwadau	28
Ansawdd archwilio	31
Eich cefnogi chi	32

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru'n derbyn unrhyw atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth ar y ddogfen hon nac unrhyw ddefnydd arall ohoni gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu cyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu drwy anfon neges e-bost i post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cyflwyniad



Catherine Mealing-Jones

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru sydd newydd ei benodi, mae'n bleser gennyf rannu fy Adroddiad Archwilio Cyfrifon. Mae'r Adroddiad yn crynhoi prif ganfyddiadau fy archwiliad o'ch adroddiad blynyddol a chyfrifon ar gyfer 2025-26. Mae fy nhîm eisoes wedi trafod y canfyddiadau hyn gyda'r Rheolwr Gwasanaethau Cyllid.

Mae fy nhîm wedi cwblhau'r gwaith archwilio yn unol â nodwyd yn fy Nghynllun Archwilio dyddiedig Mai 2026.

Ers fy Nghynllun Archwilio, rwyf wedi diweddaru perthnasedd i adlewyrchu cyfrifon 2025-26. Nid wyf wedi adnabod unrhyw risgiau archwilio newydd. Caiff fy ymateb i risgiau a adnabuwyd yn flaenorol ei nodi yn **Atodiad 1.**

Mae'n ofynnol i mi ddarparu barn pa un a yw'r cyfrifon wedi cael eu paratoi'n briodol, a pha un a ydynt yn rhoi darlun gwir a theg, ym mhob agwedd berthnasol. Caiff fy marn archwilio arfaethedig a'r sail drosti ei hamlinellu ar dudalen 24.

Cyfrifoldeb y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu h.y. y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn fy adroddiad a darparu Llythyr Sylwadau ar fy nghyfer.

Hoffwn estyn fy niolchgarwch i swyddogion a staff Cyngor Sir Ynys Môn am eu cydweithrediad trwy gydol y broses archwilio sydd wedi bod yn amhrisiadwy i allu cwblhau'r archwiliad hwn yn effeithiol.

Cipolwg ar eich archwiliad



Rydym yn bwriadu cyhoeddi **barn ddiamod** ar y cyfrifon

Gweler **Atodiad 3**



Nid oes **materion arwyddocaol eraill** i'w nodi.

Gweler y **Canfyddiadau archwilio**



Mae **un gamddatganiad heb eu cywiro** yn y cyfrifon [yr ydym yn dymuno eu dwyn i'ch sylw

Gweler y **Canfyddiadau archwilio**



Rydym yn anelu at ardystio eich cyfrifon ar **29 Medi 2026**, sydd cyn y terfyn amser sef **30 Medi 2026**.

Perthnasedd

Rwy'n defnyddio barn proffesiynol i bennu trothwy perthnasedd i adnabod a chywiro camddatganiadau a allai effeithio ar benderfyniadau defnyddwyr, gan ystyried gwallau ariannol a gofynion datgelu yn ôl y fframwaith cyfrifyddu a'r cyfreithiau perthnasol. Mae fy nhîm yn diweddaru perthnasedd trwy gydol yr archwiliad ac yn yr adroddiad hwn rwy'n cynnwys materion sy'n mynd y tu hwnt i'm trothwy adrodd, a nodir isod.

Perthnasedd

Pennwyd lefel perthnasedd o 1% o wariant gros yn seiliedig ar ddatganiadau ariannol drafft 2025-26.

£3.253 miliwn

Trothwy adrodd (dibwys)

Pennwyd lefel perthnasedd o 5%.

£0.162 miliwn

Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon. Rydym yn cadarnhau lefelau perthnasedd is ar gyfer y rhain:

Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol

£1,000
(neu i'r band cywir agosaf)

Datgeliadau partïon cysylltiedig

£10,000 (yn ymwneud ag unigolion)

Canfyddiadau Archwilio

Camddatganiadau

Mae camddatganiad yn codi lle nad yw gwybodaeth yn y cyfrifon yn unol â safonau cyfrifeg.

Nodwyd rhai gamddatganiadau yn y cyfrifon.

Camddatganiadau nas cywirwyd

Mae'r cynllun Tai i mewn i Gartrefi yn fenter gan Lywodraeth Cymru lle mae'r Cyngor yn derbyn cyllid benthyciad gan Lywodraeth Cymru ac yna'n rhoi benthyciadau i berchnogion eiddo i gefnogi'r gwaith o adfer tai yn yr ardal.

Yn nhermau cyfrifyddu, mae asiant yn gweinyddu trafodion ar ran parti arall ac nid yw fel arfer yn ysgwyddo'r prif risgiau neu fuddion ariannol. Mewn cyferbyniad, pennaeth sy'n gyfrifol am y trafodiad ac yn cydnabod yr asedau, rhwymedigaethau, incwm a gwariant cysylltiedig lle mae'n rheoli'r hawliau a'r rhwymedigaethau.

Mae ein hadolygiad o'r cytundeb sylfaenol yn dangos bod sylwedd y cynllun yn gyson â'r Cyngor yn gweithredu fel pennaeth, yn hytrach nag fel asiant, gan fod y Cyngor yn ysgwyddo'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â'r trefniadau benthyca a benthyca. Dylai'r driniaeth gyfrifyddu felly adlewyrchu sylwedd economaidd y trafodion a hawliau a rhwymedigaethau'r Cyngor sy'n deillio o'r benthyciadau.

Mae'r Cyngor yn cymryd rhan mewn pedwar trefniant tebyg: Tai yn Gartrefi, Benthyciadau Gwella Cartrefi, Cynllun Adnewyddu Cartrefi Gwag a Chynllun Canol Trefi. Cyflwynir y rhain yn nodyn 38, gyda chyfanswm balansau o £1.809 miliwn wedi'u datgelu mewn perthynas â'r cynlluniau.

Er y byddai sylwedd y trefniadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gydnabod benthyciad gan Lywodraeth Cymru ac yna benthyciadau cyfatebol a roddwyd i unigolion, mae'r driniaeth bresennol wedi'i chymhwyso fel trafodiad asiantaeth, gyda symiau net wedi'u cofnodi o fewn y fantolen.

Byddai sefydlu'r sefyllfa gyfrifyddu gywir yn gofyn am adolygiad manwl o gytundebau benthyciadau hanesyddol, trafodion ac ad-daliadau. Mae

swyddogion wedi cynghori y byddai'r gwaith hwn yn gofyn am adnoddau sylweddol ac ni ddisgwylir iddo gael ei gwblhau cyn paratoi datganiadau ariannol 2026-27.

O ganlyniad, mae ansicrwydd o hyd ynghylch yr union cywiriad cyfrifyddu sydd ei angen. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi rhoi cadarnhad gan Lywodraeth Cymru mai gwerth gros y benthyciadau perthnasol oedd £1.55 miliwn. Ar y sail hon, rydym yn fodlon na fyddai unrhyw addasiad posibl yn berthnasol i ddatganiadau ariannol y Cyngor. O ganlyniad, nid oes unrhyw ddiwygiad wedi'i wneud i gyfrifon 2025-26, ac mae'r mater wedi'i adrodd fel camddatganiad heb ei gywiro. Rydym wedi argymell bod y Cyngor yn cynnal adolygiad manwl o'r cynllun cyn paratoi datganiadau ariannol 2026-27.

Camddatganiadau a gywirwyd

Yn ystod ein harchwiliad, canfuom rhai gamddatganiadau sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni.

Caiff y rhain eu nodi yn **Atodiad 2.**

Materion arwyddocaol eraill

Mae'r Safon Ryngwladol ar Gyfrifyddu 260 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni gyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu. Rhaid i ni roi gwybod i chi am ganfyddiadau arwyddocaol o'r archwiliad a materion eraill os ydynt yn arwyddocaol i'ch goruchwyliaeth chi ar broses adrodd ariannol Cyngor Sir Ynys Môn

Nid chanfuwyd unrhyw faterion o'r fath yn ystod yr archwiliad.

Barn archwilio arfaethedig

Barn archwilio

Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch chi wedi darparu Llythyr Sylwadau ar ein cyfer (gweler isod).

Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 3**.

Llythyr sylwadau

Llythyr ffurfiol yw Llythyr Sylwadau ac ynddo rydych yn cadarnhau wrthym ni bod yr wybodaeth a ddarparwyd ar ein cyfer yn ystod yr archwiliad yn gywir ac yn gyflawn. Mae peth o'r wybodaeth hon yn ofynnol yn ôl safonau archwilio; gall gwybodaeth arall ymwneud yn benodol â'ch archwiliad chi.

Mae'r llythyr yr ydym yn gofyn i chi ei lofnodi wedi'i gynnwys yn **Atodiad 4** mae ei gynnwys yn gyson â'n cais safonol am sylwadau

Tîm archwilio a chydymffurfio moesegol

Mae prif aelodau fy nhîm a wnaeth y gwaith archwilio, ynghyd â'u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 1**.

Arddangosyn 1: fy nhîm archwilio lleol

Arweinydd Ymgysylltu	Matthew Edwards matthew.edwards@archwilio.cymru
Rheolwr Archwilio	Rachel Freitag rachel.freitag@archwilio.cymru
Arweinydd Archwilio	David Tomalin david.tomalin@archwilio.cymru

Cydymffurfio â safonau moesegol

Rydym yn cadarnhau:

- ein bod wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol y mae'n ofynnol i ni eu dilyn wrth wneud ein gwaith;
- ein bod wedi aros yn annibynnol oddi arnoch chi;
- nad yw ein gwrthrychedd wedi cael ei beryglu; ac
- nad oes gennym unrhyw berthnasoedd a allai danseilio ein hannibyniaeth neu ein gwrthrychedd.

Secondiad staff

Fel a ddatgelwyd yn ein Cynllun Archwilio, mae un o gyflogeion Archwilio Cymru ar secondiad gyda chi. Er mwyn diogelu rhag unrhyw fygythiadau posibl i annibyniaeth a gwrthrychedd archwilwyr, mae'r cyfyngiadau canlynol yn berthnasol yn unol â Safon Foesegol Ddiwygiedig y Cyngor Adrodd Ariannol 2024:

- Ni ymgymerodd y secondai unrhyw gyfrifoldebau rheoli
- roedd y secondiad yn para am 6 mis, sydd o fewn y cyfnod uchaf o 12 mis a ganiateir gan y safon.

Atodiad 1 – Risgiau archwilio a'r canlyniadau

Mae **Arddangosyn 2** yn rhestru'r risgiau archwilio a gynhwyswyd yn fy Nghynllun Archwilio ac yn nodi sut yr aethpwyd i'r afael â hwy fel rhan o'r archwiliad.

Roedd fy Nghynllun Archwilio'n nodi'r risgiau o gamddatganiad perthnasol ar gyfer yr archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn. Mae **Arddangosyn 2** yn rhestru'r risgiau archwilio hyn ac yn nodi sut yr aethpwyd i'r afael â hwy fel rhan o'r archwiliad. Ni adnabuwyd unrhyw risgiau archwilio ychwanegol ers hynny y mae angen eu dwyn i'ch sylw atynt.

Arddangosyn 2: risgiau archwilio a adroddwyd yn flaenorol, gwaith a wnaed a'r canlyniad

Risg archwilio	Gwaith a wnaed	Canlyniad
Risg o wrthwneud gan reolwyr Mae'r risg y gallai rheolwyr wrthwneud rheolaethau'n bresennol ym mhob endid. O ystyried y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, tybir bod hon yn risg arwyddocaol [ISA 240.32-33].	Fe wnaeth y tîm archwilio: • brofi priodoldeb cofnodion siwrnalau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol; • adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer gwyrdueddiadau; a • gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion arwyddocaol y tu allan i gwrs arferol busnes.	Nid adnabu fy ngwaith unrhyw achosion o wrthwneud rheolaethau gan reolwyr.

Prisio rhwymedigaeth/gwarged net y gronfa bensiwn

Mae rhwymedigaeth cronfa bensiwn cynllun pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) fel y'i hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol yn amcangyfrif materol.

Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu ei fod yn destun lefel uchel o ansicrwydd amcangyfrif gan ei fod yn sensitif i addasiadau bach yn y rhagdybiaethau a ddefnyddir yn ei gyfrifiad.

Mae prisiad tair blynedd o'r cynllun wedi'i gynnal ar 31 Mawrth 2025, a fydd yn effeithio ar ddatgeliadau yn natganiadau ariannol y Cyngor am y tro cyntaf ym mlwyddyn ariannol 2025-26.

Mae yna hefyd sawl achos cyfreithiol a allai effeithio ar brisiad y rhwymedigaeth net.

Mae risg felly bod y rhwymedigaeth/gwarged yn cael ei gamddatgan yn sylweddol.

Fe wnaeth y tîm archwilio

- gwerthuso'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan reolwyr i'w harbenigwyr rheoli (actwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actwari;
- asesu cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd yr actwari a gynhaliodd y prisiadau;
- asesu cywirdeb a chyflawnrwydd yr wybodaeth a ddarperir gan y Cyngor i'r actwari i amcangyfrif yr rhwymedigaeth;
- profi cywirdeb rhwymedigaeth a datgeliadau net y gronfa bensiwn yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwarïaid gan yr actwari;
- asesu pa mor rhesymol yw'r tybiaethau a wnaed gan yr actwari drwy adolygu adroddiad yr actwari ymgynghorol (arbenigwr yr archwilydd) a chynnal unrhyw weithdrefnau ychwanegol sy'n ofynnol;
- ymgymryd â rhaglen waith i roi sicrwydd dros y data a ddefnyddiwyd gan yr actiwari i ymgymryd â'r prisiiad tair blynedd; ac
- asesu a allai unrhyw achosion cyfreithiol gael

Gweler atodiad 2 am fanylion fy nghanfyddiadau mewn perthynas â phrisio'r rwymedigaeth net y gronfa bensiwn.

	effaith perthnasol ar y rhwymedigaeth gyffredinol net, ac os felly, cadarnhau bod hyn wedi'i gydnabod a'i ddatgelu'n briodol yn y datganiadau ariannol.	
Prisio tir ac adeiladau Mae gwerth tir ac adeiladau a adlewyrchir yn y fantolen a'r nodiadau i'r cyfrifon yn amcangyfrifon materol. Mae'r amcangyfrif hwn yn ddarostyngedig i lefel uchel o goddrychedd, yn dibynnu ar y rhagdybiaethau arbenigol a rheoli, a gall newidiadau yn y rhain arwain at newidiadau sylweddol i brisiadau. Mae'n ofynnol i asedau gael eu hailbrisio bob pum mlynedd, ac ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 mae CIPFA wedi cyflwyno gofynion newydd ar gyfer mesur asedau yn ddilynol, gan gynnwys cymhwyso mynegeio. Bydd hyn yn cyflwyno dyfarniadau a chyfrifiadau ychwanegol i dimau cyllid eu gwneud.	Fe wnaeth y tîm archwilio; • adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd i'r prisiwr i asesu ei chyflawnrwydd; • gwerthuso cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd y prisiwr proffesiynol; • profi sampl o asedau a ail-brisiwyd yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod y sail prisio, y data allweddol a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y broses brisio yn rhesymol, a'r ailbrisiadau wedi'u hadlewyrchu'n gywir yn y datganiadau ariannol; a • adolygu'r dull a gymerwyd o gymhwyso mynegeio i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol ac yn arwain at amcangyfrif rhesymol; a; • profi'r cysoni rhwng y cyfriflyfr ariannol a'r gofrestr asedau.	Gweler **atodiad 2** am fanylion fy nghanfyddiadau mewn perthynas â phrisio tir ac adeiladau.

Tâl Uwch Swyddogion Er nad oes unrhyw newidiadau sylweddol mewn uwch swyddogion ar gyfer 2025-26, mae'r tâl a delir i uwch swyddogion yn parhau i fod yn uchel diddordeb ac yn faterol yn ôl natur. Yn ogystal, nodwyd gwallau o fewn y datgeliadau yn natganiadau ariannol 2024-25. Felly, mae risg y bydd hyd yn oed gwallau gwerth isel yn y datgeliad gallai arwain at gamddatganiad materol.	Fe wnaeth y tîm archwilio; • deall y symudiadau yn yr uwch dîm rheoli yn ystod 2025-26; • sicrhau bod y tâl a ddatgelwyd yn gyson â thystiolaeth ategol; • sicrhau bod y symiau a dalwyd yn gyson â'r rhai a gymeradwywyd gan y Cyngor; ac • sicrhau bod datgeliadau yn gyflawn yn seiliedig ar wybodaeth y tîm a'u bod wedi'u paratoi yn unol â'r gofynion.	Nid oedd fy ngwaith archwilio yn nodi unrhyw broblemau gyda'r datgeliadau sy'n ymwneud â Thâl Uwch Swyddogion.

Datgeliadau partïon cysylltiedig

Mae rhaid i'r datganiadau ariannol ddatgelu unrhyw berthynas partïon cysylltiedig ynghyd â'r trafodion a'r balansau rhwng y Cyngor a'r corff arall.

Mae gan y Cyngor lawer o berthnasau y gellid eu hystyried yn barti cysylltiedig. Mae llawer yn adnabyddus, er enghraifft, Llywodraeth Cymru fel ariannwr.

Pan fo perthnasoedd partïon cysylltiedig yn codi trwy berthnasoedd swyddogion unigol neu gynghorwyr, mae'n debygol y bydd llai o dryloywder ynghylch y perthnasoedd hyn. Mae'r trafodion o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd ac fe'u hystyrir yn faterol yn ôl eu natur.

Mae risg o gamddatganiadau perthnasol oherwydd datgeliadau anghyflawn neu anghywir, hyd yn oed pan fo'r rhain o werth cymharol isel.

Fe wnaeth y tîm archwilio:

- Adolygu proses y Cyngor ar gyfer nodi perthnasoedd partïon cysylltiedig a thrafodion a balansau cysylltiedig;
- Ymgymryd â gweithdrefnau i gadarnhau cwblhau perthnasoedd partïon cysylltiedig
- Sicrhau bod datgeliadau yn gyflawn, yn gywir, yn gyson â thystiolaeth ac yn unol â'r Cod Llywodraeth Leol.

Gweler atodiad 2 am fanylion fy nghanfyddiadau mewn perthynas â datgeliadau partïon cysylltiedig.

Atodiad 2 – Crynodeb o gywiriadau a wnaed

Yn ystod ein harchwiliad, canfuom y camddatganiadau canlynol sydd wedi'u cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni.

Gwerth y cywiriad	Maes yn y cyfrifon	Eglurhad
£9,186,000	**Mantolen** Rhwymedigaethau hirdymor eraill: Cynyddu £9,186,000 *Effeithiodd y mater hwn ar yr holl ddatgeliadau a balansau wrth gefn sy'n gysylltiedig â phensiynau. O ganlyniad, roedd angen nifer o ddiwygiadau cysylltiedig trwy gydol y cyfrifon, gan gynnwys Incwm Cynhwysfawr Arall, Datganiad Symud mewn Cronfeydd Wrth Gefn, nodiadau 4, 6, 9 a 34.*	Roedd angen cywiriadau ar draws cofnodion pensiwn IAS 19, cronfeydd wrth gefn a datgeliadau cysylltiedig ar ôl derbyn adroddiad actiwaraidd diwygiedig gan Hymans Robertson.
£7,438,000	**Nodyn 13a – Asedau Cyfredol** Anheddau Cyngor: Gostyngiad o £7,438,000 **Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu defnyddio** Cronfa Ailbrisio: Gostyngiad £7,438,000	Diwygiwyd prisiad anheddau y Cyngor i adlewyrchu eu prisiad ar 31 Mawrth 2026.
£2,705,000	**Mantolen** Credydwyr tymor byr: Cynnydd o £2,705,000	Diwygiwyd y croniad absenoldeb cronedig i sicrhau ei fod yn cael ei baratoi yn unol â'r

	Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Cost gwasanaethau: Cynnydd o £2,705,000 **Cronfeydd wrth gefn Mantolen na ellir eu defnyddio** Cyfrif addasu absenoldebau cronedig: Cynnydd o £2,705,000	Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol.
£1,267,000	**Mantolen** Dyledwyr Tymor Byr: Gostyngiad o £1,267,000 Credydwyr tymor byr: Cynnydd o £1,267,000	Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau ariannol ar gyfer sawl cronfa ymddiriedolaeth a ddatgelir yn nodyn 32. Er bod incwm, gwariant, asedau a rhwymedigaethau sylfaenol yr ymddiriedolaethau yn parhau i fod y tu allan i ddatganiadau ariannol y Cyngor, mae arian parod a ddelir ar eu rhan yn cael ei gydnabod o fewn arian parod a chyfwerth ag arian parod y Cyngor a dylid ei gyfateb â balans credydwr net. Canfu ein profion fod y balansau hyn wedi'u rhannu rhwng

		dyledwyr a chredydwyr yn hytrach na'u cyflwyno fel credydwr net, ac mae'r cywiriad yn dod â'r driniaeth yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol.
£913,000	**Mantolen** Dyledwyr Tymor Byr: Gostyngiad o £911,000 Credydwyr Tymor Byr: Gostyngiad o £4,000 **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** Gwariant rheoleiddio ac economaidd: Cynnydd o £907,000 **Datganiad Symudiadau Mewn cronfeydd wrth gefn** Balans cronfa y Cyngor: Cynnydd o £908,000 Cronfa wrth Gefn NWEAB: Gostyngiad o £913,000 Cyfrif Addasu Absenoldebau Cronedig: Gostyngiad o £5,000.	Tynnwyd balansau sy'n ymwneud â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru o ddatganiadau ariannol y Cyngor, gan eu bod bellach yn rhan o Gyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru.
£621,000	**Nodyn 13a – Asedau Angyfredol** Tir ac Adeiladau: Gostyngiad £621,000 **Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu defnyddio**	Diwygiwyd gwerth llyfr gros garejys y Cyngor i adlewyrchu eu prisiad ar 31 Mawrth 2026.

	Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio: Gostyngiad £621,000	
£616,000	**Nodyn 13a – Asedau Angyfredol** Tir ac Adeiladau: Gostyngiad £616,000 Anheddau Cyngor: Cynnydd o £616,000	Ailddosbarthwyd asedau anghyfredol i sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol.
£571,000	**Nodyn 13a – Asedau Angyfredol** Asedau PPE dan gyfraniad: Ailddosbarthu i Gerbydau, Offer ac Offer: Gostyngiad o £571,000	Roedd asedau wedi'u hailddosbarthu fel gweithredol yn ystod y flwyddyn, er eu bod yn parhau i fod yn asedau yn cael eu hadeiladu ar 31 Mawrth 2026. Diwygiwyd y dosbarthiad yn unol â hynny.
£297,000	**Nodyn 13a – Asedau Angyfredol** Asedau PPE sy'n cael eu hadeiladu: Cynnydd o £297,000 i'r ailddosbarthiad i asedau cymunedol	Cafodd ased a gyflwynwyd yn flaenorol fel ased sy'n cael ei adeiladu ei ailddosbarthu fel ased cymunedol i adlewyrchu ei statws gweithredol ar 31 Mawrth 2026.
£278,000	**Nodyn 13a – Asedau Angyfredol** Tir ac Adeiladau: Cynnydd o £278,000 **Cronfeydd wrth Gefn na ellir eu defnyddio**	Diwygiwyd y prisiad o bedwar ased a ailddosbarthwyd o 'asedau sy'n cael eu hadeiladu' i 'dir ac

	Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio: Cynnydd o £418,000 **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** Gwarged ar ailbrisio asedau anghyfredol: Gostyngiad o £140,000	adeiladau' i sicrhau eu bod yn cael eu prisio'n gywir a'u cyflwyno'n briodol yn y datganiadau ariannol.
£219,000	**Nodyn 13a – Asedau Angyfredol** Anheddau Cyngor: Gostyngiad o £219,000 Tir ac Adeiladau: Cynnydd o £219,000	Ailddosbarthwyd asedau anghyfredol i sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol.

Diwygiadau sy'n effeithio ar nodiadau datgelu

Gwerth y cywiriad	Maes yn y cyfrifon	Eglurhad
£14,616,000	**Nodyn 39 – Treth Cyngor** Dyfarnwyd y dreth gyngor i breswylwyr: Gostyngiad £14,616,000	Ychwanegwyd Gostyngiad y Dreth Gyngor a ddyfarnwyd i breswylwyr yn anghywir at enillion y dreth gyngor yn hytrach na'u didynnu ohonynt o fewn datgeliad y Dreth Gyngor. Cywirwyd y datgeliad i gyflwyno'r balans yn gywir.
£4,732,000	**Nodyn 14 – Ymrwymiadau Cyfalaf Sylweddol** Wedi cynyddu gan £4,732,000	Diwygiwyd y datgeliad ymrwymiadau cyfalaf i gynnwys dau ymrwymiad a oedd wedi'u hepgor o'r Datganiad Cyfrifon drafft.

£600,000	**Nodyn 35b – Rhwymedigaethau ariannol a ddelir gan y Cyngor** PWLB: Datgeliad Gwerth Teg Tymor Hir: Gostyngiad £600,000	Diwygiwyd y datgeliad gwerth teg ar gyfer benthyca i sicrhau bod y swm a ddatgelwyd yn cael ei nodi'n gywir.
Amrywiol	**Nodyn 32 – Trafodion Partïon Cysylltiedig** Canolfan Ucheldre - gwariant: Cynnydd o £21,000 Cylch Meithrin Llannerchymedd - gwariant: Cynnydd o £76,000 Cylch Meithrin Llannerchymedd - symiau sy'n ddyledus gan: Cynnydd o £1,000 Porthladd Rhydd Ynys Môn - Symiau sy'n ddyledus i: Cynnydd o £11,557,000	Diwygiwyd y datgeliad partïon cysylltiedig i sicrhau bod yr holl drafodion a balansau partïon cysylltiedig a nodwyd yn cael eu datgelu'n llawn ac yn gywir.
Amrywiol	Amrywiol	Gwnaed sawl mân welliant i wella eglurder i'r darllenydd a'r cyflwyniad hefyd.

Atodiad 3 – Adroddiad archwilio arfaethedig

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Sir Ynys Môn

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid, y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llifoedd Arian Parod, y Datganiad Symud ar y Cyfrif Refeniw Tai, Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasedd arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar 31 Mawrth 2026 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio datganiadau ariannol a rheoleidd-dra cyrff y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol o Gyngor Sir Ynys Môn yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cyngor Sir Ynys Môn i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26;

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllawiau.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am Gyngor Sir Ynys Môn a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg ac sy'n cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu Cyngor Sir Ynys Môn i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Sir Ynys Môn yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Sir Ynys Môn sy'n ymwneud ag:
  - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a ph'un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a ph'un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cofnodi siwrnalau anarferol;
- Cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Gyngor Sir Ynys Môn, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Sir Ynys Môn.
- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac ymgynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion siwrnalau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Sir Ynys Môn, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Catherine Mealing-Jones
Archwilydd Cyffredinol Cymru
29 Medi 2026

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd,
CF10 4BZ

Atodiad 4 – Llythyr sylwadau

Llythyr Sylwadau Terfynol

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Caerdydd
CF10 4BZ

28 Medi 2026

Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2025-26

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol (gan gynnwys y rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n cael ei harchwilio) Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 March 2026 at ddiben mynegi barn ynglŷn â'u gwirionedd a thegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni'n cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau'r rheolwyr

Cyfrifoldebau

Yr ydym ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2025-26; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gywir a theg yn unol â hwy;
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- mynediad llawn at:
    - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
    - gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
    - mynediad digyfyngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gyngor Sir Ynys Môn ac sy'n cynnwys:
    - rheolwyr;
    - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
    - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol;
- ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt;

Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data a'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i gyflawni cydnabyddiaeth, mesuriad neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae yna un camddatganiad nas cywirwyd yn y cyfrifon. Mae effaith y camddatganiad nas cywirwyd a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unol ac ar y cyd, i'r datganiadau ariannol o'u cymryd yn eu cyfanrwydd.

Sylwadau gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol gwir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyngor Sir Ynys Môn ar 28 Medi 2026.

Yr ydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) – Swyddog Adain 151
Dyddiad: 28 Medi 2026

Llofnodwyd gan:

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad: 28 Medi 2026

Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru'n un llwyr. Rydym ni'n credu bod a wnelo ansawdd archwilio â chael pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlynu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Creffir yn annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr ac mae Cadeirydd ein Bwrdd yn gweithredu fel dolen gyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth gweler ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio diweddaraf.




Ein Pobl

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- - Goruchwyliaeth ac adolygu



Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio
Dewis y tîm cywir

- Platfform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



Sicrwydd annibynnol

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y broblem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

Eich cefnogi chi

Mae gan Archwilio Cymru ystod o adnoddau i roi cymorth i graffu ar gyrff cyhoeddus Cymru, ac i'w cynorthwyo i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i bobl Cymru.

Ewch at ein gwefan i ganfod:



Ein cyhoeddiadau sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.



Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.



Offer data i'ch helpu i gael dealltwriaeth well am dueddiadau mewn gwariant cyhoeddus.



Manylion ein gwaith a'n digwyddiadau Arfer Da gan gynnwys rhannu arfer a mewnwelediadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio.



Ein cylchlythyr sy'n darparu diweddariadau rheolaidd i chi ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. ff

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad:	28 Medi 2026
Pwnc:	Diweddariad Archwilio Mewnol
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru
Awdur yr Adroddiad:	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru

Natur a Rheswm dros Adrodd:
Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gosod dyletswydd benodol ar y pwyllgor i oruchwylio trefniadau archwilio mewnol y cyngor fel rhan o'i ddyletswyddau deddfwriaethol, dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. (3.4.8.10.1)

Mae gofyn i'r pwyllgor ystyried y diweddariadau ar waith archwilio mewnol yn cynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n achosi pryder, ymatebion rheolwyr a'r camau sydd wedi eu cymryd o ganlyniad i waith archwilio mewnol. Gofynnir i'r pwyllgor ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol fel y gofynnwyd, gan gynnwys effeithlonrwydd rheoliadau mewnol a bydd yn monitro gweithrediad camau a gytunwyd arnynt. (3.4.8.10.10)

Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni gofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (sector cyhoeddus y DU) newydd, sy'n cael eu mandadu o 1 Ebrill 2025 ac maent yn cynnwys Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) yr IIA a'r Nodyn Gweithredu: Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang sector cyhoeddus y DU a Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y DU.

Mae hefyd yn cyd-fynd â'r arferion sy'n cael e hargymell ar gyfer goruchwylio archwilio mewnol, fel y nodir yn Natganiad Sefyllfa CIPFA: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu 2022.

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Safon 11.3 y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) yn gofyn i'r prif swyddog archwilio rannu canlyniadau gwasanaethau archwilio mewnol gyda'r bwrdd ac uwch reolwyr yn rheolaidd ac ar gyfer pob gweithgaredd. Yn ychwanegol at hyn, mae Safon 15.1 yn gofyn i'r prif swyddog archwilio rannu'r cyfathrebiad olaf gyda'r rheiny a all sicrhau bod y canlyniadau'r cael eu hystyried yn briodol.

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r pwyllgor, fel y mae'r sefyllfa ar 31 Awst 2026, ar yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 30 Mehefin 2026, llwyth gwaith presennol archwilio mewnol a'n blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr a chanolig wrth symud ymlaen.

2. Argymhelliad

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried:
- canlyniad gweithgareddau Archwilio Mewnol,
- y sicrwydd a ddarparwyd a'n
- blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

Diweddariad Archwilio Mewnol

Medi 2026



Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS

Pennaeth Archwilio a Risg



Cynnwys

Cynnwys _____ 1

Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf ___ 1

Monitro Parhaus - Anfonebau Dyblyg _____ 2

Cronfa Wirfoddol Ysgol Gynradd _____ 2

Cyllid Gofal Cymdeithasol Oedolion: Asesiadau Ariannol - Gofal Preswyl a Nyrsio (Adroddiad Dilynol Cyntaf) _____ 3

Gwaith ar y Gweill _____ 3

Camau Gweithredu sy'n Weddill _____ 4

Blaenoriaethau _____ 4

Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig _____ 4

Blaenoriaethau yn y Tymor Hwy _____ 4

Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r adroddiadau sicrwydd a gwblhawyd ers y cyfarfod ym mis Gorffennaf 2026, gan gynnwys y radd sicrwydd gyffredinol a nifer y materion, risgiau a chyfleoedd a godwyd.

Rydym wedi cwblhau **tri** ddarn o waith sicrwydd yn ystod y cyfnod, ac maent wedi'u crynhoi isod. Ceir trafodaeth fwy manwl arnynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad:

Teitl	Lefel Sicrwydd	Critigol	Sylweddol	Cymedrol
Monitro Parhaus - Anfonebau Dyblyg	**Rhesymol**	0	0	0
Cronfa Wirfoddol Ysgol Gynradd	**n/a**	0	0	7
Cyllid Gofal Cymdeithasol Oedolion: Asesiadau Ariannol - Gofal Preswyl a Nyrsio (Adroddiad Dilynol Cyntaf)	**Cyfyngedig**	0	2	3

Monitro Parhaus - Anfonebau Dyblyg

Sicrwydd Rhesymol	Materion / Risgiau / Cyfleoedd	
	0	Critigol
	0	Sylweddol
	0	Cymedrol

Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

A yw'r Cyngor wedi talu unrhyw anfonebau a oedd wedi cael eu talu'n barod, naill ai drwy dwyll neu mewn camgymeriad?

Cadarnhaodd ein hadolygiad bod y dulliau rheoli yn effeithiol er mwyn lleihau taliadau dyblyg.

Drwy brofi 71,000 o anfonebau gwerth £439 miliwn daethpwyd o hyd i 14 tâl dyblyg, gwerth £8,836, yn cynnwys un taliad dyblyg a oedd heb ei adnabod gwerth £2,040, ac mae trefniadau ar waith i adennill yr arian. Roedd gweddill y taliadau dyblyg wedi cael eu hadnabod gan y Tîm Taliadau a'r cyflenwyr. Yn dilyn gwiriadau pellach cafodd pariadau tebyg eu diystyru a chadarnhawyd bod y prif ddulliau rheoli a ganlyn yn gweithredu'n effeithiol:

- Gwiriadau dilysu anfonebau gan y Cynorthwywyr Taliadau yn ystod neu yn dilyn y cyfnod sganio.
- Mwy o graffu gan yr Uwch Swyddog Taliadau a Chyflogres a'r Rheolwr Cyflogres a Thaliadau.
- Bod yn gyson wrth adolygu adroddiadau Taliadau Dyblyg a Phariadau Niwlog cyn talu.

Adolygwyd y cynnydd a wnaed o ran adennill y taliadau dyblyg a gafodd eu hadnabod yn ystod profion dadansoddi data blaenorol a nodwyd bod taliadau dyblyg gwerth £94k wedi'u hadennill a bod tua £60k yn weddill ac angen camau pellach. Bydd y Tîm Taliadau yn parhau i geisio adennill y taliadau dyblyg sy'n weddill pan fo llwyth gwaith y tîm yn caniatáu.

Bydd dadansoddiad data pellach yn cael ei gynnal ar y cyd â'r Tîm Taliadau ymhen 12 mis.

Cronfa Wirfoddol Ysgol Gynradd

Ymchwiliad (nid yw gradd sicrwydd yn berthnasol)	Argymhellion	
	0	Critigol
	0	Sylweddol
	7	Cymedrol

Yn dilyn cais gan y Pennaeth, cynhaliwyd adolygiad gennym o weinyddu cronfa wirfoddol ysgol gynradd, gan nad oedd modd cyfrif am rywfaint o'r incwm.

Canfuom nad oedd incwm a gwariant arian parod wedi'u cyfrif amdanynt yn llawn ac yn briodol yn ystod y cyfnod dan sylw, gan nad oedd cofnod digidol cyflawn nac unrhyw gofnod amgen yn bodoli i dystiolaethu'r arian parod a dderbyniwyd, yr arian parod a wariwyd, na'r arian parod a gadwyd.

Ar sail yr adroddiadau a ddarparwyd i'r llywodraethwyr a'r cofnodion bancio oedd ar gael, mae swm bach o incwm arian parod heb ei gyfrif amdano. Mae absenoldeb cofnodion cyflawn yn golygu na ellir cadarnhau union faint y diffyg. Er y gallai rhywfaint o'r arian parod fod wedi'i ddefnyddio ar wariant ysgol dilys, ni ellid gwirio hyn yn ddigon cadarn oherwydd nad oedd derbynebau, cysoniadau na chofnodion ategol wedi'u cadw'n gyson.

Roedd y gwendidau a nodwyd yn cynnwys gwahanu dyletswyddau'n annigonol, cadw cofnodion yn wael, cysoni annigonol, rheolaethau gwan dros arian parod a gedwid yn y sêff, defnyddio cardiau debyd personol ar gyfer pryniannau'r ysgol, a goruchwyliaeth gyfyngedig gan y llywodraethwyr. Roedd y gwendidau hyn yn peri risg uwch i'r gronfa o wallau, colled, gwariant heb awdurdod, a chamddefnyddio arian.

Y flaenoriaeth nawr yw sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu a bod yr ysgol yn rhoi rheolaethau cadarn ar waith dros holl incwm a gwariant y gronfa wirfoddol. Mae ein hadroddiad yn gwneud saith argymhelliad i wella gweinyddiaeth y gronfa wirfoddol, ac mae cymorth wedi'i gynnig i'r ysgol wrth symud ymlaen.

Cyllid Gofal Cymdeithasol Oedolion: Asesiadau Ariannol - Gofal Preswyl a Nyrsio (Adroddiad Dilynol Cyntaf)

Gwreiddiol (Mehefin 2025)

Sicrwydd Cyfyngedig	Materion / Risgiau / Cyfleoedd	
	0	Critigol
	2	Sylweddol
	5	Cymedrol

Adolygiad Dilynol Cyntaf (Gorffennaf 2026)

Sicrwydd Cyfyngedig	Materion / Risgiau / Cyfleoedd	
	0	Critigol
	2	Sylweddol
	3	Cymedrol

Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

A yw rheolwyr wedi mynd i'r afael â'r 'Materion, Risgiau a Chyfleoedd' a godwyd yn yr adroddiad 'Sicrwydd Cyfyngedig' a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2024?

Mae cynnydd wedi cael ei wneud drwy ddarparu hyfforddiant, cryfhau trefniadau adolygu ac awdurdodi a gwella gwiriadau eiddo. Drwy newid y trefniadau ar gyfer talu cartrefi gofal preswyl fel eu bod yn derbyn taliadau gros yn hytrach na thaliadau net ar ôl didynnu cyfraniadau cleientiaid gellir cryfhau'r dull o reoli asesiadau ac adennill incwm ymhellach.

Mae risg sylweddol o hyd; ôl-groniad o ran asesiadau, achosion anghyflawn, anghysondeb o ran uwchgyfeirio, pwysau o ran capasiti ac oedi wrth adennill dyledion. Nid yw'r trefniadau'n ddigon cyson eto i'n galluogi i gynyddu'r raddfa sicrwydd ac felly mae'r raddfa **Sicrwydd Cyfyngedig** yn parhau mewn grym.

Bwriedir cynnal adolygiad dilynol pellach ym mis Rhagfyr 2026.

Mae'r Pennaeth Gwasanaeth a'r aelodau portffolio perthnasol wedi cael eu gwahodd i'r cyfarfod i drafod yr adroddiad a'r cynllun gweithredu.

Gwaith ar y Gweill

Mae'r gwaith canlynol ar y gweill ar hyn o bryd:

Maes	Rheswm dros yr Archwiliad	Cam
Rheoli Coed ym Meddiant y Cyngor	Blaenoriaeth Strategol Archwilio Mewnol 2026-27	Adroddiad drafft
Rheolaeth Ariannol mewn Ysgolion	Blaenoriaeth Strategol Archwilio Mewnol 2025-26	Gwaith Maes
Archwiliad TG: Rheoli Asedau Strategol TG	Cofrestr Risgiau Strategol (YM3)	Oedi
Rheoleiddio ac Economaidd	Ymchwiliad - ar gais y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151	Gwaith Maes
Cynllun Treth y Diwydiant Adeiladu	Blaenoriaeth Strategol Archwilio Mewnol 2026-27	Gwaith Maes
Diogelu mewn perthynas â Chludiant Ysgol	Ar gais Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu ac Ansawdd Ymarfer)	Gwaith Maes
Digartrefedd a defnyddio llety dros dro	Blaenoriaeth Strategol Archwilio Mewnol 2026-27	Gwaith Maes
Monitro Parhaus - y Gyflogres	Blaenoriaeth Strategol Archwilio Mewnol 2026-27	Gwaith Maes
Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	Trydydd Adolygiad Dilynol	Gwaith Maes
Cardiau Prynu corfforaethol	Blaenoriaeth Strategol Archwilio Mewnol 2026-27	Cwmpas wedi'i gytuno
Diogelu mewn perthynas â Chyrff Llywodraethu Ysgolion	Ar gais y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro	Pennu Cwmpas

Camau Gweithredu sy'n Weddill

Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi gwasanaethau i fynd i'r afael â'r holl 'Faterion, Risgiau a Chyfleoedd' a godwyd, a rhoi'r holl gamau gweithredu sy'n weddill ar waith.

Cyflwynir adroddiad ar wahân i'r cyfarfod hwn sy'n manylu ar y camau sy'n weddill.

Blaenoriaethau

Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig

Mae ein gwaith presennol i'w weld yn yr adran Gwaith ar y Gweill yn gynharach yn yr adroddiad. Mae'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2026-27 yn mynd rhagddo'n dda.

Mae gwaith yn parhau ar Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2025-2028.

Blaenoriaethau yn y Tymor Hwy

Mae gofynion y safonau archwilio mewnol newydd, sef y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU, yn parhau i gael eu gweithredu.

CYNGOR SIR YNYS MÔN		
Adrodd i:	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio	
Dyddiad:	28 Medi 2026	
Pwnc:	Materion, Risgiau a Chyfleoedd Archwilio Mewnol sy'n weddill	
Pennaeth Gwasanaeth:	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru	
Awduron yr Adroddiad:	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru	Nanette Williams Prif Archwilydd NanetteWilliams@ynysmon.llyw.cymru
Natur a Rheswm dros Adrodd: Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sy'n gosod y dyletswyddau cyfreithiol y mae'n rhaid i bwyllgor archwilio o fewn cyngor eu cyflawni, yn enwedig o ran goruchwylio trefniadau archwilio mewnol yr awdurdod. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cyflwyno cyfrifoldeb ar y pwyllgor i fonitro'r gwaith o weithredu camau cytunedig (3.4.8.10.10). Mae'r adroddiad hwn yn darparu diweddariad ar statws y materion, risgiau a chyfleoedd sy'n weddill y tynnwyd sylw atynt yn ystod yr Archwiliad Mewnol. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) newydd yn Sector Cyhoeddus y DU, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r prif weithredwr archwilio sefydlu methodoleg i gadarnhau bod rheolwyr wedi gweithredu ar argymhellion archwiliadau mewnol neu gynlluniau gweithredu rheoli. Mae hyn yn cynnwys ymholi am gynnydd ar weithredu, cynnal asesiadau dilynol gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg, a diweddaru statws y gweithredoedd rheoli mewn system olrhain (Safon 15.2). Mae trefniadau dilynol presennol Archwilio Mewnol yn cydymffurfio'n llwyr â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang newydd yn Sector Cyhoeddus y DU.		

1. Cyflwyniad

1.1. Mae Archwilio Mewnol, ar ran y Cyngor, yn monitro materion a risgiau sydd wedi cael eu hadnabod yn ystod gwaith archwilio drwy ei system olrhain camau, 4action.

1.2. Mae'r dangosfwrdd yn rhoi darlun gwir o berfformiad cyfredol mewn perthynas â mynd i'r afael a chamau sy'n weddill, ac mae'n hwyluso'r gwaith o olrhain ac adrodd y wybodaeth hon yn effeithiol. Mae'r Pennaeth Archwilio a Risg yn rhannu'r dangosfwrdd hwn yn aml gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel rhan o'i hadroddiadau sy'n cynnig diweddariad ar archwilio mewnol.

1.3. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio yn derbyn adroddiad manwl ar wahân sy'n amlinellu'r perfformiad cyffredinol o ran mynd i'r afael â chamau archwilio, ddwywaith y flwyddyn.

2. Argymhelliad

2.1. Fod y Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio yn:

- Ystyried cynnydd y Cyngor mewn perthynas ag ymdrin â'r 'Materion / Risgiau / Chyfleoedd' Archwilio Mewnol sy'n weddill, a phenderfynu a yw hyn yn foddhaol.

Materion, Risgiau a Chyfleoedd Archwilio Mewnol sydd angen sylw

Medi 2026



Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS

Nanette Williams MSc CMIIA CIA



Cynnwys

Cyflwyniad _____ 1

Perfformiad Presennol _____ 2

Graff 1 – Cyfanswm y gweithredoedd sydd angen sylw _____ 2

Graff 2 - Gweithredoedd Hwyr _____ 3

Graff 3 - Cyfanswm Materion / Risgiau / Cyfleoedd yn ôl statws _____ 3

Graff 4 - Cyfanswm Materion / Risgiau / Cyfleoedd yn ôl statws (gweithredoedd sydd wedi cyrraedd eu dyddiad targed) _____ 4

Graff 5 – Yr holl Faterion/Risgiau 'Critigol' a 'Sylweddol' sy'n parhau i fod angen sylw fesul blwyddyn _____ 5

Atodiad 1: Statws Materion / Risgiau / Cyfleoedd 'Sylweddol' sydd angen sylw _____ 6

Cyflwyniad

1. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn gosod cyfrifoldeb arno i fonitro gweithrediad y camau a gymerwyd gan reolwyr i fynd i'r afael â'r materion, risgiau a chyfleoedd a godwyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol fel rhan o'i waith.

2. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, mae'r pwyllgor wedi gofyn am adroddiad manwl yn dangos perfformiad y cyngor wrth fynd i'r afael â'r camau sydd angen sylw, a hynny ddwywaith y flwyddyn, yn ei gyfarfodydd ym mis Ebrill/Mai a Medi.

3. Mae'n ofynnol hefyd, o dan safon 15.2 o'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang (GIAS), i'r gwasanaeth Archwilio Mewnol "gadarnhau bod rheolwyr wedi rhoi argymhellion archwilwyr mewnol neu gynlluniau gweithredu rheolwyr ar waith, gan ddilyn methodoleg sefydledig, gan gynnwys holi am gynnydd y gweithredu, cynnal asesiadau dilynol ar sail risg a diweddaru statws gweithredoedd mewn system dracio."

4. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, nid yw Archwilio Mewnol bellach yn gwneud argymhellion, ond yn hytrach mae'n adrodd ar 'Faterion' a 'Risgiau', ac, yn fwy diweddar, 'Cyfleoedd'. Er mwyn annog rheolwyr i fod yn atebol am y risgiau hyn, nhw sy'n gyfrifol am ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion, risgiau a chyfleoedd a nodwyd, ac rydym yn monitro'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â nhw.


5. Mae adroddiadau sy'n derbyn Sicrwydd 'Cyfyngedig', neu 'Dim' Sicrwydd yn destun adolygiad dilynol ffurfiol gan

Archwilio Mewnol, ac mae adroddiad archwilio'n cael ei ddarparu sy'n cynnwys gradd sicrwydd.

6. Rydym yn monitro gweithredoedd 'hwyr' yn barhaus er mwyn i ni gael ein diweddaru ar gynnydd yn brydlon gan reolwyr.

7. Rydym yn monitro'r holl faterion, risgiau a chyfleoedd eraill gan ddefnyddio system dracio gweithredoedd corfforaethol y Cyngor (4action).

8. Rydym wedi datblygu a mireinio dangosfwrdd i ddefnyddwyr ar 4action (isod), sy'n dangos darlun gwirioneddol o berfformiad cyfredol o ran mynd i'r afael â gweithredoedd sydd angen sylw ac mae'n golygu fod modd monitro ac adrodd y wybodaeth hon yn effeithiol.




Perfformiad Presennol

9. Mae'r pum graff isod yn dangos y gweithredoedd oedd angen sylw o fewn y cyngor ar 31 Awst 2026. Mae diweddariad statws manwl ar y 12 mater / risg / cyfle 'sylweddol' sy'n parhau i fod angen sylw wedi'i gynnwys hefyd yn Atodiad 1.


10. Dylid nodi na chodwyd unrhyw faterion / risgiau / cyfleoedd 'Coch' neu 'Gritigol' yn ystod y flwyddyn, ac nid oes 'materion / risgiau / cyfleoedd' Coch neu 'Gritigol' angen sylw ar hyn o bryd.

Graff 1 – Cyfanswm y gweithredoedd sydd angen sylw



11. Ar 31 Awst 2026, roeddem yn cadw llygaid ar 70 o weithredoedd oedd angen sylw. Roedd 12 ohonynt yn risgiau 'sylweddol' (ambr) a 58 yn 'gymedrol' (melyn).

Graff 2 - Gweithredoedd Hwyr




12. Rydym yn monitro'r holl weithredoedd ac rydym yn cysylltu â rheolwyr ar ddiwedd y cyfnod gweithredu er mwyn sicrhau eu bod wedi derbyn sylw. Ar hyn o bryd, mae chwech gweithred yn 'hwyr' gan nad yw rheolwyr wedi cwblhau'r weithred erbyn y dyddiad a bennwyd.

13. Mae'r gweithredoedd hyn yn ymwneud â chwech o faterion a risgiau sydd â blaenoriaeth risg 'cymedrol' ac a godwyd yn ystod yr archwiliad Rheoli'r Ddesg Wasanaeth TG. Maent yn canolbwyntio ar wella gweithrediad Desg Wasanaeth TG y Cyngor, megis alinio gweithdrefnau gweithredu safonol ag arferion presennol, cryfhau trosolwg o gylch bywyd tocyn, galluogi trefniadau cadarn ar gyfer dadansoddi ac adrodd ac ymgorffori adborth defnyddwyr i helpu i wella'r gwasanaeth.

14. Pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn, roeddem wedi gofyn am ddiweddariad ar gynnydd wrth fynd i'r afael â'r gweithredoedd hyn ond nid oeddem wedi derbyn cadarnhad gan y gwasanaeth.

Graff 3 - Cyfanswm Materion / Risgiau / Cyfleoedd yn ôl statws



15. Mae Graff 3 yn dangos statws yr holl weithredoedd sydd angen sylw (heb ystyried y dyddiad a gytunwyd gyda rheolwyr i fynd i'r afael â nhw). Mae'n dangos fod rheolwyr bellach wedi rhoi sylw i 82% o'r camau a gytunwyd ganddynt ac mae Archwilio Mewnol wedi dilysu 80%.[1]

[1] Mae Archwilio Mewnol yn dilysu'r holl weithredoedd sydd 'wedi eu cau' er mwyn sicrhau eu bod yn fodlon fod y camau a gymerwyd gan reolwyr wedi mynd i'r afael â'r risg gwreiddiol a nodwyd

16. Mae'r 2% sydd heb gael eu dilysu'n ffurfiol eto'n gysylltiedig â gweithredoedd yn codi o ddau archwiliad: 'Rheoli'r Risg Diogelu: Athrawon Llanw' a 'Diogelwch TGCH mewn Ysgolion Uwchradd'.

17. Byddwn yn cynnal archwiliad dilynol ffurfiol o Reoli'r Risg Diogelu: Athrawon Llanw ym mis Rhagfyr 2026 ac fel rhan o'r gwaith hwn byddwn yn gwirio bod rheolwyr wedi llwyddo i roi'r gweithredoedd dan sylw ar waith.


18. Oherwydd natur dechnegol rhai gweithredoedd TG, rydym wedi comisiynu Gwasanaethau Archwilio Technegol Salford i wirio, bob chwarter, bod y gweithredoedd hyn wedi'u cwblhau. Bydd y gweithredoedd uchod o'r archwiliad Diogelwch TGCh mewn Ysgolion Uwchradd yn cael eu cynnwys yn eu gwaith yn y maes hwn yn ystod yr hydref.

19. Mae'r gweithredoedd sydd 'heb eu dechrau' yn ymwneud â sawl archwiliad a gwblhawyd yn ddiweddar lle nad yw'r gweithredoedd a nodwyd wedi cyrraedd eu dyddiad cwblhau disgwyliedig eto. Maent yn cynnwys:

    - Systemau Ariannol: Credydwyr
    - Systemau Ariannol: Y Gyflogres
    - Rheolaeth Ariannol: monitro cyllidebau a llunio rhagolygon
    - Tystysgrifau Cronfeydd Ysgolion

20. Pan fydd y dyddiadau hyn yn agosáu, byddwn yn cysylltu â rheolwyr i ofyn am ddiweddariad er mwyn mesur cynnydd.

Graff 4 - Cyfanswm Materion / Risgiau / Cyfleoedd yn ôl statws (gweithredoedd sydd wedi cyrraedd eu dyddiad targed)




21. Yn wahanol i Graff 3, mae Graff 4 yn dangos statws yr holl weithredoedd sydd wedi cyrraedd eu dyddiad targed. Mae'n dangos bod 98% o'r gweithredoedd sydd wedi cyrraedd eu dyddiad targed wedi derbyn sylw.

22. Mae Archwilio Mewnol wedi dilysu bron bob un ohonynt. Y gweithredoedd sydd 'ar y gweill' yw'r rhai sy'n hwyr, fel y manylir ym mharagraff 13.

23. Byddwn yn ymestyn dyddiadau cwblhau ar gyfer rhai gweithredoedd, ond dim ond os yw'r gwasanaeth yn gallu cynnig rheswm dilys dros wneud hynny, e.e. mae'n amlwg nad yw'r dyddiad gwreiddiol yn gyraeddadwy gan fod gwaith sylweddol angen ei wneud.

Graff 5 – Yr holl Faterion/Risgiau 'Critigol' a 'Sylweddol' sy'n parhau i fod angen sylw fesul blwyddyn



24. Roedd 12 o weithredoedd 'sylweddol' nad ydynt wedi'u cwblhau eto angen sylw ac nid oes unrhyw 'faterion / risgiau / cyfleoedd' coch neu 'gritigol' angen sylw ar hyn o bryd.

25. Dengys Graff 5 y flwyddyn ariannol pan godwyd y mater, risg neu gyfle 'sylweddol' gyntaf yn ystod ein gwaith archwilio. Dylid nodi nad oes unrhyw faterion, risgiau neu gyfleoedd 'sylweddol' yn dyddio'n ôl ymhellach na 2025-26. Dengys hyn fod rheolwyr yn blaenoriaethu mynd i'r afael â risgiau sydd â blaenoriaeth uwch.

26. Yn ogystal, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n mynd i'r afael â'u materion, risgiau a chyfleoedd yn llwyddiannus ac yn brydlon, gofynnir i berchnogion mater / risg / cyfle 'critigol' neu 'sylweddol' nad ydynt wedi cael eu datrys 12 mis yn dilyn y dyddiad cwblhau gwreiddiol esbonio i'r Pwyllgor pam fod oedi mewn perthynas â mynd i'r afael â'r gweithredoedd.

27. Mae hyn yn berthnasol i un risg 'sylweddol' ar hyn o bryd. Mae'n gysylltiedig â'r archwiliad o Gyllid Gofal Cymdeithasol Oedolion, yn enwedig achosion o hen ddyledion yn gysylltiedig ag asesiadau ariannol / taliadau a ohiriwyd lle mae'r cleient wedi marw.

28. Mae ein hadroddiad dilynol terfynol yn cynnwys rhagor o fanylion am gynnydd wrth fynd i'r afael â'r risg, ac mae wedi'i gynnwys yn adroddiad diweddaru'r Pennaeth Archwilio a Risg a gyflwynir i'r cyfarfod hwn. Bydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor i roi diweddariad pellach.

29. Mae diweddariad manwl ar statws y 10 mater, risg a chyfle 'sylweddol' sydd angen sylw ac sy'n cael eu monitro yn 4action yn dilyn yn Atodiad 1.

30. Byddwn yn ymdrechu i gadw llygaid ar yr holl weithredodd sydd angen sylw er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau.

Atodiad 1: Statws Materion / Risgiau / Cyfleoedd 'Sylweddol' sydd angen sylw

Crynodeb o'r Mater / Risg / Cyfle	Dyddiad Targed Cyfredol	Statws Presennol	Diweddariad Cynnydd
Cyllid Gofal Cymdeithasol Oedolion (Sicrwydd Cyfyngedig) – Mehefin 2025			
Mae gan y cyngor nifer o hen ddyledion sy'n gysylltiedig ag asesiadau ariannol / taliadau gohiriedig lle mae'r cleient wedi marw.	31/12/26	Ar y gweill	Fe wnaethom gynnal archwiliad dilynol o Gyllid Gofal Cymdeithasol Oedolion yn ddiweddar. Rydym yn darparu diweddariad mwy manwl i'r Pwyllgor yn ein hadroddiad dilynol terfynol sydd wedi'i gynnwys yn adroddiad diweddaru'r Pennaeth Archwilio a Risg.
Ôl-groniad o asesiadau ariannol yn aros i gael eu prosesu.	30/06/27	Ar y gweill	Fe wnaethom gynnal archwiliad dilynol o Gyllid Gofal Cymdeithasol Oedolion yn ddiweddar. Rydym yn darparu diweddariad mwy manwl i'r Pwyllgor yn ein hadroddiad dilynol terfynol sydd wedi'i gynnwys yn adroddiad diweddaru'r Pennaeth Archwilio a Risg.
Rhaglenni Addysg Gynnar a Grantiau Gofal Plant (Sicrwydd Rhesymol) – Ebrill 2025			
Nid yw'r cyngor yn sicrhau fod y Cynnig Gofal Plant - elfen Addysg (10 awr) yn hygyrch i'r holl ddarparwyr gofal plant a gofalwyr plant preifat, yn groes i ganllawiau Llywodraeth Cymru.	01/10/26	Ar y gweill	Mae'r Gwasanaeth Dysgu'n gweithio 'r Tîm Caffael a'r Uned Cefnogi Teuluoedd i ddatblygu proses gyson sydd yn unol â deddfwriaeth a pholisïau a gweithdrefnau'r cyngor. Gohiriwyd y gwaith dros dro wrth i staff allweddol gymryd gwyliau yn ystod cyfnod yr haf. Bydd y gwaith yn ailgychwyn ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi.
Rheoli Perfformiad (Sicrwydd Rhesymol) – Hydref 2025			
Nid oes gan y tîm Perfformiad Corfforaethol ddigon o adnoddau i wneud gwaith sicrhau ansawdd helaeth ar y data perfformiad a ddarperir gan wasanaethau pob chwarter i'w gynnwys ar y cerdyn sgorio corfforaethol. Mae diffyg system rheoli perfformiad benodol yn cyfyngu ymhellach ar gapasiti.	01/09/27	Ar y gweill	Mae'r gwasanaeth wedi sicrhau arian i greu swydd Rheolwr Data fydd yn arwain a chydlynu dull seiliedig ar ddata cyngor cyfan mewn perthynas â rheoli perfformiad a gwella. Bydd y rôl yn gweithio gyda gwasanaethau i sicrhau fod data a gesglir yn gywir, yn hygyrch a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth, rheoli perfformiad a gwella gwasanaethau.

Crynodeb o'r Mater / Risg / Cyfle	Dyddiad Targed Cyfredol	Statws Presennol	Diweddariad Cynnydd
Nid yw prosesau monitro perfformiad effeithiol yn gyson ar draws meysydd gwasanaeth.	01/09/27	Ar y gweill	Fel yr uchod.
Rheoli'r Risg Diogelu: Athrawon Llanw (Sicrwydd Cyfyngedig) – Mehefin 2026			
Nid yw'n eglur pwy sy'n gyfrifol am sicrhau fod athrawon llanw'n derbyn hyfforddiant diogelu hanfodol. Mae cofnodion hyfforddiant anghyson yn cynyddu'r risg y gallai athrawon llanw fethu hyfforddiant diogelu gorfodol neu leol ac mae hynny'n golygu fod llai o gydymffurfiaeth a sicrwydd fod dysgwyr yn cael eu cadw'n ddiogel.	30/11/26	Ar y gweill / ar y trywydd iawn	Mae sesiwn hyfforddi flynyddol grŵp B wedi'i chynllunio ar gyfer 02/11/26 a bydd yr holl athrawon llanw a chymorthyddion dosbarth llanw yn derbyn gwahoddiad. Mae dolen gyswllt i'r hyfforddiant grŵp A ar-lein wedi'i rannu eto â'r holl athrawon llanw sy'n hysbys i'r Cyngor. Gofynnwyd i'r holl staff perthnasol ddarparu prawf eu bod wedi cwblhau hyfforddiant erbyn mis Tachwedd. Cedwir cofnod presenoldeb ar gyfer y sesiwn hyfforddi uchod.
Mae trefniadau presennol ar gyfer gwirio a chofnodi gwiriadau ar athrawon llawn yn fratiog ac mae'n cynyddu'r risg o beidio â chynnwys yr holl athrawon llanw a ddefnyddir gan ysgolion, yn enwedig os yw ysgolion yn gwneud trefniadau uniongyrchol neu'n defnyddio asiantaeth, tu allan i'r system 'Teacher Booker'.	01/01/27	Ar y gweill / ar y trywydd iawn	Bydd y system 'Teacher Booker' yn parhau i gael ei defnyddio tan fis Ionawr 2027 a diweddarwyd yr holl ddata ar y system ganolog yn ddiweddar yn ystod gwyliau'r haf. Gwneir penderfyniad terfynol ar y system newydd cyn mis Ionawr 2027.
Systemau Ariannol: Credydwyr (Sicrwydd Cyfyngedig) – Mehefin 2026			
Nid yw gwasanaethau'n dilyn gofynion caffael a thalu'n gyson, ac yn aml mae archebion prynu a phrosesau derbyn nwyddau yn cael eu cwblhau'n hwyr neu eu hosgoi. Mae hyn yn gwanhau rheolaeth ariannol ac mae'n creu risgiau ariannol sylweddol, yn ogystal â risgiau'n gysylltiedig ag enw da a deddfwriaeth, gan gynnwys y posibilrwydd o fethu â chydymffurfio â Deddf Caffael 2023 a pholisi'r cyngor.	01/03/27	Nid yw'r weithred wedi cyrraedd ei dyddiad cwblhau eto	Byddwn yn cynnal adolygiad dilynol ffurfiol o'r maes hwn ym mis Rhagfyr 2026 ac fel rhan o'r adolygiad hwnnw byddwn yn derbyn adolygiad cynnydd mewn perthynas â mynd i'r afael â'r holl faterion, risgiau a chyfleoedd a nodwyd yn ystod ein hadolygiad gwreiddiol.

Crynodeb o'r Mater / Risg / Cyfle	Dyddiad Targed Cyfredol	Statws Presennol	Diweddariad Cynnydd
Heblaw am hyfforddiant cychwynnol Civica, nid oes canllawiau credydwyr eglur a hygyrch ar gael ac felly mae defnyddwyr nad ydynt yn staff cyllid yn gorfod dibynnu ar gyngor anffurfiol. Mae hyn yn cynyddu'r risg o arferion anghyson a chamgymeriadau.	01/03/27	Nid yw'r weithred wedi cyrraedd ei dyddiad cwblhau eto	
Mae canllawiau presennol Civica yn anodd eu defnyddio, maent yn cymryd yn ganiataol fod defnyddwyr yn meddu ar wybodaeth flaenorol ac mae'n cynnwys gwybodaeth sydd wedi dyddio felly mae'n anodd i ddefnyddwyr profiadol a newydd ddilyn prosesau cywir.	01/03/27	Nid yw'r weithred wedi cyrraedd ei dyddiad cwblhau eto	
Nid yw gwiriadau sefydlu defnyddwyr yn cadarnhau'n glir p'un a yw gwasanaethau wedi cwblhau gwiriadau diwydrwydd dyladwy ac mae hyn yn creu ansicrwydd ynglŷn â chyfrifoldebau ac mae'n cynyddu'r risg o ddefnyddio cyflenwyr anaddas, yn ogystal â chynyddu'r risg o gamgymeriadau neu dwyll.	01/03/27	Nid yw'r weithred wedi cyrraedd ei dyddiad cwblhau eto	
Ar hyn o bryd nid oes gan y Tîm Cyflogau a Thaliadau unrhyw broses uwchgyfeirio ffurfiol i gyfeirio achosion mynych o beidio â chydymffurfio, neu broblemau difrifol yn ymwneud â gofynion archebion prynu neu dderbyn nwyddau, at benaethiaid gwasanaeth a'r Tîm Arweinyddiaeth yn uniongyrchol lle bo hynny'n angenrheidiol.	01/06/27	Nid yw'r weithred wedi cyrraedd ei dyddiad cwblhau eto	

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad	28 Medi 2026
Pwnc	Adroddiad hunanasesiad a pherfformiad (Ilesiant) 2025/26
Pennaeth Gwasanaeth	Huw Ynyr
Awdur yr Adroddiad	Gwyndaf Parry

Rheswm dros Adrodd

Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r pwyllgor er mwyn cael adborth ar ei gynnwys. Mae paragraff 3.4.8.15.3 o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor yn nodi y bydd yn "adolygu'r adroddiad drafft ac yn gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r casgliadau, neu i unrhyw un o'r meysydd I wellla arfaethedig.

Dylai'r pwyllgor adolygu'r adroddiad a chael sicrwydd bod yr hunanasesiad yn rhoi adlewyrchiad cywir o berfformiad y Cyngor wrth gyflawni ein hamcanion strategol yng Nghynllun y Cyngor.

1.0 CYFLWYNIAD

1.0 Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu canlyniad hunanasesiad Cyngor Sir Ynys Môn fel y disgwylir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

1.1 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor gadw dan adolygiad i ba raddau y mae'n cyflawni'r 'gofynion perfformiad', hynny yw i ba raddau y mae'n:

- arfer ei swyddogaethau'n effeithiol;
- defnyddio ei adnoddau'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- â threfniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau'r uchod.

2.0 ARGYMHELLIAD

1.1.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:

- Adolygu'r adroddiad a darparu unrhyw argymhellion ar gyfer newidiadau i'r Pwyllgor Gwaith.
- Cefnogi'r adroddiad a'i argymell i'r Pwyllgor Gwaith.

Hunanasesiad ac Adroddiad Perfformiad (Llesiant) 2025/26

DRAFT

Paratowyd gan – Gwasanaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio

Dyddiad cyhoeddi – Medi 2026

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

Sylwer: Mae'r ddogfen hon yn cynnwys deunydd a gynhyrchwyd gyda chymorth deallusrwydd artiffisial (DA). Mae'r awdur wedi adolygu'r deunydd hwn er mwyn sicrhau ei fod yn gywir, ac wedi'i olygu yn ôl yr angen. Yr awdur sy'n llwyr gyfrifol am gynnwys y ddogfen.

Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn asesu perfformiad, trefniadau llywodraethu, defnydd o adnoddau a gweithgarwch gwella'r Cyngor yn ystod 2025/26, yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Crynodeb

Casgliad cyffredinol: Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol

Mae'r trefniadau wedi'u gwreiddio ac yn cael eu defnyddio'n weithredol i reoli adnoddau, deall y galw a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar gostau, cynllunio anghenion y gweithlu, ymateb i adborth a nodi risgiau cyn iddynt ddatblygu'n faterion corfforaethol ehangach.

Sut rydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Daeth proses hunanasesu'r Cyngor i'r casgliad bod y trefniadau ar gyfer cynllunio gwasanaethau, cynllunio ariannol, cynllunio'r gweithlu a llywodraethu wedi gwreiddio, ac yn cael eu defnyddio'n weithredol i reoli adnoddau, cefnogi penderfyniadau, cyflawni blaenoriaethau a nodi cyfleoedd i wella.

Sut ydyn ni'n gwybod?

- Monitro'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol a'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol.
- Hunanasesiadau Gwasanaeth ac Adolygiadau Gwasanaeth a gynhaliwyd gyda swyddogion uwch ac aelodau etholedig.
- Tystiolaeth ariannol, tystiolaeth am y gweithlu a thystiolaeth lywodraethu.
- Gwaith Archwilio Mewnol, Archwilio Allanol ac arolygiadau rheoleiddiol.
- Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac adroddiadau pwyllgor; a
- Asesiad Panel Perfformiad.

Beth allwn ni ei wneud yn well, a sut?

Mae blaenoriaethau gwella ar gyfer 2026/27 yn cynnwys:

- Moderneiddio, gwasanaethau digidol a gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth
- Arweinyddiaeth seiliedig ar le, datblygu economaidd ac ymgysylltu â chymunedau
- Gwydnwch y gweithlu a chapasiti'r sefydliad
- Gweithio mewn partneriaeth a chyfathrebu mewnol; a
- Rheoli asedau




Uchafbwyntiau Perfformiad 2025/26

Sut y cyfrannodd perfformiad y Cyngor at yr Amcanion Llesiant

AMCAN LLESIANT 1

1

Mae pobl Ynys Môn wedi'u haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial tymor hir



UCHAFBWYNTIAU DPA

100%
Plant wedi cyrraedd targedau trochi'r Uned Iaith Gymraeg

0.6%
Gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

82
Swyddogion wedi cael hyfforddiant i ddysgu Cymraeg


97.9%
Defnyddwyr llyfrgell yn graddio'r gwasanaeth yn dda neu'n dda iawn



AMCAN LLESIANT 2

2

Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl



UCHAFBWYNTIAU DPA

90.17%
Ymweliadau statudol â phlant mewn gofal wedi'u cwblhau mewn pryd

95%
Aelwydydd wedi'u hatal yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref

619,301
Cyfranogiadau yng ngweithgareddau Môn Actif


86%
Boddhad tenantiaid ag atgyweiriadau ymatebol



AMCAN LLESIANT 3

3

Mae pobl Ynys Môn a'i chymunedau'n mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol



UCHAFBWYNTIAU DPA

100%
Unedau busnes a gofod masnachol y Cyngor wedi'u meddiannu

96%
Ceisiadau cynllunio wedi'u penderfynu o fewn yr amserlen

99.9%
Strydoedd a oedd yn lân pan gawsant eu harolygu

64.17%
Gwastraff cartref wedi'i ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio



Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o berfformiad Cyngor Sir Ynys Môn yn ystod 2025/26, ac o ba mor effeithiol y mae'n cyflawni'r ymrwymiadau a nodir yng Nghynllun y Cyngor. Mae'n dod â threfniadau hunanasesu blynyddol y Cyngor a'i drefniadau adrodd ar berfformiad a llesiant ynghyd mewn un ddogfen, gan ddarparu asesiad cynhwysfawr o berfformiad, llywodraethu, defnydd o adnoddau a gwelliant parhaus.

Mae gwaith y Cyngor yn cael ei lywio gan ei weledigaeth, sef "**creu Ynys Môn sy'n iach ac yn ffyniannus lle gall pobl ffynnu**". Mae Cynllun y Cyngor yn nodi'r amcanion strategol a fydd yn helpu i wireddu'r weledigaeth hon, ac yn darparu'r fframwaith ar gyfer cynllunio, cyflawni a monitro blaenoriaethau'r Cyngor. Mae'r amcanion hyn yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn cefnogi uchelgais y Cyngor i wella canlyniadau i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae'r adroddiad yn dangos sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n asesu pa mor effeithiol y mae'r Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau, yn defnyddio ei adnoddau, yn cefnogi llywodraethu da ac yn cyfrannu at lesiant hirdymor pobl Ynys Môn.

Yn ogystal ag adrodd ar berfformiad, mae'r adroddiad yn adlewyrchu canfyddiadau proses Hunanasesu flynyddol y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth a gasglwyd drwy hunanasesiadau gwasanaeth, adolygiadau gwasanaeth, monitro perfformiad, rheolaeth ariannol, cynllunio'r gweithlu, trefniadau llywodraethu a gweithgarwch sicrwydd. Gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth yn dangos pa mor effeithiol y mae'r Cyngor yn gweithredu, yn nodi enghreifftiau o arfer da ac yn amlygu'r meysydd lle mae angen gwella ymhellach.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio'n bennaf ar yr hyn y mae'r Cyngor wedi'i gyflawni a'i berfformiad yn erbyn yr ymrwymiadau a osododd iddo'i hun yn ystod y flwyddyn. Er ei fod yn tynnu sylw at gynnydd tuag at ganlyniadau tymor hwy, mae llawer o ganlyniadau ehangach i gymunedau yn cael eu dylanwadu gan ffactorau sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cyngor, gan gynnwys polisi cenedlaethol, amodau economaidd a gweithgarwch sefydliadau partner

Mae'r adroddiad hefyd yn dangos pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni canlyniadau cadarnhaol i drigolion, cymunedau a busnesau ar draws yr Ynys. Mae'n rhoi trosolwg o'r cynnydd yn erbyn yr ymrwymiadau yn Nogfen Gyflawni Flynyddol 2025/26, y cynnydd tuag at gyflawni amcanion Cynllun y Cyngor erbyn 2028, a chyfraniad y Cyngor at ei Amcanion Llesiant. Mae hefyd yn nodi'r prif feysydd y bydd y Cyngor yn canolbwyntio arnynt fel rhan o'i waith gwella yn ystod 2026/27 a thu hwnt.

DRAFT

Amcanion Llesiant y Cyngor

Mae'r amcanion strategol a nodir yng Nghynllun y Cyngor wedi'u llunio i helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion llesiant er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Ein hamcanion llesiant:

a. Mae pobl Ynys Môn yn cael eu haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial yn y tymor hir
b. Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
c. Mae pobl Ynys Môn a'i chymunedau yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae ein hamcanion llesiant yn cyd-fynd ag amcanion llesiant cenedlaethol Llywodraeth Cymru:

Amcanion Llesiant y Cyngor	**Amcanion Strategol y Cyngor**	**Llewyrchus**	**Cydnerth**	**Iachach**	**Mwy Cyfartal**	**Cymunedau Cydlynus**	**Diwylliant bywiog lle mae' r Gymraeg yn ffynnu**	**Cyfrifol ar lefel fyd-eang**
Amcan Llesiant 1 - Mae pobl Ynys Môn yn cael eu haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial yn y tymor hir	Yr Iaith Gymraeg, Gofal Cymdeithasol a Llesiant, Addysg, Tai a'r Economi	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Amcan Llesiant 2 - Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib	Gofal Cymdeithasol a Llesiant, Addysg a Tai		✓	✓	✓	✓	✓	
Amcan Llesiant 3 - Mae pobl Ynys Môn a'i chymunedau yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol	Yr Iaith Gymraeg, Economi a Newid Hinsawdd	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

DRAFT

Cynllun y Cyngor 2023–2028 – Amcanion Strategol

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n llywio penderfyniadau ar bob lefel. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer cynllunio a bwrw ymlaen â blaenoriaethau, yn llywio gwariant blynyddol ac yn galluogi'r Cyngor i fonitro perfformiad a chynnydd.

Wrth wraidd y cynllun mae ein dyhead i weithio gyda trigolion, cymunedau a phartneriaid ar Ynys Môn i sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl, gwella ansawdd bywyd i bawb a chreu cyfleoedd i genedlaethau'r dyfodol.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r prif feysydd y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt.

Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:

'Creu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu'

Yr Iaith Gymraeg

Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu, magu hyder a defnyddio'r iaith

Gofal Cymdeithasol a Llesiant

Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg gywir

Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol

Tai

Sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n 'gartref'

Economi

Sicrhau cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys

Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030

Cynllun y Cyngor 2023 i 2028

Ein Dull Hunanasesu

Sefydlodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 drefniadau newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol fonitro ac asesu ei berfformiad drwy broses hunanasesu.

Mae'r Cyngor yn adolygu'r broses hunanasesu yn gynhwysfawr bob blwyddyn. Mae'r adolygiad yn ystyried y gwersi a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol ac adborth gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, swyddogion arweiniol ac aelodau etholedig.

Yn ystod 2025/26, fe wnaethom ddatblygu ein dull o gynnal Hunanasesiadau Gwasanaeth ac Adolygiadau Gwasanaeth ymhellach. Yn dilyn adborth o'r flwyddyn flaenorol, symudodd y fframwaith asesu oddi wrth y disgrifiadau blaenorol, sef "Rhagorol / Yn Rhagori ar Ddisgwyliadau / Yn Bodloni Disgwyliadau / Angen Gwella", a chyflwynwyd model aeddfedrwydd pedair lefel cliriach. Cafodd y model hwn ei lunio i helpu gwasanaethau i ystyried nid yn unig a oedd trefniadau craidd ar waith, ond hefyd pa mor dda yr oedd y trefniadau hynny wedi gwreiddio, wedi'u hintegreiddio ac yn cael eu defnyddio i gefnogi gwelliant.

Parhaodd gwasanaethau i hunanasesu yn erbyn pedwar maes allweddol. Mae gan bob maes ei feini prawf sgorio manwl ei hun er mwyn adlewyrchu y gwahanol fathau o dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer y thema honno, gan barhau i ddarparu fframwaith cyson ar gyfer herio a chymharu ar draws gwasanaethau. Gellir gweld y pedwar maes isod. Parhaodd cyfarfodydd Adolygu Gwasanaeth i ddarparu her a chymedroli, gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan wasanaethau ochr yn ochr â gwybodaeth am berfformiad, cyllid, y gweithlu a llywodraethu.



Cynllunio Gwasanaeth a Pherfformiad



Cynllunio Gweithlu



Cynllunio Ariannol



Llywodraethu; Rheoli Caffael a Chontractau ac Archwilio a Risg

Mae hunanasesu yn rhan annatod o broses wella unrhyw sefydliad, a'i brif ddiben yw rhoi sicrwydd mewnol. Fodd bynnag, cydnabyddir yng Nghyngor Sir Ynys Môn fod hunanasesu da hefyd yn gallu rhoi sicrwydd i gynulleidfaoedd allanol, gan gynnwys partneriaid, rheoleiddwyr a thrigolion.

Gofynnwyd i bob un o'r naw gwasanaeth gwblhau hunanasesiad yn erbyn y fframwaith wedi'i ddiweddaru. Dewisodd gwasanaethau lefel ar gyfer pob un o'r pedwar maes allweddol a chyflwyno tystiolaeth ategol drwy'r templed. Yna cafodd eu canfyddiadau eu herio drwy'r broses Adolygu

DRAFT

Gwasanaeth gan grŵp o swyddogion ac aelodau etholedig. Bwriad y dull diwygiedig yw cefnogi asesiad mwy cyflawn o aeddfedrwydd, gwydnwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau.

Lefel Perfformiad	Disgrifiad
Lefel 4 – Optimeiddio ac Arwain	Mae'r trefniadau'n aeddfed, yn rhagweithiol ac yn arloesol. Mae'r gwasanaeth yn defnyddio data a thystiolaeth i ragweld galw, yn cynllunio dros y tymor hwy, â diwylliant gweithlu cryf, yn dangos llywodraethu ystwyth ac yn gallu dangos arfer arweiniol neu arfer sydd wedi'i gydnabod yn allanol.
Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Mae'r trefniadau wedi gwreiddio ac yn cael eu defnyddio'n weithredol i reoli adnoddau, deall galw a'r ffactorau sy'n gyrru costau, cynllunio anghenion y gweithlu, ymateb i adborth a nodi materion cyn iddynt ddod yn risgiau corfforaethol.
Lefel 2 – Gwreiddio a Gweithredol	Caiff y prif ddyletswyddau statudol a'r gofynion corfforaethol eu cyflawni, ac mae trefniadau sylfaenol ar waith. Fodd bynnag, mae gweithgarwch gwella yn aml yn canolbwyntio ar dasgau unigol neu'n ymateb i broblemau, yn hytrach na bod yn gwbl strategol.
Lefel 1 – Datblygu ac Ymatebol	Mae'r trefniadau'n canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, gyda dibyniaeth ar unigolion allweddol, cynllunio cyfyngedig neu wydnwch cyfyngedig. Mae angen gwella er mwyn symud o ddull ymatebol o ddarparu gwasanaethau tuag at drefniadau sefydlog a chynaliadwy.

Cyfrifwyd sgôr gyffredinol y gwasanaeth drwy ddefnyddio egwyddor gymedroli: ni chaiff y sgôr gyffredinol fod fwy nag un lefel yn uwch na'r sgôr isaf a ddyfarnwyd i unrhyw thema unigol. Mae hyn yn helpu i sicrhau nad yw gwendid sylweddol mewn un maes yn cael ei guddio gan berfformiad cryfach mewn mannau eraill, ac yn cefnogi darlun cytbwys o wydnwch ac effeithiolrwydd cyffredinol y gwasanaeth.

Mae'r canlyniadau manwl ar gyfer pob gwasanaeth yn erbyn y pedair thema hunanasesu i'w gweld yn Atodiad 1. Cafodd y canlyniadau hyn eu defnyddio i lywio asesiad cyffredinol y Cyngor ac maent yn rhoi crynodeb o berfformiad gwasanaethau ar draws y pedwar maes hunanasesu yn ystod 2025/26.

Gofynnwyd i wasanaethau unigol nodi meysydd i'w gwella y byddai angen iddynt ganolbwyntio arnynt er mwyn gwella perfformiad yn y dyfodol. Mae'r meysydd gwella hyn wedi'u cynnwys yn yr hunanasesiad hwn; fodd bynnag, mae rhai ohonynt wedi'u cynnwys mewn maes gwella ehangach ar gyfer y Cyngor a byddant yn cael eu rheoli gan wasanaeth arweiniol a nodir yn adran 'Meysydd Gwella a Nodwyd' yr adroddiad hwn.

Caiff meysydd gwella gwasanaethau unigol eu monitro fel rhan o'r broses Adolygu Gwasanaeth.

DRAFT

Mae'r hunanasesiad hwn yn crynhoi'r gwaith a wnaed yn ystod 2025/26 yn ogystal â gwerthuso perfformiad cyffredinol y Cyngor, gan geisio ateb y cwestiynau canlynol mewn ffordd mor glir â phosibl:

- Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?
- Sut ydyn ni'n gwybod hynny?
- Beth allwn ni ei wella, a sut?

Mae'r Hunanasesiad yn ffurfio rhan hanfodol o'n trefniadau rheoli perfformiad fel y gellir ei weld yn y diagram isod –



Am ragor o fanylion ar sut rydym yn monitro ac yn asesu perfformiad, ewch i https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad/Cynllun-y-Cyngor/Rheoli-perfformiad.aspx .

Sicrwydd Allanol ac Asesiad Panel Perfformiad

Yn ogystal â phroses Hunanasesu flynyddol y Cyngor, cynhaliwyd Asesiad Panel Perfformiad (APP) ym mis Tachwedd 2025 o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Cafodd yr asesiad ei hwyluso gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac ystyriodd y panel pa mor effeithiol yr oedd y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau, yn defnyddio ei adnoddau ac yn llywodraethu ei hun.

Daeth y panel i'r casgliad bod y Cyngor yn perfformio'n dda ac yn cyflawni ei swyddogaethau yn unol â'i ddyletswyddau perfformiad, gan dynnu sylw at drefniadau llywodraethu cryf, perthnasoedd adeiladol rhwng aelodau a swyddogion, a chyfeiriad clir o welliant. Nododd yr asesiad hefyd nifer o argymhellion yn ymwneud â moderneiddio, monitro perfformiad, arweinyddiaeth seiliedig ar le, gwydnwch y gweithlu, cyflawni prosiectau a datblygu economaidd.

Mae'r camau gweithredu a nodwyd mewn ymateb i'r APP wedi'u cynnwys mewn Cynlluniau Darparu Gwasanaeth ac yn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol, a chânt eu monitro drwy drefniadau rheoli perfformiad presennol y Cyngor. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adroddiad Asesiad Panel Perfformiad a'r ymateb gan y Cyngor.

Themâu Allweddol a Nodwyd gan y Panel

Nododd yr Asesiad Panel Perfformiad nifer o gryfderau a chyfleoedd i wella mewn perthynas â'r canlynol:

Cryfderau a Nodwyd gan y Panel	
Trefniadau llywodraethu cryf	Partneriaethau cryf
Perthnasoedd adeiladol rhwng aelodau a swyddogion	Hunaniaeth gref seiliedig ar le
Tystiolaeth glir o welliant ers 2018	

Argymhellion a wnaed gan y Panel	
Arweinyddiaeth seiliedig ar le ac ymgysylltu â chymunedau	Cyfathrebu mewnol ac ymgysylltu â staff
Moderneiddio sefydliadol a chynaliadwyedd hirdymor	Trefniadau craffu a datblygu aelodau
Datblygu economaidd a chyfleoedd twf	Monitro perfformiad a defnyddio gwybodaeth am berfformiad
Capasiti i gyflawni prosiectau a gwydnwch sefydliadol	Gweithio mewn partneriaeth a chydweithio

DRAFT

Cynllunio Gwasanaeth a pherfformiad

Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol

Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae cynllunio gwasanaethau yn arf hanfodol ar gyfer rheoli perfformiad. Mae'n nodi beth fydd gwasanaethau'n ei ddarparu, yn darparu trywydd clir ar gyfer cyflawni amcanion Cynllun y Cyngor, ac yn sicrhau atebolrwydd am ganlyniadau. Yna mae rheoli perfformiad yn rhoi hyn ar waith drwy alluogi'r Cyngor a'i staff i gynllunio, monitro ac adolygu blaenoriaethau drwy amcanion strategol, gwasanaethol ac unigol, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol i yrru gwelliant parhaus.

Mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r casgliad cyffredinol bod trefniadau cynllunio gwasanaethau a rheoli perfformiad y Cyngor ar **Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol**. Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio corfforaethol clir drwy Gynllun y Cyngor, y Ddogfen Gyflawni Flynyddol, Cynlluniau Darparu Gwasanaeth a'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol. Mae'r trefniadau hyn yn darparu fframwaith cyson ar gyfer pennu blaenoriaethau, monitro cynnydd ac adrodd ar berfformiad.

Mae'r broses Adolygu Gwasanaeth yn rhoi cyfle ychwanegol i asesu i ba raddau y mae'r trefniadau hyn wedi'u gwreiddio ar draws gwasanaethau. Mae'r dystiolaeth yn dangos enghreifftiau o arfer aeddfed a rhagweithiol, ond hefyd feysydd lle gellid cryfhau'r defnydd o ddata, gwybodaeth ddadansoddol, meincnodi a dulliau o sicrhau gwelliant parhaus.

Yn ystod 2025/26, cryfhaodd y Cyngor gapasiti rheoli strategol hefyd drwy ailstrwythuro'r hen Wasanaeth Trawsnewid yn ddau wasanaeth mwy penodol: Digidol, Perfformiad a Moderneiddio, ac Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer. Mae hyn yn darparu capasiti arwain cliriach ar gyfer moderneiddio digidol, perfformiad, y gweithlu, cyfathrebu, profiad y cwsmer a gwelliant sefydliadol ehangach.

Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

Cryfderau a Nodwyd	Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol
Amcanion Clir a Dangosyddion Perfformiad Allweddol – Mae gan y Cyngor fframwaith cynllunio corfforaethol clir, gyda'r amcanion strategol yn cael eu cefnogi gan ymrwymiadau cyflawni blynyddol, Cynlluniau Darparu Gwasanaeth a dangosyddion perfformiad allweddol. Mae'r trefniadau hyn yn cysylltu blaenoriaethau corfforaethol â'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ac yn darparu sail ar gyfer monitro cynnydd.	• Cynllun y Cyngor a Dogfen Gyflawni Flynyddol • Gwerthoedd y Cyngor • Strategaethau a chynlluniau ategol • Moderneiddio cymunedau sy'n dysgu a datblygu strategaeth y Gymraeg • Cod Llywodraethu Lleol – tudalennau 12-16, 20-22 • Cerdyn Sgorio Corfforaethol • Cynllun Darparu Gwasanaeth

RAFT

Meincnodi, Casglu a Dadansoddi Data – Mae'r Cyngor yn datblygu ei ddefnydd o ddata, dadansoddi a meincnodi er mwyn cefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Caiff perfformiad ei fonitro'n rheolaidd drwy ddangosyddion corfforaethol a gwasanaeth, gan ddefnyddio meincnodi lle mae data cymharol dibynadwy ar gael.	• Monitro'r Cerdyn Sgorio Chwarterol • Dangosyddion Perfformiad Gwasanaeth • Tystiolaeth Adolygiadau Gwasanaeth a Hunanasesiadau Gwasanaeth • Dangosfyrddau Power BI: sero net, mynd i'r afael â thlodi, a phrofiad y cwsmer • Stats Cymru • Data Cymru / CLILC • Data Cymru / CLILC Clybiau Clustnodi (data ddim wedi'i gyhoeddi) • Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 9 • Penderfyniadau Pwyllgor y Cyngor • Cofnodion Pwyllgor y Cyngor
Monitro ac Adrodd Rheolaidd – Mae'r Cyngor yn monitro ac yn adrodd ar gynnydd drwy drefniadau corfforaethol sefydledig, gan gynnwys y Cerdyn Sgorio Corfforaethol, diweddariadau ar y Ddogfen Gyflawni Flynyddol, adroddiadau perfformiad blynyddol, craffu ac adroddiadau i'r Pwyllgor Gwaith.	• Adroddiad Perfformiad Blynyddol • Datganiad Llywodraethu Blynyddol • Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol • Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwynedd a Môn • Monitro'r Cerdyn Sgorio Chwarterol • Diweddariadau Monitro'r Dogfen Gyflawni Flynyddol • Adroddiadau Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a Pwyllgor Gwaith • Arolwg tenantiaid a phreswylwyr (STAR)
Ymgysylltu â Rhanddeiliaid – Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o fecanweithiau ymgysylltu ac adborth i ddeall barn trigolion, defnyddwyr gwasanaeth, tenantiaid, partneriaid, busnesau a staff, ac i lywio gwaith cynllunio a gwella gwasanaethau.	• Ymgynghoriadau cyhoeddus • Arolwg tenantiaid a phreswylwyr (STAR) a chanlyniad yr arolwg • Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 9 • Arolwg Preswylwyr • Arolwg Staff
Arloesi ac Addasu – Gall y Cyngor ddangos enghreifftiau o arloesi ac addasu ar draws gwasanaethau, yn enwedig wrth ymateb i heriau sy'n	• Porth car solar mewn meysydd parcio'r cyngor • Uned Ysgol y Graig 'Fach' yn Net Sero • Porthladd rhydd


DRAFT

ymwneud â'r hinsawdd, digidol, llesiant cymunedol, yr economi a darparu gwasanaethau.	• Cynllun Strategol Digidol a datblygiadau CRM
Cydymffurfio â Safonau Cyfreithiol a Rheoleiddiol – Mae gan y Cyngor drefniadau sefydledig i gefnogi cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol, dyletswyddau statudol, gofynion archwilio a safonau rheoleiddiol, ac i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn dryloyw.	• Archwilio Allanol: Crynodeb Archwilio Blynyddol • Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn • Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 7
Diwylliant o Welliant Parhaus – Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith i gefnogi gwelliant parhaus, gan gynnwys adroddiadau perfformiad rheolaidd, hunanasesu gwasanaethau, craffu, archwilio a gweithgarwch adolygu. Mae proses Adolygu Gwasanaeth 2025/26 wedi cryfhau'r sail dystiolaeth ac wedi helpu i nodi lle mae angen gwreiddio gweithgarwch gwella ymhellach.	• Monitro'r Cerdyn Sgorio Chwarterol • Cod Llywodraethu Lleol - tudalennau 14-16, 20-22 • Proses Hunanasesu Gwasanaeth ac Adolygu Gwasanaeth

DRAFT

Cynllunio Ariannol

Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol



Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae cynllunio ariannol yn cynnwys rheoli arian yn strategol. Mae'n ymwneud ag asesu'r sefyllfa ariannol bresennol, cyflawni amcanion a chreu cynlluniau cynhwysfawr er mwyn dyrannu adnoddau a chynnal sefydlogrwydd cyllidol. Mae'r broses hon yn cynnwys gwneud rhagolygon ariannol ar gyfer y tymor byr (hyd at flwyddyn), y tymor canolig (1–3 blynedd) a'r tymor hir (3+ o flynyddoedd), er mwyn sicrhau y gall y Cyngor fodloni ei rwymedigaethau ariannol a darparu gwasanaethau i'r gymuned.

Mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r casgliad cyffredinol bod trefniadau cynllunio ariannol y Cyngor ar **Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol**. Mae gan y Cyngor drefniadau sefydledig ar gyfer rheoli cyllidebau, monitro ariannol, cynllunio tymor canolig a dyrannu adnoddau. Mae gwasanaethau'n dangos dealltwriaeth dda o bwysau ariannol, y ffactorau sy'n gyrru costau a chyfleoedd cyllido, ac maent yn defnyddio gwybodaeth ariannol yn gynyddol i gefnogi cynllunio gwasanaethau a gwneud penderfyniadau.

Er bod y Cyngor yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol, gan gynnwys chwyddiant, pwysau cynnal a chadw asedau ac ansicrwydd ynghylch ffrydiau cyllido yn y dyfodol, mae'r dystiolaeth yn dangos bod gwasanaethau'n rheoli'r risgiau hyn yn weithredol ac yn nodi cyfleoedd i wella cynaliadwyedd ariannol.

Sut ydyn ni'n gwybod hyn?


Cryfderau a Nodwyd	Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol
Rheoli Cyllideb – Mae gan y Cyngor broses gadarn ar gyfer rheoli cyllidebau sy'n cyd-fynd ag amcanion strategol a blaenoriaethau gwasanaeth, gan leihau'r risg o orwariant neu danariannu.	• Cyllideb a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig • Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 20-22
Sefydlogrwydd Ariannol – Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith i gefnogi gwydnwch a chynaliadwyedd ariannol drwy reolaeth ariannol ofalus, cynllunio cronfeydd wrth gefn a rhagolygon ariannol tymor canolig.	• Cyllideb a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig • Datganiad o'r Cyfrifon • Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 20-22
Dyrannu Adnoddau'n Effeithiol – Mae'r Cyngor yn dyrannu ei adnoddau ariannol yn effeithiol er mwyn bodloni galw gwasanaethau a gofynion cyflawni, gan sicrhau'r gwerth gorau am arian. Mae ganddo drefniadau da i ymateb i heriau ariannol yn y tymor byr i'r tymor canolig.	• Llyfr y Gyllideb • Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 14-16 • Cyllideb a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig • Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2026/27 • Strategaeth Gyfalaf • Cynllun Strategol Caffael 2024 i 2029

DRAFT

Monitro Ariannol, Tryloywder ac Atebolrwydd – Mae gan y Cyngor drefniadau sefydledig ar gyfer monitro, adrodd a chraffu ar berfformiad ariannol drwy adroddiadau cyllideb rheolaidd, atebolrwydd cyhoeddus a threfniadau llywodraethu.	• Datganiad o'r Cyfrifon • Cod Llywodraethu Lleol – tudalennau 23-24 • Y Broses Pennu'r Gyllideb • Adroddiadau Monitro Ariannol Chwarterol i'r Pwyllgor Gwaith
Llywodraethu Ariannol, Archwilio a Chydymffurfio – Mae gan y Cyngor drefniadau sefydledig i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau ariannol, safonau cyfrifyddu a gofynion cyfreithiol, gyda chymorth gweithgarwch archwilio mewnol ac allanol sy'n rhoi sicrwydd annibynnol dros drefniadau rheoli ariannol.	• Datganiad Llywodraethu Blynyddol • Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 7 • Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio • Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol • Archwilio Allanol: Crynodeb Archwilio Blynyddol
Cynhyrchu Incwm a Chyllid Allanol – Mae'r Cyngor yn mynd ati'n weithredol i chwilio am gyfleoedd cyllido allanol ac yn cynhyrchu incwm o amrywiaeth o ffynonellau i gefnogi darparu gwasanaethau, buddsoddiad a chynaliadwyedd hirdymor.	• Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb • Rhaglenni cyllido grant • Rhaglen y Porthladd Rhydd • Y Gronfa Ffyniant Gyffredin • Y Gronfa Ffyniant Bro • Cyllid grant ar gyfer tai ac adfywio • Hunanasesiadau Adolygu Gwasanaeth

DRAFT

Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol



Cynllunio Gweithlu

Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae cynllunio'r gweithlu yn broses lle mae'r Cyngor yn dadansoddi anghenion presennol ei weithlu a'i anghenion yn y dyfodol yng nghyd-destun ei ymrwymiadau, ei gynlluniau a'i amcanion. Mae'n galluogi'r cyngor i benderfynu sut y bydd yn recriwtio, cefnogi, datblygu a chadw y gweithwyr y bydd eu hangen arno yn y dyfodol, gan adlewyrchu'r egwyddor o feddwl am y tymor hir sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r casgliad cyffredinol bod trefniadau cynllunio gweithlu'r Cyngor ar **Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol**. Mae gan y Cyngor drefniadau sefydledig i gefnogi cynllunio'r gweithlu, recriwtio a chadw staff, dysgu a datblygu, cynllunio olyniaeth a llesiant gweithwyr. Mae gwasanaethau'n dangos dealltwriaeth dda o'r heriau sy'n wynebu'r gweithlu, ac maent yn defnyddio gwybodaeth am y gweithlu'n gynyddol i gefnogi gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau.

Nododd y broses Adolygu Gwasanaeth enghreifftiau o arferion cryf o ran cynllunio'r gweithlu ar draws y Cyngor, gan gynnwys cyfleoedd i raddedigion, hyfforddeion a phrentisiaid, cynllunio olyniaeth a gweithgarwch dysgu a datblygu wedi'i dargedu. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth hefyd yn amlygu heriau parhaus mewn rhai gwasanaethau, gan gynnwys recriwtio a chadw staff arbenigol, proffil oedran hŷn y gweithlu a gwydnwch y gweithlu mewn swyddi proffesiynol a thechnegol allweddol.

Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

Cryfderau a Nodwyd	Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol
Hyfforddiant a Datblygu – Mae'r Cyngor yn darparu ystod o gyfleoedd dysgu, hyfforddi a datblygu i gefnogi datblygiad proffesiynol, arweinyddiaeth, cynllunio olyniaeth ac anghenion y gweithlu yn y dyfodol.	• Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg • Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19 • Datblygu Aelodau a'r Rhaglen Hyfforddiant • Academi Môn • Cyrsiau byr i staff
Cynllunio'r Gweithlu – Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod ganddo'r bobl iawn, â'r sgiliau iawn, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn. Mae trefniadau cynllunio'r gweithlu yn cefnogi gwasanaethau i nodi anghenion y gweithlu i'r dyfodol, risgiau olyniaeth ac anghenion sgiliau, gan fuddsoddi hefyd yn natblygiad talent y dyfodol drwy gyfleoedd i raddedigion, hyfforddeion a phrentisiaid.	• Strategaeth Cynllunio Gweithlu • Strategaeth Rheoli Risg Pobl • Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19 • Rhaglen Denu Talent • Rhaglen Raddedigion Dyfodol Môn • Academi Môn

DRAFT

	• Cyfleoedd i raddedigion, hyfforddeion a phrentisiaid ar draws gwasanaethau
Buddion cyflogaeth – Mae'r Cyngor yn cynnig nifer o fuddion i staff, gan gynnwys gweithio hyblyg, gweithio hybrid, cymorth llesiant ac iechyd galwedigaethol, pensiwn gweithle ac ystod o bolisïau eraill sydd wedi'u cynllunio i wella cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd.	• Gweithio hyblyg (Hybrid / Opsiynnau i weithio'n hyblyg / ymddeol yn hyblyg) • Cynllun beicio i'r gwaith • Manteision Môn
Adolygu perfformiad – Mae gan y Cyngor drefniadau ar waith i gefnogi perfformiad a datblygiad gweithwyr, ac i sicrhau bod eu gwaith yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Cyngor drwy sgyrsiau datblygu blynyddol, adolygiadau gweithlu a gweithgarwch rheoli talent.	• System werthuso • Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelwch Corfforaethol • Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19
Ymgysylltu â gweithwyr a'u boddhad – Mae'r Cyngor yn defnyddio ystod o fecanweithiau cyfathrebu, ymgysylltu ac adborth i gefnogi llesiant gweithwyr, ymgysylltiad a datblygiad sefydliadol.	• Presenoldeb staff • Cadw staff • Holiaduron staff • Sesiwn Briffio Aelodau • Fforwm Môn • Y Ddolen • Diweddariad gan y Prif Weithredwr • Cod Llywodraethu Lleol – tudalen 17-19

DRAFT

Llywodraethu: Rheoli Risg, Archwilio, Caffael a Chontractau

Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol



Sut ydyn ni'n perfformio ar hyn o bryd?

Mae Rheoli Risg yn ymwneud â nodi a rheoli ansicrwydd a allai effeithio ar amcanion y Cyngor mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol. Mae Archwilio Mewnol yn cynnwys darparu sicrwydd annibynnol, gwrthrychol a gweithgareddau ymgynghori i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau'r Cyngor. Mae'n helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion drwy gyflwyno dull systematig, disgybledig o werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu. Mae archwilwyr allanol a rheoleiddwyr yn craffu ar brosesau rheoli a llywodraethu, gan sicrhau ansawdd gwasanaeth a chydymffurfiaeth â safonau cyfreithiol a rheoleiddiol. Gyda'i gilydd, maent yn cynnal atebolrwydd cynghorau ac effeithiolrwydd gwasanaethau, ac yn rhoi sicrwydd bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n gyfrifol. Mae rheoli caffael yn canolbwyntio ar gaffael nwyddau neu wasanaethau am y tro cyntaf, tra bod rheoli contractau yn canolbwyntio ar reolaeth barhaus a chydymffurfiaeth y cytundebau hynny unwaith y byddant ar waith. Mae'r ddwy broses yn hanfodol i gaffael a rheoli'r adnoddau sydd eu hangen ar y Cyngor i weithredu a chyflawni amcanion allweddol yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae'r dystiolaeth yn cefnogi'r casgliad cyffredinol bod trefniadau llywodraethu, rheoli risg, archwilio, caffael a rheoli contractau'r Cyngor ar **Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol**. Mae gan y Cyngor strwythurau llywodraethu, trefniadau rheoli risg, swyddogaethau archwilio mewnol a phrosesau caffael sefydledig sy'n cefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol, atebolrwydd a chydymffurfiaeth â gofynion statudol.

Mae'r Cyngor yn parhau i gynnal perthnasoedd cadarnhaol â rheoleiddwyr, arolygwyr ac archwilwyr, ac yn cael sicrwydd drwy ystod o waith adolygu mewnol ac allanol. Ceir sicrwydd drwy weithgarwch Adolygu Gwasanaeth, archwilio mewnol, archwilio allanol, arolygiadau rheoleiddiol a phroses y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Fodd bynnag, mae'r broses Adolygu Gwasanaeth a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn nodi meysydd lle gellid cryfhau trefniadau ymhellach, gan gynnwys caffael a rheoli contractau, rheoli risg ar lefel gwasanaeth, gwydnwch llywodraethu gwybodaeth, a'r gwaith parhaus o ddatblygu trefniadau perfformiad a sicrwydd.

Sut ydyn ni'n gwybod hyn?

Cryfderau a Nodwyd	Enghreifftiau o Dystiolaeth Ychwanegol
Nodi ac asesu Risgiau – Mae gan y cyngor brosesau cadarn ar waith i nodi ac asesu risgiau ar draws pob maes gweithredu, gan gynnwys risgiau ariannol, gweithredol, strategol a chydymffurfio.	• Strategaeth Rheoli Risg • Fframwaith Rheoli Risg • Cofrestr Risg Strategol • Cofrestr Risg Gwasanaeth • Cofrestr Risg Prosiect • Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 12-24

DRAFT

Lliniaru Risgiau – Mae'r Cyngor yn rheoli risgiau'n rhagweithiol er mwyn lleihau tebygolrwydd ac effaith digwyddiadau andwyol. Mae'n gwneud hyn drwy ddatblygu a gweithredu mesurau rheoli a chamau lliniaru priodol.	• Strategaeth Rheoli Risg • Fframwaith Rheoli Risg • Cofrestr Risg Strategol • Cofrestr Risg Gwasanaeth • Cofrestr Risg Prosiect • Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 12-24
Swyddogaeth Archwilio Mewnol – Mae gan y Cyngor dîm mewnol annibynnol a gwrthrychol sy'n rhoi sicrwydd a chyngor i bob lefel o reolwyr ac aelodau etholedig a aelodau lleyg ar ansawdd gweithrediadau o fewn y Cyngor ac mae'n elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Ei chenhadaeth yw gwella a diogelu gwerth sefydliadol drwy ddarparu sicrwydd, cyngor a mewnwelediad gwrthrychol sy'n seiliedig ar risg.	• Strategaeth Archwilio Mewnol • Siarter Archwilio Mewnol • Diweddariadau Archwilio Mewnol • Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio • Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 20-24 • Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol
Archwilio Allanol a Rheoleiddwyr – Mae'r Cyngor yn cydweithio'n agored ac yn adeiladol â'i archwilwyr allanol a'i reoleiddwyr ar draws ei feysydd gwaith, gan gynnwys cyllid, addysg, gwasanaethau cymdeithasol a gweithgarwch corfforaethol. Mae'r gwaith hwn yn rhoi sicrwydd annibynnol ynghylch trefniadau rheoli ac arferion y Cyngor.	• Adroddiad Monitro Archwilio Allanol • Archwilio Allanol: Crynodeb Archwilio Blynyddol • Adroddiadau Estyn • Adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru • Asesiad Panel Perfformiad
Cydymffurfiaeth gyda rheoliadau a Chaffael Moesegol – Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'r safonau a'r rheoliadau caffael perthnasol. Caiff contractau eu rheoli a'u monitro drwy gydol eu hoes, gan gynnwys pan fydd angen eu hadnewyddu neu sefydlu trefniadau newydd. Mae'r cyngor yn sicrhau bod penderfyniadau caffael yn cael eu gwneud yn ddiduedd ac er lles gorau'r cyngor a'r gymuned drwy gynnal safonau moesegol mewn prosesau caffael, gan gynnwys tegwch, uniondeb, ac osgoi gwrthdaro buddiannau.	• Canllaw Caffael • Cynllun Strategol Caffael 2024 i 2029 • Polisi Caffael TG • Cytundeb a pholisi prosesu data • Datganiad Llywodraethu Blynyddol • Diogelu mewn caffael a chontractio • Polisi Caffael Cynaliadwy • Cod Llywodraethu Lleol - tudalen 7
Rheoli Contractau a Monitro Perfformiad – Mae'r cyngor yn sicrhau bod cyflenwyr yn darparu nwyddau a gwasanaethau yn unol â thelerau a safonau y cytunwyd arnynt drwy fonitro perfformiad ei gyflenwyr a'i gontractwyr yn seiliedig ar DPA, Cytundebau Lefel Gwasanaeth a gofynion contract y cytunwyd arnynt.	• Strategaeth Rheoli Contractau • Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

DRAFT

Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i welliant parhaus ac yn defnyddio amrywiaeth o brosesau sicrwydd ac adolygu i nodi cyfleoedd i ddatblygu ymhellach. Yn ystod 2025/26, nodwyd nifer o feysydd i'w gwella drwy'r broses Hunanasesu Gwasanaeth ac Adolygu Gwasanaeth, ochr yn ochr â materion llywodraethu a nodwyd drwy'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac argymhellion a ddeilliodd o'r Asesiad Panel Perfformiad.

Bydd y materion llywodraethu a nodwyd drwy'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn parhau i gael eu monitro a'u hadrodd drwy drefniadau llywodraethu sefydledig y Cyngor, gan gynnwys y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r materion gwella isod yn cynrychioli'r prif feysydd corfforaethol i'w gwella a nodwyd drwy'r broses Hunanasesu ac ymateb y Cyngor i'r Asesiad Panel Perfformiad. Mae camau gweithredu sydd wedi'u nodi fel (APP) yn ymwneud yn uniongyrchol ag argymhellion yr Asesiad Panel Perfformiad, a byddant yn cael eu monitro drwy drefniadau rheoli perfformiad presennol y Cyngor yn ystod 2026/27.

Meysydd i'w gwella a nodwyd	Camau i fynd i'r afael â'r maes i'w wella	Prif Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd	Erbyn
1. **Mae angen i'r Cyngor barhau i foderneiddio ei wasanaethau, ei systemau a'i ddefnydd o fewnwelediad sefydliadol er mwyn cefnogi penderfyniadau effeithiol, profiad y cwsmer a chynaliadwyedd hirdymor.**	• Datblygu a gweithredu Cynllun Strategol Moderneiddio (APP) • Parhau i gyflawni'r Cynllun Strategol Digidol a'r Cynllun Gweithredu Deallusrwydd Artiffisial • Cryfhau gwydnwch seiber ar draws y Cyngor ac ysgolion • Datblygu gallu'r sefydliad i gasglu, dadansoddi a defnyddio data • Gwella'r defnydd o ddata, mewnwelediad a gwybodaeth am berfformiad i gefnogi penderfyniadau a gwella gwasanaethau (APP) • Adolygu trefniadau a dangosyddion perfformiad wrth baratoi ar gyfer Cynllun nesaf y Cyngor (APP)	Digidol, Perfformiad a Moderneiddio	Gorffennaf 2027
2. **Mae angen i'r Cyngor adeiladu ar ei drefniadau arweinyddiaeth seiliedig ar le ac ymgysylltu, gan ddatblygu gweledigaeth**	• Datblygu cynlluniau creu lleoedd a chanllawiau ategol seiliedig ar le (APP)	Rheoleiddio a Datblygu Economaidd / Tîm Arweinyddiaeth	Mawrth 2028

DRAFT

Meysydd i'w gwella a nodwyd	Camau i fynd i'r afael â'r maes i'w wella	Prif Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd	Erbyn
hirdymor ar gyfer twf economaidd a llesiant cymunedol.	• Gwella'r defnydd o wybodaeth ddemograffig a gwybodaeth gymunedol i gefnogi gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau (APP) • Datblygu Cynllun Strategol Datblygu Economaidd hirdymor (APP) • Cryfhau trefniadau ymgysylltu â chymunedau i gefnogi blaenoriaethau lleol a darparu gwasanaethau (APP)		
3. **Mae angen i'r Cyngor wella gwydnwch y gweithlu a chapasiti'r sefydliad er mwyn deall risgiau'r gweithlu yn y dyfodol yn well, cefnogi cynllunio olyniaeth a sicrhau bod digon o gapasiti i gyflawni blaenoriaethau a phrosiectau strategol.**	• Datblygu dangosfwrdd craidd ar gyfer y gweithlu, set o ddangosyddion a fframwaith adrodd • Cynnal adolygiadau o wydnwch y gweithlu a chynllunio olyniaeth ar draws gwasanaethau • Nodi a monitro risgiau recriwtio, cadw staff a phroffil oedran y gweithlu • Gwerthuso effeithiolrwydd a gwerth am arian mentrau i ddenu a chadw staff • Adolygu capasiti'r sefydliad a sicrhau trefniadau llywodraethu cadarn i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau strategol a rhaglenni moderneiddio (APP)	Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer	Mawrth 2027
4. **Mae angen i'r Cyngor barhau i ddatblygu trefniadau gweithio mewn partneriaeth, cydweithio a chyfathrebu mewnol er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni ei flaenoriaethau a gwella effeithiolrwydd y sefydliad.**	• Parhau i weithredu'r Cynllun Cyfathrebu Mewnol newydd (APP) • Parhau i gryfhau gwaith partneriaeth gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol (APP)	Tîm Arweinyddiaeth / Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer	Mawrth 2027

DRAFT

Meysydd i'w gwella a nodwyd	Camau i fynd i'r afael â'r maes i'w wella	Prif Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd	Erbyn
	• Parhau i hyrwyddo dulliau cydweithredol o gyflawni blaenoriaethau a chanlyniadau cyffredin (APP) • Parhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau partneriaeth, gan gynnwys mentrau Oed-gyfeillgar a Gwybodus am Drawma (APP)		
5. **Mae angen i'r Cyngor barhau i wella cynaliadwyedd, cyflwr a rheolaeth hirdymor ei asedau a'i seilwaith.**	• Parhau i weithredu'r System Rheoli Cyfleusterau • Rhesymoli asedau'r Cyngor yn unol â'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024–2029. • Gwella gwybodaeth am asedau i gefnogi cynllunio buddsoddi hirdymor a gwneud penderfyniadau.	Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Mawrth 2028

DRAFT

Cynnydd yn erbyn y materion gwella a nodwyd o'r hunanasesiad blaenorol

Mae'r tabl yn amlinellu'r camau gwella a nodwyd y llynedd a gellir gweld diweddariad ar y cynnydd isod.

Materion gwella a nodwyd	Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol	Diweddariad ar gynnydd
1. Parhau i foderneiddio ei seilwaith digidol a seilwaith data.	Bwrdd Digidol	Mae'r Cyngor wedi parhau i foderneiddio ei seilwaith digidol a'i seilwaith data. Mae adnoddau ychwanegol wedi'u cymeradwyo yng nghyllideb 2026/27 i sefydlu rôl Rheolwr Data, a fydd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu Cynllun Strategol Data. Mae gwaith cyflawni'r Cynllun Strategol Digidol wedi parhau, gan wella systemau, diogelwch a gwasanaethau sy'n wynebu cwsmeriaid. Mae gwaith hefyd wedi adolygu model y Ganolfan Gyswllt Cwsmeriaid, tra bod yr ateb 'bot sgwrsio' a gynigiwyd yn flaenorol wedi cael ei ailasesu a bydd opsiynau eraill yn cael eu harchwilio. Statws: Ar y trywydd iawn – dyddiad targed Mawrth 2027.bu
2. Rhaid i'r cyngor sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Deddf Gaffael 2023 newydd.	Adnoddau	Mae'r Cyngor wedi parhau i weithredu'r Cynllun Gwella Caffael, gyda threfniadau interim yn cynnal parhad tra oedd y broses recriwtio ar gyfer swydd y Rheolwr Caffael yn mynd rhagddi. Bu staff asiantaeth yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun gweithredu, cafodd polisïau a gweithdrefnau eu hadolygu a'u diweddaru yn unol â Deddf Gaffael 2023, a chyflwynwyd hyfforddiant ar draws yr Awdurdod. Dechreuodd Rheolwr Caffael parhaol yn ei swydd ym mis Ebrill 2026, ac fe gymeradwyodd y Cyngor gyllideb ychwanegol ar gyfer 2026/27 i gryfhau staffio a systemau caffael. Statws: Ar ei hôl hi.
3. Mae gwydnwch ariannol y cyngor dan straen oherwydd yr argyfwng costau byw a gostyngiad mewn cyllid.	Adnoddau	Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull strwythuredig o gryfhau gwydnwch ariannol, gan gynnwys gwneud y gorau o incwm allanol a chyllid grant drwy drefniadau ffurfiol ar gyfer awdurdodi a monitro ceisiadau. Cafodd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ei ddiweddaru a'i fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2025. Nododd y Cyngor £975k o arbedion fel rhan o'r broses o bennu cyllideb refeniw 2026/27, gyda mesurau effeithlonrwydd a moderneiddio ehangach yn cael eu cefnogi drwy fuddsoddi mewn gwelliannau digidol a gweithredol. Statws: Wedi'i

		gwblhau ar gyfer 2025/26 – mae'r broses bellach yn rhan o drefniadau arferol y Cyngor.
4. Mae'n rhaid i'r cyngor reoli a rhesymoli asedau er mwyn sicrhau bod galw amdanynt, eu bod nhw'n addas at eu diben ac os nad ydynt yn cael eu adnabod, rhaid gweithio i wella safonau.	Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Mae'r Cyngor wedi cryfhau rheolaeth a chynaliadwyedd hirdymor ei asedau drwy ddatblygu a mabwysiadu'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau a'r Cynllun Strategol Rheoli Mân-ddaliadau, gyda chymorth cyllid untro ychwanegol. Mae'r system Rheoli Cyfleusterau gyda Chymorth Cyfrifiadur bellach yn weithredol, gyda rhagor o welliannau ar y gweill i wella data asedau, monitro ac integreiddio. Mae rhesymoli asedau yn parhau i fod ar gam cynnar a bydd angen gwella ansawdd data a sicrhau bod y system yn fwy aeddfed er mwyn llywio penderfyniadau yn y dyfodol. Statws: Ar ei hôl hi.
5. Mae'n rhaid i'r cyngor ymateb i heriau sydd wedi'u hadnabod wrth gynllunio gweithlu, gan gynnwys proffil oed mewn rhai gwasanaethau a phroblemau recriwtio a chadw staff mewn gwasanaethau eraill.	Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer	Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd cadarnhaol wrth ymateb i heriau cynllunio'r gweithlu. Mae Rhaglen Denu Talent, sy'n rhan o gynllun Dyfodol Môn, wedi'i chyflawni dros ddwy flynedd yn olynol ac wedi cryfhau'r llwybr i'r gweithlu yn y dyfodol. Mae cynllunio'r gweithlu bellach yn cael ei gefnogi drwy ymgysylltu rheolaidd rhwng Adnoddau Dynol, Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr Busnes, gyda heriau'n cael eu hadrodd i'r Tîm Arweinyddiaeth. Mae Rhaglen Raddedigion Dyfodol Môn hefyd wedi'i lansio, gyda graddedigion wedi'u penodi mewn meysydd proffesiynol allweddol. Statws: Wedi'i gwblhau ar gyfer 2025/26 – mae'r broses bellach yn rhan o drefniadau arferol y Cyngor.


DRAFT

Adroddiad Perfformiad


Uchafbwyntiau Perfformiad Allweddol

Gellir gweld rhai o brif uchafbwyntiau perfformiad eleni isod

Cynnydd mewn perthynas â'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol



Canlyniadau Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2023/24 to 2025/26



Deall y statws CAMG a ddefnyddir yn yr adran hon		
Statws	**Dogfen Gyflawni Flynyddol**	**Dangosyddion Perfformiad Allweddol**
Gwyrdd	Mae bron yr holl waith cynlluniedig wedi'i gwblhau, gydag ychydig iawn o eithriadau i'w cwblhau yn y flwyddyn ganlynol.	Mae perfformiad wedi cyrraedd y targed neu wedi rhagori arno.
Melyn	Mae rhwng 70% a 90% o'r gwaith wedi'i gwblhau, gyda'r gwaith sy'n weddill wedi'i drefnu ar gyfer y flwyddyn ganlynol.	Mae perfformiad o fewn y goddefiant y cytunwyd arno, fel arfer o fewn 5% i gyrraedd y targed.
Ambr	Mae rhwng 50% a 70% o'r gwaith wedi'i gwblhau, gyda'r gwaith sy'n weddill wedi'i drefnu ar gyfer y flwyddyn ganlynol, neu mae rhywfaint o'r gwaith wedi'i oedi.	Mae perfformiad islaw'r goddefiant y cytunwyd arno ac mae angen sylw rheolwyr.
Coch	Mae llai na 50% o'r gwaith wedi'i gwblhau, nid yw'r gwaith wedi'i wneud eto, neu mae wedi'i ganslo.	Mae perfformiad yn sylweddol is na'r targed ac mae angen camau cywiro.

DRAFT


Cynnydd mewn perthynas ag Amcanion Llesiant y Cyngor

Mae'r tudalennau isod yn crynhoi cynnydd y Cyngor yn ystod 2025/26 tuag at gyflawni'r amcanion llesiant, Cynllun y Cyngor a'r amcanion tymor hir ar gyfer 2028.

Mae'r dystiolaeth fanwl a'r diweddariadau sy'n sail i'r crynodebau hyn ar gael yn Atodiad 2, lle eglurir statws CAMG a'r cynnydd yn erbyn pob cam gweithredu yn 25/26 yn llawn.

Gyda'i gilydd, mae'r adrannau hyn yn dangos sut sut mae'r camau gweithredu blynyddol (ymrwymiadau 25/26) yn cyfrannu at gyflawni amcanion tymor hwy'r Cyngor (canlyniadau erbyn 2028).

Mae'r darlun isod yn dangos sut mae'r wybodaeth yn yr adran hon yn cysylltu â'r diweddariadau manwl yn Atodiad 2, a ddangosir fel '25/26 ymrwymiad' isod.



Mae pob un o'r tablau isod yn nodi:
- beth mae'r Cyngor yn gobeithio'i gyflawni **erbyn 2028** (y canlyniadau tymor hwy),
- beth yr ydym wedi **ymrwymo i'w gyflawni yn ystod 2025/26** (o'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 25/26), a
- faint o gynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Amcan Llesiant 1 - Mae pobl Ynys Môn yn cael eu haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial yn y tymor hir

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG (25/26)
Yr Iaith Gymraeg	Sicrhau bod ein Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn addas er mwyn ymateb i ganlyniadau'r cyfrifiad diwethaf pan ddaw'n amser i'w hadolygu yn 2026	Ar Amser	• Cynnal adolygiad siopwr cudd o'r ddarpariaeth iaith Gymraeg yng ngwasanaethau'r Cyngor • Hunanasesu ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg	Gwyrdd
Yr Iaith Gymraeg	Diweddaru ein polisi iaith Gymraeg a datblygu polisi newydd ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle	Ar Amser	• Gweithredu'r Polisi Iaith Gymraeg • Profi dealltwriaeth staff o ofynion y safonau a'r polisi iaith Gymraeg	Melyn
Yr Iaith Gymraeg	Ehangu ein cynnig o hyfforddiant fel bod staff, cynghorwyr, partneriaid a thrigolion yr ynys yn cael mwy o gyfle i ymarfer eu sgiliau iaith Gymraeg.	Ar Amser	• Gynnal pump dosbarth iaith Gymraeg ar gyfer staff ac aelodau etholedig • Cynnal ymgyrchoedd rheolaidd i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg • Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle • Cefnogi a hwyluso trefniadau ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Môn 2026	Gwyrdd
Addysg	Sicrhau bod y strategaeth foderneiddio cymunedau dysgu yn creu ysgolion effeithiol gydag arweinyddiaeth gref gydag amgylchfyd addysgu pwrpasol	Ar Amser	• Ymgynghori ar gynnig ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi newydd yn ystod Mehefin a Gorffennaf • Paratoi a chyflwyno achos busnes amlinellol strategol i Lywodraeth Cymru • Paratoi a gweithredu cynllun strategol newydd i ddatblygu perthynas waith well rhwng darparwyr addysg ôl-16 presennol	Gwyrdd

DRAFT

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG (25/26)
Addysg	Datblygu'r Gymraeg ar draws pob lleoliad addysgol drwy wireddu nodau, amcanion a deilliannau a osodwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn addysg	Ar Amser	• Trochi 96 o ddisgyblion heb lawer neu heb ddim sgiliau Cymraeg drwy'r canolfannau iaith • Datblygu cynllun gwella iaith Gymraeg 5 mlynedd yn Ysgol Llanfawr, Santes Fair ac Ysgol Uwchradd Caergybi • Sicrhau bod 100% o ddysgwyr blwyddyn 6 yn derbyn asesiad cyfranogiad a medrusrwydd iaith Gymraeg	Gwyrdd
Addysg	Sicrhau profiadau a chynnydd gorau phosib i blant a phobl ifanc drwy wireddu'r Cwricwlwm i Gymru ym mhob cymuned dysgu ar draws yr ynys	Ar Amser	• Gweithredu cynllun strategol a gweithio gydag ysgolion i wella presenoldeb mewn ysgolion ym Môn i 95% • Sicrhau bod y Cwricwlwm i Gymru a phrosesau asesu a phontio ar waith ym mhob ysgol • Sicrhau bod pob ardal dalgylch yn gweithio gyda'i gilydd, o ysgol i ysgol, i gefnogi plant a phobl ifanc ddatblygu eu sgiliau a'u sgiliau digidol • Gweithio at gwblhau hyfforddiant diogelu Grŵp A, B a C 100% ar gyfer staff sydd angen y lefel hyfforddiant perthnasol • Gweithio tuag at fod yn Ynys sy'n Wybodus am Drawma - cefnogi dwy ysgol arall i gyflawni achrediad TIS • Adolygu prosesau mapiau darparu ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Chynhwysiant mewn ysgolion, sy'n hwyluso'r gwaith o fonitro, mesur addasrwydd, ansawdd a chanlyniadau dysgwyr gydag ADY	Melyn
Addysg	Cynyddu cyfleoedd addysgol ar gyfer oedolion er mwyn i drigolion Ynys Môn ddatblygu'n bersonol drwy gydol eu bywyd	Ar Amser	• Sefydlu rhaglen o weithgareddau i'w chynnal yn Creu / Caffi Ffiws yn Neuadd y Farchnad, Caergybi Gweithio mewn partneriaeth â Menter Môn a Mencap Môn	Gwyrdd

DRAFT

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG (25/26)
			• Cynorthwyo plant a'u teuluoedd i fanteisio ar weithgareddau addysgol a Swyddogion Ysgolion Cymunedol sy'n gweithio mewn partneriaeth i gynorthwyo plant a'u teuluoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau addysgol a chymuned y tu allan i oriau ysgol traddodiadol er mwyn ymgysylltu teuluoedd gydag ysgolion 50% o ysgolion yn cynnig mannau cymunedol • Cynllun Cwrs Dysgu Gydol Oes wedi'i weithredu'n llawn drwy bartneriaeth gyda Grŵp Llandrillo Menai	

Amcan Llesiant 2 - Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG (25/26)
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Adolygu a moderneiddio'r dull o ddarparu gofal a chefnogaeth	Ar Amser	• Gweithio gyda'n gilydd i fod yn ynys oed-gyfeillgar drwy weithgareddau ataliol: • Trawsnewid gwasanaethau dydd drwy barhau i weithio gyda phartneriaid i gynnal gweithgareddau dydd mewn lleoliadau cymunedol yn ardal Caergybi, ac ehangu'r model yng nghanol Ynys Môn ac yn y dwyrain. • Gweithio i gynnal y niferoedd isel o bobl ifanc a phobl sy'n gadael gofal nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), a gweithio i leihau niferoedd eto lle bynnag y bo'n bosibl • Croesawu dros 500,000 o ymweliadau i ganolfannau Môn Actif • Buddsoddi £1M yng nghyfleusterau Môn Actif	Gwyrdd

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG (25/26)
			• Sicrhau bod cronfa ddata gofal cymdeithasol modern ar waith yn lle WCCIS ac yn sicrhau bod data a gwybodaeth yn cael eu trosglwyddo'n llwyddiannus.	
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Gwella ac ehangu'r ddarpariaeth tai a chymorth	Ar Amser	• Moderneiddio a gwneud y gorau o 'Dai â Chymorth' drwy greu capasiti ychwanegol o 12 ac unedau o safon yn Fali, Rhostrehwfa a Gwalchmai, a cynyddu darpariaeth yn Caergybi a Llangefni • Adnabod rhaglen ychwanegol o 3 eiddo addas i fodloni gofynion oes defnyddwyr gwasanaeth	Melyn
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Ehangu'r cyfleoedd i bobl allu derbyn gofal yn agosach at eu cymunedau lleol	Ar Amser	• Cynyddu cyfranogiad mewn hybiau cymunedol integredig, cynnal lleiafswm o 6 fforwm cymuned a gwella hygyrchedd yr hybiau, gan ddarparu gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol yn rhai o'r hybiau hynny • Agor Hwb Cymunedol Canolfan Glanhwfa - i gynnal Canolfan Dementia Ynys Môn • Ehangu'r rhaglen Nifty60s i chwe cymuned arall • Gweithio gyda Chynghrair Seiriol i beilota prosiect trafnidiaeth gymunedol • Lleihau unigrwydd ac unigedd drwy drefnu digwyddiadau rhwng cenedlaethau, gan gynnwys gweithgareddau 'Atgofion Chwaraeon', Boccia a 'Dawns i Bawb'. • 500 yn cymryd rhan yn y cynllun Dementia Actif	Gwyrdd
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Datblygu'r ddarpariaeth fewnol ar gyfer plant mewn gofal, Cartrefi Clyd a gofalwyr maeth	Ar Amser	• Dod o hyd i eiddo ar gyfer dau Cartref Clyd pellach ar yr ynys • Ceisio cael saith lleoliad gofal maeth ychwanegol (gwely) yn ystod 25/26	Gwyrdd

DRAFT

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG (25/26)
			• Ehangu a gwella darpariaeth gofal plant gan cynnwys cymhwysedd, y gyfradd cymryd rhan, ansawdd a boddhad rhieni	
Tai	Agor trydydd cynllun tai gofal ychwanegol a gyda chynlluniau am y pedwerydd	Ar ei hôl hi	• Sicrhau cyllid a chaniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad Gofal Ychwanegol yn Nhyddyn Mostyn, Porthaethwy	Gwyrdd
Tai	Cytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid a dyrannu adnoddau er mwyn cynnwys llais ein tenantiaid o fewn ein gwasanaethau	Ar Amser	• Cyflawni ein cynllun Profiad Cwsmer - cynnydd o 10% fesul mis mewn cysylltiadau CRM gan denantiaid • Adolygu ein dull adroddiad ar Reoli Perfformiad i sicrhau y dilynir dull sy'n cael ei arwain gan ddata, a bod hynny'n gwella perfformiad gan roi pwyslais ar feysydd nad ydynt yn perfformio cystal • Digideiddio: Teleofal erbyn Medi 2025	Gwyrdd

Amcan Llesiant 3 - Mae pobl Ynys Môn a'i chymunedau yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG (25/26)
Tai	Mynd i'r afael â'r agenda effeithlonrwydd ynni / tlodi tanwydd gan weithio tuag at wireddu Safonau Ansawdd Tai Cymru II	Ar Amser	• Cynyddu nifer yr eiddo sy'n cydymffurfio â tharged ynni SAP 75 SATC 2023 o 30% i 40%; cynnydd targed o 400 eiddo. • Cynllun gweithredu tlodi Gogledd Ynys Môn - dull Cyngor cyfan at wella ffactorau economaidd-gymdeithasol. • Erbyn 31 Mawrth 2026, bydd holl eiddo'r Cyngor gyda Llwybr Ynni Targed	Gwyrdd

DRAFT

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG (25/26)
Tai	Cynnal asesiad anghenion marchnad tai gyda phrosbectws tai blynyddol er mwyn adrodd ar gynnydd mewn cyflenwad o dai fforddiadwy	Ar Amser	• Cyflawni cynllun gweithredu trosi eiddo gwag	Ambr
Tai	Cynyddu'r dewis a'r nifer o dai sydd ar gael i drigolion yr ynys gan hefyd gynorthwyo aelwydydd i allu prynu eu cartrefi cyntaf	Ar Amser	• Adolygu'r Polisi Cyffredin ar Osod Tai (PCOT) i ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd o'r PCOT cyfredol ynghyd â newidiadau deddfwriaethol Lansio PCOT newydd yn 2025 • Datblygu 45 tŷ newydd • Hwyluso'r gwaith o adnewyddu 60 tŷ gwag • Cynorthwyo hyd at 6 prynwr tro cyntaf i fynd ar y farchnad dai	Melyn
Economi	Cefnogi cynlluniau cynhyrchu ynni carbon isel	Ar Amser	• Gweithio gyda phartneriaid i wireddu prosiect niwclear newydd posibl yn Wylfa mewn ffordd sy'n lleihau effaith a sicrhau'r buddion economaidd-gymdeithasol gorau i bobl leol • Darparu cymorth a chyngor i Menter Môn ar ddatblygu Hwb yng Nghaergybi • Dylanwadu ar Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill a chydweithio â hwy ar ddatblygiadau ynni ar raddfa fawr • Gweithio gyda datblygwr Fferm Solar Maen Hir a rhanddeiliaid eraill yn ystod y broses DCO (gan gynnwys bod yn bresennol mewn gwrandawiadau cyhoeddus, a pharatoi ar eu cyfer gan sicrhau yr ymdrinnir â'r ffeithiau a'r buddion)	Gwyrdd
Economi	Cydweithio i wireddu amcanion economi cylchol	Ar Amser	• Ymestyn y trefniadau i gasglu eitemau y gellir eu hailddefnyddio (yn hytrach na'u hailgylchu) yn cynnwys creu swydd benodol i gasglu eitemau i'w hailddefnyddio ym Mhenhesgyn	Gwyrdd

DRAFT

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG (25/26)
Economi	Datblygu unedau busnes newydd i gynorthwyo tyfiant a datblygiad busnesau lleol	Ar Amser	• Sicrhau cyllid cyfalaf i godi 10 uned fusnes newydd yn Amlwch • Sicrhau cyllid cyfalaf i ailddatblygu'r adeilad Terfynfa Forol yn Amlwch • Parhau i wneud cynnydd gyda Chynllun Adfywio Economaidd Gogledd Môn drwy: • Goruchwylio'r gwaith o ddarparu Strategaeth Gwella Canol Trefi Ynys Môn • Parhau i ddyrannu grantiau ac arwain ar ymyraethau canol trefi, a dyrannu cyllid drwy'r Gronfa Ffyniant Bro a menter Trawsnewid Tref sy'n cael ei chefnogi gan Lywodraeth Cymru	Melyn
Economi	Manteisio ar fuddsoddiad ychwanegol er budd yr economi yn lleol	Ar Amser	• Cydweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i symud ymlaen, sicrhau a sefydlu Rhaglen Porthladd Rhydd llwyddiannus yn Ynys Môn yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru a'r DU, a sefydlu trefniadau llywodraethu grymus • Sicrhau cyllid allanol i fynd i'r afael ag anghenion yr Ynys a chyfleoedd economaidd ar Ynys Môn e.e. y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro - cynnal agwedd fasnachol mewn perthynas â rheoli Canolfannau Hamdden	Gwyrdd
Economi	Cynyddu a hyrwyddo'r economi ymwelwyr mewn modd parchus a chynaliadwy er mwyn sicrhau buddion i'n cymunedau ac ymwelwyr	Ar Amser	• Darparu'r cynllun gweithredu Tirweddau Dynodedig i sicrhau bod blaenoriaethau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru ar gyfer adfer natur a lliniaru newid hinsawdd yn cael eu gwireddu • Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu rhaglenni plannu coed a gwaith dalgylch afon i helpu i wella ansawdd dŵr • Cynnig mwy o gyfleoedd i ffermwyr yn y Tirweddau Dynodedig a'r llain glustogi i wella cynefinoedd	Melyn

DRAFT

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG (25/26)
			• Gweithio gyda ffermwyr i ddarparu model ffermio cynaliadwy, drwy arbrawf Ffermio Bro y Cynllun Ffermio Cynaliadwy • Darparu amrywiaeth o weithgareddau i warchod a gwella rhinweddau arbennig yr AHNE • Rheoli Cynllun Rheoli Cyrchfan newydd (DMP) (2023-2028): Sefydlu Partneriaeth Cyrchfan Newydd • Darparu prosiectau allweddol i wella seilwaith a phrofiad ymwelwyr gan leihau'r effaith a phwysau negyddol Cydweithio gyda Llywodraeth Cymru i wella gweithgareddau i ymwelwyr ar fordeithiau sy'n cyrraedd Caergybi • Parhau i adolygu cynigion sy'n ymwneud â chyflwyno Ardoll Ymwelwyr er mwyn deall y cyfleoedd a'r problemau cysylltiedig ar yr Ynys • Canolbwyntio ar wella'r Llwybr Arfordirol drwy ddefnyddio ffynonellau ariannu allanol, a chysylltu'r gwelliannau hyn gyda phrosiectau gwella natur er mwyn cyfoethogi profiadau'r rheiny sy'n defnyddio'r llwybr arfordirol	
Economi	Ail ddatblygu safleoedd diwydiannol a thiroedd llwyd hanesyddol	Ar Amser	• Cefnogi perchnogion tir i ailddatblygu safleoedd diwydiannol, gan gynnwys: hen safle Anglesey Aluminium, safle Two Sisters, Rhosgoch, Octel (Amlwch), hen safle Peboc, Llangefni a hen safle diwydiannol Lairds ym Miwmares	Melyn
Newid Hinsawdd	Lleihau ein hallyriadau carbon uniongyrchol er mwyn sicrhau bod y targed sero net 2030 o fewn cyrraedd	Ar Amser	• Cyhoeddi Cynllun Strategol Sero Net 2025–2030 • Sefydlu grŵp bioamrywiaeth • Gyrru'r Cynllun Trawsnewid Fflyd yn ei flaen drwy gynyddu nifer y cerbydau carbon isel • Gosod systemau carbon isel yn 24 adeilad y Cyngor	Gwyrdd

DRAFT

Amcan Strategol	Erbyn 2028 byddwn wedi:	Cynnydd Hirdymor	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	CAMG (25/26)
Newid Hinsawdd	Cynyddu cyfraddau ailgylchu	Ar ei hôl hi	• Gweithio tuag at gyflawni targed ailgylchu Llywodraeth Cymru sef ailgylchu 70% o wastraff o gartrefi ac adeiladau'r Cyngor • Cynyddu cyfraddau ailgylchu ar gyfer casglu gwastraff o adeiladau'r Cyngor i 60% • Lleihau digwyddiadau tipio o 10% (o gymharu â ffigyrau 24/25)	Coch
Newid Hinsawdd	Sicrhau bod gwasanaethau yn ystyried newid hinsawdd a bioamrywiaeth fel materion elfennol wrth gyrraedd penderfyniadau	Ar Amser	• Rhoi cynlluniau rheoli llifogydd ar waith ledled yr ynys (yn ddibynnol ar sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru): • Gweithio ar ein trefniadau SAB yn fewnol - datblygu a gweithredu trefniadau newydd ar gyfer SAB; i gynnwys cynhyrchu incwm yn ystod ymgynghori cyn cyflwyno ceisiadau	Melyn
Newid Hinsawdd	Creu opsiynau teithio carbon isel eang i drigolion ac ymwelwyr â'r ynys	Ar Amser	• Rhoi cynlluniau teithio llesol ar waith rhwng Malltraeth a Niwbwrch • Treialu cynllun trafnidiaeth gymunedol i gysylltu ardaloedd gwledig gyda phrif lwybrau trafnidiaeth • Gweithredu newidiadau i'r cyfyngiad cyflymder 20mya mewn 27 lleoliad • Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn 14 lleoliad ledled yr ynys (yn ddibynnol ar gyllid allanol a phenodi cyflenwr addas)	Gwyrdd

DRAFT

Perfformiad Cyffredinol y Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae adroddiad Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter 4 ar gyfer 2025/26 yn rhoi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a ddefnyddir i fonitro'r gwaith o gyflawni Cynllun y Cyngor. Yn gyffredinol, roedd 87% o'r dangosyddion a oedd â tharged naill ai'n Wyrdd neu'n Felyn. Roeddent felly wedi cyrraedd eu targedau, wedi rhagori arnynt neu heb fod mwy na 5% islaw'r targed.

Mae perfformiad blynyddol y Cyngor ar gyfer yr holl ddangosyddion cymaradwy, sef 48 i gyd, yn dangos bod 20 dangosydd, neu 42%, wedi gwella yn ystod y flwyddyn; bod 24 dangosydd, neu 50%, wedi dirywio; a bod 4 dangosydd, neu 8%, wedi cynnal eu lefelau perfformiad.

Er bod mwy o'r dangosyddion cymaradwy wedi dirywio nag a wellodd, mae'r darlun cyffredinol yn parhau'n gadarnhaol. O'r dangosyddion a ddirywiodd, roedd 62% yn parhau i berfformio yn uwch na'r targed neu o fewn 5% i'w gyrraedd, roedd 21% yn Ambr neu'n Goch yn erbyn y targed, ac nid oedd targed wedi'i osod ar gyfer 17%.

Mae'r adroddiad cerdyn sgorio yn tynnu sylw at nifer o enghreifftiau o berfformiad da, gan gynnwys:

- Parhaodd gweithgarwch hyfforddiant iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn, gyda 82 o swyddogion yn derbyn hyfforddiant, tra bod 86% o swyddi'n cael eu hysbysebu â gofyniad Cymraeg Lefel 3 neu uwch.
- Cyflawnodd 100% o'r plant y disgwyliadau a bennwyd ar gyfer y cyfnod trochi yn yr Uned Iaith.
- Roedd 249 o oedolion yn derbyn Taliadau Uniongyrchol, sy'n uwch na'r targed o 224.
- Roedd cyfran y rhai a adawodd Flwyddyn 11 nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn 0.6%, gan wella o 1.9% yn 2024/25 a 4% yn 2023/24.
- Perfformiodd y gwasanaeth llyfrgelloedd yn dda, gyda 97.9% o ddefnyddwyr sy'n oedolion yn nodi bod y gwasanaeth yn dda neu'n dda iawn, a defnyddwyr 16 oed neu iau yn rhoi sgôr boddhad gyfartalog o 9.5 allan o 10.
- Cwblhawyd atgyweiriadau ymatebol tai o fewn yr amserlenni targed, sef 17 diwrnod o'i gymharu â tharged o 18 diwrnod, ac roedd boddhad tenantiaid ag atgyweiriadau ymatebol yn 86%, uwch na'r targed o 85%.
- Cwblhawyd pob arolygiad hylendid bwyd risg uchel erbyn diwedd y flwyddyn yn dilyn camau gweithredu penodol gan y gwasanaeth yn ystod Chwarter 4.
- Roedd pob categori o gyflwr ffyrdd yn Wyrdd o'i gymharu â'r targed, gyda dim ond 1.5% o ffyrdd A, 1.1% o ffyrdd B a 5.4% o ffyrdd C mewn cyflwr gwael.

Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at wyth dangosydd sydd angen sylw rheoli pellach. Cafodd y rhain eu hystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith, bydd y Tîm Arweinyddiaeth yn ymchwilio i'r rhesymau dros y perfformiad, yn cytuno ar gamau gwella ac yn monitro'r cynnydd. Y dangosyddion yw:

1. Gofal Cymdeithasol a Llesiant – Canran yr atgyfeiriadau plant sy'n ail-atgyfeiriadau o fewn 12 mis.

DRAFT


2. Tai – Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr i ail-osod unedau llety, heb gynnwys unedau sy'n anodd eu gosod.
3. Tai – Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i gyflawni addasiadau Grant Cyfleusterau i'r Anabl canolig.
4. Tai – Nifer cyfartalog y diwrnodau calendr a gymerwyd i gyflawni addasiadau Grant Cyfleusterau i'r Anabl mawr.
5. Tai – Nifer y cartrefi Cyngor newydd a ddatblygwyd a chyn-gartrefi Cyngor a brynwyd ac a ddygwyd yn ôl i fod yn gartrefi rhent y Cyngor.
6. Economi – Cyfanswm nifer y cwsmeriaid â chontractau angori blynyddol.
7. Newid Hinsawdd – Canran y gwastraff domestig a ailddefnyddiwyd, a ailgylchwyd neu a gompostiwyd.
8. Iechyd y Cyngor Cyfan – Canran y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen.

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys yr holl ddangosyddion, ar gael yn y Cerdyn Sgorio Chwarter 4 ar gyfer 2025/26.

DRAFT

Alldro Refeniw Ariannol 2025/26

Mae'r alldro refeniw ar gyfer pob Gwasanaeth, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, yn cynnwys y Cyfrif Refeniw Tai (CRT), i'w weld yn y siart isod:



Ceir rhagor o wybodaeth yn yr Alldro Refeniw ar gyfer 25/26 a'r CRT

Atodiad 1 - Crynodeb o Ganlyniadau Hunanasesu Gwasanaethau'r Cyngor, 2026

Nodir isod ymateb pob gwasanaeth yn erbyn y categorïau tystiolaeth ar gyfer 2026.

Gwasanaeth	Cynllunio gwasanaeth a pherfformiad	Cynllunio ariannol	Cynllunio'r gweithlu	Llywodraethu; caffael a rheoli contractau; risg ac archwilio
Gwasanaethau Oedolion	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol
Gwasanaeth Plant a Theuluoedd	Lefel 4 – Optimeiddio ac Arwain	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol
Busnes y Cyngor	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 2 – Gwreiddio a Gweithredol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol
Tai	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 4 – Optimeiddio ac Arwain	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol
Dysgu	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 4 – Optimeiddio ac Arwain	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol
Adnoddau	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 4 – Optimeiddio ac Arwain	Lefel 4 – Optimeiddio ac Arwain	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol
Trawsnewid (bellach wedi'i rannu'n ddau Wasanaeth – Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer / Digidol, Perfformiad a Moderneiddio)	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol	Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol
Asesiad Cyffredinol	**Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol**	**Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol**	**Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol**	**Lefel 3 – Integredig ac Effeithiol**

DRAFT

Atodiad 2 – Diweddariadau manwl ar y gwaith a gyflawnwyd yn 2025/26

Mae system CAMG (Coch, Ambr, Melyn, Gwyrdd) wedi'i dylunio i grynhoi perfformiad -

CAMG	Disgrifiad
Gwyrdd	Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith, sef 90% neu fwy, wedi'i chwblhau gydag ychydig iawn o eithriadau i'w cwblhau yn y flwyddyn ganlynol
Melyn	70% i 90% o'r gwaith wedi'i gwblhau gyda'r gwaith sy'n weddill wedi'i drefnu i'w gyflawni yn y flwyddyn ganlynol
Ambr	50% i 70% o'r gwaith wedi'i gwblhau gyda'r gwaith sy'n weddill wedi'i drefnu i'w gyflawni yn y flwyddyn ganlynol neu rywfaint o'r gwaith wedi'i oedi
Coch	Mae llai na 50% o'r gwaith wedi cael ei gwblhau, neu nid yw'r gwaith wedi cael ei wneud

Amcan Llesiant 1 - Mae pobl Ynys Môn yn cael eu haddysgu i gyrraedd a chyflawni eu potensial yn y tymor hir

Amcan Strategol	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	Diweddariad	Statws
Yr Iaith Gymraeg	Cynnal adolygiad siopwr cudd o'r ddarpariaeth iaith Gymraeg yng ngwasanaethau'r cyngor.	Cynhaliwyd adolygiad siopwr cudd o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Dangosodd y canfyddiadau fod lefel uchel o gydymffurfiaeth. Rhannwyd enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â'r polisi iaith gyda'r gwasanaethau perthnasol, a chafodd cywiriadau eu gwneud.	Gwyrdd
Yr Iaith Gymraeg	Hunanasesu ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.	Rhannwyd asesiad o gydymffurfiaeth y Cyngor â Chomisiynydd y Gymraeg. Ni nodwyd unrhyw feysydd o bryder sylweddol, ac mae adborth gan y rheoleiddiwr yn ddisgwyliedig.	Gwyrdd
Yr Iaith Gymraeg	Gweithredu'r Polisi Iaith Gymraeg.	Mae Polisi Iaith Gymraeg diwygiedig wedi bod ar waith ers mis Mawrth 2025.	Gwyrdd
Yr Iaith Gymraeg	Profi dealltwriaeth staff o ofynion y safonau a'r polisi iaith Gymraeg.	Mae'r gwaith o brofi dealltwriaeth staff o Safonau'r Gymraeg a'r polisi drwy'r Porth Polisi wedi'i ohirio yn dilyn cyflwyno polisïau gorfodol newydd gan y Tîm Arweinyddiaeth.	Melyn
Yr Iaith Gymraeg	Cynnal pum dosbarth iaith Gymraeg ar gyfer staff ac aelodau etholedig.	Cynhaliwyd pedwar dosbarth wythnosol ar lefelau Mynediad, Sylfaen a Chanolradd drwy bartneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.	Melyn
Yr Iaith Gymraeg	Cynnal ymgyrchoedd rheolaidd, o leiaf yn fisol, i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.	Rhannwyd her iaith Gymraeg yn fisol â staff drwy e-bost, drwy'r Ddolen ac ar bapur.	Gwyrdd

DRAFT

Amcan Strategol	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	Diweddariad	Statws
Yr Iaith Gymraeg	Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.	Diweddarwyd cynllun gweithredu is-grŵp gweithleoedd Fforwm Iaith Ynys Môn, a pharhaodd y gwaith ar y prosiect 'Chwalu Mythau', sy'n ceisio herio camdybiaethau am ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ac wrth recriwtio staff.	Gwyrdd
Yr Iaith Gymraeg	Cefnogi a hwyluso trefniadau ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Môn 2026.	Cynhaliwyd digwyddiad codi arian ar y cyd â'r Urdd a Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin yng Nghanolfan Busnes Ynys Môn. Mae grŵp tasg ar y cyd, gyda swyddogion allweddol o'r Cyngor a chynrychiolwyr yr Urdd, wedi cyfarfod yn rheolaidd ers mis Medi 2025. Mae strwythur pabell y Cyngor wedi'i gytuno, mae is-grŵp gweithgareddau wedi'i sefydlu, ac mae'r gwaith o gysylltu â'r Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch yn parhau.	Gwyrdd
Addysg	Ymgynghori ar gynnig ar gyfer Ysgol Uwchradd Caergybi newydd a pharatoi a chyflwyno Achos Busnes Amlinellol Strategol i Lywodraeth Cymru.	Cyhoeddwyd hysbysiad statudol ar gyfer adeilad newydd Ysgol Uwchradd Caergybi ar 6 Tachwedd 2025, ac yna bu cyfnod o 28 diwrnod ar gyfer gwrthwynebiadau. Paratowyd adroddiad ar y gwrthwynebiadau ar gyfer y Pwyllgor Gwaith a'i anfon at Lywodraeth Cymru ar 6 Ionawr 2026. Derbyniwyd cymeradwyaeth ffurfiol gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2026. Paratowyd yr Achos Amlinellol Strategol i'w gyflwyno, ac roedd disgwyl iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 7 Mai.	Gwyrdd
Addysg	Paratoi a gweithredu cynllun strategol newydd i ddatblygu perthynas waith well rhwng darparwyr addysg ôl-16 presennol.	Parhaodd cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr ysgol a'r coleg i archwilio trefniadau cydweithio agosach, gan gynnwys defnyddio adnoddau'r coleg a rhannu arbenigedd staff. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i nodi arferion dysgu rhithwir effeithiol, ac mae gwaith ar y gweill i ddatblygu strategaeth gydweithredol gyda chamau gweithredu pendant.	Melyn
Addysg	Trochi 96 o ddisgyblion heb lawer neu heb ddim sgiliau Cymraeg drwy'r canolfannau iaith.	Roedd nifer y disgyblion a oedd yn defnyddio'r canolfannau iaith yn unol â'r targed, gan gynnwys mwy na 30 o ddisgyblion uwchradd yn Ysgol Uwchradd Caergybi.	Gwyrdd
Addysg	Datblygu cynllun gwella iaith Gymraeg 5 mlynedd yn Ysgol Llanfawr, Ysgol Santes Fair ac Ysgol Uwchradd Caergybi.	Mae'r tiwtor a oedd wedi'i leoli yn Ysgol Uwchradd Caergybi wedi gadael ei swydd, ac mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda Phrifysgol Bangor i benodi tiwtor newydd. Bydd cymorth i staff ysgolion yn parhau unwaith y bydd tiwtor yn ei swydd.	Melyn
Addysg	Sicrhau bod 100% o ddysgwyr blwyddyn 6 yn derbyn asesiad	Mae prosesau ysgolion yn cadarnhau bod pob ysgol gynradd yn asesu medrusrwydd yn y Gymraeg.	Gwyrdd

DRAFT

Amcan Strategol	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	Diweddariad	Statws
	cyfranogiad a medrusrwydd iaith Gymraeg.		
Addysg	Gweithredu cynllun strategol a gweithio gydag ysgolion i wella presenoldeb mewn ysgolion ym Môn i 95%.	Mae prosesau targedu presenoldeb ar waith. Mae'r tîm bellach yn gweithredu hyd eithaf ei gapasiti ac yn casglu data ar ysgolion sydd angen cymorth ychwanegol.	Melyn
Addysg	Sicrhau bod y Cwricwlwm i Gymru a phrosesau asesu a phontio ar waith ym mhob ysgol.	Mae'r gwasanaeth yn cydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i dreialu adnodd Deallusrwydd Artiffisial cenedlaethol newydd i gefnogi gwaith cynllunio cwricwlwm mewn ysgolion. Mae grŵp o ysgolion cynradd wedi dechrau prosiect ymchwil gyda Phrifysgol Wrecsam ar brosesau asesu a dealltwriaeth gyffredin o gynnydd.	Melyn
Addysg	Sicrhau bod pob ardal dalgylch yn gweithio gyda'i gilydd, o ysgol i ysgol, i gefnogi plant a phobl ifanc ddatblygu eu sgiliau a'u sgiliau digidol.	Mae uwch arweinwyr yn cynnal trafodaethau dalgylch i adolygu trefniadau pontio yn dilyn adborth gan y Panel Sgriwtini. Mae cynlluniau cydweithio'n cael eu gweithredu ac mae matrics hunanasesu ar waith, gyda'r arweinwyr system yn cymryd cyfrifoldeb am ei gynnwys.	Melyn
Addysg	Gweithio tuag at sicrhau bod 100% o'r staff perthnasol yn cwblhau hyfforddiant diogelu Grwpiau A, B neu C, yn ôl y gofyn.	Mae hyfforddiant diogelu Grŵp A bellach yn orfodol drwy Learning Pool. Mae 60% o'r tîm Addysg wedi cwblhau hyfforddiant Grŵp A. Mae ysgolion wedi dechrau hyfforddi staff Grŵp B, ac mae dros 190 o bobl wedi mynychu rhannau 1 a 2 o hyfforddiant Grŵp C.	Melyn
Addysg	Gweithio at ddod yn Ynys Wybodus am Drawma - cefnogi dwy ysgol arall i gyflawni achrediad TIS.	Mae Ysgol Gynradd Kingsland ac Ysgol y Graig wedi mynegi diddordeb mewn gweithio tuag at achrediad, ac mae cynllun ar waith. Mae'r rhaglen VR yn parhau i fod yn boblogaidd, gyda dros 750 wedi'u hyfforddi ers mis Ebrill. Mae Ysgol David Hughes ac Ysgol Cybi wedi cwblhau'r hyfforddiant.	Melyn
Addysg	Adolygu prosesau mapiau darparu ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a Chynhwysiant mewn ysgolion.	Mae gwaith yn parhau i fonitro ac addasu'r fformiwla ariannu ar gyfer mapio darpariaeth drwy'r Fforwm ADY. Bydd angen i'r gwaith mapio barhau ochr yn ochr â'r gwaith ariannol, ac mae angen trafodaeth bellach ar enwebu arweinydd system ar gyfer pob dalgylch.	Ambr
Addysg	Sefydlu rhaglen o weithgareddau i'w chynnal yn Creu / Caffi Ffiws yn Neuadd y Farchnad, Caergybi, mewn	Roedd y gweithgareddau a gynhaliwyd yn cynnwys 12 sesiwn grŵp, 20 archeb unigol ar beiriannau a chwe gweithdy. Cynhaliwyd 38 o weithgareddau i gyd, gyda 180 o gyfranogwyr.	Gwyrdd

DRAFT

Amcan Strategol	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	Diweddariad	Statws
	partneriaeth â Menter Môn a Mencap Môn.		
Addysg	Cynorthwyo plant a'u teuluoedd i fanteisio ar weithgareddau addysgol a chymunedol y tu allan i oriau ysgol traddodiadol drwy Ysgolion Bro.	Mae trefniadau ar waith ar gyfer Bwyd a Hwyl 2026, gan gynnwys darpariaeth bosibl yn nalgylch Amlwch. Mae gwaith wedi dechrau ar gae 3G saith bob ochr yn Ysgol Gyfun Llangefni ac ar welliannau i'r cyrtiau tenis drwy gyllid cyfalaf Ysgolion Bro. Mae gweithgareddau eraill yn cael eu cynllunio hefyd, gan gynnwys digwyddiad pontio i Flwyddyn 6.	Melyn
Addysg	Gweithredu Cynllun Cyrsiau Dysgu Gydol Oes yn llawn drwy bartneriaeth gyda Grŵp Llandrillo Menai.	Cynhaliwyd deg cwrs ar gyfer 74 o ddysgwyr, gan gynnwys pum cwrs undydd gyda 19 o ddysgwyr a thri chwrs blasu gyda 17 o ddysgwyr. Yn gyfan gwbl, darparwyd 1,566 o oriau dysgu i 110 o ddysgwyr mewn wyth lleoliad.	Gwyrdd

Amcan Llesiant 2 - Mae pobl Ynys Môn yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib

Amcan Strategol	Cam Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Gweithio gyda'n gilydd i fod yn ynys oed-gyfeillgar drwy weithgareddau ataliol.	Cynhaliwyd Diwrnod Agored Heneiddio'n Dda dros y gaeaf yn Hafan Cefni, Llangefni, sef y cyntaf mewn cyfres o 10 digwyddiad. Cynhaliwyd ymweliad hel atgofion hefyd yn Oriel Môn gyda grŵp dementia o ardal Llangoed.	Gwyrdd
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Adnabod lleoliad cyfleus sy'n cynnig cyfleoedd i asesu, hyrwyddo a datblygu sgiliau byw'n annibynnol.	Cwblhawyd Cam 2 Canolfan Glanhwfa. Bydd y ganolfan yn cynnig ardal benodol i annog sgiliau byw'n annibynnol i bobl â dementia ac anableddau dysgu.	Gwyrdd
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Trawsnewid gwasanaethau dydd drwy barhau i weithio gyda phartneriaid i gynnal gweithgareddau dydd mewn lleoliadau cymunedol yn ardal Caergybi ac ehangu'r model yng nghanol a dwyrain Ynys Môn.	Parhaodd y gwaith o drawsnewid gwasanaethau, gan ganolbwyntio ar greu cyfleoedd personol, datblygu sgiliau bywyd a chynnig gweithgareddau cymunedol amrywiol mewn partneriaeth â sefydliadau fel Mencap Môn. Mae gwaith ar estyniad Gors Felen a'r ystafell newid arbenigol wedi dechrau ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd yr haf.	Gwyrdd
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Croesawu dros 500,000 o ymweliadau i ganolfannau Môn Actif.	Cofnododd Canolfannau Hamdden Môn Actif 170,212 o ymweliadau yn ystod Chwarter 4 a 575,194 o ymweliadau rhwng Chwarter 1 a Chwarter 4.	Gwyrdd

DRAFT

Amcan Strategol	Cam Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Buddsoddi £1m yng nghyfleusterau Môn Actif, gan gynnwys Plas Arthur, Caergybi, Amlwch ac archwiliadau pyllau nofio.	Mae Alliance Leisure wedi cael ei benodi i gefnogi prosiect Plas Arthur, gyda'r arolygon adeiladu'n cael eu cwblhau a'r gwaith adeiladu'n ddisgwyliedig yn hydref 2026. Mae offer ffitrwydd newydd a gwaith moderneiddio'r gofod ffitrwydd yng Nghanolfan Hamdden Caergybi wedi'u cwblhau. Nid yw'r gwaith ar ystafelloedd newid Amlwch wedi dechrau gan fod prosiectau ysgolion yn cael eu blaenoriaethu ar hyn o bryd. Ni fydd gwaith archwilio'r pyllau nofio yn cael ei gwblhau yn 2025/26 oherwydd cyfyngiadau cyllidebol.	Ambr
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Sicrhau bod cronfa ddata Gofal Cymdeithasol modern, Cysylltu Gofal, ar waith yn lle WCCIS, gan gynnwys trosglwyddo data a gwybodaeth yn llwyddiannus.	Mae'r prosiect ar waith ledled Cymru, dan arweiniad CLILC ar ran awdurdodau lleol. Cafwyd cadarnhad bod awdurdodau lleol wedi ymrwymo £20.9m i CLILC, ac rydym yn disgwyl cadarnhad o gyfran y Cyngor ar gyfer 2026/27. Mae'r gwaith o fudo data o WCCIS i Mosaic yn parhau, gyda chamau 1 a 2 wedi'u cwblhau. Mae'r dyddiad mynd yn fyw amcangyfrifedig wedi symud o fis Medi i ddechrau 2027.	Ambr
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Moderneiddio a gwneud y gorau o Dai â Chymorth drwy greu 12 uned ychwanegol o safon uchel yn y Fali, Pencoed a Maes y Ffridd, a bwrw ymlaen â darpariaeth yng Nghaergybi a Llangefni.	Mae prosiect y Fali yn weithredol ac mae pobl wedi ymgartrefu. Mae gwaith adeiladu Pencoed wedi'i gwblhau. Mae addasiadau adeiladu ym Maes y Ffridd ar y gweill a rhaid eu cwblhau cyn i bobl symud i mewn. Mae ceisiadau cynllunio ar gyfer Caergybi a Llangefni wedi'u cyflwyno, gyda'r gwaith yn debygol o barhau yn ystod 2026/27.	Melyn
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Adnabod rhaglen ychwanegol o dri eiddo addas i fodloni gofynion oes defnyddwyr gwasanaeth.	Y bwriad yw ceisio prynu un adeilad newydd o'r farchnad agored bob blwyddyn dros y tair blynedd nesaf.	Ambr
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Cynyddu cyfranogiad mewn hybiau cymunedol integredig, cynnal o leiaf chwe fforwm cymunedol a darparu gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol mewn rhai hybiau.	Cynhaliwyd Diwrnod Agored Heneiddio'n Dda yn Hafan Cefni, Llangefni, sef y cyntaf mewn cyfres arfaethedig o 10 digwyddiad o'r fath.	Gwyrdd

Amcan Strategol	Cam Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Agor Hwb Cymunedol Canolfan Glanhwfa i gynnal Canolfan Dementia Ynys Môn.	Cwblhawyd y gwaith adeiladu yng Nghanolfan Glanhwfa.	Gwyrdd
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Ehangu'r rhaglen Nifty60s i chwe chymuned arall.	Mae gweithdai wythnosol Nifty60s yn cael eu cynnal mewn naw lleoliad: Amlwch, Llangefni, Rhosneigr, Llanddona, Llanfairpwll, Benllech, Llangaffo, Llanfaethlu a Chaergybi, gyda phum sesiwn yr wythnos yng Nghaergybi. Mae'r rhaglen yn cyrraedd dros 350 o bobl bob wythnos.	Gwyrdd
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Gweithio gyda Chynghrair Seiriol i beilota prosiect trafnidiaeth gymunedol.	Lansiwyd y prosiect trafnidiaeth gymunedol ar 2 Mehefin fel treial tri mis ac mae wedi'i ymestyn tan fis Ebrill 2026.	Melyn
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Lleihau unigrwydd ac unigedd drwy drefnu digwyddiadau rhyng-genhedlaeth, gan gynnwys gweithgareddau Atgofion Chwaraeon, Boccia a Dawns i Bawb.	Cynhaliwyd dau ddigwyddiad 'parti paned' yng Nghanolfan Glanhwfa yn Llangefni, ac mae gweithgareddau Dawns i Bawb wedi parhau mewn cartrefi gofal gyda phlant o ysgolion lleol yn mynychu o bryd i'w gilydd.	Melyn
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Dod o hyd i eiddo ar gyfer dau Cartref Clyd pellach ar yr ynys.	Mae eiddo arall wedi'i nodi ac mae gwaith ar y gweill gyda Gwasanaeth Eiddo'r Cyngor i gadarnhau a yw'n opsiwn ymarferol ar gyfer y Cartref Clyd olaf.	Ambr
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Ceisio sicrhau saith lleoliad gofal maeth ychwanegol yn ystod 2025/26.	Ers 1 Ebrill 2025, mae dau wely gofal maeth cyffredinol a 12 gwely gofal maeth gyda pherson cysylltiedig wedi'u sicrhau.	Gwyrdd
Gofal Cymdeithasol a Llesiant	Ehangu a gwella darpariaeth gofal plant, gan gynnwys cymhwysedd, y gyfradd sy'n manteisio ar y ddarpariaeth, ansawdd a boddhad rhieni.	Cafodd 190 o blant ofal plant Dechrau'n Deg; cafodd 60 o blant ofal plant dwyflwydd oed drwy'r rhaglen ehangu gofal plant; roedd gan 344 o blant gytundeb Cynnig Gofal Plant ar waith; cynigiwyd 71 sesiwn grŵp a 33 cwrs anffurfiol strwythuredig i rieni; cynigiwyd pedwar cwrs hyfforddi, gyda 26 aelod o staff gofal plant yn dilyn hyfforddiant diogelu a chymorth cyntaf; a chrëwyd dau leoliad gofal plant diwrnod llawn newydd.	Gwyrdd
Tai	Sicrhau cyllid a chaniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad Gofal Ychwanegol newydd yn Nhyddyn Mostyn, Porthaethwy.	Mae cynllun draenio addas wedi'i ganfod. Mae'r cais grant ar gyfer dylunio ac adeiladu wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Cafwyd caniatâd cynllunio llawn ym mis Ebrill 2026 ac mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau ar y safle.	Gwyrdd

DRAFT

Amcan Strategol	Cam Gweithredu Allweddol	Diweddariad	Statws
Tai	Cyflawni'r Cynllun Profiad Cwsmer, gan gynnwys cynyddu cysylltiadau CRM gan denantiaid.	Aeth y ffurflen gais dai ar-lein yn fyw ar 20 Hydref 2025 er mwyn lleihau galwadau cwsmeriaid a cheisiadau papur. Mae'r broses ar gyfer derbyn cwynion i'r adran wedi bod yn fyw ar y CRM Corfforaethol ers 1 Hydref 2025.	Gwyrdd
Tai	Adolygu adroddiadau rheoli perfformiad er mwyn cryfhau'r dull sy'n cael ei arwain gan ddata a gwella meysydd sy'n tanberfformio.	Mae adolygiad wedi'i gwblhau, gan arwain at dempled newydd ar gyfer cofnodi ac adrodd ar berfformiad. Mae'r templed yn cyflwyno data clir ar draws pob maes perfformiad ac yn rhoi lle i reolwyr wneud sylwadau ar feysydd sy'n tanberfformio.	Gwyrdd
Tai	Cwblhau'r gwaith o ddigideiddio Teleofal erbyn Medi 2025.	Mae'r cynllun Teleofal wedi'i gwblhau ar gyfer pob tenant a gytunodd i symud o system Tunstall i system Chiptech.	Gwyrdd

Amcan Llesiant 3 - Mae pobl Ynys Môn a'i chymunedau yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Amcan Strategol	Yn 25/26 fe wnaethon ni ymrwymo i:	Diweddariad	Statws
Tai	Cynyddu nifer yr eiddo sy'n cydymffurfio â tharged ynni SAP 75 SATC 2023 o 30% i 40%.	Mae'r Gwasanaeth Tai'n hyderus bod y targed i 40% o'r stoc dai gydymffurfio â tharged ynni SATC o SAP 75 erbyn 31 Mawrth 2026 wedi'i gyrraedd a'i ragori. Bydd y Tystysgrifau Perfformiad Ynni newydd sy'n gysylltiedig â'r mesurau adnewyddadwy a osodwyd yn ystod 2025/26 yn cael eu cofnodi'n ffurfiol yn ystod Chwarter 1 2026/27.	Gwyrdd
Tai	Cynllun gweithredu tlodi Gogledd Ynys Môn - dull Cyngor cyfan at wella ffactorau economaidd-gymdeithasol.	Mae cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer dau gynllun unedau cyflogaeth yn Amlwch.	Gwyrdd
Tai	Erbyn 31 Mawrth 2026, bydd holl eiddo'r Cyngor gyda Llwybr Ynni Targed.	Mae gan yr holl stoc dai Lwybr Ynni Targed. Mae gan 83% o'r stoc dai Lwybr Ynni Targed terfynol, ac mae'r llwybrau ar gyfer yr 17% sy'n weddill ar ffurf drafft.	Gwyrdd
Tai	Adolygu'r Polisi Cyffredin ar Osod Tai (PCOT) i ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd o'r PCOT cyfredol ynghyd â newidiadau	Mae gwaith cwmpasu'n mynd rhagddo ar ofynion deddfwriaeth ddigartrefedd newydd sydd i ddod i rym ym mis Chwefror 2027.	Ambr

DRAFT

	deddfwriaethol, a lansio PCOT newydd yn 2025.		
Tai	Datblygu 45 tŷ newydd.	Cyflawnwyd cyfanswm o 31 eiddo yn erbyn y targed o 45. Roedd perfformiad islaw'r targed oherwydd cymhlethdodau ar safleoedd; disgwylir cyflawni'r targed erbyn mis Medi 2026.	Ambr
Tai	Hwyluso'r gwaith o adnewyddu 60 tŷ gwag.	Mae cyfanswm o 55 eiddo gwag wedi cael eu hailddefnyddio.	Melyn
Tai	Cynorthwyo hyd at 6 prynwr tro cyntaf i fynd ar y farchnad dai.	Prynodd 12 o bobl gartref drwy'r grant cymorth i brynu tai gwag, a phrynodd tri unigolyn arall gartref drwy Gynllun Cymorth Prynu Môn.	Gwyrdd
Tai	Cyflawni'r cynllun gweithredu trosi eiddo gwag erbyn 31 Mawrth 2026.	Mae rhagor o elfennau'r cynllun wedi'u cwblhau ac mae rhai elfennau wedi dechrau.	Ambr
Economi	Gweithio gyda phartneriaid i wireddu prosiect niwclear newydd posibl yn Wylfa mewn ffordd sy'n lleihau effaith ac yn sicrhau'r buddion economaidd-gymdeithasol gorau i bobl leol.	Mae GBE-N wedi cadarnhau mai SMR yw'r dechnoleg arfaethedig, a bod Rolls-Royce wedi'i nodi fel y darparwr technoleg. Mae'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â GBE-N a rhanddeiliaid perthnasol er mwyn deall y cyfleoedd a'r goblygiadau i'r Ynys.	Gwyrdd
Economi	Darparu cymorth a chyngor i Menter Môn ar ddatblygu'r Hwb Hydrogen yng Nghaergybi.	Mae Tîm Ynys Ynni yn parhau i gysylltu â Menter Môn ynghylch yr Hwb Hydrogen arfaethedig. Mae cais cynllunio bellach wedi'i gyflwyno a'i ddilysu.	Gwyrdd
Economi	Dylanwadu ar Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill a chydweithio â hwy ar ddatblygiadau ynni ar raddfa fawr.	Yn dilyn cyhoeddiad Wylfa, mae cysylltiadau â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cael eu sefydlu a'u ffurfioli. Cynhaliwyd Fforwm Strategol y Cyngor, a oedd yn cynnwys diweddariad gan GBE-N ar safle Wylfa. Mae dylanwadu a chydweithio yn parhau'n flaenoriaethau allweddol i Raglen Ynys Ynni.	Gwyrdd
Economi	Gweithio gyda datblygwr Fferm Solar Maen Hir a rhanddeiliaid eraill yn ystod y broses DCO.	Mae'r gwaith ar Faen Hir yn parhau, er nad yw'r cais DCO wedi'i gyflwyno eto. Mae oedi pellach wedi codi ar ran y datblygwr, ac mae Rhaglen Ynys Ynni yn parhau i gysylltu â Lightsource bp.	Ambr

DRAFT

Economi	Ymestyn y trefniadau i gasglu eitemau y gellir eu hailddefnyddio yn hytrach na'u hailgylchu, gan gynnwys rôl benodol ar gyfer ailddefnyddio ym Mhenhesgyn.	Prynwyd cynhwysydd ychwanegol, silffoedd ac offer llaw ar gyfer Penhesgyn. Erbyn Chwarter 4, roedd 42 tunnell o eitemau wedi'u casglu a'u hailddefnyddio. Gosodwyd logos a baneri ailddefnyddio, cynhaliwyd ymgyrch 'Rhoi ail fywyd i bethau da!', cwblhaodd dau aelod o staff safle hyfforddiant trin beiciau, ac estynnwyd cytundebau staff y safle sy'n gweithio ar y cynllun ailddefnyddio hyd at fis Mawrth 2027.	Gwyrdd
Economi	Sicrhau cyllid cyfalaf i godi 10 uned fusnes newydd yn Amlwch.	Sicrhaodd prosiect Safleoedd ac Eiddo Gogledd Ynys Môn £6.994m o gyllid cyfalaf gan Uchelgais Gogledd Cymru a £920,000 gan raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru. Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo mewn egwyddor gyfraniad ar y cyd o £1.5m ar gyfer yr unedau. Mae'r dyluniadau wedi'u cwblhau hyd at RIBA 4 ac mae'r broses dendro wedi'i chwblhau, gyda'r gwaith disgwyliedig i ddechrau ym mis Mai.	Melyn
Economi	Sicrhau cyllid cyfalaf i ailddatblygu adeilad y Derfynfa Forol yn Amlwch.	Mae adnewyddu'r Derfynfa Forol yn rhan o brosiect Safleoedd ac Eiddo Gogledd Ynys Môn, sydd wedi sicrhau cyllid cyfalaf allanol gan Uchelgais Gogledd Cymru a rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru. Mae gwaith dylunio a chaffael y prosiect wedi symud ymlaen, gyda'r gwaith disgwyliedig i ddechrau yn 2026/27.	Melyn
Economi	Parhau i wneud cynnydd gyda Chynllun Adfywio Economaidd Gogledd Môn.	Sicrhawyd cyllid o £351,000 dros dair blynedd gan yr NRS i ariannu Swyddog Gogledd Ynys Môn a gwaith datblygu prosiectau. Mae gwaith datblygu i nodi prosiectau newydd ar y gweill.	Melyn
Economi	Goruchwylio'r gwaith o ddarparu Strategaeth Gwella Canol Trefi Ynys Môn.	Mae gwaith paratoi cynlluniau canol tref yn mynd rhagddo ar gyfer y pum canol tref. Mae cydweithio'n parhau gyda phartneriaid, gan gynnwys Môn CF, drwy gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin a Llywodraeth Cymru i wella canol trefi drwy ymyraethau uniongyrchol.	Melyn
Economi	Parhau i ddyrannu grantiau ac arwain ar ymyraethau canol trefi drwy gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin a rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.	Mae grantiau sylweddol drwy raglen Trawsnewid Trefi a grantiau creu lleoedd wedi'u sicrhau i sicrhau gwelliannau gweledol mewn canol trefi. Bydd prosiect 'Lle Da' y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn parhau yn ystod 2026/27 i gefnogi	Melyn

DRAFT

		gweithgareddau, ymyraethau, arolygon a chynlluniau canol trefi. Sicrhawyd cyllid pellach ar gyfer cynlluniau yn Llangefni, Biwmares ac Amlwch.	
Economi	Cydweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i symud ymlaen, sicrhau a sefydlu Rhaglen Porthladd Rhydd lwyddiannus yn Ynys Môn, a sefydlu trefniadau llywodraethu cadarn.	Mae'r Achos Busnes Llawn wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol gan y ddwy Lywodraeth. Mae cytundebau tirfeddianwyr wedi'u llofnodi gan bob parti, mae cwmni ffurfiol Porthladd Rhydd Ynys Môn wedi'i sefydlu, ac fe lofnodwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r ddwy Lywodraeth ym mis Mawrth 2026.	Gwyrdd
Economi	Sicrhau cyllid allanol i fynd i'r afael ag anghenion yr Ynys a chyfleoedd economaidd ar Ynys Môn, gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro.	Mae trafodaethau'n parhau gyda'r ddwy Lywodraeth a phartneriaid eraill i nodi cyfleoedd cyllid allanol i'r Cyngor. Mae rhaglen y Gronfa Ffyniant Bro yn agosáu at ei chwblhau ym mis Mehefin 2026.	Melyn
Economi	Darparu'r cynllun gweithredu Tirweddau Dynodedig i sicrhau bod blaenoriaethau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru ar gyfer adfer natur a lliniaru newid hinsawdd yn cael eu gwireddu.	Mae'r cynllun gweithredu wedi'i weithredu yn unol â chyllid craidd SLSP a dyraniad Llywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio ar adfer cynefinoedd, gwaredu rhywogaethau estron niweidiol, gwaith dalgylch a gweithredu treial y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.	Melyn
Economi	Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu rhaglenni plannu coed a gwaith dalgylch afon i helpu i wella ansawdd dŵr.	Mae gwaith yn parhau ar ffensio afonydd, gwella cynefinoedd a phlannu coed ar ddalgylchoedd Wygyr, Braint ac Alaw.	Gwyrdd
Economi	Cynnig mwy o gyfleoedd i ffermwyr yn y Tirweddau Dynodedig a'r llain glustogi i wella cynefinoedd.	Mae gwaith cynllunio ar y gweill i ddosbarthu grantiau i ffermydd sy'n cynnig cyfleoedd sylweddol i wella cynefinoedd, wedi'u cysylltu â modelau ffermio cynaliadwy. Bydd gwybodaeth am arfer da yn cael ei rhannu gyda'r gymuned ffermio drwy hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'r cynllun.	Melyn
Economi	Gweithio gyda ffermwyr i ddarparu model ffermio cynaliadwy drwy dreial Ffermio Bro y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.	Ffermio Bro yw treial Llywodraeth Cymru o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae'n cael ei gynnal mewn Tirweddau Cenedlaethol ac mae'n ceisio cefnogi ffermio sy'n sensitif i natur ar raddfa tirwedd. Bydd yn cynnig cyfleoedd hyfforddi i ffermwyr, gan gynnwys gwaith ar iechyd pridd, economeg a chadwraeth natur.	Melyn
Economi	Darparu amrywiaeth o weithgareddau i warchod a gwella rhinweddau arbennig yr	Mae'r tîm yn rhan o bum prosiect partneriaeth, gan gynnwys Corsydd Calon Môn a Glasffordd Môn, i wella'r AHNE a'i	Melyn

DRAFT

	Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).	chysylltiadau â gweddill yr ynys ar y cyd. Mae pecynnau addysgol sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd naturiol, yr hinsawdd ac ansawdd dŵr wedi'u datblygu ac maent ar gael i ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae gwaith parhaus hefyd yn cynnwys gwella mynediad, arwyddion diogelwch ar yr arfordir, diweddaru'r wefan a gwella cyfathrebu drwy'r cyfryngau cymdeithasol.	
Economi	Rheoli Cynllun Rheoli Cyrchfan 2023–2028 a sefydlu Partneriaeth Cyrchfan newydd.	Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn parhau i gael ei gyflawni, gan ganolbwyntio ar ddatblygu cyrchfan gynaliadwy sy'n seiliedig ar seilwaith gwyrdd. Mae dros £1m o gyllid allanol wedi'i fuddsoddi dros y 12 mis diwethaf i wella mynediad i gefn gwlad, gan gynnwys byrddau pren, gwelliannau i Lwybr yr Arfordir ac ailsefydlu llwybrau cylchol. Mae ailsefydlu'r Bartneriaeth Cyrchfan wedi'i gymeradwyo, ond mae ei ffurfio wedi'i ohirio tan ar ôl etholiadau'r Senedd.	Ambr
Economi	Darparu prosiectau allweddol i wella seilwaith a phrofiad ymwelwyr gan leihau'r effaith a'r pwysau negyddol, gan gynnwys cydweithio â Llywodraeth Cymru ar weithgareddau mordeithiau yng Nghaergybi.	Mae'r Tîm Cyrchfan yn parhau i weithio gyda gwasanaethau i ddarparu atebion rhagweithiol i faterion rheoli ymwelwyr yn Niwbwrch, Rhosneigr, Trearddur a Benllech. Mae gwefan a chyfryngau cymdeithasol Visit Anglesey yn weithredol ac yn rhannu negeseuon allweddol. Ar gyfer tymor mordeithiau 2026, mae dros 70 o longau wedi'u cadarnhau ac mae'r tîm yn gweithio gydag atyniadau lleol i ddatblygu cynigion newydd.	Melyn
Economi	Parhau i adolygu cynigion sy'n ymwneud â chyflwyno Ardoll Ymwelwyr.	Bwriedir cynnal ymgynghoriad ar yr Ardoll Ymwelwyr yn gynnar yn 2026/27, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor llawn.	Melyn
Economi	Canolbwyntio ar wella Llwybr yr Arfordir drwy ddefnyddio ffynonellau cyllid allanol, a chysylltu'r gwelliannau hyn â phrosiectau gwella natur.	Mae byrddau pren yn cael eu hadeiladu yn Niwbwrch ac ar Lôn Las Cefni i wella mynediad. Mae gwaith sylweddol i wella hygyrchedd Llwybr yr Arfordir ar waith drwy gydol y flwyddyn.	Gwyrdd
Economi	Cefnogi perchnogion tir i ailddatblygu safleoedd diwydiannol segur a safleoedd tir llwyd.	Mae swyddogion yn parhau i ymgysylltu â pherchnogion tir a'u cefnogi i ailddatblygu safleoedd tir llwyd lle mae capasiti'n caniatáu hynny. Mae safle Peboc wedi'i brynu, mae cyllid cyfalaf allanol drwy'r Porthladd Rhydd ac Uchelgais Gogledd	Melyn

DRAFT

		Cymru wedi'i sicrhau, ac mae cynnydd ar waith i ddechrau adfer y tir a dymchwel yn ystod haf 2026.	
Newid Hinsawdd	Cyhoeddi Cynllun Strategol Tuag at Sero Net 2026–2031.	Mae Cynllun Strategol Tuag at Sero Net 2026–2031 wedi cael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Pwyllgor Gwaith.	Gwyrdd
Newid Hinsawdd	Gyrru'r Cynllun Trawsnewid Fflyd yn ei flaen drwy gynyddu nifer y cerbydau carbon isel.	Mae archeb wedi'i gosod ar gyfer 12 cerbyd trydan newydd, gan gynnwys un cerbyd llyfrgell newydd, drwy ddefnyddio cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin.	Gwyrdd
Newid Hinsawdd	Archwilio cynllun peilot ar gyfer gwefru cartref ar gyfer fflyd cerbydau trydan y Cyngor.	Mae trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gyda phartneriaid. Mae nifer o ffactorau i'w hystyried, gan gynnwys materion diogelu, atebolrwydd, cyfreithiol, cynnal a chadw ac iechyd a diogelwch. Mae angen rhagor o waith i asesu gwerth am arian.	Ambr
Newid Hinsawdd	Cwblhau a chomisiynu'r canopïau solar ym meysydd parcio Llangefni.	Mae'r strwythurau yn y maes parcio uchaf wedi'u cwblhau, mae'r gwaith ail-wynebu wedi'i gwblhau, ac mae'r gwaith gosod batris a'r gwaith trydanol wedi'u cwblhau a'u comisiynu. Mae'r gwaith cwblhau a chomisiynu terfynol wedi'i ohirio tan Chwarter 1 2026/27.	Ambr
	Gosod systemau gwresogi carbon isel mewn 24 adeilad y Cyngor.	Mae 16 safle wedi'u cwblhau a'u comisiynu, ac mae 18 arall wedi'u cynllunio ar gyfer 2026/27.	Ambr
Newid Hinsawdd	Gweithio tuag at gyflawni targed ailgylchu Llywodraeth Cymru sef ailgylchu 70% o wastraff o gartrefi ac adeiladau'r Cyngor.	Mae gwaith ymgysylltu â chartrefi ar garreg y drws yn parhau er mwyn lleihau gwastraff gweddilliol a chynyddu ailgylchu wrth garreg y drws. Cynhaliwyd ymgynghoriad chwe wythnos ar newidiadau posibl i'r gwasanaeth casglu ailgylchu a gwastraff yn ystod Chwarter 4. Mae WRAP Cymru a CRS yn paratoi dadansoddiad o'r ymgynghoriad. Mae cais sylweddol am gyllid ISPA wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru i symud ymlaen i'r cam Achos Busnes Amlinellol nesaf.	Coch
Newid Hinsawdd	Cynyddu cyfraddau ailgylchu ar gyfer casglu gwastraff o adeiladau'r Cyngor i 60%.	Y perfformiad presennol yw 44%, sy'n is na'r targed o 60%.	Coch
Newid Hinsawdd	Lleihau digwyddiadau tipio anghyfreithlon 10% o'i gymharu â 2024/25.	Mae matrics cyfrifoldebau wedi'i ddrafftio a'i rannu, ac rydym yn aros am adborth cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol. Mae taflen ganllaw wedi'i rhannu â safleoedd y Cyngor, gyda rhagor o wybodaeth i ddilyn yn ôl yr angen.	Melyn

DRAFT

Newid Hinsawdd	Rhoi cynlluniau rheoli llifogydd ar waith ledled yr ynys, yn ddibynnol ar sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru.	Mae dogfennau dylunio drafft ar gyfer Porthaethwy wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w hadolygu, gyda thrafodaethau â pherchnogion tai i'w cynnal nesaf. Mae gwaith dylunio a gosodiad Llanfairpwll wedi'i oedi dros dro oherwydd diffyg capasiti. Mae'r gwaith adeiladu ar gynlluniau Lôn Trearddur a Bodffordd yn mynd rhagddo, ac mae'r gwaith ym Mhorth Diana wedi'i gwblhau.	Melyn
Newid Hinsawdd	Dod â threfniadau SAB yn fewnol drwy ddatblygu a gweithredu trefniadau newydd, gan gynnwys cynhyrchu incwm drwy ymgynghori cyn cyflwyno ceisiadau.	Mae materion apeliadau SAB wedi oedi'r gwaith o ddarparu adroddiadau ar gyfer y trefniadau SAB newydd. Mae'r swyddog SAB ar gyfnod sabothol am 12 mis ac mae'r Cyngor yn parhau i ddibynnu ar gefnogaeth gan YGC yn y cyfamser.	Ambr
Newid Hinsawdd	Rhoi cynlluniau teithio llesol ar waith rhwng Malltraeth a Niwbwrch	Cynlluniau Teithiol Llesol wedi cwblhau yn Malltraeth a Niwbwrch	Gwyrdd
Newid Hinsawdd	Treialu cynllun trafnidiaeth gymunedol i gysylltu ardaloedd gwledig gyda phrif lwybrau trafnidiaeth	Cynllun peilot mewn lle yn ardal Seiriol	Gwyrdd
Newid Hinsawdd	Gweithredu newidiadau i'r cyfyngiad cyflymder 20mya mewn 27 lleoliad	Newidiadau a gynlluniwyd ar gyfer cyfyngiad cyflymder 20mya wedi cwblhau	Gwyrdd
Newid Hinsawdd	Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn 14 lleoliad ledled yr ynys (yn ddibynnol ar gyllid allanol a phenodi cyflenwr addas)	Ceisiadau tendr wrthi'n cael eu sgorio ar gyfer penodiad asesu. Mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu arfaethedig wedi'u cwblhau ar gyfer 2025/26.	Melyn

DRAFT

DRAFT

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adrodd i	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad	28 Medi 2026
Pwnc	Cyllidebu argyfer y galw? Defnyddio data i gynllunio gofal preswyl i oedolion
Pennaeth Gwasanaeth	Huw Ynyr Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio
Awdur yr Adroddiad	Gwyndaf Parry Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau
Natur a rheswm dros adrodd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi (3 .4.8.11.3) bydd y Pwyllgor yn goruchwylio trefniadau archwilio allanol, yn rhoi sylwadau ar gwmpas a dyfnder y gwaith archwilio allanol ac yn sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian. Bydd yn ystyried adroddiadau archwilio allanol a bydd yn monitro eu hargymhellion.	

1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad yn adolygu a yw Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) yn defnyddio data i gynllunio ei gyllidebau gwasanaeth gofal preswyl i oedolion yn effeithiol.

1.2 Edrychodd yr archwiliad ar a oes gan y Cyngor y wybodaeth sydd ei hangen arno i gynllunio'n dda. Edrychodd hefyd ar a yw'n defnyddio data, a sut, i'w helpu i gynllunio'r adnoddau y bydd eu hangen arno i ddiwallu'r galw am y gwasanaeth a'i helpu i fod yn gynaliadwy'n ariannol yn y tymor hir.

1.3 Adolygom hefyd a yw'r Cyngor yn gwybod a yw ei gynllunio'n effeithiol ai peidio.

1.4 Cwblhawyd yr adolygiad hwn ar draws pob un o chwe chyngor Gogledd Cymru rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2026.

2.0 Canfyddiadau

2.1 Nid ydym wedi gwneud argymhelliad i'r Cyngor ar yr achlysur hwn. Mae hyn oherwydd mae'r Cyngor eisoes wedi cryfhau ei ddull o sicrhau gwerth am arian.

1.0 Argymhelliad

1.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- Ystyried yr adroddiad ac yn derbyn sicrwydd o'i gynnwys.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Cyllidebu ar gyfer y galw? Defnyddio data i gynllunio gofal preswyl i oedolion

Cyngor Sir Ynys Môn

Awst 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 17(2)(d) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol fodloni ei hun bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Gallai ein canfyddiadau hefyd lywio gwaith yr Archwilydd Cyffredinol wrth asesu camau gweithredu'r Cyngor wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant, o dan Adran 15(1)(b) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os ydych yn ei ailddefnyddio, rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun sy'n gamarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os oes angen cymorth arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- Ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni: post@archwilio.cymru

Cewch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

Cynnwys

Ciplun archwiliad	4
Ein canfyddiadau	5
Atodiadau	11
1 Ynglŷn â'n gwaith	12

Ciplun archwiliad

1 Fe adolygom a yw Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) yn defnyddio data i gynllunio ei gyllidebau gwasanaeth gofal preswyl i oedolion yn effeithiol. Edrychodd yr archwiliad ar a oes gan y Cyngor y wybodaeth sydd ei hangen arno i gynllunio'n dda. Edrychodd hefyd ar a yw'n defnyddio data, a sut, i'w helpu i gynllunio'r adnoddau y bydd eu hangen arno i ddiwallu'r galw am y gwasanaeth a'i helpu i fod yn gynaliadwy'n ariannol yn y tymor hir. Adolygom hefyd a yw'r Cyngor yn gwybod a yw ei gynllunio'n effeithiol ai peidio.

2 Cwblhawyd yr adolygiad hwn ar draws pob un o chwe chyngor Gogledd Cymru rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2026.

Pam mae hyn yn bwysig

3 Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol gosod cyllideb gytbwys bob blwyddyn[1]. Mae'r broses hon yn cynnwys rhagweld yr incwm a'r gwariant y bydd cyngor yn ei wneud i ddiwallu'r galw am wasanaethau a gofynion cyfreithiol. Rhaid i gynghorau wneud hyn o fewn eu hadnoddau sydd ar gael a meddwl am bwysau allanol, fel chwyddiant. Gall cynghorau ddefnyddio ystod o ddata ariannol a pherfformiad i'w helpu i wneud hyn. Gall hyn gynnwys ei wariant yn y gorffennol, ei dueddiadau galw disgwyliedig, chwyddiant, a dyraniadau cyllid.

4 Ar draws cynghorau, mae sawl gwasanaeth yn gorwario mewn meysydd lle mae galw am wasanaethau yn gyrru costau, fel gofal cymdeithasol. Gall peidio â chael cynlluniau cadarn yn seiliedig ar alw arwain at bwysau ariannol, ansawdd gwasanaeth is, neu gyfleoedd a gollwyd i gefnogi'r rhai sydd angen cymorth fwyaf. Bydd mynd i'r afael â hyn yn allweddol i wella cynaliadwyedd ariannol a chanlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau.

[1] Local Government Finance Act 1992

Yr hyn a ganfuwyd gennym

5 Mae'r Cyngor yn defnyddio data am nifer rhagamcanol y cleientiaid ac yn cymharu costau â darparwyr eraill i gynllunio ei gyllidebau gwasanaeth gofal preswyl i oedolion. Mae'r Cyngor yn nodi risgiau ariannol o fewn ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig ac yn dibynnu ar falansau cyffredinol i'w lliniaru pan fo angen.

Yr hyn a argymhellir gennym

6 Nid ydym wedi gwneud argymhelliad i'r Cyngor ar yr achlysur hwn. Mae hyn oherwydd mae'r Cyngor eisoes wedi cryfhau ei ddull o sicrhau gwerth am arian.

Ein canfyddiadau

Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gynllunio cyllideb gofal preswyl oedolion cytbwys yn y blynyddoedd diweddar

7 Ers 2023-24 mae'r Cyngor wedi llwyddo i gydbwyso cyllideb ei wasanaeth preswyl i oedolion (**Arddangosyn 1**). Mae cyfanswm yr amrywiant diwedd blwyddyn ar gyfer y cyfnod tair blynedd hwn oddeutu £100,000. Mae hyn wedi tynnu pwysau oddi ar ddefnydd y Cyngor o'i gronfeydd wrth gefn.

Arddangosyn 1: gwariant refeniw gofal preswyl oedolion o'i gymharu â'r gyllideb, 2023-24 i 2025-26 (£ miliwn)

	2023-24	2024-25	2025-26	Cyfanswm
Cyllideb	13.3	15.6	17.8	46.7
Gwir wariant	13.6	15.8	17.2	46.6
Gwahaniaeth	-0.3	-0.2	+0.6	+0.1
Gwahaniaeth canrannol	2%	1%	3%	0.3%

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ynys Môn

8 Mae'n heriol i'r Cyngor ragweld a chynllunio ei gyllideb gofal preswyl i oedolion yn gywir gan ei fod yn wasanaeth sy'n cael ei arwain gan alw. Rydym yn cydnabod, o ganlyniad, y byddai'n afrealistig i gynghorau gyflawni'r cynlluniau cyllidebau hyn yn union. Fodd bynnag, mae cael amcangyfrif gorau cadarn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth i lywio cynllunio cyllideb yn cefnogi cynghorau i leihau gorwariant neu danwariant. Mae deall y rhesymau dros hyn yn allweddol i wella cynllunio yn y dyfodol.

Nid oes gan y Cyngor yr holl wybodaeth sydd ei hangen arno i gynllunio ei gyllideb gwasanaethau preswyl i oedolion

9 Mae'r Cyngor yn deall rhai o'i bwysau galw allweddol yn y tymor canolig i'r tymor hir ar gyfer y gwasanaeth gofal preswyl i oedolion. Mae hyn yn seiliedig ar newidiadau demograffig disgwyliedig. Er enghraifft, mae wedi rhagweld y bydd yr ynys yn gweld cynnydd o 28% yn y grŵp oedran hynaf o'r boblogaeth erbyn 2032. Yn yr un modd, mae'r Cyngor yn dal data ar gyfraddau Dementia rhagamcanol yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu bod ganddo olwg lefel uchel dda ar sut y bydd y galw yn newid a sut y bydd yn effeithio ar ei wariant.

10 Mae'r Cyngor hefyd yn deall ei sefyllfa bresennol. Mae'n cynnal data ar gyfer lleoliadau preswyl a nyrsio i'r henoed yn seiliedig ar niferoedd cleientiaid cyfredol. Mae hyn yn cynnwys incwm wythnosol cyfartalog, costau uned gwirioneddol a net. Mae'r Cyngor yn cymharu ei ffioedd a'i gostau staff â chynghorau eraill Gogledd Cymru. Mae hyn yn rhoi golwg glir i'r Cyngor o'i bwysau gwasanaeth cyfredol.

11 Mae'r Cyngor wedi gwella ei ddealltwriaeth o'i gostau misol trwy adolygu ei ddull o dalu. Yn ddiweddar, mae wedi adolygu a newid ei drefniadau talu cleientiaid gyda'r bwriad o wella llif arian yn ystod y flwyddyn.

12 Gall y Cyngor gryfhau ei ddull trwy ychwanegu rhywfaint o wybodaeth bellach ar gyfer y tymor hwy. Er enghraifft, nid yw'r Cyngor yn gwybod sut y gallai ei incwm ffioedd gan ddefnyddwyr gwasanaeth newid. Mae ganddo ddata cyfyngedig ar ba ddulliau ariannu y mae defnyddwyr gwasanaeth yn y dyfodol yn debygol o'u defnyddio yn y tymor canolig i hir. Mae hyn yn golygu nad oes ganddo eglurder ynghylch rhywfaint o incwm yn y dyfodol a sut y gallai hyn newid.

13 Oni bai bod gan y Cyngor gyflenwad llawn o'r data sydd ei angen arno, ni ellir ei sicrhau ei fod yn cynllunio ei gyllidebau sy'n cael eu harwain gan y galw yn gwbl effeithiol.

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r data y mae'n ei gasglu i gynllunio ei gyllidebau gofal preswyl oedolion

14 Mae'r Cyngor yn defnyddio data ar gostau gofal a'i allu i ddarparu gofal i lywio ei gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Er enghraifft, mae'n defnyddio rhagdybiaethau ar gyfer newidiadau i gyflogau, cost pryniannau a'r galw am y gwasanaeth wrth osod ei gyllideb. Er nad yw'n bosibl rhagweld y dyfodol yn berffaith, mae defnyddio data i gefnogi rhagdybiaethau yn cefnogi'r Cyngor i osod yr amcangyfrif gorau o'r adnoddau sydd eu hangen arno.

15 Mae'r Cyngor wedi cynnwys y galw cynyddol am ofal preswyl yn ei gynllunio ariannol tymor canolig. Mae'r Cyngor wedi cynllunio ar gyfer twf o 13% rhwng 2026 a 2029. Drwy ddefnyddio gwybodaeth am alw yn y dyfodol yn ei gynllunio ariannol, bydd gan y Cyngor fwy o amser i gynllunio sut y gall ddarparu'r gwasanaeth yn gynaliadwy yn y dyfodol.

16 Mae'r Cyngor wedi nodi'r risgiau ariannol a fydd yn effeithio ar y gwasanaeth a'i gyllideb. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cyflwr y cartrefi gofal y mae'n berchen arnynt;
- costau recriwtio, cadw staff gofal, ac absenoldeb salwch;
- a fydd cyllid grant yn parhau; a
- galw sy'n tyfu'n fwy na'r disgwyl.

17 Fodd bynnag, mae'r Cyngor bob amser yn dangos sut y bydd yn lleihau'r risgiau hyn. Mae ei bapurau cyllideb yn disgrifio canlyniadau risg sy'n digwydd yn hytrach na'u hatal neu eu lleihau. Gall hyn roi dibyniaeth ar gronfeydd wrth gefn. Nodwyd yn ein hadroddiad ym mis Medi 2025 ar reolaeth strategol y Cyngor o gronfeydd wrth gefn ei fod yn rheoli cronfeydd wrth gefn yn effeithiol, ac yn eu hadolygu'n rheolaidd, ond y byddai'n elwa o sefydlu protocolau ffurfiol ar gyfer eu defnyddio a'u hailgyflenwi.

18 Mae’r Cyngor wedi cynllunio ei wariant ar ei gyfleusterau i ddiwallu anghenion gofal preswyl ar yr ynys yn y dyfodol. Mae wedi mapio ei gyfleusterau cartrefi gofal presennol i lunio rhaglen o atgyweiriadau a chynnal a chadw. Mae wedi defnyddio data am anghenion y boblogaeth i’r dyfodol fel sail i achos busnes i godi cartref preswyl newydd. Gall hyn olygu fod ganddo y cyfleusterau sydd eu hangen arno i ddarparu gwasanaethau fydd eu hangen yn y dyfodol.

19 Drwy ragweld y mathau o ofal y bydd pobl eu heisiau a'u hangen yn y dyfodol a sut y cânt eu hariannu, gallai'r cyngor fod mewn gwell sefyllfa i gynllunio cyllideb ac addasu ei wasanaethau a diwallu'r galw yn y dyfodol.

Mae gan y Cyngor brosesau i'w helpu i adolygu ei gyllidebau gofal preswyl i oedolion ac wedi defnyddio'r wybodaeth yma i lunio ei gyllidebau i’r dyfodol

20 Mae gan y Cyngor brosesau ar waith sy'n helpu i adolygu ei wariant yn rheolaidd o'i gymharu â'i gyllideb. Er enghraifft, mae'r Uwch Swyddog Cyllid a'r Pennaeth Gwasanaeth yn cyfarfod yn fisol i drafod yr adroddiad gwariant gwasanaeth. Maent hefyd yn cyfarfod ar ddiwedd pob chwarter i gynnal trafodaeth fanylach ac adrodd ar amrywiadau. Mae hyn yn galluogi swyddogion i fod yn ymwybodol o ble mae amrywiadau sylweddol i'r gyllideb a gynlluniwyd. Gan nad yw'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cofnodi, mae'n anodd gweld sut mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio i wella amcangyfrifon cyllideb ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

21 Mae'r Cyngor yn deall achos sylfaenol rhai o'i amrywiadau cyllideb. Er enghraifft, nododd ei adroddiad monitro cyllideb ar gyfer 2024-25 fod y Cyngor wedi derbyn grantiau ychwanegol i helpu gyda chostau staffio a bod defnyddio darparwyr allanol wedi arwain at lleihau'r rhestrau aros a darparu'r gwasanaeth gofynnol. Nododd hefyd amrywiadau eraill oherwydd costau cyfreithiol, swyddi gwag, a chyfraniadau cleientiaid uwch na'r disgwyl o'u hystâd.

22 Yn fuan ar ôl inni ymweld â'r Cyngor i gasglu tystiolaeth, fe gwblhaodd yr adran gyllid gyllideb ar gyfer y gwasanaeth preswyl oedolion. Gyda phwynt cychwyn o sero ('zero-based budget'), ystyriodd y Cyngor ddata am niferoedd galw, costau ac incwm ffioedd fel a wnaeth yn 2023. Drwy ddefnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf i ddiweddaru ei dybiaethau cyllidebol, mae'r Cyngor yn annhebyg o gario gwallau ymlaen mewn rhagdybiaethau o blynyddoedd blaenorol all helpu'r Cyngor i gyllidebu'n fwy cywir.

23 Fodd bynnag, ar gyfer amrywiadau cyllideb eraill, nid yw'r Cyngor wedi egluro'r rhesymau mewn manylder. Nododd y Cyngor, 'mae hwn yn wasanaeth sy'n cael ei arwain gan alw' neu'n 'leoliadau cost uchel, nifer isel'. Gan nad yw hyn yn nodi'r achos gwraidd, mae'n cyfyngu ar sut y gall y Cyngor ddysgu o'r amrywiadau i wella ei gynllunio cyllideb yn y dyfodol.

24 Mae'r Cyngor yn cysylltu ei adrodd ar wasanaethau â'i amcanion i ddangos sut mae ei wariant yn eu cefnogi. Er enghraifft, mewn achos busnes ar gyfer cartref preswyl (a thai gofal ychwanegol) newydd ar yr ynys, mae'r Cyngor yn dangos sut fyddai'r datblygiad yn alinio efo gwahanol amcanion strategol. Caiff uwch arweinwyr eu hysbysu am sut mae'r gwasanaethau preswyl i oedolion yn cyfrannu at amcan strategol y Cyngor o 'ddarparu'r gefnogaeth gywir ar yr amser cywir' a 'diogelu a chefnogi'r rhai sy'n agored i niwed'. Er enghraifft, mae sgorfwrdd corfforaethol y Cyngor yn cynnwys mesur o nifer y bobl hŷn a gefnogir gan yr awdurdod mewn cartrefi gofal. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn cyflwyno'r data hwn ochr yn ochr â'r gost. Mae cyfuno data canlyniadau i bobl a chostau i'r Cyngor yn helpu'r Cyngor i asesu gwerth am arian.

Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith

Cwmpas yr archwiliad

Roedd yr archwiliad yn ymdrin â defnydd y Cyngor o ddata wrth gynllunio ei gyllidebau ar gyfer ei wasanaeth gofal preswyl i oedolion sy'n cael ei arwain gan y galw. Roedd hyn yn cynnwys gofal preswyl a nyrsio i oedolion dros 18 oed - mewn cyfleusterau a ddarperir gan y Cyngor a'r rhai a gomisiynwyd gan bartneriaid eraill.

Edrychodd ar a oes gan y Cyngor y wybodaeth sydd ei hangen arno, ac a yw a sut mae'n defnyddio data i lywio'r adnoddau sydd eu hangen mewn gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw i gefnogi cynaliadwyedd ariannol hirdymor. Adolygodd hefyd a oes gan y Cyngor drefniadau i'w helpu i sicrhau bod ei gynllunio cyllideb yn effeithiol.

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Cwestiynau

Atebodd ein harchwiliad y cwestiynau canlynol:

- A oes gan y Cyngor y wybodaeth sydd ei hangen arno wrth gynllunio ei gyllideb mewn gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw?
- A yw'r Cynghorau'n defnyddio data i lywio'r adnoddau sydd eu hangen mewn gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i sicrhau bod cynllunio cyllidebau mewn gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw yn effeithiol?

Meini prawf

Wrth ddatblygu'r meini prawf archwilio, rydym wedi tynnu ar ganllawiau Tachwedd 2020 gan y Sefydliad Siartredig ar gyfer Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddu (CIPFA) ar gynllunio i ddarparu gwerth da mewn gwasanaeth sy'n cael ei arwain gan alw. Rydym hefyd wedi ychwanegu at hyn gyda'n gwybodaeth a'n profiad archwilio cronnus, yr ydym yn ei ennill o gwblhau archwiliadau ariannol a pherfformiad.

Dulliau

Defnyddiodd yr archwiliad y dulliau canlynol:

- adolygu dogfennau – fe wnaethom adolygu dogfennau perthnasol y Cyngor, megis y gyllideb a phapurau'r pwyllgor;
- cyfweliadau – fe wnaethom gyfweld â swyddogion allweddol; a
- dadansoddi data – fe wnaethom edrych ar ddata a ddefnyddiwyd gan y Cyngor wrth osod ei gyllideb.

Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth lleol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd defnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith â chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw term ambarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân ac mae ganddynt swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. P2242

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adrodd i	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad	28 Medi 2026
Pwnc	**Er gwybodaeth** - Archwilio Cymru – Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – 30 Mehefin 2026
Pennaeth Gwasanaeth	Huw Ynyr Pennaeth Digidol, Perfformiad a Moderneiddio huwynyr@ynysmon.llyw.cymru
Awdur yr Adroddiad	Gwyndaf Parry Rheolwr Perfformiad Strategol a Phrosiectau gwyndafparry@ynysmon.llyw.cymru
Natur a rheswm dros adrodd Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (3.4.8.11.3) yn ei gwneud yn ofynnol iddo oruchwylio'r trefniadau archwilio allanol, gwneud sylwadau ar gwmpas a dyfnder y gwaith archwilio allanol a sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian. Bydd yn ystyried adroddiadau archwilio allanol a bydd yn monitro eu hargymhellion.	

1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion gwaith arfaethedig a diweddar Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn, lle bo'n berthnasol.

1.2 Mae'n nodi'r meysydd gwaith gan gynnwys y canlynol:

1.2.1 Crynodeb Archwilio Blynyddol – Ionawr 2027

1.2.2 Gwaith archwilio ariannol – Medi 2026

1.2.3 Gwaith archwilio perfformiad, i gynnwys:

1.2.3.1 Adolygiad thematig – heriau recriwtio a chadw – Mehefin 2026
1.2.3.2 Defnyddio data wrth gyllidebu – Medi 2026
1.2.3.3 Rheoli Perfformiad ailgylchu Ebrill 2026
1.2.3.4 Gwerth am arian Cynllun Cartrefi Clyd – Tachwedd 2026
1.2.3.5 Trefniadau Rheoli Risg – Ionawr 2027
1.2.3.6 Adeiladau buddsoddi – Mehefin 2027

1.3 Mae'r adroddiad hefyd yn nodi (tud 5) astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol wedi'u cynllunio ac Archwiliadau gan archwilwyr eraill (tud 7).

2.0 ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn:

- Ystyried yr adroddiad ac yn darparu adborth ar y gwaith archwilio arfaethedig ar gyfer 2026/27.

Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Sir Ynys Môn – 30 Mehefin 2026

Isod ceir manylion gwaith arfaethedig a gwaith diweddar, lle y bo'n berthnasol, gan Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn. Byddwn yn darparu diweddariad pellach ar gynnydd a chynlluniau ar gyfer y dyfodol ddiwedd mis Rhagfyr 2026.

Crynodeb Archwilio Blynyddol

Disgrifiad	Amserlen	Statws
Adroddiad sy'n crynhoi'r gwaith archwilio a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2026.	Ionawr 2027	Crynodeb 2026 heb ei lunio

Gwaith Archwilio Ariannol

Disgrifiad	Cwmpas	Amserlen	Statws
Archwiliad o ddatganiad cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2025-26	Archwiliad statudol o Ddatganiadau Ariannol a Datganiadau Llywodraethu Blynyddol y Cyngor	Medi 2026	Gwaith maes yn parhau.
Ardystio ffurflenni grant: **Cymhorthdal Budd-dal Tai 2023-24**	Ardystiad nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos bod y ffurflen: • heb ei datgan yn deg; • ddim yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol.	Ardystiedig Gorffennaf 2026	Ar gau

Disgrifiad	Cwmpas	Amserlen	Statws
Ardystio ffurflenni grant: **Cymhorthdal Budd-dal Tai 2024-25**	Ardystiad nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos bod y ffurflen: • heb ei datgan yn deg; • heb fod yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol.	Medi 2026	Mae un dasg yn weddill fydd angen ei chwblhau cyn ardystio. Byddwn yn cwblhau hyn ochr yn ochr ag archwiliad y datganiadau ariannol 25-26.
Ardystio ffurflenni grant 2025-26	• Grant NDR3 2025-26 • Grant Pensiwn Athrawon 2025-26	Tachwedd 2026	Mae'r gwaith maes wedi dechrau
Ardystio ffurflenni grant: **Cymhorthdal Budd-dal Tai 2025-26**	Ardystiad nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos bod y ffurflen: • heb ei datgan yn deg; • heb fod yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol.	Ionawr 2027	Profi i ddechrau yn hydref 2026.

Gwaith Archwilio Perfformiad

Gwaith Archwiliad Perfformiad 2025-26	Cwmpas	Amserlen	Statws
Adolygiad thematig – heriau recriwtio a chadw	Adolygiad sy'n canolbwyntio ar sut mae trefniadau cynghorau ar gyfer mynd i'r afael â heriau recriwtio a chadw yn cymhwyso ystyriaethau gwerth am arian a'r egwyddor datblygu cynaliadwy.	Cyhoeddwyd adroddiad lleol Mehefin 2026	Archwilio Cymru am rannu'r themâu a chanfyddiadau cenedlaethol yn ystod cyfarfod Rhwydwaith Cyfarwyddwyr Adnoddau Dynol Cymru Medi 2026
Defnyddio data wrth lunio cyllidebau	Adolygwyd y defnydd a wnaed gan gynghorau Gogledd Cymru o ddata wrth gynllunio cyllidebau ar gyfer un gwasanaeth a arweinir gan y galw, sef Gofal Preswyl Oedolion. Adolygodd a oes gan y Cyngor drefniadau i sicrhau bod cynllunio cyllideb mewn Gofal Preswyl Oedolion yn effeithiol ai peidio.	Cynhaliwyd y gwaith rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2026	Cyhoeddwyd adroddiad terfynol CSYM mis Awst 2026. Bydd blog yn ymddangos ar wefan Archwilio Cymru yn crynhoi a chymharu y canfyddiadau rhanbarthol yn ystod 2026.
Rheoli perfformiad ailgylchu	Edrychodd yr archwiliad ar sut mae'r Cyngor yn rheoli perfformiad ei wasanaeth ailgylchu. Canolbwyntiodd yr archwiliad ar drefniadau'r Cyngor ar gyfer: • deall perfformiad ailgylchu; • cynllunio strategol a gweithredol a chyfathrebu; a • gwerth am arian.	Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol mis Ebrill 2026	Amh.

Gwaith Archwilio Perfformiad 2026-27	Cwmpas (Drafft - i'w gadarnhau)	Amserlen	Statws
Gwerth am arian cynllun Cartrefi Clyd	Bydd yr archwiliad yn ymdrin â'r trefniadau oedd gan y Cyngor ar waith i gynllunio, cyflawni ac adolygu ei gynllun Cartrefi Clyd gan gynnwys deilliannau i'r plant a phobl ifanc. Bydd yr archwiliad yn asesu i ba raddau y sicrhaodd trefniadau'r Cyngor werth am arian yn ystod pob un o'r camau hyn.	Gwaith maes a llunio adroddiad drafft i'w gwblhau erbyn mis Tachwedd 2026	Briff terfynol wedi'i rannu efo'r Cyngor Medi 2026.
Trefniadau rheoli risg	Bydd yr archwiliad yn canolbwyntio ar drefniadau rheoli risg corfforaethol ac adrannol y Cyngor. Ni fydd yr archwiliad yn cynnwys trefniadau sy'n gysylltiedig â rheoli risg rhaglenni neu brosiectau penodol.	Gwaith maes a llunio adroddiad drafft i'w gwblhau erbyn Ionawr 2027	Dogfennau cynllunio archwiliad wedi'u paratoi. Briff drafft am gael ei rannu efo'r Cyngor Medi 2026.
Adeiladau buddsoddi	Bydd yr archwiliad yn ymdrin â'r trefniadau sydd gan y Cyngor ar waith i gyflawni ei weithgarwch adeiladau buddsoddi. Bydd yn asesu i ba raddau y mae trefniadau'r Cyngor i brynu ac elwa o adeiladau buddsoddi yn sicrhau gwerth am arian. Byddwn yn ystyried tystiolaeth mewn perthynas â'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer eiddo mae'r Cyngor wedi eu prynu i'w gosod yn fasnachol yn unig.	Gwaith maes a llunio adroddiad drafft i'w gwblhau erbyn Mehefin 2027	Dogfennau cynllunio archwiliad wedi'u paratoi. Briff drafft am gael ei rannu efo'r Cyngor Medi 2026.

Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol wedi'u cynllunio/ar y gweill

Astudiaeth	Cwmpas	Amserlen	Statws	Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Sir Ynys Môn
Trefniadau ariannu llywodraeth leol	Canolbwyntio ar drefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer ariannu prif gynghorau a sut mae hyn yn cefnogi cynghorau i ddarparu gwerth am arian.	Cyhoeddiad wedi'i gynllunio ar gyfer Gorffennaf 2026.	Adroddiad wedi'i glirio	Cyfweliadau wedi'u cynnal ym mhob cyngor.
Gwaith Dilynol Cyd-bwyllgorau Corfforedig	I'w gadarnhau	Prosiect wedi'i oedi nes bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu Cyd-bwyllgorau Corfforedig	Amherthnasol	Amherthnasol
Gwasanaethau Plant	Canolbwyntio ar barodrwydd i weithredu Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025.	Cyhoeddiad wedi'i gynllunio ar gyfer mis Medi 2026	Drafftio	Cyfweliadau wedi'u cynnal ym mhob cyngor.

Astudiaeth	Cwmpas	Amserlen	Statws	Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Sir Ynys Môn
Poblogaeth sy'n heneiddio	Cwmpas i'w gadarnhau. Mae'n debygol o ganolbwyntio ar archwilio a oes cyfleoedd i wella gwerth am arian yn y ffordd y mae cynghorau'n ymateb i effeithiau poblogaeth sy'n heneiddio.	I'w gadarnhau	Wrthi'n paratoi	I'w gadarnhau
Tipio anghyfreithlon	Cwmpas i'w gadarnhau. Mae'n debygol o ganolbwyntio ar archwilio a oes cyfleoedd i wella gwerth am arian yn y ffordd y mae cynghorau'n atal tipio anghyfreithlon ac yn ymateb iddo.	I'w gadarnhau	Wrthi'n paratoi	I'w gadarnhau
Gwasanaethau dewisol/ataliol	Cwmpas i'w gadarnhau.	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau

Estyn

Yn ystod blwyddyn academaidd 2025-2026, mae Estyn wedi parhau i arolygu ac ymgysylltu ag awdurdodau lleol trwy arolygiadau craidd o wasanaethau ieuenctid a gwasanaethau addysg llywodraeth leol, ymweliadau estynedig arolygwyr cyswllt awdurdodau lleol, gweithgareddau dilynol a gwaith arolygu ar y cyd.

Yn nhymor yr hydref, cynhaliodd Estyn arolygiadau craidd o'r Gwasanaeth Ieuenctid a Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol yn Sir Fynwy. Mae'r adroddiadau, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2026, yn nodi dull cydlynol a arweinir yn strategol o wella canlyniadau i blant a phobl ifanc, gyda chefnogaeth cydweithredu cryf, trefniadau gwella ysgolion effeithiol a diwylliant diogelu cadarnhaol. Gofynnwyd i'r awdurdod lleol fod yn fwy cyson wrth fynd ati i werthuso effaith ei waith, gwella presenoldeb a pharhau i fynd i'r afael â diffygion o ran cyllidebau ysgolion. Tynnodd yr arolygiad o'r gwasanaeth ieuenctid sylw at waith effeithiol i alluogi pobl ifanc i ddylanwadu ar benderfyniadau, darparu cymorth iechyd meddwl a lles wedi'i dargedu a defnyddio tystiolaeth yn systematig i gynllunio a gwella ei ddarpariaeth. Nid oes angen gweithgarwch dilynol mewn perthynas â'r naill wasanaeth na'r llall.

Gweithiodd Estyn ochr yn ochr ag Arolygiaeth Gofal Cymru hefyd i arolygu'r trefniadau diogelu yng Nghyngor Gwynedd. Canfu'r arolygiad fod y cyngor wedi cymryd camau sylweddol i gryfhau ei systemau diogelu a bod uwch arweinwyr wedi dangos ymrwymiad clir i wella. Nododd hefyd feysydd pwysig sydd angen sylw pellach, gan gynnwys mesur effaith gwaith diogelu, sicrhau bod lleisiau plant yn dylanwadu ar benderfyniadau strategol a gweithredol yn gyson, cryfhau gweithdrefnau a threfniadau comisiynu, a gwerthuso effaith hyfforddiant diogelu. Mae diogelu'n parhau i fod yn ganolog i bob arolygiad a wnawn, ac rydym wedi ymrwymo i gefnogi gwelliant parhaus fel bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu'n effeithiol.

Yn ystod tymor y gwanwyn, cynhaliodd Estyn arolygiadau craidd o Wasanaeth Cymorth Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr a'i Wasanaethau Addysg Llywodraeth Leol. Mae'r adroddiadau, a gyhoeddwyd ym mis Mai, yn cydnabod diwylliant cydweithredol cryf a pherthnasoedd cynhyrchiol rhwng swyddogion awdurdod lleol, ysgolion a phartneriaid eraill. Nododd yr arolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol gryfderau penodol yn y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, disgyblion a addysgir heblaw yn yr ysgol a disgyblion sy'n agored i niwed, yn ogystal â threfniadau diogelu cadarn. Argymhellodd fod yr awdurdod yn gwella ei gynlluniau gwella a hunanwerthuso fel bod gwerthusiadau'n canolbwyntio'n fwy cyson ar yr effaith y mae ei waith yn ei chael ar blant a phobl ifanc. Tynnodd yr arolygiad o'r gwasanaeth ieuenctid sylw at waith ieuenctid ataliol effeithiol a threfniadau partneriaeth cryf sy'n helpu pobl ifanc sy'n agored i niwed i gael gafael ar gymorth cydgysylltiedig. Nid oes angen gweithgarwch dilynol mewn perthynas â'r naill wasanaeth na'r llall.

Hefyd cynhaliodd Estyn ymweliad estynedig arolygydd cyswllt awdurdodau lleol ag Abertawe ym mis Chwefror. Roedd yr ymweliad hwn yn canolbwyntio ar y cymorth a'r her y mae'r awdurdod yn eu rhoi i ysgolion uwchradd a'i waith i gefnogi a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg. Cydnabu'r arolygwyr fod yna berthnasoedd cadarnhaol ag arweinwyr ysgolion ac ymrwymiad cryf i ehangu addysg cyfrwng Cymraeg. Gwnaethant hefyd nodi'r angen i werthuso effaith newidiadau diweddar i drefniadau gwella ysgolion yn fwy trylwyr ac i gryfhau dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau teuluoedd am addysg cyfrwng Cymraeg.

Parhaodd Estyn â'i weithgarwch ymgysylltu dilynol â Chyngor Sir Powys yn dilyn arolygiad 2025, a nododd fod yr awdurdod yn achosi pryder sylweddol. Mae'r gweithgarwch ymgysylltu hwn yn rhan o'r gwaith parhaus y mae Estyn yn ei wneud i graffu ar gynnydd yr awdurdod wrth ymateb i argymhellion yr arolygiad. Ar adeg ysgrifennu, nid yw adroddiad monitro pellach wedi'i gyhoeddi ar wefan Estyn.

Yn nhymor yr haf, cynhaliodd Estyn ymweliad estynedig arolygwyr cyswllt awdurdodau lleol â Thorfaen, gan ganolbwyntio ar anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant a dulliau'r awdurdod o wella presenoldeb. Canfu arolygwyr fod yr awdurdod wedi cryfhau arweinyddiaeth strategol, cydweithredu a threfniadau statudol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, a bod ysgolion yn gwerthfawrogi pa mor hygyrch ac arbenigol yw'r cymorth a ddarperir gan yr awdurdod. Roedd yr ymweliad hefyd yn cydnabod y flaenoriaeth uchel y mae'r awdurdod yn ei rhoi i bresenoldeb a'i berthynas gadarnhaol ag ysgolion, gan nodi cwestiynau pellach ynghylch addysgu cynhwysol, y galw cynyddol am ddarpariaeth arbenigol a'r defnydd o wybodaeth gymharol am bresenoldeb. Cyhoeddwyd y llythyr ynghylch yr ymweliad ym mis Gorffennaf.

Cynhaliodd Estyn arolygiad craidd o Wasanaethau Addysg Llywodraeth Leol yn Sir y Fflint hefyd yn ystod mis Gorffennaf. Nid yw canfyddiadau'r arolygiad wedi'u cyhoeddi eto. Disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ar 21 Awst 2026.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

	Cwmpas	Amserlen	Statws
Cydweithredfeydd Mabwysiadu Rhanbarthol	Mae'r rhaglen wedi ailsefydlu sylw ar arolygu gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol, wedi cryfhau trefniadau sicrwydd ac yn llywio adroddiad trosolwg cenedlaethol. Mae adroddiadau rhanbarthol wedi'u cyhoeddi: • Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru • Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin • Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru • Gwasanaeth Mabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd • Gwasanaeth Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru	Ebrill 2025 – Mawrth 2026	Wedi'i gyhoeddi
	Adroddiad trosolwg cenedlaethol	Medi 2026	Wrthi'n cael ei ddatblygu

	Cwmpas	Amserlen	Statws
Rhaglen Adolygiadau Thematig Cenedlaethol	Mae AGC wedi cytuno ar flaenraglen o adolygiadau thematig: • 2026-27 – Pobl mewn Swyddi o Ymddiriedaeth (Adran 5) • 2027-28 – Diogelu Oedolion (gan gynnwys Adran 5) • 2028-29 – Fframwaith Comisiynu Cenedlaethol • 2029-30 – Gofalwyr • 2030-31 – Plant sy'n Derbyn Gofal Gall blaenoriaethau'r rhaglen gael eu haddasu o bryd i'w gilydd i adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg, gwybodaeth am y sector, risg a thystiolaeth sy'n deillio o weithgarwch arolygu a sicrwydd.	O 2026 ymlaen	Rhaglen yn cael ei datblygu a'i chynllunio
Arolygiadau o Dimau Anableddau Dysgu Cymunedol / Timau Iechyd Meddwl Cymunedol	Rhaglen ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sy'n canolbwyntio ar wasanaethau Timau Anableddau Dysgu Cymunedol a Thimau Iechyd Meddwl Cymunedol Iedled Cymru.	Gorffennaf 2025 – Mehefin 2026	Gweithgarwch cyhoeddedig a gweithgarwch parhaus wedi'u nodi isod
Adolygiad Cyflym o Drefniadau Amddiffyn Plant	Gwaith gwella diogelu cenedlaethol gyda Byrddau Diogelu Rhanbarthol a phartneriaid. Adolygiadau cyflym o drefniadau amddiffyn plant: diweddariad ar gynnydd	Chwefror 2026	Wedi'i gyhoeddi
Gweithgarwch Arolygu a Sicrwydd Awdurdodau	Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol RhCT	Ionawr 2026	Wedi'i gyhoeddi
	Archwiliad Sicrwydd o Wasanaethau Plant Ynys Môn (ar y cyd â maethu)	Ionawr 2026	Wedi'i gyhoeddi

	Cwmpas	Amserlen	Statws
Lleol (Ionawr – Mehefin 2026)	Conwy a BIPBC (Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol)	Chwefror 2026	Wedi'i gyhoeddi
	Gwasanaethau Plant Blaenau Gwent (Archwiliad Sicrwydd)	Chwefror 2026	Wedi'i gyhoeddi
	Gwasanaethau Oedolion Sir y Fflint (Archwiliad Gwelliant)	Mawrth 2026	Wedi'i gyhoeddi
	Gwasanaethau Plant Abertawe (Archwiliad Sicrwydd)	Mawrth 2026	Wedi'i gyhoeddi
	Gwasanaethau Oedolion Powys (Archwiliad Sicrwydd)	Ebrill 2026	Wedi'i gyhoeddi
	Gwasanaethau Oedolion Wrecsam (Archwiliad Sicrwydd)	Ebrill 2026	Wedi'i gyhoeddi
	Gwasanaethau Plant Merthyr Tudful (Archwiliad Sicrwydd)	Mai 2026	Gweithgaredd wedi'i gwblhau – drafftio
	Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol Bae Abertawe (Castell-nedd Port Talbot)	Mehefin 2026	Gweithgaredd wedi'i gwblhau – drafftio
	Gwasanaethau Oedolion Sir y Fflint (Archwiliad Gwelliant)	Mehefin 2026	Gweithgaredd wedi'i gwblhau – drafftio

Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill a gyhoeddwyd yn 2026

Teitl yr adroddiad	Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad
Gofal brys a gofal mewn argyfwng y GIG – system dan bwysau cyson	Mehefin 2026
Gofal a gynlluniwyd y GIG – a yw'n addas ar gyfer y dyfodol?	Mehefin 2026
Anghenion Dysgu Ychwanegol: Ydy cyrff cyhoeddus yn gwybod a yw'r system yn gweithio? (adroddiad ac offeryn data)	Ebrill 2026
Rheoli'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol	Mawrth 2026
Heriau a chyfleoedd i wasanaethau cyhoeddus Cymru – llythyr Archwilydd Cyffredinol Cymru at bwyllgorau'r Senedd (gan adeiladu ar ddeunydd a lywiodd y gyfres gynharach o bodlediadau)	Chwefror 2026
Tai fforddiadwy – erthygl ddilynol	Chwefror 2026
Archwilio'r broses o wneud penderfyniadau ar gyfer Canolfan Ganser newydd Felindre	Chwefror 2026
Cynllunio Cyfalaf mewn Llywodraeth Leol	Ionawr 2026

Teitl yr adroddiad	Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad
Canfyddiadau o ymarfer paru data peilot ar restrau cleifion meddygon teulu	Ionawr 2026

Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill (gwaith ar y gweill / wedi'i gynllunio)[1, 2]

Teitl	Dyddiad cyhoeddi dangosol
Datganiad cyllid y GIG a diweddariad ar yr offeryn data	Haf 2026
Dulliau cyrff y GIG o ymdrin â thrawsnewid digidol (themâu o waith archwilio lleol)	Dechrau hydref 2026
Cyllid addysg uwch ac addysg bellach – goruchwyliaeth Medr	Dechrau hydref 2026
Y Fenter Twyll Genedlaethol	Hydref 2026
Cynnydd o ran buddsoddiad mewn adeiladau ysgolion a cholegau trwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy	Hydref 2026
Cymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau – Cronfa Dyfodol yr Economi	Hydref 2026

[1] Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff archwiliedig i ymgysylltu â ni. Gallai gwaith dilynol hefyd arwain at allbynnau eraill, yn ogystal â gwaith archwilio ymchwiliol arall a gwaith archwilio lleol, lle rydym o'r farn bod teilyngdod mewn allbwn cryno cenedlaethol o ryw fath (er enghraifft, o waith lleol cyfredol ar wasanaethau canser a rheoli ystadau'r GIG, hefyd o waith arfaethedig yn y dyfodol ar reoli ac atal diabetes).

[2] Mae ein Cynllun Blynyddol 2026-27 hefyd yn rhestru cynlluniau ar gyfer gwaith newydd i ddechrau yn ystod 2026-27. Ar hyn o bryd, dim ond y prosiectau hynny lle mae gwaith wrthi'n paratoi llawnach ar y gweill yr ydym wedi rhoi sylw iddynt yn y papur hwn, gyda golwg ar adrodd cenedlaethol yn y dyfodol. Lle mae gwaith cenedlaethol/thematig wedi symud ymlaen trwy'r cam cynllunio, mae crynodeb byr am ei ffocws a'i amserlen arfaethedig ar gael nawr hefyd ar dudalennau rhaglenni gwaith ein gwefan.

Teitl	Dyddiad cyhoeddi dangosol
Parodrwydd y sector cyhoeddus ar gyfer carbon sero net erbyn 2030 – gweithgarwch dilynol	Hydref 2026
Gwella rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd (a restrwyd yn flaenorol fel cymorth ar gyfer gwasanaethau bysiau a rheilffyrdd)	Gaeaf 2026
Yr uwch wasanaeth cyhoeddus	I'w gadarnhau (wrthi'n paratoi)
Gweithgarwch dilynol ar reoli'r perygl o lifogydd	I'w gadarnhau (wrthi'n paratoi)
Mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon (cyrff llywodraeth ganolog)	I'w gadarnhau (wrthi'n paratoi)
Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	I'w gadarnhau (wrthi'n paratoi)
GIG digidol – systemau cenedlaethol	I'w gadarnhau (wrthi'n paratoi)
Cefnogaeth Llywodraeth Cymru i gynhyrchu ynni adnewyddadwy	I'w gadarnhau (wrthi'n paratoi)
Llywodraeth Cymru – gosod amcanion llesiant	I'w gadarnhau (wrthi'n paratoi)

Digwyddiadau ac adnoddau'r Gyfnewidfa Arfer Da

Teitl	Dolen i'r adnodd
Podlediad: Mynd i'r afael â thwyll yng Nghymru Yn y bennod hon, rydym yn siarad am dwyll yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn sgwrsio â Rachel Kostick a Steve Benson-Davison, Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol Tarian yn Heddlu De Cymru, Graham Dainty, Gwasanaeth Gwrth-dwyll y GIG (Cymru), a Steve Tooby, Llywodraeth Cymru. Rydym yn ymdrin â'r risgiau cyfredol sydd ynghlwm wrth dwyll, rôl arweinwyr a staff rheng flaen, a rhai o'r heriau a'r cyfleoedd i sefydliadau'r sector cyhoeddus.	**Podlediad: Mynd i'r afael â thwyll yng Nghymru (pennod Saesneg)**
Podlediad: Deallusrwydd artiffisial a gwasanaethau cyhoeddus Sgwrs rhwng Peter Thomas (Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol) a David Teague (Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth), yn trafod y cyfleoedd a'r trafferthion posibl ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn y byd newydd sy'n cael ei yrru gan ddeallusrwydd artiffisial.	**Podlediad: Deallusrwydd artiffisial a gwasanaethau cyhoeddus (pennod Saesneg)**
Podlediad: Lles trwy atal Mae'r bennod hon yn archwilio atal o safbwynt lles. Mae'n cynnwys cyfweliad gyda Catryn Holzinger sy'n esbonio pam mae Archwilio Cymru wedi dewis canolbwyntio ar atal yn ei adroddiad 'Dim amser i'w golli'. Mae'r bennod hefyd yn edrych ar brosiect hirsefydledig Cynllun Gwên gyda Mary Wilson o Iechyd Cyhoeddus Cymru, a phrosiect Presgripsiwn Natur yr RSPB gyda David Llewellyn.	**Podlediad: Lles trwy atal (pennod Saesneg)**
Podlediad: Gweithio yn ataliol gyda Gogledd Cymru Actif (pennod Gymraeg) Mae'r bennod hon yn edrych ar atal. Mae Gogledd Cymru Actif yn gweithio ar draws siroedd gogledd Cymru, gan weithio gyda chymunedau i hyrwyddo a hwyluso lles trwy weithgarwch corfforol. Buom yn siarad â Meg Moores o Grŵp Cynefin, Aled Williams o Hamdden Sir Ddinbych a Manon Rees O'Brien o Gogledd Cymru Actif.	**Podlediad: Gweithio yn ataliol gyda Gogledd Cymru Actif**

Teitl	Dolen i'r adnodd
Podlediad: Deallusrwydd artiffisial a'r Gymraeg (pennod Gymraeg) Sgwrs wedi'i recordio yn Gymraeg gyda Gruff Prys, Pennaeth Technolegau Iaith Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor.	**Podlediad: Deallusrwydd artiffisial a'r Gymraeg**
Podlediad: Gwaith atal twyll yn y GIG yng Nghymru (pennod Gymraeg) Sgwrs gyda Ben Rees, Pennaeth Gwasanaethau Gwrth-dwyll Lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, yn trafod gwaith twyll a gwrth-dwyll yn y GIG.	**Podlediad: Gwaith atal twyll yn y GIG yng Nghymru**

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i	Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad	28 Medi 2026
Pwnc	Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith ar gyfer 2026-27 f4
Pennaeth Gwasanaeth	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 MarcJones@ynysmon.llyw.cymru
Awdur yr Adroddiad	Marion Pryor Pennaeth Archwilio a Risg MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru
Natur a Rheswm dros Adrodd Darparu Blaenraglen Waith ar gyfer 2026-27 i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w cynorthwyo i gyflawni Cylch Gorchwyl y Pwyllgor.	

1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae blaen raglen waith ynghlwm yn Atodiad A, ynghyd â rhaglen ddatblygu yn Atodiad B.

1.2 Mae'r rhaglen wedi'i datblygu gan ystyried cylch gorchwyl y Pwyllgor a'i gyfrifoldebau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

2.0 ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

- yn ystyried a yw'r Blaenraglen Waith a gynigir ar gyfer 2026-27 yn bodloni cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn unol â'i gylch gorchwyl.

Atodiad A – Blaen Raglen Waith 2026-27 f4

Swyddogaeth Graidd	25 Mehefin 2026	16 Gorffennaf 2026	28 Medi 2026	3 Rhagfyr 2026	11 Chwefror 2027	15 Ebrill 2027
Cyfansoddiad a threfniadau (3.4.8.2)						Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor (3.4.8.2.1) Cyfarfod preifat gydag archwilwyr mewnol ac allanol heb swyddogion yn bresennol (3.4.8.2.6) (3.4.8.10.15) (3.4.8.11.5)
Trefniadau Atebolrwydd (3.4.8.3)	Log Gweithredodd Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2026-27 f2 (3.4.8.3.2) Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2025-26 (3.4.8.3.1/2)	Log Gweithredodd Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2026-27 f3 (3.4.8.3.2)	Log Gweithredodd Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2026-27 f4 (3.4.8.3.2)	Log Gweithredodd Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2026-27 (3.4.8.3.2)	Log Gweithredodd Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2026-27 (3.4.8.3.2)	Log Gweithredodd Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith 2027-28 (3.4.8.3.2)
Llywodraethiant (3.4.8.4)		Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft 2025-26 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3) (3.4.8.8.2)	Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol 2025-26 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.8.2) Adroddiad Blynyddol Sgriwtini 2025-26 (3.4.8.4.4)			

Swyddogaeth Graidd	25 Mehefin 2026	16 Gorffennaf 2026	28 Medi 2026	3 Rhagfyr 2026	11 Chwefror 2027	15 Ebrill 2027
Rheoli Trysorlys (3.4.8.5)		Adroddiad Blynyddol 2025-26 (3.4.8.5.1/2/3/4)		Adroddiad Canol Blwyddyn (3.4.8.5.3)	Strategaeth a Dangosyddion Darbodus 2027-28 (3.4.8.5.1/3/4)	
Gwerth am arian (3.4.8.6)	*Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2025-26 (3.4.8.10.6/7/8/9/12/14/15) (3.4.8.6.3)*	*Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft 2025-26 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3)* *Datganiad Cyfrifon Drafft 2025-26 (3.4.8.12.1/2) (3.4.8.6.1/2/3)*	*Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Terfynol 2025-26 (3.4.8.4.1/2/3) (3.4.8.6.1/2/3)* *Datganiad Cyfrifon Terfynol 2025-26 (3.4.8.12.1/2) (3.4.8.6.1/2/3)* *Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3)*		*Crynodeb Archwilio Blynyddol 2026 (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3)*	
Fframwaith Sicrwydd (3.4.8.7)		Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2025-26 (a Chynllun Strategol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol) (3.4.8.7.1/2/3)		Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant Gwybodaeth (SIRO) 2025-26 (3.4.8.7.1/2/3) Adroddiad Blynyddol Llywodraethiant mewn Ysgolion 2025-26 (3.4.8.7.1/2/3) Adroddiad Blynyddol Diogelwch TGCh 2025-26 (3.4.8.7.1/2/3)		Adroddiad Yswiriant Blynyddol 2026-27 (3.4.8.7.1/2/3)

Swyddogaeth Graidd	25 Mehefin 2026	16 Gorffennaf 2026	28 Medi 2026	3 Rhagfyr 2026	11 Chwefror 2027	15 Ebrill 2027
Rheoli Risg (3.4.8.8)		Diweddariad Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)		Diweddariad Cofrestr Risg Strategol (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)	Adolygiad o Fframwaith Rheoli Risg (3.4.8.7.1/2) (3.4.8.8.1)	
Atal Twyll a Llygredd (3.4.8.9)		Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2025-26 (3.4.8.9.4/5/6)		*Adroddiad Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban Blynyddol 2025-26 (3.4.8.9.1) (3.4.8.14.2)*		Canlyniadau'r Fenter Dwyll Genedlaethol 2026-28 – Adroddiad Cynnydd (3.4.8.9.6)
Archwilio Mewnol (3.4.8.10)	Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2025-26 (3.4.8.10.5/6/7/8/11 /14/15) (3.4.8.6.3) Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2026-27 (3.4.8.10.1/2/4/ 5) Adolygiad o'r Siartr Archwilio Mewnol (3.4.8.10.2/12)	Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)	Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) Materion / Risgiau / Cyfleoedd sy'n Weddill (3.4.8.10.9/10)	Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3)	Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) Asesiad mewnol o gydymffurfiaeth â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn y Sector Cyhoeddus yn y DU (3.4.8.10.1/2/8/ 11/13)	Adroddiad Diweddaru Archwilio Mewnol (3.4.8.10.9/10) (3.4.8.6.3) Materion / Risgiau / Cyfleoedd sy'n Weddill (3.4.8.10.9/10)
Archwilio Allanol (3.4.8.11)		Recriwtio a Chadw (Adroddiad Lleol) (3.4.8.11.1/2/3)	Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch1 2025) (3.4.8.11.2/3)	*Adolygiadau Cenedlaethol a'u Hargymhellion Cysylltiedig (3.4.8.11.3) (3.4.8.13.1)*	Rhaglen Waith ac Amserlen – Diweddariad Chwarterol (Ch3 2025) (3.4.8.11.2/3)	Cynllun Archwilio Blynyddol 2027 (3.4.8.11.1/3)

Swyddogaeth Graidd	25 Mehefin 2026	16 Gorffennaf 2026	28 Medi 2026	3 Rhagfyr 2026	11 Chwefror 2027	15 Ebrill 2027
			Adroddiad Archwilio Cyfrifon (3.4.8.11.2/3) (3.4.8.6.3) (3.4.8.12.4) Cynllunio ariannol mewn gofal preswyl i oedolion (Adroddiad Lleol) (3.4.8.11.2/3)		Crynodeb Archwilio Blynyddol 2026 (3.4.8.11.1/2/3) (3.4.8.6.3)	
Adrodd Ariannol (3.4.8.12)		Datganiad Cyfrifon Drafft 2025-26 (3.4.8.12.1/2/3/ 5) (3.4.8.6.1/2/3)	Datganiad Cyfrifon Terfynol 2025-26 (3.4.8.12.1/2/3/ 5) (3.4.8.6.1/2/3)			
Rheoleiddwyr ac Archwilwyr Eraill (3.4.8.13)				Adolygiadau Cenedlaethol a'u Hargymhellion Cysylltiedig (3.4.8.11.3) (3.4.8.13.1)		
Delio â Chwynion (3.4.8.14)				Adroddiad Blynyddol Pryderon, Cwynion a Chwythu Chwiban 2025-26 (3.4.8.14.1/2) Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025-26 (3.4.8.14.1)		

Tudalen 323

Swyddogaeth Graidd	25 Mehefin 2026	16 Gorffennaf 2026	28 Medi 2026	3 Rhagfyr 2026	11 Chwefror 2027	15 Ebrill 2027
Adroddiad Hunanasesu (3.4.8.15)			Adroddiad Hunanasesu a Pherfformiad (Lles) Blynyddol Drafft 2025-26 (3.4.8.15.1/2/3)			
Asesiad Perfformiad Panel (3.4.8.16)[1]	Adroddiad Asesiad y Panel (3.4.8.16.1/2/3)					
Archwiliad Arbennig gan yr Archwilydd Cyffredinol (3.4.8.17) [2]						
Eitemau sylweddol	**5**	**8**	**9**	**9**	**6**	**7**

[1] O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol cynhelir asesiad o berfformiad gan banel yn ystod y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor. Gall y cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw hyn yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth. (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio, a rhaid i'r pwyllgor hwnnw wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall wneud unrhyw argymhellion ynglŷn â newidiadau i'r ymateb i asesiad y panel.

[2] Os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliad arbennig (gan ei fod o'r farn nad yw'r Cyngor, neu efallai na fydd y Cyngor, yn cwrdd â'i ofynion perfformiad), a bod adroddiad yn cael ei anfon at y Cyngor, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl derbyn adroddiad o'r fath, rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Atodiad B – Rhaglen Ddatblygu (3.4.8.2.10)

Hyfforddiant i'r pwyllgor

Maes	Dyddiad a ddarparwyd	Cyfrwng	Darparwr
Cyflwyniad i Ddeallusrwydd Artiffisial a Lliniaru Risg	Chwefror 2025	Sesiwn briffio	Prif Swyddog Digidol
Deall Cyfrifon Awdurdodau Lleol ar gyfer Cynghorwyr	Mehefin 2023 Awst 2023	Sesiwn hyfforddi	CIPFA
Rheoli Trysorlys	Medi 2023	Sesiwn briffio	Richard Bason, Link Group
Sgiliau Cadeirio Effeithiol	Hydref 2023	Sesiwn hyfforddi	CLlLC
Atal Twyll a Llygredd	Rhagfyr 2023	Sesiwn hyfforddi	Paul Stratton, 'The Fraud Nerd'
Rheoli Risg	Mawrth 2024 Tachwedd 2025	Sesiwn hyfforddi Sesiwn hyfforddi	CLlLC Zurich Resilience Solutions
Datganiad o'r Cyfrifon	Hydref 2025	Sesiwn briffio	Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog 151
Canllaw i Gynghorwyr ar Ddeall Cyfrifon Awdurdodau Lleol	25 Awst 2026 10 Medi 2026	Sesiwn hyfforddi	CIPFA
Cyflwyniad i wybodaeth a sgiliau'r Pwyllgor Archwilio	17 Medi 2026	Sesiwn hyfforddi	CIPFA
Proses Pleidleisio mewn Cyfarfodydd Pwyllgor	18 Medi 2026	Sesiwn hyfforddi	Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd

Hyfforddiant gorfodol

Maes	Cyfrwng	Darparwr	Dyddiad Darparu / Wedi'i Drefnu
Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)	e-ddysgu	Mewnol	Ar gael unrhyw bryd
Seiber Ninjas ar gyfer Cynghorwyr	e-ddysgu	Mewnol	Ar gael unrhyw bryd
Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Ddiogelu	e-ddysgu	Mewnol	Ar gael unrhyw bryd
Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (dewisol ar gyfer aelodau lleyg)	e-ddysgu	Mewnol	Ar gael unrhyw bryd
Atal/Prevent (dewisol ar gyfer aelodau lleyg)	e-ddysgu	Mewnol	Ar gael unrhyw bryd
Caethwasiaeth Fodern (dewisol ar gyfer aelodau lleyg)	e-ddysgu	Mewnol	Ar gael unrhyw bryd

Cyfarwyddiadau i'r pwyllgor

Teitl	Arwynebedd	Canolig	Darparwr	Dyddiad Darparwyd
Diweddariad y Pwyllgor Archwilio – Rhifyn 40: Safonau Archwilio Mewnol Newydd	Newidiadau sydd ar ddod i'r safonau archwilio mewnol a sut y bydd hynny'n effeithio ar aelodau'r pwyllgor archwilio.	Nodyn briffio	CIPFA	24/12/24
Cylchlythyr CIPFA Llywodraethu Gwell	Gwybodaeth i bwyllgorau archwilio ynghylch cyhoeddi Cod Ymarfer CIPFA i gefnogi awdurdodau i sefydlu a chynnal eu trefniadau archwilio mewnol, ynghyd â gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar yr Atodiad i Fframwaith Llywodraethu 2016 sy'n cwmpasu'r adolygiad blynyddol o lywodraethu a'r datganiad llywodraethu blynyddol.	Cylchlythyr	CIPFA	07/02/25
Archwilio Cymru - Pwyllgorau Archwilio: arferion effeithiol a chanllawiau poced ar effaith gadarnhaol	Mae Archwilio Cymru wedi cyhoeddi canllaw poced sy'n crynhoi arferion effeithiol ar gyfer pwyllgorau archwilio.	Canllaw poced	Archwilio Cymru	25/02/25
Diweddariad y Pwyllgor Archwilio – Rhifyn 42: Llywodraethu Archwilio Mewnol	Y Cod Ymarfer newydd ar Lywodraethu Archwilio Mewnol sy'n dod i rym o 1 Ebrill 2025.	Nodyn briffio	CIPFA	17/04/25
Erthygl Cyllid Cyhoeddus CIPFA – Gallai mabwysiadu AI 'arbed £8bn y flwyddyn i gynghorau Cymru a Lloegr'	Erthygl sy'n amcangyfrif y gallai awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr arbed £8bn bob blwyddyn trwy integreiddio deallusrwydd artiffisial yn eu gweithrediadau.	Erthygl Cylchgrawn Proffesiynol	CIPFA	15/05/25
CIPFA / Solace Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Cyhoeddi Atodiad	Cyhoeddi canllawiau newydd ar yr adolygiad blynyddol o lywodraethu a rheolaethau mewnol a pharatoi'r datganiad llywodraethu blynyddol (AGS) sy'n dod i rym ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26.	Cyhoeddiad	CIPFA	20/05/25
Erthygl Cyllid Cyhoeddus – Rheolau technoleg: pwysigrwydd cael polisi DA	Erthygl ar bwysigrwydd sefydliadau sydd â pholisi Deallusrwydd Artiffisial (DA).	Erthygl Cylchgrawn Proffesiynol	CIPFA	15/07/25
Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru - Cwestiynau Cyffredin	Gwybodaeth am rôl Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CCGC) ac is-bwyllgor y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.	Cwestiynau cyffredin	CCGC	02/12/25
CIPFA Cynllunio Archwilio Mewnol Strategol mewn Llywodraeth Leol yn y DU	Mae'r briff yn ystyried cynlluniau strategol archwilio mewnol a rôl y pwyllgor archwilio; ystyried gofynion y GIAS yn y DU.	Nodyn briffio	CIPFA	21/08/26